

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2015/16

# Cenhadaeth y BBC yw hysbysu, addysgu a diddanu



*Attenborough and the Giant Dinosaur*

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2015/16

(h) Hawlfraint y BBC 2016

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio, lle maent yn ymddangos, yr Arfbais Frenhinol neu bob logo adrannol neu asiantaethol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y BBC a nodi teitl y ddogfen. Mae gan y BBC hawlfraint dros y ffotograffau a ddefnyddir neu cânt eu defnyddio o dan delerau cytundeb PACT, oni nodir fel arall. Mae'n rhaid cael caniatâd deiliaid yr hawlfraint cyn atgynhyrchu unrhyw ffotograffau.

Gallwch lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn o bbc.co.uk/annualreport

**Dyluniwyd gan**
FleishmanHillard Fishburn
fhflondon.co.uk

**Cyfieithwyd gan**
Prysg Cyf

Paratowyd yn unol â Siarter Frenhinol y BBC 2006 (Erth. 45)

# Trosolwg

Nod y BBC yw gwasanaethu'r cyhoedd, a'i genhadaeth yw hysbysu, addysgu a diddanu.


Cipolwg ar y BBC 02
- Ein rôl a'n diben 02
- Gwasanaethu pawb 03
- Gwerth gwell am arian 04
- Amcanion y BBC 05

Gwybodaeth ychwanegol 161
- Geirfa 161
- Mynegai 162
- Cysylltiadau Tu mewn y clawr cefn






# Rhan Un: adolygiad ac asesiad Ymddiriedolaeth y BBC

Yr Ymddiriedolaeth yw corff llywodraethu'r BBC ac mae'n nodi'r cyfeiriad strategol, yn mesur perfformiad ac yn dwyn Bwrdd Gweithredol y BBC i gyfrif.


Rhagair y Cadeirydd 08

Adolygiad o'r Siarter – Gwrando ar gynulleidfaoedd 11

Pennu strategaethau ac asesu perfformiad 17
- Cyflawni'r dibenion cyhoeddus 18
- Pennu strategaethau 20
- Adolygu perfformiad gwasanaeth 22
- Cynnal safonau golygyddol 29
- Dangos gwerth am arian 31
- Gwasanaethu cynulleidfaoedd ledled y DU 35
- – Cymru 35
- – Yr Alban 36
- – Gogledd Iwerddon 37
- – Lloegr 38
- Y BBC a'r farchnad ehangach 40
- Goruchwylio gweithgareddau eraill 43

Y tu mewn i'r Ymddiriedolaeth 45
- Ymddiriedolwyr y BBC 46
- Llywodraethu 48
- Cyllid yr Ymddiriedolaeth 51


# Rhan Dau: adolygiad ac asesiad Bwrdd Gweithredol y BBC

Bwrdd Gweithredol y BBC sy'n gyfrifol am ddarpariaeth weithredol gwasanaethau'r BBC a chyfeiriad allbwn golygyddol a chreadigol y BBC yn unol â'r fframwaith a bennir gan yr Ymddiriedolaeth.


Cyflwyniad y Cyfarwyddwr Cyffredinol 56

**Adroddiad strategol**

Rhoi ein strategaeth ar waith 59
- Ein cyflawniadau 60
- Rhoi ein strategaeth ar waith 64
- Amcanion y BBC ar gyfer y flwyddyn i ddod 71

Perfformiad 75
- Perfformiad fesul maes cynnwys 76
- Perfformiad fesul cyrhaeddiad a genre 87
- Y BBC ym mhob un o'r gwledydd 90

**Adroddiad llywodraethu a chyllid**

Cyllid 99
- Adolygiad y Rheolwr Gyfarwyddwr 100
- Cyflawniadau ariannol 103
- Trosolwg ariannol 104
- Datganiad ariannol cryno 113
- Adroddiad yr archwilydd 114

Gweithrediadau 115
- Ein pobl 116
- Datblygu talent a sgiliau newydd 121
- Allgymorth 124
- Partneriaethau 126
- Cefnogi achosion da 128
- Cynaliadwyedd amgylcheddol 130

Llywodraethu 131
- Y Bwrdd Gweithredol 132
- Adroddiad yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol 134
- Adroddiad llywodraethu a'r Pwyllgor Enwebiadau 136
- Adroddiad Cydnabyddiaeth y Pwyllgor Gweithredol 138
- Adroddiad y Pwyllgor Archwilio 148
- Risgiau a chyfleoedd 153
- Adroddiad ar fasnachu teg 157
- Datganiad ynghylch hyfywedd 160

# Ein rôl a'n diben

Mae'r BBC yn gwasanaethu budd y cyhoedd drwy hyrwyddo ei chwe diben cyhoeddus.

— nod y BBC yw gwasanaethu'r cyhoedd, a'i genhadaeth yw hysbysu, addysgu a diddanu. O fewn y dibenion cyhoeddus cyffredinol, mae'r Ymddiriedolaeth yn pennu'r fframwaith strategol ar gyfer y BBC. Mae'r Pwyllgor Gweithredol, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Cyffredinol, yn darparu gwasanaethau'r BBC a'r allbwn creadigol

— mae'r tudalennau canlynol yn amlinellu'r amcanion strategol y cytunodd yr Ymddiriedolaeth a'r Pwyllgor Gweithredol arnynt ac yn darparu rhai uchafbwyntiau yn dangos sut mae'r BBC wedi gweithio i'w cyflawni


## Dibenion cyhoeddus y BBC:



**Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas waraidd**
Darparu rhaglennu newyddion, materion cyfoes a ffeithiol o safon er mwyn ennyn diddordeb ei wylwyr, ei wrandawyr a'i ddefnyddwyr mewn materion cyfredol a gwleidyddol pwysig.



**Hyrwyddo addysg a dysgu**
Cefnogi addysg ffurfiol mewn ysgolion a cholegau a meithrin gwybodaeth a sgiliau mewn ffordd anffurfiol.



**Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol**
Annog diddordeb, ymgysylltiad a chyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol, creadigol a chwaraeon ledled y DU.



**Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau**
Gall gwylwyr, gwrandawyr a defnyddwyr y BBC ddibynnu ar y BBC i adlewyrchu'r cymunedau niferus sydd ar gael yn y DU.



**Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU**
Meithrin dealltwriaeth fyd-eang o faterion rhyngwladol ac ehangu profiad cynulleidfaoedd y DU o ddiwylliannau gwahanol.



**Cyflwyno buddiannau cysylltiadau, technolegau a gwasanaethau newydd i'r cyhoedd**
Helpu trigolion y DU i fanteisio i'r eithaf ar dechnolegau newydd y cyfryngau sydd ar gael yn awr ac a fydd ar gael yn y dyfodol.

Y flwyddyn hon yn gryno

# Gwasanaethu pawb

Gydag amrywiaeth o gynnwys gwych wedi'i gyflwyno mewn ffyrdd newydd.

## Cyrraedd cynulleidfaoedd newydd

**Cyrraedd cynulleidfaoedd**
Canran y boblogaeth o oedolion yn y DU sy'n defnyddio teledu, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos.

96%

2014/15: 97%

**Cyfanswm yr amser a dreulir**
Faint o amser y mae cynulleidfaoedd y DU yn ei dreulio gyda'r BBC bob wythnos.

18.3 awr

2014/15: 18.3 awr


**Argraff gyffredinol (cyfartaledd cymedrig)**
Argraff gyffredinol cynulleidfaoedd o'r BBC.

7/10

2014/15: 7/10

## Arwain y ffordd gyda chynnwys digidol

**Ap iPlayer Radio**
Lawrlwythwyd dros filiwn o raglenni radio drwy ap BBC iPlayer Radio mewn llai na mis ar ôl ei lansio, a drama Radio 4 oedd fwyaf poblogaidd.



**Etholiad Cyffredinol**
Dyfeisiau symudol oedd y sgrîn o ddewis i weld BBC Newyddion Ar-lein yn ystod yr etholiad. Defnyddiodd dros 76.1m o borwyr unigol BBC Newyddion Ar-lein yn fyd-eang, ac yn y DU, cyrhaeddodd arlwy'r BBC ar bob llwyfan 89% o'r holl oedolion ac 84% o bobl rhwng 18 a 34 oed yn ystod wythnos y canlyniadau.







**Apiau**
Mae 18.3 miliwn o straeon unigol wedi cael eu lawrlwytho i ap CBeebies Storytime hyd yma.


## Uchafbwyntiau o ran cynnwys



**Rhaglen fwyaf poblogaidd nad oedd yn ymwneud â chwaraeon**
Cyrhaeddodd rhaglen olaf *The Great British Bake Off* fwy na 15 miliwn o bobl, ac felly hon oedd y rhaglen â'r nifer fwyaf o wylwyr yn 2015.

**Mwy o ddadansoddi newyddion**
Bellach, rydym yn cynnig hyd yn oed fwy o newyddion, dadansoddiadau ac esboniadau o straeon lleol, cenedlaethol a rhyngwladol mwyaf y dydd i gynulleidfaoedd, gan ymestyn *News at Ten* y BBC 15 munud o ddydd Llun i ddydd Gwener.





**Y gynulleidfa fwyaf ar gyfer cerddoriaeth**
Cafodd y clip o'r rhaglen *Adele at the BBC*, a oedd yn arbennig i'r BBC, ei weld gan y nifer fwyaf o wylwyr erioed ar sianel YouTube y BBC ac mae wedi cael ei weld fwy na 48 miliwn o weithiau.

# Gwerth am arian

## Cost fesul aelwyd

Cytunwyd ar setliad ffi'r drwydded chwe blynedd yn 2010 sydd wedi rhewi ffi'r drwydded ar £145.50 hyd at 2017.

Fesul diwrnod

**40c**

2014/15: 40c

## Arbedion parhaus

2015/16 oedd blwyddyn olaf ond un y rhaglen arbedion 'Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf' (DQF), sydd wedi sicrhau £621m o arbedion cynaliadwy erbyn 31 Mawrth '16. Mae disgwyl o hyd i'r rhaglen gyflawni cyfanswm blynyddol o £700m mewn arbedion cylchol blynyddol erbyn 31 Mawrth '17.


**£621m**

2014/15: £484m

## Sut y caiff ffi'r drwydded fisol ei gwario 2015/16

£12.13 fesul aelwyd

1. **Teledu £7.02**
(2014/15: £7.27)
2. **Radio £2.06**
(2014/15: £1.94)
3. **BBC World Service £0.83**
(2014/15: £0.73)
4. **Costau gwasanaethau eraill a chostau cynhyrchu £0.79**
(2014/15: £0.73)
5. **Ar-lein £0.76**
(2014/15: £0.61)
6. **Costau casglu ffi'r drwydded a chostau diffyg pensiwn £0.67**
(2014/15: £0.85)




| | 2015/16 | | 2014/15 | |
|---|---|---|---|---|
| | Gwariant y flwyddyn £m | % o ffi'r drwydded | Gwariant y flwyddyn £m | % o ffi'r drwydded |
| **Teledu**<br>Naw sianel | 2,201 | 58 | 2,366 | 60 |
| **Radio**<br>15 o orsafoedd rhwydwaith a Radio Lleol | 642 | 17 | 652 | 16 |
| **Ar-lein**<br>BBC Ar-lein a BBC iPlayer | 238 | 6 | 201 | 5 |
| **BBC World Service** | 261 | 7 | 253 | 6 |
| **Costau gwasanaethau eraill a chostau cynhyrchu** | 247 | 6 | 248 | 6 |
| **Costau casglu ffi'r drwydded a diffyg pensiwn** | 210 | 6 | 290 | 7 |


Mae'r dadansoddiad uchod yn cyfateb i wariant Grŵp UK Public Service Broadcasting ar gynnwys ar dudalen 108, er na chaiff y costau yr eir iddynt er mwyn creu incwm arall eu cynnwys gan na chânt eu hariannu gan ffi'r drwydded.

Mae'r BBC wedi adolygu ei ddadansoddiad o gostau cymorth gwariant Grŵp Public Service Broadcasting yn ystod y flwyddyn ac o ganlyniad wedi'i ailddatgan fel bod y dosbarthiad blwyddyn flaenorol yn gyson â'r flwyddyn gyfredol.

## Gwariant y BBC yn yr economi greadigol allanol 2015/16

Cyfanswm o £1.1bn

1. **Rhaglenni annibynnol a ddarlledwyd £460m**
(2014/15: £455m*)
2. **Artistiaid, cyfranwyr a hawlfraint £272m**
(2014/15: £280m)
3. **Cyfleusterau ac adnoddau rhaglenni allanol £203m**
(2014/15: £216m*)
4. **Rhaglenni a gaffaelwyd a ddarlledwyd £67m**
(2014/15: £66m)
5. **Gwariant ar-lein allanol £33m**
(2014/15: £22m)
6. **Grwpiau perfformio'r BBC £24m**
(2014/15: £25m)




Gall effaith gronnol a phŵer gwario dros 20 miliwn o drwyddedau teledu ddarparu mwy na dim ond cynnwys. Yn ogystal â staff mewnol, gallwn roi gwaith i lawer o unigolion llawrydd a miloedd o fusnesau bach a mawr ledled y DU – gan sicrhau buddiannau cynaliadwy i ddiwydiannau digidol a chreadigol, yn ogystal â'r economi ehangach ym Mhrydain.

Mae'r gwariant allanol hwn yn ychwanegol at y gwariant mewnol o tua £1.1 biliwn a wna'r BBC o fewn y diwydiannau creadigol.

* Mae balans y flwyddyn flaenorol wedi cael ei ddiweddaru yn dilyn addasiad i'r data sydd wedi rhoi dadansoddiad mwy cywir.

Cipolwg ar y BBC

# Amcanion y BBC

Mae gan y BBC genhadaeth barhaus: hysbysu, addysgu a diddanu. Rydym yn darparu rhaglenni a gwasanaethau nodedig o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd ledled y DU. Eleni, rydym wedi ceisio cyflawni pedwar amcan strategol:

### Gwneud cynnwys nodedig, o'r radd flaenaf

— datblygu ein portffolio o raglenni, gwasanaethau a phartneriaethau er mwyn cyflwyno cynnwys y BBC i'r nifer fwyaf o bobl

— sicrhau bod gwasanaethau'n darparu amrywiaeth o uchafbwyntiau creadigol, yn ymgysylltu â phob cynulleidfa gyda rhaglenni a gwasanaethau o safon

— adlewyrchu amrywiaeth y DU yn well ar draws ein rhaglenni a'n gwasanaethau



### Trawsnewid yr hyn a gynigir i gynulleidfaoedd ifancach

— trawsnewid gwasanaethau prif ffrwd i apelio'n well at gynulleidfaoedd ifancach

— datblygu gwasanaethau presennol ymhellach ar gyfer cynulleidfaoedd ifancach

— arloesi ar-lein mewn ymateb i fyd cyfnewidiol y cyfryngau




### Datblygu BBC mwy personol

— datblygu cynnwys mwy personol, sy'n canolbwyntio ar y gynulleidfa ar draws ein portffolio o raglenni a gwasanaethau

— cael mwy o bobl i 'ymrwymo i hyn' er mwyn cael profiad gwell a mwy personol gan y BBC

— gwneud y BBC yn sefydliad mwy agored a chydweithredol




### Dangos gwerth am arian ym mhob maes o'n gwaith

— cyflwyno cynlluniau arbedion fel y gallwn ailfuddsoddi mewn blaenoriaethau strategol

— gwneud y BBC yn lle symlach a gwell i weithio

— cyflwyno cynllun 'cystadlu neu gymharu' cynhwysfawr ar gyfer y sefydliad cyfan erbyn mis Gorffennaf 2015




FESTIVAL

# Adolygiad ac asesiad Ymddiriedolaeth y BBC

Diben canolog yr Ymddiriedolaeth yw sicrhau bod talwyr ffi'r drwydded yn cael y gorau o'r BBC. Yr Ymddiriedolaeth yw corff llywodraethu'r BBC ac mae'n nodi'r cyfeiriad strategol, yn mesur perfformiad ac yn dwyn Bwrdd Gweithredol y BBC i gyfrif.


**Rhagair y Cadeirydd** ... **08**
**Adolygiad o'r Siarter – Gwrando ar gynulleidfaoedd** ... **11**
**Pennu strategaethau ac asesu perfformiad** ... **17**
Cyflawni'r dibenion cyhoeddus ... 18
Pennu strategaethau ... 20
Adolygu perfformiad gwasanaeth ... 22
Cynnal safonau golygyddol ... 29
Dangos gwerth am arian ... 31
Gwasanaethu cynulleidfaoedd ledled y DU ... 35
– Cymru ... 35
– Yr Alban ... 36
– Gogledd Iwerddon ... 37
– Lloegr ... 38
Y BBC a'r farchnad ehangach ... 40
Goruchwylio gweithgareddau eraill ... 43
**Y tu mewn i'r Ymddiriedolaeth** ... **45**
Ymddiriedolwyr y BBC ... 46
Llywodraethu ... 48
Cyllid yr Ymddiriedolaeth ... 51




Gŵyl BBC 6 Music 2016 ym Mryste

# Rhagair y Cadeirydd

Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi parhau i ganolbwyntio ar asesu perfformiad y BBC ar ran talwyr ffi'r drwydded, eleni rydym hefyd wedi gweithio'n galed iawn gan edrych i'r dyfodol er mwyn sicrhau y gall y BBC fwynhau dyfodol hyderus a chreadigol.

## Perfformiad yr Ymddiriedolaeth a'r BBC yn 2015/16

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gwnaeth y BBC gyrraedd bron pawb, gyda 96% o oedolion y DU yn defnyddio'r BBC bob wythnos – perfformiad rhyfeddol o gofio nifer y cyfryngau, dyfeisiau a llwyfannau newydd eraill sy'n cystadlu am sylw pobl.

Ymddengys fod rhaglenni a gwasanaethau amrywiol o safon yn sail i'r perfformiad hwn. Mae ein Harolwg o Gylchoedd Gwaith Dibenion wedi olrhain canfyddiadau'r cyhoedd o'r BBC ers 2008 ac mae'n dangos bod gwerthfawrogiad y cyhoedd o wasanaethau'r BBC yn parhau i fod yn uchel iawn, ac yn wir mae argraffiadau hirdymor o'r BBC wedi gwella hyd yn oed ymhellach.

Rydym yn ategu ein hymchwil i gynulleidfaoedd ledled y DU ag adolygiadau rheolaidd a thrwyadl o bob un o wasanaethau unigol y BBC. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal 20 adolygiad o'r fath ac wedi cwmpasu pob gwasanaeth o leiaf ddwywaith yn y deng mlynedd ddiwethaf. Ym mhob achos, rydym wedi pennu camau gweithredu i'r BBC eu cyflawni, i wella gwasanaethau ac i sicrhau gwelliannau parhaus i gynulleidfaoedd. Er enghraifft, rydym wedi gofyn am hyd yn oed fwy o uchelgais ac amrywiaeth mewn drama ar BBC One ac mae cynyrchiadau amrywiol a gafodd ganmoliaeth fawr fel *The Night Manager*, *War and Peace* a *The A Word* wedi creu argraff arnom ni ac ar gynulleidfaoedd.

Ym mis Mawrth 2016, gwnaethom gyhoeddi casgliadau ein hadolygiad o Radio Lleol y BBC a newyddion a materion cyfoes lleol yn Lloegr. Cadarnhaodd yr adolygiad fod cynulleidfaoedd yn credu y gellir ymddiried yng ngwasanaethau lleol y BBC, eu bod o ansawdd uchel ac yn ddibynadwy, ac nad oes dim yn cymharu â hwy yn y sector masnachol. Gwnaethom hefyd nodi heriau i'r BBC fynd i'r afael â hwy, gan gynnwys galw am esboniad gwell o faterion gwleidyddol a pholisi lleol, a gwella'r arlwy ar-lein. Byddwn yn monitro cynnydd yn ystod gweddill y flwyddyn.

Bydd adolygiad terfynol yr Ymddiriedolaeth o wasanaethau yn ymwneud â gwasanaethau newyddion a radio yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a chaiff ei gyhoeddi yn yr haf.

Eleni, rydym hefyd wedi gwneud ymrwymiadau i roi mwy o atebolrwydd i Gynulliad Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Byddwn yn gosod yr adroddiad blynyddol hwn yn ffurfiol gerbron y gweinyddiaethau hyn o eleni ymlaen, a byddwn yn ateb cwestiynau am berfformiad y BBC gan eu pwyllgorau craffu perthnasol.

Mae gwasanaethu oedolion ifancach a phobl dduon, pobl Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) yn well yn parhau i fod yn her allweddol i'r BBC, yr aethpwyd i'r afael â hi ond na chafodd ei datrys eto. Cymeradwyodd yr Ymddiriedolaeth strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant newydd eleni. Trawsnewidiwyd gwasanaethau'r BBC a oedd wedi'u targedu at oedolion ifancach hefyd wrth i ni gymeradwyo'r cynnig i symud BBC Three ar-lein.

Roedd hwn yn benderfyniad anodd ac nid yn un a gymerwyd yn ysgafn gan yr Ymddiriedolaeth. Mae tystiolaeth glir o dwf yn y defnydd ar-lein a bydd symud y gwasanaeth ar-lein yn helpu'r BBC i baratoi ar gyfer dyfodol ar-lein. Fodd bynnag, mewn ymateb i faterion a godwyd ynghylch hygyrchedd i fand eang a'r effaith bosibl ar gynulleidfaoedd ifancach, rydym wedi ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ddangos pob un o raglenni ffurf hir BBC Three ar BBC One a BBC Two ac ar-lein hefyd.

Er mai ar gam cynnar yr ydym, mae'r sianel wedi bod yn llwyddiannus gyda rhaglenni fel *Murdered by my Father*, *Thirteen* a *Life and Death Row* ers iddi symud ar-lein. Rydym wedi ymrwymo'r BBC i adolygiad llawn o'r newid o fewn 18 mis i'n penderfyniad i asesu perfformiad y gwasanaeth.

Fel rhan o'r un broses, cymeradwyodd yr Ymddiriedolaeth estyniad i oriau darlledu CBBC ond gwrthododd gynnig i greu sianel BBC One +1 am ei bod yn teimlo na fyddai hyn ond wedi sicrhau ychydig o werth cyhoeddus.

Yn ystod y flwyddyn, adolygodd yr Ymddiriedolaeth drefniadau cyflenwi'r BBC hefyd ar gyfer teledu, radio ac ar-lein. Daethom i'r casgliad y dylid lleihau'r warant y caiff 50% o raglenni teledu eu gwneud yn fewnol er mwyn sicrhau y gellir parhau i wneud y penderfyniadau creadigol gorau. Daethom i'r casgliad hefyd mai BBC Studios, sef cynnig y BBC i droi ei gangen cynhyrchu fewnol yn fenter fasnachol, fyddai'r cyfrwng a fyddai fwyaf tebygol o wasanaethu buddiannau cynulleidfaoedd orau. Erys y cynigion terfynol ar gyfer BBC Studios yn destun asesiad rheoliadol llawn.

Ar gyfer radio, mae'r BBC wedi cynnig cynyddu nifer yr oriau radio cymwys sydd ar gael i gynhyrchwyr annibynnol yn sylweddol. Cred yr Ymddiriedolaeth mai cyflenwad cymysg, sy'n galluogi cynulleidfaoedd y BBC i fanteisio ar y syniadau mwyaf creadigol, yw'r dull gweithredu gorau. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi na all hyn ond gweithio pan fydd digon o gapasiti yn y farchnad, neu fel arall mae perygl y bydd yn methu â chyflawni gwerth am arian ar gyfer talwyr ffi'r drwydded.

## Gwario arian cyhoeddus yn ddoeth

Eleni, mae'r BBC wedi parhau i ganolbwyntio ar greu sefydliad mwy darbodus a chyflawni'r targedau effeithlonrwydd ymestynnol a bennwyd yn 2011. Dywed cynulleidfaoedd wrthym mai gwerth am arian yw un o'u prif flaenoriaethau – cred 87% o bobl ei fod naill ai'n bwysig neu'n bwysig iawn.

Hon oedd blwyddyn olaf ond un y rhaglen Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf, a luniwyd i leihau sail costau'r BBC £700 miliwn, a disgwylir i'r holl arbedion gael eu cyflawni. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod pa mor anodd fu'r gwaith o sicrhau'r arbedion hynny, yn enwedig mewn marchnad lle mae'r rhan fwyaf o gystadleuwyr y BBC yn cynyddu eu hincwm ac yn hybu cynnydd yng nghost y sector creadigol cyfan.

Mae 109 yn llai o uwch reolwyr bellach ac mae'r bil cyflogau wedi gostwng fwy na £10 miliwn ers 2011. Mae cyflogau perfformwyr a chyflwynwyr wedi parhau i ostwng – ers adolygiad cyntaf yr Ymddiriedolaeth o gyflogau talentau, mae gwariant cyffredinol ar dalentau wedi gostwng yn sylweddol.

Bydd setliad ariannu newydd y BBC yn galw yn awr am wneud penderfyniadau gwariant anoddach fyth er mwyn arbed £800 miliwn arall y flwyddyn erbyn 2022, tra bod incwm ei brif gystadleuwyr yn cynyddu. Gwneir hyn er mwyn mynd i'r afael â chost trwyddedau teledu am ddim i bobl dros 75 oed, ariannu cynnydd chwyddiannol mewn costau mewn meysydd fel drama a chwaraeon, a bodloni disgwyliadau cynyddol cynulleidfaoedd o



"Mae'n amlwg nad oes awydd gan y cyhoedd am newid sylfaenol i raddfa a chwmpas y BBC."

*Rona Fairhead*

Bu ffocws yr Ymddiriedolaeth ar yr hyn y mae'r cyhoedd – sy'n talu am y BBC – am ei gael gan y BBC, a sicrhau y caiff eu safbwyntiau eu clywed.

amrywiaeth ac ansawdd gwasanaethau'r BBC, yn enwedig ar-lein. Mae'n glir bod angen gwneud penderfyniadau anodd yn y dyfodol, a'r flaenoriaeth i Fwrdd y BBC fydd lleihau'r effaith ar gynulleidfaoedd gan leihau costau i gyfateb i'r gyllideb.

Yn 2015/16 cynhaliodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (SAG) ddwy astudiaeth gwerth am arian – adolygiad o'r ffordd y mae'r BBC yn rheoli ei brosiectau pwysicaf, a gyhoeddwyd ym mis Mai, ac archwiliad o'r modd y mae'r BBC wedi rheoli cyfnod pontio'r World Service o gyllid cymorth grant i gyllid ffi'r drwydded, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin.

Mae gwaith y SAG wedi bod yn rhan bwysig o'r fframwaith rheoli risg ac mae wedi helpu'r Ymddiriedolaeth i fodloni ei chyfrifoldeb am sicrhau y caiff ffi'r drwydded ei gwario'n ddoeth ac yn effeithiol.

### Y Fonesig Janet Smith

Eleni, mae'r BBC hefyd wedi gorfod mynd i'r afael ag agweddau mwy tywyll ar ei orffennol. Ym mis Chwefror, cyhoeddwyd adolygiad y Fonesig Janet Smith ar ddiwylliant ac arferion y BBC yn ystod y blynyddoedd y bu Jimmy Savile a Stuart Hall yn y sefydliad. Roedd ei hadroddiad yn un anodd ei ddarllen. Cynigiais i a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol ein hymddiheuriadau didwyll i'r dioddefwyr – neu oroeswyr fel y mae llawer yn hoffi cael eu galw – a diolch iddynt am y dewrder aruthrol y maent wedi ei ddangos. Byddwn yn sicrhau y caiff popeth posibl ei wneud i atal hyn rhag digwydd eto.

Ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, mae'r BBC wedi bod yn gweithredu ar argymhellion y Fonesig Janet i sicrhau newid diwylliannol sylweddol a pharhaol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cael diweddariadau misol gan y

Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gynnydd. Rydym yn hyderus ei fod ef a'r tîm Gweithredol yn hollol ymrwymedig i BBC sy'n lle diogel a chefnogol i weithio ynddo ac nad yw'n goddef unrhyw gamddefnydd o bŵer. Wrth sefydlu newidiadau i strwythur llywodraethu'r BBC, mae hyd yn oed yn bwysicach cynnal yr ysgogiad.

## Adolygiad o'r Siarter

Mewn blwyddyn lle trafodwyd bodolaeth y BBC ei hun yn helaeth, bu ffocws yr Ymddiriedolaeth ar yr hyn y mae'r cyhoedd – sy'n talu am y BBC – am ei gael gan y BBC, ac ar sicrhau y caiff eu safbwyntiau eu clywed gan y llywodraeth wrth iddi ddrafftio Siarter nesaf y BBC.

Cawsom 50,000 o ymatebion i'n hymgynghoriadau i'r Siarter; a chynhaliwyd arolygon barn, grwpiau ffocws a seminarau wyneb yn wyneb helaeth ledled y DU gennym, ar draws y pedair gwlad.

Cafodd ymgynghoriad y Llywodraeth ei hun yr ail ymateb mwyaf erioed i ymgynghoriad cyhoeddus.

Mae'n amlwg o'r ddau nad oes awydd gan y cyhoedd am newid sylfaenol i raddfa a chwmpas y BBC.

Cred 85% o'r cyhoedd o hyd y dylai cenhadaeth y BBC fod yn un lle mae'n hysbysu, addysgu a diddanu. Dywedodd 80% o'r ymatebwyr i ymgynghoriad y Llywodraeth fod y BBC yn gwasanaethu cynulleidfaoedd yn dda neu'n dda iawn. Nid oes galw cyhoeddus am BBC culach – yn wir, roedd 56% o'r ymatebwyr am i'r BBC ddarparu mwy.


Noda Papur Gwyn y Llywodraeth dair egwyddor bwysig sydd â'u gwreiddiau'n ddwfn yn yr hyn y mae'r cyhoedd am ei gael:

- BBC sy'n gwasanaethu pob cynulleidfa, am ddim wrth ei dderbyn, ar amrywiaeth eang o ddyfeisiau a llwyfannau
- BBC â'r un genhadaeth a chwmpas, gan ddarparu rhaglenni a gwasanaethau beiddgar a nodedig
- a BBC sy'n annibynnol ar ddylanwad gwleidyddol a masnachol

Rydym yn gweithio gyda'r Llywodraeth, ar ran talwyr ffi'r drwydded, i sicrhau y gellir gwarantu'r egwyddorion hyn yn ddigonol wrth ddrafftio'r Siarter.

Ar nodyn personol, mae wir yn fraint cael cais i ymgymryd â'r rôl fel y Cadeirydd cyntaf, a goruchwylio'r gwaith o sefydlu Bwrdd Unedol cyntaf erioed y BBC. Rwy'n gweithio'n agos gyda'r Llywodraeth, y Cyfarwyddwr Cyffredinol ac Ofcom i gael y manylion yn gywir a darparu strwythur newydd clir ac effeithiol.

Yn olaf, hoffwn ddiolch yn fawr i'm cyd-Ymddiriedolwyr am eu gwasanaeth ymroddedig. Ac ar ran yr holl Ymddiriedolwyr a fu'n aelodau o'r Ymddiriedolaeth dros y deng mlynedd ddiwethaf, hoffwn dalu teyrnged i'n staff yn Uned yr Ymddiriedolaeth, sydd wedi gweithredu'n fedrus a phroffesiynol iawn – yn enwedig dros y misoedd diwethaf lle bu ansicrwydd ynghylch dyfodol yr Ymddiriedolaeth – ac sydd wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau bod y BBC yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i dalwyr ffi'r drwydded.



**Rona Fairhead**
**Cadeirydd**
16 Mehefin 2016

Mae penderfyniadau anodd o'n blaenau a'r flaenoriaeth i Fwrdd y BBC fydd lleihau'r effaith ar gynulleidfaoedd.



# Adolygiad o'r Siarter – Gwrando ar gynulleidfaoedd

Y Siarter Frenhinol yw'r sail gyfansoddiadol ar gyfer y BBC. Mae'n nodi dibenion cyhoeddus y BBC, yn gwarantu annibyniaeth y BBC ac yn amlinellu dyletswyddau'r Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol. Ym mis Gorffennaf 2015, dechreuodd y Llywodraeth ar y broses o adolygu ac adnewyddu'r Siarter.

# Adolygiad o'r Siarter

Y Siarter Frenhinol yw'r sail gyfansoddiadol ar gyfer y BBC. Ym mis Gorffennaf 2015, dechreuodd y Llywodraeth ar y broses o adolygu ac adnewyddu Siarter y BBC.

Y Siarter Frenhinol yw sail gyfansoddiadol y BBC. Mae'n nodi dibenion cyhoeddus y BBC, yn gwarantu annibyniaeth y BBC ac yn amlinellu dyletswyddau'r Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol. Yr haf diwethaf, dechreuodd y Llywodraeth ar y broses o adolygu ac adnewyddu'r Siarter, y daw'r iteriad cyfredol ohoni i ben ar ddiwedd 2016.

Rydym wedi bod yn glir o ddechrau'r broses hon y dylai llais y gynulleidfa fod yn hollol ganolog i drafodaethau ar ddyfodol y BBC. Dyna pam, er mwyn helpu i lywio proses y Llywodraeth o wneud penderfyniadau, fod yr Ymddiriedolaeth wedi cynnal rhaglen o ymgysylltu'n eang â'r cyhoedd – yn ein hymgynghoriadau ar yr Adolygiad o'r Siarter, cawsom fwy na 50,000 o ymatebion – ac wedi manteisio ar naw mlynedd o waith ymchwil a dadansoddi manwl. Yr hyn sy'n hollol glir o'r gwaith hwn yw nad oes awydd gan y cyhoedd am newid sylfaenol i raddfa a chwmpas y BBC ac mae'n galonogol fod Papur Gwyn y Llywodraeth, *BBC ar gyfer y Dyfodol*, a gyhoeddwyd ar 12 Mai, yn cydnabod hyn.

## Cenhadaeth, diben a gwerthoedd

Un o'r meysydd ffocws i'r Llywodraeth yn ei hymgynghoriad oedd cenhadaeth, diben a gwerthoedd y BBC. Roedd y Llywodraeth am ystyried a oedd y rhesymeg wreiddiol ar gyfer y BBC – hysbysu, addysgu a diddanu – yn dal i fod yn briodol ym maes newidiol y cyfryngau. Credwn fod y tri gair hyn yn parhau i fod yn berthnasol ac yn cyfleu hanfod y BBC. Canfu ein hymchwil, gan amlaf (85%), fod y cyhoedd yn credu na ddylai cenhadaeth ganolog y BBC newid. Mae Papur Gwyn y Llywodraeth wedi cymeradwyo'r safbwynt hwn a chroesawn yr atgyfnerthiad o genhadaeth barhaus y BBC gydag ystod eang o wasanaethau a chynnwys, poblogaidd a nodedig. Ochr yn ochr â'r genhadaeth ganolog hon, mae'r Siarter gyfredol yn sefydlu chwe diben cyhoeddus ar gyfer y BBC (fe'u nodir ar ddechrau'r adroddiad hwn ar dudalen 2 ac ymdrinnir yn fanylach â hwy ar dudalennau 18 ac 19). Ymchwiliodd ein hymgynghoriad a'n hymchwil i effeithiolrwydd y dibenion hyn a'r ddealltwriaeth ohonynt ymhlith talwyr ffi'r

### Egwyddorion 'natur nodedig'

Yn ystod y Siarter hon, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwthio'r BBC i sicrhau ei fod yn cyflwyno cynnwys sydd ag uchelgeisiau, safonau a gwasanaethau creadigol a golygyddol uchel sy'n darparu amrywiaeth eang o allbwn. Mae'r 'natur nodedig' hon yn rhan hanfodol o'r ffordd y mae'r BBC yn cyflawni ei ddibenion cyhoeddus ac mae'n cyfiawnhau'r defnydd o gyllid o ffi'r drwydded, sy'n rhoi mwy o ryddid i'r BBC fentro a bod yn fwy arloesol nag eraill sy'n cael eu cyfyngu efallai gan rymoedd y farchnad. Credwn ei bod yn anghywir edrych ar natur nodedig drwy lygad 'methiant y farchnad' oherwydd dim ond drwy allbwn sy'n boblogaidd ac sydd ag apêl eang y gellir cyflawni'r dibenion cyhoeddus yn effeithiol, yn ogystal â'r hyn na fyddai unrhyw ddarlledwr arall yn ei gynhyrchu.

Croesawn fwriad y Llywodraeth i gydnabod pwysigrwydd natur nodedig yng nghenhadaeth y BBC a'i Drwyddedau Gweithredu. Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau bod y mesur a'r asesiad yn parhau i fod ar lefel gwasanaeth ac yn ddigon hyblyg i osgoi rhwystro menter, arloesedd a chreadigrwydd.




Y Cadeirydd Rona Fairhead yn seminar Adolygiad o'r Siarter Ymddiriedolaeth y BBC yng Nghaerdydd



Astudiaeth achos

## Cyfres o seminarau Adolygiad o'r Siarter yr Ymddiriedolaeth

Yn ystod hydref 2015, cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth gyfres o seminarau cyhoeddus a drafododd amrywiaeth o faterion, ac yn eu plith roedd y canlynol:

- sut y dylid llywodraethu a rheoleiddio'r BBC yn y dyfodol
- opsiynau ariannu i'r sefydliad yn y dyfodol
- cenhadaeth, graddfa a chwmpas y BBC

Cynhaliwyd y seminarau ledled y DU yn Belfast, Birmingham, Caerdydd, Glasgow, Llundain a Sunderland, ac roeddent yn cynnwys paneli o academyddion ac arbenigwyr y diwydiant.

Mae fideos o'r trafodaethau ar gael i'w ffrydio ar wefan Ymddiriedolaeth y BBC.

drwydded. O ganlyniad i'r profi a'r ymgynghori helaeth, cred yr Ymddiriedolaeth y byddai'n helpu i egluro a symleiddio dibenion cyhoeddus cyfredol y BBC. Gwnaethom gynnig rhai diwygiadau i'r Llywodraeth er mwyn sicrhau bod y dibenion yn nodi'n gliriach beth y dylai'r BBC ei gyflawni a sut y gellid eu mesur. Cytunodd y Llywodraeth y dylid diweddaru ac egluro'r dibenion cyhoeddus ac mae ei Phapur Gwyn yn adeiladu ar awgrymiadau'r Ymddiriedolaeth.

Holodd y Llywodraeth hefyd a ddylai cyfres o werthoedd ar gyfer y BBC, yn ogystal â'r dibenion, gael ei sefydlu'n ffurfiol a beth fyddai'r gwerthoedd hynny o bosibl. Felly, gofynnodd ein hymgynghoriad i ymatebwyr osod cyfres o werthoedd yn nhrefn pwysigrwydd i'r BBC. Canfu hyn mai BBC â'r 'safonau golygyddol uchaf/o'r ansawdd uchaf' oedd ar y brig, sef 92%, a bod 'diduedd' (90%) ac 'annibynnol' (88%), yn ail a thrydydd. Er nad yw'r Llywodraeth wedi nodi yn ei Phapur Gwyn gyfres ar wahân o werthoedd ar gyfer y BBC, credwn fod cynnwys llawer o'r rhain yn y genhadaeth a'r dibenion cyhoeddus yn briodol.

## Graddfa a chwmpas

Yr ail faes ffocws i'r Llywodraeth yn yr Adolygiad o'r Siarter oedd yr un a oedd yn ymwneud â graddfa a chwmpas y BBC. Mae'r cyhoedd wedi bod yn glir eu bod am gael rhaglenni a gwasanaethau o ansawdd uchel a BBC sy'n cyflawni rhywbeth i bawb. Er enghraifft, noda ein hymgynghoriad a'n canfyddiadau ymchwil nad oes galw cyhoeddus am BBC culach. Canfuwyd bod dros hanner (56%) o'r ymatebwyr am i'r BBC ddarparu mwy, a dim ond 7% oedd yn credu y dylai'r BBC ddarparu llai.

**50,000**



**nifer yr ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad Ymddiriedolaeth y BBC o'r Adolygiad o'r Siarter**

## Egwyddorion 'gwasanaethu pawb'

Barn yr Ymddiriedolaeth yw bod 'gwasanaethu pawb' yn cynnwys nifer o elfennau:

- sicrhau bod gwasanaethau'r BBC o fewn cyrraedd yn hawdd i bob cynulleidfa, drwy sicrhau bod cynnwys ar gael, am ddim wrth ei dderbyn, ar amrywiaeth eang o lwyfannau
- darparu amrywiaeth o gynnwys a gwasanaethau sy'n adlewyrchu buddiannau amrywiol poblogaeth gyfan y DU
- adlewyrchu'r amrywiaeth yn y DU a'i dwyn ynghyd ar gyfer digwyddiadau ac adegau allweddol
- sicrhau bod gwasanaethau a chynnwys yn darparu budd cymdeithasol i'r DU. Darparu allbwn poblogaidd ac arbenigol o ansawdd uchel, gan sicrhau bod y BBC yn rhoi rhywbeth y maent yn ei werthfawrogi i dalwyr ffi'r drwydded

Canfuwyd hefyd fod y rhan fwyaf o gynulleidfaoedd yn fodlon ar ansawdd y cynnwys a ddarperir gan y BBC. Canfu ein hymchwil feintiol fod 73% o'r cyhoedd yn credu bod y BBC yn cynnig cynnwys a rhaglenni o ansawdd uchel a dywed 60% fod ei gynnwys yn nodedig.

Yn gysylltiedig â chwmpas y BBC mae thema 'gwasanaethu pawb'. Nododd ein hymchwil fod 58% o'r cyhoedd yn gadarn o blaid BBC sy'n darparu rhywbeth i bawb sy'n talu ffi'r drwydded, a dim ond 8% oedd yn anghytuno â hyn.

Er nad yw'r Papur Gwyn yn dewis un diffiniad o wasanaethu pawb, mae'n cefnogi'r egwyddor o ddarparu rhywbeth i bawb drwy nodi, yng nghenhadaeth y BBC, fod yn rhaid iddo 'wasanaethu pob cynulleidfa'. Rydym yn glir fod angen i'r Siarter newydd gynnwys pob agwedd ar wasanaethu pawb a nodwyd gennym.



Bu cyfres o seminarau Adolygiad o'r Siarter Ymddiriedolaeth y BBC yn gyfle i glywed yn uniongyrchol gan y gynulleidfa ynghylch dyfodol y BBC

## Llywodraethu a rheoleiddio

Maes ffocws arall i'r Llywodraeth oedd diwygio systemau llywodraethu a rheoleiddio'r BBC. Ers dechrau 2015, mae'r Ymddiriedolaeth wedi galw am ddiwygio'r model llywodraethu cyfredol yn y dyfodol. Amlinellodd y Cadeirydd y safbwynt hwn yn ei haraith yn yr Oxford Media Convention ym mis Mawrth y flwyddyn honno, gan egluro y dylai'r Ymddiriedolaeth gael ei diwygio o leiaf, ond y byddai'r broses o reoleiddio'r BBC yn y dyfodol, yn ddelfrydol, yn cael ei gwneud gan reoleiddiwr allanol pwrpasol.

Er mwyn ymchwilio ymhellach i'r mater hwn, comisiynodd y Llywodraeth Syr David Clementi i gynnal adolygiad o systemau rheoleiddio a llywodraethu'r BBC. Chwaraeodd Ymddiriedolaeth y BBC ran lawn yn adolygiad Syr David, gan gynnwys cynnal cyfres o seminarau i egluro gwaith cyfredol yr Ymddiriedolaeth. Gwnaeth adroddiad Syr David nifer o argymhellion allweddol gan gynnwys Bwrdd Unedol newydd i'r BBC a system reoleiddio allanol gan y rheoleiddiwr cyfathrebu, Ofcom. Cymeradwyodd Papur Gwyn y Llywodraeth argymhellion Syr David a chyhoeddodd mai Rona Fairhead, Cadeirydd cyfredol yr Ymddiriedolaeth, fyddai Cadeirydd cyntaf y Bwrdd Unedol newydd.

Er mwyn bod yn wirioneddol effeithiol, bydd angen i'r strwythur newydd hwn fod yn hollol glir ynghylch y cydberthnasau rhwng y partïon gwahanol – y Llywodraeth, Ofcom a'r BBC.

Bydd cael y manylion yn gywir yn y maes hwn yn hanfodol, nid yn unig er mwyn sicrhau bod y diwydiant a'r cyhoedd yn hyderus ynghylch rheoleiddiwr y BBC yn y dyfodol, ond er mwyn sicrhau hefyd fod gan y BBC system reoleiddio bwrpasol sy'n cydnabod ei rôl unigryw yn sector darlledu'r DU a'i fod yn parhau i gyrraedd y safonau golygyddol uchaf.

Byddai'r trefniadau newydd a nodir yn y Papur Gwyn yn golygu na fyddai angen yr Ymddiriedolaeth mwyach ac mae'r goblygiadau i staff Uned yr Ymddiriedolaeth yn dal i gael eu hystyried. Er i ni groesawu'r bwriad i greu model cliriach o systemau llywodraethu a rheoleiddio'r BBC, rydym yn ymfalchïo yn ansawdd uchel a gwaith trylwyr yr Ymddiriedolaeth dros y deng mlynedd ddiwethaf, fel datblygu ac asesu trwyddedau gwasanaeth, ymdrin â chwynion golygyddol mewn modd manwl a thrwyadl, a gwaith ar asesu gwerth cyhoeddus cynigion gan y BBC. Gobeithio y gall y Bwrdd newydd ac Ofcom fel y rheoleiddiwr newydd adeiladu ar y cryfderau a'r agweddau cadarnhaol hyn yn y system yn y dyfodol.

## Cyllid yn y dyfodol

Y maes ffocws olaf ym Mhapur Gwyrdd y Llywodraeth oedd y system ar gyfer ariannu'r BBC. Cynigiodd y Papur Gwyrdd nifer o ddulliau gweithredu posibl yn y dyfodol, gan gynnwys ffi'r drwydded wedi'i moderneiddio, ardoll aelwydydd, ac elfennau tanysgrifio.

Yn ein hymchwil feintiol i'r opsiynau hyn, roedd llai na chwarter yr ymatebwyr o blaid model tanysgrifiad rhannol ac roedd bron 60% o blaid ffi gyffredinol (naill ai drwy ddiweddaru ffi'r drwydded bresennol neu ardoll aelwydydd). Yn yr un modd, canfu'r canlyniadau o'n hymgynghoriad, o blith yr holl opsiynau i ariannu'r BBC am y pum mlynedd nesaf, fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid moderneiddio system ffi'r drwydded deledu bresennol (fel ei bod hefyd yn gymwys i wasanaethau dal i fyny).

Un maes y mae'r cyhoedd a'r Ymddiriedolaeth wedi mynegi pryder yn ei gylch yw'r ffordd y penderfynir ar lefel cyllid y BBC. Er ein bod yn croesawu'r ymrwymiad gan y Llywodraeth yng Nghyllideb Gorffennaf 2015 i ddarparu fframwaith ariannol i'r BBC am y pum mlynedd nesaf – gan gynnwys cynyddu ffi'r drwydded yn unol â chwyddiant dros gyfnod y Siarter gyfan – roedd y diffyg tryloywder yn y broses a ddilynwyd gan y Llywodraeth wrth ddod i'w phenderfyniadau yn peri pryder. Felly, gwnaethom gynnig i'r Llywodraeth y dylai unrhyw Siarter a Chytundeb Fframwaith yn y dyfodol nodi proses glir a chyhoeddus ar gyfer pennu'r lefel briodol o gyllid (ac felly lefel ffi'r drwydded) ar gyfer y BBC. Credwn fod cynigion y Llywodraeth yn ei Phapur Gwyn yn gam i'r cyfeiriad cywir.

Yn ei Phapur Gwyn, mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau'r cyllid i'r BBC ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Bydd y BBC yn gallu gwneud defnydd o holl ffi'r drwydded a bydd y 'bwlch o ran iPlayer' yn cau. Cefnogwn awgrym y Papur Gwyn y dylai'r BBC barhau i fanteisio i'r eithaf ar ei refeniw masnachol os yw hynny'n bosibl.

# 81%

**canran yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad a oedd o'r farn y dylai'r BBC fod yn annibynnol ar wleidyddion**

## Egwyddorion annibyniaeth

Mae annibyniaeth y BBC ar lywodraeth, gwleidyddion, buddiannau masnachol a phersonol yn hollbwysig. Cydnabyddir hyn gan y Llywodraeth, gan sicrhau bod y BBC yn ddarlledwr cyhoeddus ac nid yn ddarlledwr gwladwriaethol.

Mae dwy elfen hanfodol i annibyniaeth y BBC:

- annibyniaeth olygyddol a chreadigol, heb unrhyw gyfle i ymyrryd na dylanwadu'n amhriodol ar allbwn y BBC, yn enwedig ym maes gwneud penderfyniadau golygyddol
- annibyniaeth ariannol, gan sicrhau bod gan y BBC gyllid penodol a sefydlog, gan gynnwys y gallu i gynhyrchu ei incwm ei hun, ac ymreolaeth ynghylch sut y caiff ei wario, fel na ellir defnyddio penderfyniadau'r llywodraeth ar gyllid i ddylanwadu ar broses gwneud penderfyniadau'r BBC

Fodd bynnag, gan fod y BBC yn derbyn arian gan dalwyr ffi'r drwydded ac yn bodoli i gyflawni cenhadaeth i hysbysu, addysgu a diddanu'r cyhoedd, mae'n bwysig ei fod yn atebol am y ffordd y mae'n gwario ei arian.

Yr atebolrwydd hwn sy'n sicrhau na all y BBC ddefnyddio ei annibyniaeth werthfawr i hyrwyddo hunan-fuddiannau o fewn y sefydliad.

## Atgyfnerthu annibyniaeth y BBC

Bu'r angen i sicrhau bod annibyniaeth y BBC yn cael ei diogelu'n barhaus rhag gwleidyddion a buddiannau personol yn ganolog i waith yr Ymddiriedolaeth gyda'r Llywodraeth ar yr Adolygiad o'r Siarter. Mae hwn yn hanfodol i'r BBC ac i'r cyhoedd – dywed bron 90% o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad fod annibyniaeth y BBC yn bwysig iddynt ac annibyniaeth oedd y brif thema mewn ymatebion gan y cyhoedd i ymgynghoriad y Llywodraeth ei hun.

Cawn ein sicrhau felly fod Papur Gwyn y Llywodraeth yn cydnabod bod annibyniaeth y BBC yn hanfodol. Mae sawl ffordd y mae'r Papur Gwyn yn ceisio cyflawni hyn. Un cam tuag at sicrhau annibyniaeth yw'r ymrwymiad i weithredu Siarter 11 mlynedd, gan wahanu'r broses oddi wrth gylchoedd etholiadol. Un arall yw y bydd dyletswydd glir yn cael ei rhoi ar gyfarwyddwyr newydd y BBC i gynnal annibyniaeth y BBC. Fodd bynnag, erys gwaith i'w wneud, wrth fanylu ar y Siarter a'r Cytundeb a'u drafftio, er mwyn sicrhau annibyniaeth y BBC.

## Y camau nesaf

Rydym yn disgwyl am y Siarter a'r Cytundeb drafft a fydd yn rhoi cynigion y Papur Gwyn ar waith a chroesawn ymrwymiad y Llywodraeth i drafodaethau yn y Senedd. Daw'r Siarter bresennol i ben ar 31 Rhagfyr a byddwn yn gweithio tan hynny i sicrhau y trosglwyddir yn ddidrafferth i'r trefniadau newydd.

Mae'n hanfodol bod y Siarter a'r Cytundeb terfynol yn cyflwyno system gref ac annibynnol o lywodraethu sy'n denu cefnogaeth fawr ac a all gyflawni'r hyn y mae talwyr ffi'r drwydded am ei gael yn awr a thros yr 11 mlynedd nesaf.

## Astudiaeth achos
## **Deall y gynulleidfa yn yr Adolygiad o'r Siarter**

Comisiynodd yr Ymddiriedolaeth amrywiaeth o ymchwil annibynnol i lywio'r drafodaeth:

- cynhaliodd ICM Unlimited gyfweliadau yn 2014 a 2015 gyda sampl gynrychioliadol o oedolion, gan edrych ar wasanaethau, cyllid, atebolrwydd, gwerthoedd ac annibyniaeth y BBC
- cynhaliodd MTM 18 o drafodaethau grŵp estynedig ledled y DU, gan edrych ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys rôl, gwerthoedd a model ariannu'r BBC
- gwnaeth PwC waith annibynnol yn edrych ar effeithlonrwydd y BBC, gan gymharu gorbenion y BBC â meincnodau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat
- cynhaliodd KPMG ddadansoddiad annibynnol i roi tystiolaeth am effaith y BBC ar y farchnad (ceir rhagor o wybodaeth ar dudalen 40 o'r adroddiad hwn)
- ymchwiliodd y Sefydliad Polisi yn King's College, Llundain i ffyrdd o ddiogelu'n well annibyniaeth ariannol y BBC, ochr yn ochr ag adroddiadau ategol gan Dr Xeni Dassiou a Dieter Helm CBE, a edrychodd ar y rôl y mae rheoleiddwyr annibynnol yn ei chwarae wrth bennu gofynion ariannu mewn sectorau eraill


BBC



# Pennu strategaethau ac asesu perfformiad

Adrodd ar gynnydd y BBC yn erbyn ei bedwar amcan strategol; gwneud cynnwys nodedig, o'r radd flaenaf; trawsnewid yr hyn a gynigir i gynulleidfaoedd ifancach; datblygu BBC mwy personol; a dangos gwerth am arian ym mhob maes o'i waith.

Cyflawni'r dibenion cyhoeddus....18
Pennu strategaethau....20
Adolygu perfformiad gwasanaeth....22
Cynnal safonau golygyddol....29
Dangos gwerth am arian....31
Gwasanaethu cynulleidfaoedd ledled y DU....35
Y BBC a'r farchnad ehangach....40
Goruchwylio gweithgareddau eraill....43

# Cyflawni'r dibenion cyhoeddus

Nodir dibenion cyhoeddus y BBC gan y Siarter Frenhinol a'r Cytundeb. Mae'r dibenion hyn yn sail i'r gwerthoedd a ddelir gan y BBC wrth geisio cyflawni ei genhadaeth i hysbysu, addysgu a diddanu.

Bu'r dibenion cyhoeddus yn greiddiol i'r gwaith a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth yn ystod cyfnod y Siarter hon a byddant yn parhau'n hollbwysig wrth i'r BBC ddechrau'r Siarter newydd. Gwerthuswyd y dibenion cyhoeddus yn y gwaith a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth yn ystod yr Adolygiad o'r Siarter. Dangosodd ein hymgynghoriad a'n gwaith ymchwil y byddai diweddaru ac egluro'r dibenion cyhoeddus i'r gynulleidfa o fudd a chroesawn y ffaith bod Papur Gwyn y Llywodraeth wedi cymeradwyo'r cynigion hyn (gallwch ddarllen mwy am hyn yn y bennod *Adolygiad o'r Siarter – Gwrando ar gynulleidfaoedd* yn yr adroddiad hwn).

Ers 2008, mae'r Ymddiriedolaeth wedi mynd ati bob blwyddyn i asesu pa mor dda y mae'r BBC yn cyflawni yn erbyn ei chwe diben cyhoeddus ac yn ein Harolwg o Gylchoedd Gwaith Dibenion blynyddol, rydym yn gofyn i dalwyr ffi'r drwydded yn y DU am eu sylwadau ar berfformiad y BBC mewn perthynas â nifer o ddatganiadau sy'n ymdrin â'r dibenion a'u cylchoedd gwaith, yn ogystal â phwysigrwydd pob datganiad iddynt hwy yn bersonol. Mae'r ddau fesur hyn, perfformiad a phwysigrwydd, yn ein galluogi i asesu 'bwlch perfformiad'. Rydym yn defnyddio'r data hyn er mwyn helpu i bennu amcanion strategol y BBC yn unol â disgwyliadau'r cyhoedd.

Mae'r arolwg hefyd yn gofyn i dalwyr ffi'r drwydded nodi eu hargraff gyffredinol o'r BBC. Y sgôr gyfartalog[1] ar gyfer y BBC yw 7.3, sy'n gyson â'r sgoriau a welwyd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf (7.4 yn 2014, 7.3 yn 2013 a 7.3 yn 2012) ac mae hefyd yn uwch na'r cyfartaledd hirdymor, sef 6.7.

Isod ceir crynodeb o'r canlyniadau ar gyfer pob un o'r chwe diben cyhoeddus yn 2015/16.

## Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

Cred talwyr ffi'r drwydded fod creadigrwydd yn bwysig i'r BBC ac erys ei berfformiad wrth gyflawni'r diben hwn yn gymharol uchel yn gyffredinol. Y sgôr perfformiad gyfartalog ar draws pob datganiad yw 61% ac mae wedi cynyddu'n raddol o 55% yn 2008.

Mae darparu amrywiaeth eang o gynnwys adloniadol a phleserus yn parhau i fod yn un o gryfderau'r BBC. Eleni, roedd 76% o'r cyhoedd o'r farn bod rhaglenni'r BBC o ansawdd uchel – y canlyniad uchaf ond un o blith yr holl gwestiynau a ofynnwyd yn yr arolwg. Mae wedi llwyddo i gyflawni'r un sgôr ers ei gyflwyno yn 2012.

Mae cynnig syniadau 'ffres a newydd' er mwyn creu cynnwys nodedig yn rhan bwysig o ddangos creadigrwydd. Unwaith eto, mae gan y cyhoedd ddisgwyliadau uchel o'r BBC yn hyn o beth – gyda 75% o'r farn ei fod yn bwysig. O ran perfformiad, roedd tri o bob pump o bobl (60%) o'r farn bod gan y BBC lawer o syniadau 'ffres a newydd'. Bu'r ffigur hwn yn sefydlog dros y tair blynedd ddiwethaf, yn dilyn gwelliant yn 2013. Mae hyn yn ategu barn yr Ymddiriedolaeth y dylai gwella natur nodedig barhau fel un o amcanion strategol allweddol y BBC ac rydym yn cydnabod bod y thema hon wedi'i hamlinellu yn y Papur Gwyn. O ganlyniad i'r broses o adolygu rhan o'r drwydded gwasanaeth newydd ar gyfer BBC Three ar-lein, mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi pennu gofyniad i drwyddedau gwasanaeth BBC One a BBC Two sicrhau eu bod yn cymryd risgiau creadigol ac yn arbrofi â thalentau a syniadau newydd.

## Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

Erys y diben hwn yn flaenoriaeth i gynulleidfaoedd, gyda sgôr pwysigrwydd gyfartalog o 69%, ac mae wedi cynyddu'n raddol o 65% yn 2008. Y sgôr perfformiad gyfartalog ar gyfer y diben hwn yw 63%, a fu'n gyson dros flynyddoedd blaenorol.


Erys y sgôr ar gyfer 'cynnig newyddiaduraeth annibynnol o ansawdd uchel' yr un peth ar gyfer 2015 â'r llynedd, sef 65%, er bod y sgôr hon wedi lleihau o 70% yn 2008. I'r rheini yn yr Alban, mae'r datganiad bod y BBC yn 'fy helpu i ddeall gwleidyddiaeth yn yr Alban' wedi parhau â'r gwelliant a welwyd y llynedd (59% yn 2015 o gymharu â 55% yn 2014), er nad yw wedi dychwelyd eto at ei sgôr cyn y refferendwm.

## Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

Cafodd y BBC y sgôr uchaf ar gyfer y diben hwn, gyda sgôr perfformiad gyfartalog o 71% (o gymharu â chyfartaledd o 73% ers 2008).

Cafodd y datganiad, 'mae'r BBC yn fy helpu i ddeall yr hyn sy'n digwydd yn y byd ehangach', y sgôr uchaf o blith yr holl ddatganiadau yn yr arolwg, sef 77%. Fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad bach o ran y datganiad 'mae'r BBC yn llwyddo i gyflwyno delwedd gadarnhaol o'r DU i weddill y byd', gan leihau i 65% o 69% yn y flwyddyn flaenorol.

Un ffordd y mae'r BBC yn cyflawni'r diben byd-eang yw'r World Service, a gafodd hwb ariannol yn ddiweddar gan y Llywodraeth. Bydd yn darparu £34 miliwn yn 2016/17 ac £85 miliwn y flwyddyn ar gyfer y tair blynedd ganlynol, er mwyn helpu i wella gwasanaethau teledu, radio a digidol World Service.




Ysgogi creadigrwydd: mae'r bwlch rhwng nifer y bobl sydd o'r farn bod gan y BBC syniadau 'ffres a newydd' a'r nifer sydd o'r farn bod hyn yn bwysig wedi lleihau ers 2008

1 Cyfrifir y sgôr gyfartalog hon drwy ofyn y cwestiwn canlynol i ymatebwyr: Gan feddwl am y BBC yn gyffredinol, beth yw eich argraff gyffredinol, ar raddfa o 1 i 10, lle mae 1 yn golygu anffafriol iawn a 10 yn golygu ffafriol iawn?



Mae'r BBC wedi parhau i wella o ran helpu gwylwyr i ddeall gwleidyddiaeth yn yr Alban



Eleni, roedd 76% o'r cyhoedd o'r farn bod rhaglenni'r BBC o ansawdd uchel

## Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

Erys diben y gwledydd, rhanbarthau a chymunedau yn heriol, er bod sgoriau perfformiad cyfartalog (51% o gymharu â 44% yn 2008) a sgoriau pwysigrwydd cyfartalog (62% o gymharu â 58% yn 2008) wedi gwella ers yr Arolwg o Gylchoedd Gwaith Dibenion cyntaf yn 2008. Mae'r bwlch rhwng y pwysigrwydd a osodir ar y diben hwn a'i berfformiad hefyd wedi lleihau, gan ddangos y cynnydd a wnaed gan y BBC yn y maes hwn.

Gwelwyd gostyngiadau mewn rhai meysydd, sef 'cynnwys ar gyfer pobl fel fi' (59% o gymharu â 64% y llynedd), 'cynrychioli fy ngwlad/rhanbarth mewn drama' (55% o gymharu â 59% y llynedd) a 'cynrychioli fy ngwlad/rhanbarth mewn newyddion' (54% o gymharu â 59%). Dylanwadodd gostyngiadau yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn sylweddol ar y sgoriau hyn. Er gwaethaf gwelliannau golygyddol, yn adolygiad yr Ymddiriedolaeth o Radio Lleol y BBC a newyddion a materion cyfoes lleol yn Lloegr, argymhellwyd gennym i'r BBC y dylai roi mwy o esboniad o faterion gwleidyddol a pholisi lleol ar ei wasanaethau lleol ac y dylai barhau i gydweithio gyda darparwyr newyddion lleol eraill.

## Hyrwyddo addysg a dysgu

Mae pobl o'r farn bod addysg yn un o rolau hanfodol y BBC ac yn parhau i nodi mai'r diben hwn, ynghyd â 'Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU', yw diben cyhoeddus pwysicaf y BBC. Cafodd y sgôr perfformiad uchaf ond un o blith yr holl gwestiynau yn yr arolwg, gyda sgôr gyfartalog o 68%, er bod hyn wedi gostwng o 76% yn 2008.

Er bod y sgôr ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol (74%), sgoriodd 'Rwyf wedi dysgu pethau newydd gan y BBC' 71% ac mae bron i ddwy ran o dair (64%) yn cytuno bod 'y BBC yn helpu plant/pobl ifanc yn eu harddegau gyda'r hyn y maent yn ei ddysgu yn yr ysgol/coleg'.

## Cyflwyno buddiannau cysylltiadau, technolegau a gwasanaethau newydd i'r cyhoedd

Mae parch uchel tuag at ddarpariaeth ddigidol y BBC o hyd, er bod y sgôr perfformiad gyfartalog o 56% yn is na'r flwyddyn flaenorol (i lawr o 59% yn 2014). Fodd bynnag, ers 2008, mae wedi gwella'n sylweddol o 35% oherwydd amrywiol ddatblygiadau arloesol megis BBC iPlayer.

Mae'n bosibl y gellid priodoli'r gostyngiad mewn perfformiad eleni i ddiffyg datblygiadau technolegol sylweddol ers lansio iPlayer. Fodd bynnag, dangosodd ein gwaith ymchwil ar gyfer yr Adolygiad o'r Siarter nad yw'r cyhoedd o reidrwydd yn disgwyl i'r BBC fod yn arloeswr ym maes technoleg, ond bod awydd cryf i'r BBC barhau i ddatblygu'n unol â'r newidiadau technolegol sydd eu hangen i gyflwyno ei gynnwys a'i wasanaethau mewn ffordd gyfleus a hyblyg ar draws amrywiaeth o lwyfannau a dyfeisiau. Adlewyrchir hyn yn y bwlch perfformiad bach ar gyfer y diben hwn sy'n dangos bod y BBC yn llwyddo'n gyffredinol i ddiwallu anghenion pobl.

Mae aelodau'r gynulleidfa sydd rhwng 25 a 44 oed a'r rheini sy'n defnyddio gwefan y BBC, BBC iPlayer, apiau'r BBC a chynnwys y BBC ar gyfryngau cymdeithasol yn fwy cadarnhaol o lawer am berfformiad y BBC yn erbyn y diben digidol.

# Pennu strategaethau

Diffinnir y ffordd y mae'r BBC yn cyflawni ei ddibenion cyhoeddus yn ei amcanion. Cytunodd yr Ymddiriedolaeth ar bedwar amcan strategol gyda'r BBC ar gyfer y flwyddyn hon ac rydym wedi asesu ei berfformiad wrth eu cyflawni.

## Gwneud cynnwys nodedig, o'r radd flaenaf

### Amcan

Anelodd y BBC at:

- ddatblygu portffolio o raglenni, gwasanaethau a phartneriaethau er mwyn cyflwyno cynnwys y BBC i'r nifer fwyaf o bobl
- sicrhau bod gwasanaethau'n darparu amrywiaeth o uchafbwyntiau creadigol, gan ymgysylltu â phob cynulleidfa gyda rhaglenni a gwasanaethau o ansawdd uchel
- adlewyrchu amrywiaeth y DU yn well ar draws ei raglenni a'i wasanaethau

### Asesiad

Noda'r Ymddiriedolaeth fod canfyddiadau'r gynulleidfa o gynnwys y BBC yn parhau'n uchel eleni ac y bu cynnydd bach pellach yng nghanfyddiad y gynulleidfa fod teledu'r BBC yn 'ffres a newydd'. Drwy ein gwaith ymgysylltu helaeth â'r gynulleidfa fel rhan o broses yr Adolygiad o'r Siarter, rydym wedi gweld digon o dystiolaeth o sut y caiff y BBC a'i raglenni a'i gynnwys eu gwerthfawrogi.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi canolbwyntio'r rhan fwyaf o'i gwaith ar natur nodedig, gan gynnwys sicrhau y caiff y cysyniad ei ddiffinio a'i ddeall – nid yw'n golygu y dylai'r BBC gynnig rhaglennu a fydd yn 'methu yn y farchnad' neu na ddylai wneud rhaglenni poblogaidd. Rydym yn falch o weld tystiolaeth eleni bod yr uchelgais hwn o ran bod yn nodedig wedi'i ymgorffori'n gadarn o fewn y BBC.

O ran amrywiaeth, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymeradwyo strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant newydd y BBC eleni. Mae'r strategaeth hon wedi pennu targedau newydd ac uchelgeisiol ar y sgrîn ac oddi ar y sgrîn i'w cyrraedd erbyn 2020. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol iawn y bydd gwaith i fonitro llwyddiant y strategaeth yn hanfodol a bydd prosiect y Rhwydwaith Amrywiaeth Creadigol i sefydlu trefniadau monitro ar y sgrîn ar gyfer pob darlledwr yn rhan bwysig o hyn. Mae'r Ymddiriedolaeth yn falch bod ei chynnig i gynnwys amrywiaeth o fewn dibenion cyhoeddus y BBC am y tro cyntaf erioed wedi'i dderbyn gan y Llywodraeth yn y Papur Gwyn.

## Trawsnewid yr hyn a gynigir i gynulleidfaoedd ifancach

### Amcan

Anelodd y BBC at:

- drawsnewid gwasanaethau prif ffrwd er mwyn apelio'n well at gynulleidfaoedd ifancach
- datblygu gwasanaethau presennol ar gyfer cynulleidfaoedd ifancach
- arloesi ar-lein mewn ymateb i fyd cyfnewidiol y cyfryngau

### Asesiad

Mae'r BBC wedi wynebu her hirdymor wrth geisio gwasanaethu oedolion ifanc cystal ag y mae'n gwasanaethu oedolion hŷn. Mae hyn wedi dod yn anos gan fod llawer o bobl ifanc yn mabwysiadu gwasanaethau ar-lein a bod eu lefelau defnydd cyffredinol mewn perthynas â theledu a radio yn lleihau. Fodd bynnag, yn groes i rai adroddiadau, gwyddom fod pobl ifanc yn awyddus i gael gwasanaethau teledu a radio o hyd. O'n gweithgareddau ymgysylltu â chynulleidfaoedd ac o'r data a welwn ar eu harferion, gwyddom eu bod am gael rhaglennu prif ffrwd sy'n apelio atynt a rhaglennu wedi'i wneud yn benodol ar eu cyfer.

Rydym wedi tynnu sylw yn ein hadolygiadau o wasanaethau at yr heriau sy'n wynebu gwasanaethau prif ffrwd y BBC, yn arbennig BBC One a BBC Two, ac mae tueddiadau gwylio pobl ifanc mewn perthynas â'r sianelau hyn eleni yn dangos bod her o hyd. Rydym o'r farn bod yn rhaid i'r gwasanaethau hyn barhau'n berthnasol i gynulleidfa eang gan eu bod yn hanfodol i allu'r BBC i gyflawni ei ddibenion cyhoeddus. Felly mae dod o hyd i ffyrdd o apelio at wylwyr ifancach yn her strategol bwysig.

Trawsnewidiwyd gwasanaethau'r BBC wedi'u targedu at oedolion ifancach eleni wrth i ni gymeradwyo'r cynnig i symud BBC Three ar-lein. Mae ei raglenni ffurf hir ar gael o hyd ar BBC One a BBC Two a dengys arwyddion cynnar fod y strategaeth ddeuol hon yn gweithio'n dda. Erys Radio 1 yn ffordd bwerus i'r BBC gyflwyno cynnwys gwasanaeth cyhoeddus i bobl ifanc a chroesawn ei lwyddiant cynyddol wrth wneud hynny ar-lein.

## Datblygu BBC mwy personol

### Amcan

Anelodd y BBC at:

- ddatblygu cynnwys mwy personol sy'n canolbwyntio mwy ar y gynulleidfa ar draws ei raglenni a'i wasanaethau
- cael mwy o bobl i 'gofrestru' ar-lein er mwyn cael profiad gwell a mwy personol gan y BBC
- sicrhau bod y BBC yn sefydliad mwy agored a chydweithredol

### Asesiad

Mae'r BBC yn gynyddol yn galluogi pobl i bersonoli ei wasanaethau ar-lein wrth deilwra newyddion i'r pynciau y mae ganddynt fwyaf o ddiddordeb ynddynt a chynnig argymhellion o ran rhaglenni y byddent o bosibl yn eu mwynhau ar iPlayer. Mae'n amlwg bod hyn yn ychwanegu'n sylweddol at fwynhad pobl o'r gwasanaethau hyn a'u gwerth iddynt. Wrth i bobl ddefnyddio mwy o wasanaethau ar-lein ar gyfer newyddion, gwybodaeth ac adloniant, daw hyn yn gynyddol bwysig. Felly, rydym yn gadarn o blaid y gwaith y mae'r BBC yn ei wneud i gynnig mwy o swyddogaethau personoli.

Bu trawsnewid arlwy ar-lein y BBC yn brosiect technegol a gweithredol sylweddol i'r BBC ac, fel prosiect strategol hollbwysig, bu'r Ymddiriedolaeth yn monitro'r broses o'i weithredu. Erbyn mis Ebrill 2016, roedd y BBC wedi cofrestru dros 6 miliwn o ddefnyddwyr 'cofrestredig' ar gyfer ei wasanaethau ar-lein ac roedd y prosiect eisoes wedi cyflwyno nifer o fuddiannau i'w gynulleidfaoedd, gan gynnwys ap BBC Sport y gellir ei bersonoli. Serch hynny, mae angen cryn dipyn o waith pellach er mwyn i'r BBC gwblhau'r prosiect yn llwyddiannus erbyn y dyddiad cwblhau targed, sef 31 Mawrth 2017.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn glir am yr her sy'n wynebu'r BBC o ran cydweithredu a meithrin partneriaethau effeithiol gyda sefydliadau allanol. Rydym wedi bod yn awyddus i weld gwelliannau yn y maes hwn.

Eleni, rydym wrth ein bodd â nifer partneriaethau'r BBC a maint rhai ohonynt: o bartneriaethau diwylliannol yn seiliedig ar bedwar canmlwyddiant marwolaeth Shakespeare, i fentrau technoleg pwerus, megis y micro:bit – dyfeisiau codio a roddir am ddim i ddisgyblion ym mlwyddyn 7 neu gyfatebol, y gweithiodd y BBC arni ar y cyd â 29 o sefydliadau eraill.

## Dangos gwerth am arian ym mhob maes o'i waith

### Amcan

Anelodd y BBC at:

- gyflawni ei gynlluniau arbedion er mwyn ailfuddsoddi mewn blaenoriaethau strategol
- gwneud y BBC yn lle symlach a gwell i weithio ynddo
- cyflwyno cynllun 'cystadlu neu gymharu' cynhwysfawr

### Asesiad

Fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael £3.7 biliwn o arian cyhoeddus bob blwyddyn, rhaid i'r BBC anelu at ddarparu gwerth am arian ym mhob peth a wna.

Er mwyn dod yn fwy effeithlon, mae'r BBC wedi dechrau ar raglen i arbed £700 miliwn o gostau dros bum mlynedd – Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf. Ers dechrau'r rhaglen bedair blynedd yn ôl, llwyddwyd i gyflawni gostyngiad parhaol o £621 miliwn yng nghostau blynyddol y BBC. Daeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i'r casgliad y llynedd bod y rhaglen wedi sicrhau gwerth am arian ac ers hynny, parhawyd i gyflawni arbedion y rhaglen yn unol â'r cynlluniau.

Er mwyn adeiladu ar ostyngiadau mewn costau, ac er mwyn sefydlu diwylliant o welliant parhaus, rhoddodd y BBC raglen waith o'r enw 'cystadlu neu gymharu' ar waith. Mae'r rhaglen hon yn anelu at sicrhau y caiff unrhyw gostau naill ai eu herio yn y farchnad neu y cynhelir ymarfer meincnodi yn ei herbyn. Mae hyn yn helpu'r BBC i asesu p'un a lwyddwyd i sicrhau gwerth am arian, ac yn darparu gwybodaeth werthfawr sy'n galluogi'r BBC i leihau costau ymhellach. Yr haf diwethaf, adolygodd PwC y rhaglen a chanfu fod y BBC wedi asesu 87% o'r gwariant y gellir ei reoli. Cynhaliodd PwC hefyd adolygiad annibynnol o orbenion y BBC a daeth i'r casgliad eu bod yn cymharu'n ffafriol â meincnodau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat. Canfu PwC mai gorbenion oedd 7.6% o gyfanswm costau'r BBC, sy'n sylweddol is na chyfartaledd y sector cyhoeddus, sef 11.2%, a chyfartaledd y diwydiant a reoleiddir, sef 8.8%. Canfu hefyd fod cynlluniau ar waith gan y BBC i leihau'r costau hyn ymhellach erbyn diwedd cyfnod y Siarter bresennol.

Wrth i'r BBC symud i gyfnod y Siarter nesaf, bydd angen iddo barhau i gymhwyso'r ddisgyblaeth a bennwyd gan 'cystadlu neu gymharu' er mwyn cyflawni'r arbedion heriol sy'n ofynnol gan y setliad ariannu newydd. Mae'r BBC yn amcangyfrif y bydd y setliad hwn, gan ystyried yr angen i neilltuo arian i'w ailfuddsoddi mewn mentrau newydd, yn ei gwneud yn ofynnol iddo arbed £800 miliwn pellach y flwyddyn erbyn 2022.

Un maes lle mae gan y BBC ragor o waith i'w wneud yw sicrhau bod y sefydliad yn lle symlach i weithio ynddo. Uchelgais y BBC yw lleihau nifer yr haenau a'r strwythurau adrodd ar draws y sefydliad. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi annog hyn ond mae'n cydnabod yr heriau cysylltiedig. Rydym yn cefnogi cynlluniau'r BBC i sicrhau'r strwythur priodol a bod cynlluniau cadarn ar waith cyn gweithredu'r newid sefydliadol pwysig hwn.

# Adolygu perfformiad gwasanaeth

Mae cyrhaeddiad y BBC wedi parhau i fod yn hollgynhwysol, fwy neu lai, drwy gydol cyfnod y Siarter hon, er gwaethaf y dewis cynyddol o gyfryngau eraill sydd ar gael i gynulleidfaoedd.

## Trosolwg

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno adroddiad blynyddol ar berfformiad gwasanaethau'r BBC ers 2007. Yn ystod y cyfnod hwn, bu rhai newidiadau sylweddol yn y tirlun darlledu. Trosglwyddwyd i deledu digidol yn 2012, mae nifer y bobl sy'n gwrando ar radio digidol wedi cynyddu ac mae nifer y cartrefi â mynediad i'r rhyngrwyd wedi cynyddu o 64% yn 2007 i 86% ar ddechrau 2016[1].

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r cynnydd sydyn yn nifer y bobl sy'n defnyddio ffonau deallus a llechi wedi trawsnewid y ffordd y mae pobl yn defnyddio'r rhyngrwyd. Mae hyn wedi herio rhai o wasanaethau teledu a radio llinellol y BBC ac wedi cynnig cyfleoedd i'r BBC gyflawni ei ddibenion cyhoeddus mewn ffyrdd newydd.

Ymhlith yr holl newidiadau hyn, erys cyrhaeddiad wythnosol y BBC yn uchel iawn, sef 96%. Credwn fod y ffaith bod cyrhaeddiad y BBC wedi parhau i fod yn holl gynhwysol, fwy neu lai, er gwaethaf y cynnydd o ran dewisiadau eraill ar gyfer newyddion ac adloniant, yn gyflawniad eithriadol.

1 Ffynhonnell: Adroddiad Ofcom ar y Farchnad Gyfathrebu 2015 a Thraciwr Technoleg Ofcom, H1 2016

Yn ddiau, mae'r ffaith bod cynifer o bobl yn defnyddio rhaglenni a gwasanaethau'r BBC yn seiliedig ar y ffaith bod y cyhoedd yn parhau i feddwl yn uchel ohonynt – erys eu gwerthfawrogiad o wasanaethau'r BBC a'u hargraff gyffredinol ohonynt yn uchel. Dengys ein Harolwg o Gylchoedd Gwaith Dibenion fod argraff gyffredinol y cyhoedd o'r BBC wedi gwella dros yr hirdymor ac y byddai'r cyhoedd yn parhau'n fwy tebygol o weld eisiau'r BBC pe na fyddai yno o gymharu ag unrhyw ddarlledwr arall.

Bu dyletswydd ar yr Ymddiriedolaeth i adolygu pob un o wasanaethau'r BBC bob pum mlynedd ac rydym bellach bron â chwblhau dau adolygiad o bob gwasanaeth yn ystod cyfnod y Siarter hon. Roedd yr adolygiadau yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn i ddangos barn y cyhoedd. Mae'r dystiolaeth hon wedi dangos yn gyson bod cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi gwasanaethau'r BBC ac o'r farn eu bod o ansawdd uchel.

Ym mhob adolygiad, rydym wedi pennu camau gweithredu i'r BBC a fydd yn gwella gwasanaethau i dalwyr ffi'r drwydded ymhellach. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod pob gwasanaeth yn canolbwyntio ar

> Byddai'r cyhoedd yn gweld eisiau'r BBC, yn fwy nag unrhyw ddarlledwr arall, pe na fyddai yno mwyach.

wasanaethu unrhyw gynulleidfa darged ddatganedig ac yn gwasanaethu cynulleidfaoedd ifancach a'r rheini o gefndiroedd pobl dduon, pobl Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) na fyddant o bosibl o'r farn bod eu rhaglenni yn berthnasol iddynt. Rydym hefyd wedi canolbwyntio ar ystyried p'un a yw pob un o wasanaethau'r BBC yn ddigon nodedig. Rydym yn argymell y dylai'r meysydd hyn barhau i fod yn flaenoriaethau i'r BBC yn ystod cyfnod y Siarter nesaf.

Drwy ein gwaith eleni, rydym wedi gweld tystiolaeth amlwg o dwf o ran defnydd ar-lein a rhagwelwn y bydd y duedd hon yn parhau. Rydym yn glir bod angen i'r BBC drawsnewid ei arlwy darlledu er mwyn adlewyrchu'r newidiadau hyn, yn arbennig parhau i gyflawni ei ddibenion cyhoeddus i gynulleidfaoedd ifancach.



Eleni, bu cynnydd o ran canfyddiadau gwylwyr bod drama yn 'ffres a newydd', megis *Undercover* ar BBC One


## Crynodeb o berfformiad

### Teledu – gwerthfawrogiad cynulleidfaoedd

Mae gwerthfawrogiad cynulleidfaoedd o deledu'r BBC, er ei fod yn uchel o hyd, wedi gostwng ychydig am y drydedd flwyddyn yn olynol.



**Sut mae'r BBC yn cymharu**
Ffynhonnell: Arolwg BBC Pulse





**Y camau nesaf**

— dylai'r BBC anelu at gynyddu sgoriau gwerthfawrogiad cynulleidfaoedd. Byddant yn parhau i fod yn ddangosyddion pwysig o ran perfformiad y BBC

### Ffres a newydd

Mae canfyddiadau cynulleidfaoedd o ran p'un a yw'r BBC yn cynnig rhywbeth 'ffres a newydd' wedi parhau'n gadarn.

**Sut mae'r BBC yn cymharu**
Ffynhonnell: Arolwg BBC Pulse




**Y camau nesaf**


— dylai'r BBC gynyddu natur nodedig ei arlwy ymhellach a chyflwyno adroddiadau cyhoeddus ar ei berfformiad yn hyn o beth

### Radio – gwerthfawrogiad cynulleidfaoedd

Mae gwerthfawrogiad cynulleidfaoedd o radio'r BBC yn parhau'n uchel, ac mae wedi cynyddu ychydig eleni.



**Sut mae'r BBC yn cymharu**
Ffynhonnell: Arolwg BBC Pulse




**Y camau nesaf**


— dylai'r BBC barhau i gynnig cynnwys o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd radio

### Ar-lein – gwerthfawrogiad cynulleidfaoedd

Mae gwerthfawrogiad cynulleidfaoedd o BBC Ar-lein wedi gostwng unwaith eto, yn dilyn ail-lansio'r Hafan a'r wefan Newyddion.



**Sut mae'r BBC yn cymharu**
Ffynhonnell: Arolwg Ansawdd Ar-lein gan eDigital




**Y camau nesaf**

— dylai'r BBC anelu at lefel gwerthfawrogiad cynulleidfaoedd uwch mewn perthynas â BBC Ar-lein

Y llynedd, cymerodd y BBC gam pwysig i'r cyfeiriad hwnnw drwy gyflwyno cynnig i symud BBC Three ar-lein. Ystyriodd yr Ymddiriedolaeth werth cyhoeddus y cynnig a'i effaith debygol ar y farchnad a chymeradwywyd y cynnig ganddi ym mis Tachwedd. Roeddem o'r farn y byddai symud ar-lein yn helpu'r BBC i baratoi ar gyfer dyfodol ar-lein. Fodd bynnag, er mwyn cydnabod y ffaith nad oes gan bawb gysylltiad dibynadwy na digyfyngiad i gynnwys ar-lein, fe'i gwnaethom yn ofynnol i'r BBC ddangos holl raglenni ffurf hir BBC Three ar BBC One a BBC Two yn ogystal ag ar-lein.

Ymrwymodd yr Ymddiriedolaeth i gynnal adolygiad cyhoeddus o berfformiad BBC Three ar-lein o fewn 18 mis i'w phenderfyniad. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried cyrhaeddiad ymhlith cynulleidfa ifanc ac amrywiol, lefel y risgiau creadigol a gymerir, y defnydd o dalent newydd, perfformiad rhaglenni BBC Three ar BBC One a BBC Two a lefel hygyrchedd i'r rheini â namau clywedol a synhwyraidd.

## Teledu

Bu newidiadau sylweddol yn y farchnad deledu yn ystod y deng mlynedd diwethaf: cwblhaodd y DU y broses o newid i deledu digidol, gan olygu y gall pob cartref â theledu bellach wylio amrywiaeth llawer helaethach o sianelau; mae argaeledd teledu â chysylltiad â'r rhyngrwyd a nifer y bobl sy'n defnyddio teledu o'r fath, yn ogystal â theledu manylder uwch (HD), wedi cynyddu ac mae meintiau sgriniau teledu wedi cynyddu, ac mae hyn oll yn cyfrannu at newidiadau o ran profiadau gwylio. Mae'r defnydd o wasanaethau ar alw yn cynyddu ac yn ddiweddar, bu cynnydd mewn gwasanaethau tanysgrifio fideo ar alw – ar ddiwedd 2015 roedd bron i chwarter cartrefi'r DU yn tanysgrifio i Netflix, Amazon Video neu Now TV Sky[2].

Mewn marchnad gyfnewidiol, erys teledu'r BBC yn boblogaidd gyda'r mwyafrif helaeth o oedolion (84%) yn ei wylio am o leiaf 15 munud bob wythnos. Gostyngodd hyn ychydig, o 85% y llynedd, ond bu'n gymharol wydn yn ystod y deng mlynedd diwethaf o ystyried y cynnydd o ran y dewis o sianelau teledu ac, yn fwy diweddar, fathau eraill o adloniant ar-lein y gellir ei weld ar y teledu.

Y llynedd, nodwyd nad oedd y BBC yn gwasanaethu gwylwyr ifancach na gwylwyr o gefndiroedd pobl dduon, pobl Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig cystal ac, yn ein hadolygiad diwethaf o deledu'r BBC ym mis Gorffennaf 2014, gofynnwyd i'r BBC wella ei apêl ymhlith y cynulleidfaoedd hyn. Mae'r her yn parhau: ar gyfer cynulleidfaoedd ifancach, mae cyrhaeddiad a'r amser a gaiff ei dreulio yn gwylio teledu'r BBC wedi gostwng fwy na'r lefel gyfartalog, ac mae oedran cyfartalog (canolrif) gwylwyr teledu'r BBC wedi codi unwaith eto. Fodd bynnag, roedd cyrhaeddiad teledu'r BBC eleni yn gymharol sefydlog ymhlith gwylwyr o gefndiroedd pobl dduon, pobl Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig er ei fod yn parhau'n llawer is na'r cyrhaeddiad ymhlith pob oedolyn, sef 72%. Mae gwasanaethu oedolion ifancach ac oedolion o gefndiroedd pobl dduon, pobl Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn parhau i fod yn her perfformiad allweddol i'r BBC.

Rydym hefyd wedi gofyn yn gyson i'r Bwrdd Gweithredol wella natur nodedig teledu'r BBC ac ymdrin â chanfyddiadau ymhlith gwylwyr ysgafnach ei fod yn dueddol o osgoi mentro mewn perthynas â rhaglenni ac amserlennu.

Rydym wedi gweld rhywfaint o welliant: mae'r rheini sy'n gwylio teledu'r BBC yn gynyddol o'r farn ei fod yn 'ffres a newydd'. Fodd bynnag, erys bwlch perfformiad o ran barn ehangach y cyhoedd am y BBC yn hyn o beth ac mae gwaith ymchwil ansoddol a wnaed gennym fel rhan o'r Adolygiad o'r Siarter yn awgrymu bod y cyhoedd yn awyddus o hyd i'r BBC fentro mwy mewn perthynas â'i raglennu a chynnig cynnwys mwy gwreiddiol ac arloesol. Wrth ddod â BBC Three i ben fel sianel linellol, yr oedd ganddi record gadarn o gymryd risgiau creadigol ac arloesi, gwnaethom atgyfnerthu'r gofynion rheoliadol ar BBC One a BBC Two yn y maes hwn.

### BBC One

BBC One yw'r sianel a gaiff ei gwylio fwyaf yn y DU o hyd, gyda 72% o bobl yn ei gwylio bob wythnos, gostyngiad bach o 73% y llynedd ac o 78% ar ddechrau'r Siarter yn 2006/07.

Mae rhaglenni BBC One yn parhau i ddod â chynulleidfaoedd mawr iawn at ei gilydd: denodd *The Great British Bake Off*, *Strictly Come Dancing* a *Sherlock* oll gynulleidfaoedd o fwy na 10 miliwn.

2 Ffynhonnell: Arolwg Sefydliadau BARB




Cafwyd perfformiad cryf mewn dramâu newydd, megis *The Night Manager*

Mae gwylwyr BBC One yn parhau o'r farn bod ansawdd ei rhaglenni yn uchel, ac mae sgoriau cynulleidfaoedd yn dangos eu bod o'r farn bod y mwyafrif helaeth o raglenni yn ffres a newydd.

Cafwyd perfformiad cryf eleni mewn rhai dramâu newydd, megis *Undercover*, *The Night Manager* a *Doctor Foster*, a chyfresi a oedd yn dychwelyd, gan gynnwys *Happy Valley* a *Call the Midwife* a chafwyd cynnydd o ran canfyddiadau gwylwyr bod dramâu BBC One yn 'ffres a newydd'. Cafwyd perfformiad cryf hefyd gan rai rhaglenni ffeithiol a chomedi, megis *Countryfile*, *DIY SOS* a *Peter Kay's Car Share*.

## BBC Two

Eleni, gwyliodd 46% o bobl BBC Two bob wythnos, gostyngiad bach o gymharu â 47% y llynedd, ond gostyngiad mwy yn ystod cyfnod y Siarter hon, o 57% yn 2006/07.

Erys canfyddiadau cynulleidfaoedd o BBC Two yn uchel, gyda sgôr gwerthfawrogiad gyfartalog o 82, a bernir bod 77% o raglenni yn 'ffres a newydd'. Mae gan bobl feddwl uchel o'i hallbwn drama, dogfen a ffeithiol o hyd gydag uchafbwyntiau'r flwyddyn eleni yn cynnwys dramâu megis *Line of Duty* a *The Last Kingdom* a rhaglenni ffeithiol ac adloniant megis *Back in Time for the Weekend*, *Masterchef: The Professionals*, a chomedïau, gan gynnwys *We're Doomed! The Dad's Army Story* a *Cradle to Grave*.

## BBC Three

Yn dilyn cymeradwyaeth gan yr Ymddiriedolaeth, symudodd BBC Three ar-lein ym mis Chwefror. Mae'r arlwy newydd yn anelu at adeiladu ar feysydd lle mae perfformiad BBC Three yn gryf, megis comedi, drama, rhaglenni ffeithiol a materion cyfoes.

Ers symud ar-lein, mae BBC Three wedi dangos rhai rhaglenni llwyddiannus, gan gynnwys dramâu megis *Thirteen* a *Murdered by my Father* a'r gyfres gomedi *Cuckoo*. Yn gyffredinol, mae'n rhy gynnar i asesu ei pherfformiad ac rydym wedi ymrwymo'r BBC i adolygiad llawn o'r newid o fewn 18 mis i'n penderfyniad terfynol er mwyn asesu perfformiad y gwasanaeth.

## BBC Four

Mae gan wylwyr BBC Four feddwl uchel iawn ohoni o hyd, gyda sgôr gwerthfawrogiad gyfartalog o 83, ac 84% o wylwyr yn cytuno bod y rhaglenni yn 'ffres a newydd', yr uchaf o blith unrhyw un o sianelau'r BBC, a chynnydd o gymharu ag 82% y llynedd.

Roedd rhaglenni poblogaidd eleni yn cynnwys dramâu a gaffaelwyd – *The Bridge*, *Trapped* a *The Young Montalbano*, cyfresi ffeithiol megis *Empire of the Tsars: Romanov Russia with Lucy Worsley* a chomedi *Detectorists*. A bu rhaglenni *Goes Slow* y sianel, wedi'u hysbrydoli gan y cysyniad o deledu araf lle y caiff digwyddiadau eu ffilmio mewn amser real, yn boblogaidd ymhlith cynulleidfaoedd.

## Plant

Y BBC yw'r unig ddarlledwr o hyd sy'n cynnig nifer uchel ac amrywiaeth eang o raglenni newydd yn y DU i blant. Mae'r dull gweithredu nodedig hwn yn golygu bod ei ddwy sianel ymhlith y sianelau mwyaf poblogaidd ymhlith eu grwpiau oedran, er gwaethaf yr amrywiaeth enfawr o raglennu a chynnwys ar-lein arall wedi'u hanelu at blant.

Caiff gwasanaethau'r BBC sgoriau uchel am eu hansawdd ond mae'r ffordd y mae plant hŷn yn arbennig yn defnyddio'r gwasanaethau hyn yn newid – mae nifer y ceisiadau iPlayer am gynnwys CBBC yn cynyddu tra bod y nifer sy'n gwylio sianel CBBC wedi parhau i leihau. CBBC sy'n denu'r gyfran uchaf o wylwyr iPlayer o blith holl sianelau teledu'r BBC ac mae'r defnydd o CBBC ar-lein wedi cynyddu i bron filiwn o borwyr unigryw bob wythnos, o gymharu â tua 750,000 bob wythnos y llynedd. Mae ap Go CBBC, a lansiwyd ym mis Rhagfyr 2014 ac sy'n darparu mynediad i raglenni, clipiau a gemau, bellach wedi'i lawrlwytho bron 500,000 o weithiau.

Eleni, cymeradwyodd yr Ymddiriedolaeth estyniad i oriau darlledu CBBC ac mae bellach yn gweithredu tan 9pm bob nos. Roeddem o'r farn y byddai'r cynnig yn helpu i gynnal lefelau gwylio CBBC drwy gynnig mwy o ddewis ar adeg pan fo plant yn gwylio'r teledu ac y gall oriau estynedig hefyd helpu i drosglwyddo gwylwyr ifancach i CBBC drwy wasanaethu'r garfan hon pan ddaw CBeebies i ben am 7pm.

Erys cyrhaeddiad CBeebies ymhlith ei chynulleidfa darged yn uchel iawn, sef tua 46%, ymhlith plant chwech oed ac iau. Dyma'r sianel cyn oed ysgol a gaiff ei gwylio fwyaf o bell ffordd ac mae nifer y ceisiadau iPlayer ar gyfer ei rhaglenni hefyd wedi parhau i gynyddu. Mae nifer y porwyr unigryw sy'n defnyddio CBeebies ar-lein wedi gostwng ychydig i tua 1.2 miliwn bob wythnos. Mae ap Playtime CBeebies bellach wedi cael ei lawrlwytho 5.9 miliwn o weithiau, a lawrlwythwyd ei ap Storytime 1.8 miliwn o weithiau.

# Radio

Mae gwrando ar y radio yn boblogaidd iawn o hyd – mae tua 90% o oedolion yn gwrando ar rywfaint o radio bob wythnos. Mae hyn wedi parhau'n gyson uchel dros gyfnod y Siarter hon, er gwaethaf yr amrywiaeth gynyddol o ddewisiadau eraill o weithgareddau yn y cyfryngau. Eleni, roedd yr amser a dreuliodd pobl yn gwrando ar y radio yn sefydlog, gydag oedolion yn gwrando am fwy nag 21 awr yr wythnos ar gyfartaledd, er bod hyn wedi gostwng o bron 23 awr yn 2007. Yn ddi-au, llywiwyd hyn gan y ffaith y gall gwrandawyr gael gafael ar gerddoriaeth o amrywiaeth lawer ehangach o ffynonellau, gan gynnwys lawrlwytho cerddoriaeth ddigidol, gwasanaethau ffrydio ar-lein, a thrwy safleoedd fel YouTube.

Effeithiodd y newidiadau hyn yn arbennig ar gynulleidfaoedd ifancach, gan fod yr amser a gaiff ei dreulio ganddynt hwy yn gwrando ar y radio wedi lleihau'n fwy na'r cyfartaledd. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod radio yn cyfrif am gyfran lawer llai o lefelau gwrando sain ymhlith cynulleidfaoedd ifancach: mae pobl ifanc rhwng 15 a 24 oed yn treulio 49% o gyfanswm eu hamser gwrando yn gwrando ar radio byw; mae hyn yn cynyddu i 57% ymhlith pobl rhwng 25 a 34 oed, 81% ymhlith pobl rhwng 35 a 54 oed ac 89% ymhlith y rheini dros 55 oed[3].

O fewn y cyd-destun hwn, mae radio'r BBC yn parhau i gyrraedd nifer fawr o bobl: mae 65% o oedolion yn gwrando bob wythnos, sy'n gymharol sefydlog o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae cyrhaeddiad y BBC yn is ymhlith oedolion ifanc (rhwng 15 a 24 oed), sef 55%, ac mae wedi gostwng ychydig, o 56% y llynedd.

Mae radio'r BBC yn parhau i gael sgoriau uchel gan ei wrandawyr: mae sgôr mynegai gwerthfawrogiad cynulleidfaoedd ar gyfartaledd yn uchel, sef 81, ac mae wedi cynyddu ychydig o 80 y llynedd. Mae gan dri chwarter y gwrandawyr argraff gyffredinol dda o orsafoedd radio'r BBC.

Canfu ein hadolygiad gwasanaeth o orsafoedd radio cerddoriaeth y BBC (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015) eu bod yn cynnig gwerth sylweddol i'w cynulleidfaoedd, ac mae canfyddiadau o ansawdd y gorsafoedd yn uchel. Pwysleisiodd yr adolygiad bwysigrwydd sylfaenol y BBC i'r sector cerddoriaeth, a chanfu fod y lefel uchel o gefnogaeth a roddir gan ei orsafoedd i gerddoriaeth newydd, cerddoriaeth o'r DU a cherddoriaeth fyw yn golygu eu bod yn nodedig.

Ym mis Awst 2015, cyhoeddwyd adolygiad gwasanaeth o Radio 4, Radio 5 live a'u chwaer orsafoedd digidol gennym. Gwelwyd bod cynulleidfaoedd o'r farn bod y gorsafoedd o ansawdd uchel ac yn nodedig a'u bod yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth o raglennu ar bob gorsaf. Roedd llawer o randdeiliaid yn cytuno â hyn gan nodi bod Radio 4 a Radio 5 live yn enghreifftiau o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus ar ei orau.

Er bod Radio 4 a Radio 5 live wedi anelu at wella eu gallu i adlewyrchu amrywiaeth y DU,

3 Ffynhonnell: Arolwg MIDAS RAJAR, Gwanwyn 2016

Dywedodd llawer o randdeiliaid fod Radio 4 a 5 live yn enghreifftiau o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus ar ei orau.

gwelwyd y bydd angen iddynt barhau i wneud hyn wrth i amrywiaeth eu cynulleidfa graidd dyfu. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r gorsafoedd wedi canolbwyntio ar ddatblygu amrywiaeth o ran cyflwynwyr, arbenigwyr a gwesteion; darparu amrywiaeth ehangach o newyddion a rhaglenni sy'n adlewyrchu amrywiaeth y DU sy'n newid yn gyson; ac, yn achos Radio 5 live, dangos rhai gwelliannau o ran cyfran y merched a'r unigolion o gefndiroedd pobl dduon, pobl Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n ffonio yn ystod sesiynau ffonio i mewn.

Yn dilyn yr adolygiad a gynhaliwyd eleni, gwelsom fod yr ymdrechion hyn i sicrhau bod yr allbwn yn cynrychioli amrywiaeth y DU yn well yn parhau ond y bydd yn cymryd amser i adlewyrchu hyn ym mhroffil y gwrandawyr. Mae hyn yn her hirdymor i'r BBC cyfan, yn ein barn ni, yn ystod cyfnod y Siarter nesaf.

## Radio 1 a 1Xtra

Mae Radio 1 yn parhau i gyrraedd cyfran fawr iawn o'i chynulleidfa darged ifanc: eleni, gwrandawodd 37% o bobl ifanc rhwng 15 a 29 oed bob wythnos, er bod hyn wedi lleihau ychydig, o 38% y llynedd, ac wedi lleihau ymhellach yn y tymor hwy.

Daeth ein hadolygiad gwasanaeth, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015, i'r casgliad bod Radio 1 yn canolbwyntio'n amlwg ar wasanaethu cynulleidfa ifanc ac mae'r trafodaethau a gawsom gyda'r BBC eleni yn cadarnhau bod hyn yn wir o hyd.

Canfu ein hadolygiad hefyd fod allbwn llafar Radio 1 yn ystod y dydd yn helpu i gyfleu dibenion cyhoeddus y BBC i gynulleidfa fawr o fewn ei rhaglenni adloniant, ond y gallai wneud hyd yn oed yn well. Eleni, mae'r BBC wedi ein hysbysu am nifer o newidiadau a wnaed ganddo i ymateb i'r her hon, gan gynnwys ehangu ei ffocws ar negeseuon ac ymgyrchoedd allweddol, megis ei fis gwirfoddoli, a thrwy ddarlledu nifer o eitemau unigol effaith uchel, megis rhifyn arbennig o *Newsbeat* ar yr argyfwng mewnfudwyr a rhaglen ddogfen a thrafodaeth arbennig *ISIS: Young, British and Radicalised*, yn dilyn yr ymosodiadau ym Mharis. Credwn fod Radio 1 wedi gwneud cynnydd da yn y maes hwn, ond byddwn yn parhau i fonitro cynnydd yn erbyn y cam gweithredu hwn.

Parhaodd 1Xtra i berfformio'n dda, gyda 6% o'i chynulleidfa darged o bobl ifanc rhwng 15 a 24 oed yn gwrando arni bob wythnos. Mae'n parhau i gyflawni ei chylch gwaith i wasanaethu gwrandawyr ifanc gyda cherddoriaeth a rhaglenni llafar nodedig.

## Radio 2 a 6 Music

Radio 2 yw'r orsaf y gwrandewir arni fwyaf o hyd yn y DU gyda 29% o oedolion yn gwrando bob wythnos. Ymhlith ei chynulleidfa darged, sef oedolion 35 oed a throsodd, mae'r cyrhaeddiad yn uwch fyth, sef 35%. Erys canfyddiadau gwrandawyr o ansawdd yr orsaf yn uchel.

Canfu ein hadolygiad gwasanaeth yn 2015 fod Radio 2 yn cyrraedd nifer sylweddol lai na'r cyfartaledd o wrandawyr o gefndiroedd pobl dduon, pobl Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn ei grŵp targed o bobl dros 35 oed, felly gwnaethom ofyn i'r BBC ddod o hyd i ffyrdd o ymdrin â'r anghysondeb hwn. Rydym wedi nodi cynlluniau Radio 2 ar gyfer amrywiaeth o fentrau golygyddol a mentrau eraill a gynlluniwyd i ymateb i'r her hon, er bod cyrhaeddiad yr orsaf eleni wedi parhau'n llawer is ymhlith gwrandawyr o gefndiroedd pobl dduon, pobl Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig dros 35 oed, sef 11% o gymharu â 37% ar gyfer gwrandawyr gwyn o'r oedran hwn. Er ein bod yn deall y gall fod angen amser i rai newidiadau gael effaith, disgwyliwn i'r BBC symud mor gyflym â phosibl er mwyn sicrhau bod gan y gwasanaeth prif ffrwd allweddol hwn apêl eang ar draws holl grwpiau ethnig y DU.

Cynyddodd cynulleidfa 6 Music unwaith eto eleni ac mae 4% o oedolion bellach yn gwrando arni bob wythnos, neu mwy na 2 filiwn o bobl. Dyma'r orsaf radio digidol â'r cyrhaeddiad uchaf o blith gorsafoedd radio



Canfu adolygiad gwasanaeth yr Ymddiriedolaeth o Radio 4 fod yr orsaf yn pennu'r safon ar gyfer rhaglennu radio llafar deallus, o ansawdd uchel




Casglodd adolygiad gwasanaeth yr Ymddiriedolaeth dystiolaeth fod y cyfryngau cymdeithasol yn cynyddu'n gyflym fel ffordd i'r gynulleidfa gael gafael ar Newyddion y BBC



Parhaodd ffigurau cynulleidfa BBC Asian Network yn sefydlog, gan gyrraedd 14% o Asiaid Prydeinig bob wythnos

digidol y BBC, a chynyddodd yr amser y mae gwrandawyr yn ei dreulio yn gwrando ar yr orsaf hefyd. Datgelodd ein hadolygiad o radio cerddoriaeth y llynedd fod ganddi ddilynwyr cadarn a theyrngar iawn; eleni, roedd gan wrandawyr yr orsaf feddwl uchel iawn ohoni o hyd.

## Asian Network

Eleni, mae cynulleidfa BBC Asian Network wedi parhau'n gymharol sefydlog, sef tua 595,000 o bobl bob wythnos. Nodwn nad yw nifer gwrandawyr Asian Network yn cynyddu. Yn unol â chylch gwaith ei thrwydded gwasanaeth i apelio at Asiaid Prydeinig, cyrhaeddodd yr orsaf 14% o Asiaid Prydeinig bob wythnos, a dyma oedd y mwyafrif helaeth (86%) o'i chynulleidfa.

## Radio 3

Bu perfformiad Radio 3 yn gadarn eleni: mae ei chynulleidfa wythnosol yn cynnwys tua 2 filiwn o bobl ac mae gan ei gwrandawyr feddwl uchel ohoni o hyd o ran ansawdd.

Yn ystod ein hadolygiad gwasanaeth yn 2015, gwnaethom edrych yn fanwl ar ei cherddoriaeth a'i rhaglennu, a daethom i'r casgliad fod yr orsaf yn nodedig iawn ac y dylai fanteisio i'r eithaf ar y natur nodedig honno ym mhob rhan o'r amserlen. Eleni, mae'r orsaf wedi gwneud rhai newidiadau bach sydd wedi helpu i bwysleisio ei natur nodedig ar adegau gwrando allweddol, megis amser brecwast. Cyflwynodd hefyd rai tymhorau rhaglennu arloesol, megis *New Year New Music*, a *Northern Lights*.

## Radio 4 a 4 Extra

Mae Radio 4 yn cyflawni dibenion cyhoeddus y BBC i bron 11 miliwn o wrandawyr, sy'n gwrando ar gyfartaledd am dros 11 awr bob wythnos. Canfu ein hadolygiad fod Radio 4 yn pennu'r safon ar gyfer rhaglennu radio llafar deallus, o ansawdd uchel. Mae gan ei chynulleidfa feddwl uchel ohoni, ac mae llawer ohonynt yn ei hystyried yn 'sefydliad cenedlaethol'. Mae'n creu cryn dipyn o werth cyhoeddus drwy gynhyrchu newyddion, drama, comedi a rhaglennu ffeithiol ar amrywiaeth o bynciau. Yn ein hadolygiad gwasanaeth, gwnaethom ofyn i'r orsaf ddod o hyd i ffyrdd o apelio at wrandawyr o gefndiroedd pobl dduon, pobl Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a oedd yr un mor llwyddiannus â'r ffyrdd y mae'n apelio at wrandawyr gwyn. Dengys ein hasesiad o gynnydd fod hyn yn her o hyd i'r orsaf ac rydym yn ei hystyried yn flaenoriaeth barhaus.

Mae gan wrandawyr Radio 4 Extra feddwl uchel ohoni, ac eleni, cynyddodd ei chynulleidfa i 2 filiwn ar gyfartaledd bob wythnos. Mae ei chynulleidfa wedi cynyddu mewn maint er gwaethaf toriadau i'r rhaglenni a gynhyrchir yn fewnol ganddi.

## Radio 5 live a 5 live Sports Extra

Mae 5.5 miliwn o bobl yn gwrando ar Radio 5 live bob wythnos ac yn gwerthfawrogi ei newyddion a'i chwaraeon byw o ansawdd uchel. Mae lefelau gwrando wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig ymhlith pobl ifancach. Mae darllediadau newyddion sy'n digwydd ar y pryd a chwaraeon byw 5 live yn wynebu cystadleuaeth o lawer o ffynonellau gwybodaeth ar-lein 'byw'. Mae 5 live yn ymateb i'r newidiadau hyn o ran arferion cynulleidfaoedd drwy esblygu ei harlwy darlledu ac ar-lein ei hun a newid y ffordd y mae'n cyflwyno ei hun fel mwy na chyfrwng ar gyfer newyddion sy'n digwydd ar y pryd.

Yn ein hadolygiad gwasanaeth, gwnaethom ofyn i'r BBC ystyried sut y mae'n hyrwyddo Radio 5 live, ac i roi mwy o bwyslais ar ei chylch gwaith newyddion er mwyn gallu atgyfnerthu ei henw da yn y maes hwn, ynghyd â'i henw da am ddarllediadau chwaraeon o ansawdd uchel. Ers hynny, mae 5 live wedi ymgymryd â nifer o fentrau i godi ymwybyddiaeth o newyddion ar yr orsaf, gan gynnwys ymgyrch farchnata sylweddol a datblygu ei harlwy digidol.

Gwnaethom ofyn hefyd i 5 live barhau i ddod o hyd i ffyrdd o apelio at ferched a gwrandawyr o gefndiroedd pobl dduon, pobl Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, yn arbennig o fewn rhaglenni newyddion ac i wella lefelau cyfranogiad gan ferched mewn sesiynau ffonio i mewn ac fel cyfranwyr arbenigol. Mae'r orsaf wedi gwneud rhywfaint o gynnydd da ers ein hadolygiad gyda llawer o fentrau a newidiadau golygyddol, ac rydym yn falch o weld canlyniad cadarnhaol yn deillio o hyn – mae lefelau gwrando ymhlith cynulleidfaoedd o bobl dduon, pobl Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig wedi cynyddu'n sylweddol eleni.

Mae gwrandawyr yn gwerthfawrogi'r ffaith bod 5 live Sports Extra yn rhoi mwy o ddewis iddynt o ran chwaraeon byw. Eleni, cyrhaeddodd gynulleidfa o 1.5 miliwn bob wythnos, cynnydd sylweddol ers y llynedd, er bod ffigurau gwrando yn dueddol o amrywio oherwydd ei hamserlen amrywiol. Ar ôl ystyried yr effaith bosibl ar gynulleidfaoedd ac ar y farchnad radio, ni wnaethom gymeradwyo cynnig i ehangu cylch gwaith 5 live Sports Extra er mwyn caniatáu iddi gynnig mwy na chwaraeon ychwanegol. Credwn fod yr orsaf ran amser yn parhau i gynnig gwerth i wrandawyr ar ei ffurf bresennol.

## Newyddion a materion cyfoes

Dangosodd ein Harolwg o Gylchoedd Gwaith Dibenion fod mwyafrif yr oedolion yn y DU yn dal i gredu bod y BBC yn cynnig newyddiaduraeth annibynnol o ansawdd uchel, er nad yw canfyddiadau o ran ymddiriedaeth yn Newyddion y BBC wedi dychwelyd i'w lefelau uchaf a welwyd yn 2012. Ar y cyfan, roedd canfyddiadau o ran cywirdeb a didueddrwydd unwaith eto yn gymharol sefydlog eleni.

Eleni, gostyngodd cyrhaeddiad wythnosol rhaglenni BBC Newyddion a materion cyfoes i 77% o oedolion y DU ar draws teledu, radio ac ar-lein. Caiff rhaglenni newyddion teledu'r BBC eu gwylio gan 65% o oedolion bob wythnos, ac mae 53% yn gwrando ar raglenni newyddion ar orsafoedd radio'r BBC i'r DU gyfan, a 26% yn defnyddio BBC Newyddion ar-lein bob wythnos. Fodd bynnag, nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys yn llawn y bobl sy'n defnyddio BBC Newyddion ar gyfryngau cymdeithasol. Drwy ein hadolygiadau gwasanaeth eleni, rydym wedi casglu tystiolaeth bod hyn yn cynyddu'n gyflym fel ffordd i bobl ddod o hyd i newyddion y BBC, yn enwedig y rheini na fyddent o bosibl yn edrych ar wefan ac apiau'r BBC ei hun.

Rydym yn parhau i ddisgwyl i'r BBC roi canfyddiadau ein hadolygiad o newyddion a materion cyfoes rhwydwaith ar waith, o ran datblygu mwy o amrywiaeth yn ei weithlu, ar yr awyr ac oddi ar yr awyr a chynyddu effaith allbwn materion cyfoes. Mae'n bleser gennym nodi nifer o raglenni materion cyfoes pwysig, effaith uchel eleni, gan gynnwys exposé *Panorama* o gam-drin corfforol mewn Sefydliad i Droseddwyr Ifanc.

## World Service

Eleni, cyrhaeddodd BBC World Service 246 miliwn o bobl ledled y byd bob wythnos. Mae hyn yn gynnydd sylweddol o gymharu â 210 miliwn yr wythnos yn ystod y flwyddyn flaenorol. Gyda'r datblygiadau parhaus o fewn marchnadoedd cyfryngau lleol yn cynnig mwy o ddewis i gynulleidfaoedd, mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu ansawdd yr allbwn a'r parch sydd gan bobl ledled y byd at y World Service a'u hoffter o'r gwasanaeth.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn cael gafael ar wasanaethau'r World Service drwy radio o hyd, naill ai yn Saesneg neu drwy un o'i wasanaethau iaith, gyda chyrhaeddiad yn cynyddu 10% i 145 miliwn. Fodd bynnag, ymhlith y gwasanaethau iaith yn unig, mae lefelau gwylio teledu bron yn cyfateb i lefelau radio ac yn tyfu ar gyfradd gyflymach. Yma, mae partneriaethau â sefydliadau cyfryngau lleol ym mhob gwlad yn bwysig iawn i'r World Service gyda hanner cyfanswm cyrhaeddiad y gwasanaeth yn cael ei gyflwyno drwy'r dull hwn.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol hefyd yn faes twf i'r World Service, yn arbennig yn Ne America ac Asia, er na welwyd yr un cynnydd mewn defnydd ar wefannau'r BBC ei hun. Bydd arian ychwanegol gan y llywodraeth yn galluogi'r World Service i ganolbwyntio ar wella ei arlwy cyfryngau digidol yn ogystal â chefnogi gwasanaethau iaith newydd.

## Ar-lein

Eleni, defnyddiwyd BBC Ar-lein gan tua 51% o oedolion yn y DU bob wythnos, cynnydd bach o 50% y llynedd. Gostyngodd sgoriau gwerthfawrogiad cynulleidfaoedd i BBC Ar-lein ychydig unwaith eto eleni i lefel o 73 o gymharu â 76 y llynedd, oherwydd yr ymateb i ail-lansio gwefan BBC Newyddion ar gyfer cyfrifiaduron bwrdd gwaith ac ail-lansio ei hafan ar gyfer dyfeisiau symudol. Mae sgoriau gwerthfawrogiad wedi dechrau gwella wrth i bobl ddod i arfer â'r newidiadau ond maent yn parhau i fod yn is nag yr hoffem iddynt fod.

Gofynnodd ein hadolygiad o Radio Lleol a newyddion a materion cyfoes y BBC yn Lloegr i'r BBC wella ei arlwy lleol ar y we ymhellach. Gwelwyd nad yw disgwyliadau cynulleidfaoedd yn cael eu bodloni o hyd yn y maes hwn er gwaethaf gwelliannau megis cyflwyno ffrydiau Local Live, sy'n darparu newyddion lleol mwy deinamig a chyfredol drwy gyfuno diweddariadau newyddion byr â dolenni i gynnwys ffurf hwy gan y BBC a darparwyr newyddion lleol eraill. Bydd angen i'r BBC barhau i wella cyflymder ei adroddiadau newyddion lleol a chynnig ffyrdd mwy hyblyg o gyflwyno'r straeon er mwyn bodloni disgwyliadau cyfnewidiol cynulleidfaoedd.

Yn gynyddol, mae'r BBC yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fel llwyfan ar gyfer ei gynnwys – ffordd bwerus o gyrraedd cynulleidfaoedd ifancach.

Mae nifer y bobl sy'n defnyddio BBC iPlayer wedi cynyddu eleni, er nad yw'n cael ei ddefnyddio gan gymaint o bobl â BBC One a BBC Two. Rydym wedi trafod yr her sy'n gysylltiedig â chynyddu'r defnydd o BBC Ar-lein gyda'r BBC drwy gydol y flwyddyn ac wedi cytuno ei fod yn fater y bydd angen i'r sefydliad barhau i ganolbwyntio arno yn y tymor hwy. Fel rhan o sicrhau bod iPlayer yn gyrchfan ar-lein ar gyfer gwneud mwy na dim ond dal i fyny, gwnaethom gymeradwyo cynnig gan y BBC eleni i gynnig cynnwys trydydd parti dethol ac i gyflwyno rhai o raglenni'r BBC am y tro cyntaf ar-lein.

Mae'r BBC wedi ceisio galluogi defnyddwyr i 'glicio ymlaen' i wefannau allanol yn haws er mwyn iddynt allu dod o hyd i gynnwys perthnasol, a gosodwyd amod gennym ar y gwasanaeth y dylai gynyddu nifer yr achosion o glicio ymlaen bob blwyddyn er mwyn cynyddu'r rôl hon. Fodd bynnag, eleni, ni chynyddodd nifer yr achosion o glicio ymlaen ond parhaodd yn sefydlog ar gyfartaledd o 17.8 miliwn y mis. Rydym yn aros am esboniad o hyn gan y BBC. Rydym yn parhau i fod o'r farn os bydd y BBC yn parhau i chwarae rhan bwysig fel llwyfan ar gyfer mynediad i gynnwys gan drydydd partïon, y dylai allu sicrhau twf yn y maes hwn.

Rydym hefyd wedi nodi eleni sut mae'r BBC yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn gynyddol fel llwyfan ar gyfer ei newyddion a chynnwys arall. Mae'r llwyfannau hyn yn ffordd bwerus i'r BBC gyrraedd cynulleidfaoedd ifancach na fyddant o bosibl yn dewis ymweld â gwefan neu apiau'r BBC ei hun, ond maent yn cyflwyno heriau i'r BBC o ran cynnal rheolaeth olygyddol dros ei gynnwys a gallu mesur y defnydd ohono.



Cyrhaeddodd BBC World Service bron 250 miliwn o bobl ledled y byd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

# Cynnal safonau golygyddol

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae mwyafrif llethol cynnwys y BBC yn cydymffurfio â'r safonau heriol a bennwyd gan Ganllawiau Golygyddol y BBC.

Disgwylir i'r BBC ddangos y safonau golygyddol uchaf bob amser. Mae'r cyhoedd yn disgwyl i'r BBC ddangos lefel uwch o ddidueddrwydd na darlledwyr eraill, a hynny'n briodol, yn ogystal â'r safonau uchaf o ran tegwch, uniondeb a chywirdeb. Yr Ymddiriedolaeth sy'n pennu ac yn plismona'r safonau hyn, ac mae'n ceisio sicrhau y caiff gwersi eu dysgu pan fydd y BBC yn gwneud camgymeriadau.

Yn 2016, cynhaliwyd etholiadau yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban, ac etholiadau lleol yn Lloegr. Cynhelir refferendwm ar aelodaeth y DU o'r UE ym mis Mehefin. Wrth baratoi ar gyfer y digwyddiadau gwleidyddol pwysig hyn, aeth yr Ymddiriedolaeth ati i ymgynghori ar Ganllawiau Etholiadau Gwleidyddol a Chanllawiau Refferendwm, ac yna eu cymeradwyo. Hefyd, cymeradwyodd feini prawf dyrannu ar gyfer Darllediadau Pleidiau Gwleidyddol, Darllediadau Etholiadol Pleidiau a Darllediadau Ymgyrch y Refferendwm.

## Didueddrwydd

Ystyrir o hyd mai'r BBC yw darlledwr mwyaf diduedd y DU. Pan ofynnwyd i'r cyhoedd enwi'r darlledwr y byddent yn ei ddewis gyntaf ar gyfer darllediadau newyddion diduedd, enwyd BBC Newyddion gan 50% ohonynt. Hefyd, roedd 58% o'r bobl y gofynnwyd iddynt o'r farn mai BBC Newyddion yw'r darlledwr mwyaf dibynadwy a chywir.

Yn ystod cyfnod y Siarter hon, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal saith adolygiad o ddidueddrwydd a chywirdeb allbwn y BBC. Roedd y rhain yn ddarnau pwysig o waith a lwyddodd nid yn unig i gynnal safonau, ond hefyd i'w gwella. Mae'r Ymddiriedolaeth o'r farn y dylai bwrdd newydd y BBC barhau i gomisiynu'r adolygiadau hyn er mwyn diogelu didueddrwydd a chywirdeb y BBC yn y dyfodol.

### Didueddrwydd a chywirdeb y BBC o ran darlledu ystadegau

Comisiynodd yr Ymddiriedolaeth Banel annibynnol i archwilio'r ffordd y caiff ystadegau eu cyflwyno mewn rhaglennu newyddion a materion cyfoes. Cyflwynodd unigolion a sefydliadau dystiolaeth ar berfformiad y BBC o ran defnyddio ystadegau i'r Fonesig Jil Matheson, cyn Ystadegydd Cenedlaethol y DU, a Paul Johnson a Syr Peter Stothard, gyda chyngor gan Syr David Spiegelhalter. Ategwyd eu canfyddiadau gan ddadansoddiad o gynnwys a gomisiynwyd ar wahân gan Brifysgol Caerdydd a gwaith ymchwil i gynulleidfaoedd gan Oxygen Brand Consulting. Cyhoeddir yr adolygiad yn ystod haf 2016.

### Y ffordd y mae rhwydwaith y BBC yn darlledu newyddion o'r gwledydd – adolygiad dilynol o ddidueddrwydd


Yn 2008, aeth yr Ymddiriedolaeth ati i archwilio'r ffordd y mae rhwydwaith y BBC yn darlledu newyddion a materion cyfoes o bedair gwlad y DU. Canfu'r adroddiad bod darllediadau'r BBC yn ddiduedd ac yn cael eu gwerthfawrogi gan y rhan fwyaf o'u cynulleidfa, ond nodwyd diffygion a galwyd am gamau i fynd i'r afael â hwy. Yn 2010, cyhoeddodd yr Ymddiriedolaeth adolygiad dilynol a ganfu welliant amlwg yn y darllediadau, ond roedd rhai pryderon yn dal i fodoli. Yn 2015 penderfynodd yr Ymddiriedolaeth gomisiynu adolygiad dilynol arall gyda dadansoddiad o gynnwys gan Brifysgol Caerdydd. Cyhoeddir yr adolygiad dilynol hwn yn ystod haf 2016.


## Cwynion golygyddol

Defnyddiwn ein Pwyllgor Safonau Golygyddol i gynnal safonau'r BBC drwy ystyried cwynion golygyddol ac adroddiadau am achosion difrifol o dorri'r Canllawiau Golygyddol. Yma, adroddwn ar yr achosion difrifol o dorri'r Canllawiau Golygyddol a gafwyd eleni:

### *Human Planet* – *'Deserts: Life in the Furnace'*, BBC One

Daeth yn amlwg yn 2015 fod y rhaglen hon, a ddarlledwyd yn 2011, yn cynnwys darn camarweiniol o ffilm. Yn y rhaglen, gwelwyd llwythwr yn saethu tuag at flaidd a oedd wedi bod yn crwydro o amgylch y gwersyll ger ei gae. Fodd bynnag, bleiddgi rhannol ddof a oedd yn eiddo i aelod arall o'r llwyth oedd yr anifail dan sylw mewn gwirionedd, ac roedd y llwythwr yn saethu â'r bwriad o fethu. Camarweiniwyd y gynulleidfa gan y rhan hon o'r rhaglen, ac roedd hyn yn achos difrifol o dorri'r Canllawiau Golygyddol. Dechreuodd yr Uned Hanes Naturiol gynnal adolygiad o gyfres





Pan ofynnwyd i'r cyhoedd enwi'r darlledwr y byddent yn ei ddewis gyntaf ar gyfer darllediadau newyddion diduedd, enwyd BBC Newyddion gan 50% ohonynt

*Human Planet* er mwyn sicrhau na fu unrhyw achosion eraill posibl o dorri'r Canllawiau Golygyddol. Cafodd y rhan hon ei thorri o'r bennod a diweddarwyd hyfforddiant y BBC ers hynny er mwyn atal rhagor o achosion tebyg.

***What's the Point of… the Met Office?*, BBC Radio 4**

Mae *What's the Point of…?* yn edrych ar sefydliadau Prydeinig ac yn gofyn, mewn ffordd ddoniol ac ychydig yn bryfoclyd, beth yw eu diben. Roedd rhifyn 5 Awst 2015 yn ystyried y Swyddfa Dywydd ac yn cynnwys nifer o gyfeiriadau at newid yn yr hinsawdd a gwaith y Swyddfa Dywydd yn y maes hwn. Nododd y rhaglen fod safbwynt y Swyddfa Dywydd ynghylch newid yn yr hinsawdd yn ddadleuol ac ni ddywedodd yn glir fod ei gwaith - sy'n defnyddio arsylwadau seiliedig ar dystiolaeth ochr yn ochr â modelu cyfrifiadurol - yn cyd-fynd â'r farn wyddonol gyffredinol. Cyflwynodd y Bwrdd Gweithredol y rhaglen i sylw'r Pwyllgor Safonau Golygyddol ar y sail ei bod yn torri'r Canllawiau Golygyddol. Roedd yr Ymddiriedolwyr o'r farn y byddai disgwyliadau'r gynulleidfa ar gyfer y rhaglen hon yn caniatáu tipyn o ryddid i'r cyflwynydd asesu gwaith y Swyddfa Dywydd mewn ffordd hunandybus a doniol. Fodd bynnag, roeddent o'r farn na fyddai'r gynulleidfa wedi disgwyl i'r rhaglen arddel safbwynt ar wyddor hinsawdd sy'n wahanol i'r farn wyddonol gyffredinol heb ddatgan hynny'n glir i gynulleidfaoedd.

Roedd y Pwyllgor o'r farn bod hwn yn achos difrifol o dorri'r Canllawiau Golygyddol ar ddidueddrwydd a chywirdeb. Rhoddodd y Bwrdd Gweithredol sicrwydd i'r Ymddiriedolaeth na fyddai'r rhaglen yn cael ei hailddarlledu ac na fyddai ar gael ar-lein.

***Patagonia: Earth's Secret Paradise – 'Fire and Ice'*, BBC Two**

Roedd y rhaglen hon, a ddarlledwyd ar 25 Medi 2015, yn cynnwys darn 30 eiliad o hyd a oedd, yn ôl yr honiad, yn dangos storm o fellt a tharanau folcanig. Golygfa gyfansawdd oedd y darn o ffilm dan sylw, a oedd yn cynnwys mwy nag un darn o ffilm wedi'u golygu i greu un olygfa. Roedd yr olygfa yn cynnwys gwahanol ffrwydradau folcanig a stormydd mellt a tharanau, delweddau ffotograffig a darnau cyfoes o ffilm a gasglwyd o nifer o ffynonellau. Roedd fflachiadau mellt wedi cael eu ffilmio yn 2011 a'u harosod ar y ffilm o ffrwydrad folcanig Calbuco a ffilmiwyd yn 2015. Camarweiniwyd y gynulleidfa gan y rhan hon o'r rhaglen, ac roedd hyn yn achos difrifol o dorri'r Canllawiau Golygyddol. Cymerwyd nifer o gamau gweithredu, gan gynnwys blog ar-lein a ysgrifennwyd gan Gynhyrchydd y Gyfres yn esbonio ffynonellau'r clip, a thynnwyd y clip oddi ar wefan BBC Newyddion, iPlayer a BBC Store.

***Breakfast Show*, BBC Three Counties Radio**

Roedd y bennod ar 3 Tachwedd 2015 yn cynnwys adroddiad ar achos cyn weithiwr a phregethwr gwirfoddol mewn carchar a oedd yn cyflwyno achos gerbron tribiwnlys cyflogaeth. Roedd wedi dyfynnu adnodau o'r Beibl a oedd yn nodi cyfunrywioldeb mewn rhestr o bechodau, ac ymddiswyddodd pan ddywedwyd wrtho y byddai'n cael ei ddisgyblu. Roedd y rhaglen yn cynnwys cyfweliadau byw â chynrychiolydd o'r grŵp cyfreithiol a oedd yn cynrychioli'r cyn weithiwr ac, yn nes ymlaen yn yr un darllediad, â'r cyn weithiwr ei hun. Mynegodd y cyflwynydd ei farn yn rymus. Dywedodd y Bwrdd Gweithredol wrth yr Ymddiriedolaeth eu bod o'r farn bod hwn yn achos difrifol o dorri'r Canllawiau Golygyddol. Gwerthfawrogai'r Ymddiriedolwyr fod cyfiawnhad golygyddol clir dros fynd i'r afael â'r pwnc a thros herio'r cyfweledigion yn gadarn.

Roedd yr Ymddiriedolwyr o'r farn ei bod yn debygol y byddai gan y gwrandawyr safbwyntiau cryf – a chroes i'w gilydd – ar y pwnc. Roeddent o'r farn nad oedd y cyfweledigion yn y naill gyfweliad na'r llall wedi cael eu trin â'r parch priodol a'u bod, yn hytrach, wedi cael eu herio a'u beirniadu'n bersonol i raddau helaeth ac, ar y cyfan, bod naws y cyfweliadau yn amhriodol. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod hwn yn achos difrifol o dorri'r Canllawiau Golygyddol ar Ddidueddrwydd.

Roedd yr achos hwn o duedd yn dilyn nifer fach o achosion lle roedd cyflwynwyr radio lleol eraill, wrth geisio ymgysylltu â'u cynulleidfaoedd, wedi mynegi barn bersonol, a hynny'n groes i'r Canllawiau Golygyddol. Nododd yr Ymddiriedolwyr fod y Bwrdd Gweithredol hefyd yn pryderu am hyn a'i fod wedi llunio rhaglen hyfforddi wyneb yn wyneb ar gyfer cyflwynwyr a thimau eu rhaglenni, a fyddai'n cael ei chyflwyno i bob un o wasanaethau Radio Lleol y BBC yn ystod chwarter cyntaf 2016.

***Don't Make me Laugh*, BBC Radio 4**

Cafodd rhifyn 21 Ebrill 2016 y rhaglen banel gomedi hon ei ddarlledu am 6.30pm ar ddiwrnod pen-blwydd y Frenhines. Rhoddir pwnc i'r cystadleuwyr ei drafod gan geisio peidio â gwneud i'r gynulleidfa chwerthin. Os yw'r gynulleidfa yn chwerthin, caiff y pwnc ei drosglwyddo i gystadleuydd arall. Yn yr achos hwn, y pwnc oedd 'the Queen must have had sex at least four times'. Yn dilyn nifer sylweddol o gwynion, datganodd y BBC achos difrifol o dorri'r Canllawiau Golygyddol i'r Ymddiriedolaeth.

Roedd yr Ymddiriedolwyr yn cydnabod y gall comedi syfrdanu pobl a bod Radio 4 yn comisiynu comedi arloesol ac yn cymryd risgiau. Fodd bynnag, roeddent yn cytuno bod yr hiwmor yn waradwyddus ac yn ddi-chwaeth. Roedd hyn y tu hwnt i ddisgwyliadau cynulleidfa'r rhaglen a'r safonau a dderbynnir yn gyffredinol. Roedd hwn yn achos o dorri'r Canllawiau Golygyddol ar Niwed a Thramgwydd. Roedd y tramgwydd yn waeth o ystyried dyddiad y darllediad. Cafwyd methiant o ran barn a chydymffurfiad gan fod y ffurflen gydymffurfiad wedi cael ei llenwi'n anghywir. Roedd yr Ymddiriedolwyr yn cytuno bod y BBC wedi gweithredu'n amserol drwy: ymddiheuro ar ddiwrnod y darllediad; dileu'r rhaglen o iPlayer; symud gweddill y gyfres i 11pm; ysgrifennu at Uwch Gynhyrchydd y cwmni cynhyrchu dan sylw; a chyflwyno fersiwn newydd o'r ffurflen gydymffurfiad.

# Dangos gwerth am arian

Eleni, mae'r BBC wedi cyflawni £621 miliwn o arbedion fel rhan o'i raglen pum mlynedd i arbed £700 miliwn. Mae'r setliad ariannu amlinellol yn golygu y bydd yn rhaid i'r BBC ddatblygu rhagor o gynlluniau uchelgeisiol er mwyn arbed £800 miliwn erbyn 2022.

Dywed cynulleidfaoedd wrthym mai gwerth am arian yw un o'u prif flaenoriaethau ar gyfer y BBC. Dengys ein hymchwil fod 87% o bobl o'r farn ei fod yn bwysig neu'n bwysig iawn, a bod cynulleidfaoedd yn ei ystyried yr un mor bwysig ag amcanion allweddol eraill fel darparu newyddion a materion cyfoes diduedd a rhaglenni a chynnwys ar-lein o ansawdd uchel.

Am y rheswm hwn, gwnaethom waith ymchwil er mwyn canfod sut mae canfyddiad cynulleidfaoedd o werth am arian y BBC yn cymharu â'r pedwar prif ddarparwr teledu tanysgrifio. Drwy ddefnyddio arolwg ICM cynrychiadol, gwelsom fod y gyfran o bobl sydd o'r farn bod y BBC yn cynnig gwerth da iawn ddwywaith yn uwch na'r gyfran ar gyfer unrhyw rai o'r darparwyr teledu tanysgrifio.

## Arbedion nawr ac yn y dyfodol

Er mwyn parhau i fodloni'r disgwyliadau hyn o ran gwerth am arian, datblygodd y BBC Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf, sef rhaglen o arbedion sydd â'r nod o gyflawni lleihad parhaol o £700 miliwn yn sylfaen costau'r BBC. Rydym bellach wedi cyrraedd blwyddyn olaf y rhaglen hon, a disgwylir i'r holl arbedion gael eu cyflawni. Mae'r £700 miliwn o arbedion drwy Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf, y mae'r rhan fwyaf ohonynt eisoes wedi cael eu cyflawni, yn rhan o'r newid sylweddol ehangach gwerth £1.6 biliwn o ran effeithlonrwydd a gwerth am arian y bydd y BBC wedi'i gyflawni erbyn diwedd cyfnod y Siarter hon.

Gan edrych ymlaen at bum mlynedd gyntaf y Siarter nesaf, mae'r BBC wedi cytuno ar setliad ariannu amlinellol gyda'r Llywodraeth. Ni all yr Ymddiriedolaeth gefnogi'r ffordd y cyrhaeddwyd y setliad hwn heb unrhyw fewnbwn gan y rheini sy'n talu am y BBC ac yn defnyddio ei wasanaethau. Fodd bynnag, mae'r fframwaith ariannol yn rhoi sicrwydd er mwyn galluogi'r BBC i gynllunio ar gyfer yr hirdymor.

Mae'r gwaith o gynllunio ar gyfer y Siarter nesaf, a'r arbedion y bydd eu hangen ar y setliad ariannu, eisoes wedi dechrau. Bydd angen i'r BBC arbed £800 miliwn y flwyddyn erbyn 2022 er mwyn ariannu effaith gwerth £400 miliwn y setliad ariannu, y gostyngiad o £150 miliwn mewn incwm o ganlyniad i'r gostyngiad mewn cyfraddau treiddio teledu, cost £150 miliwn cynigion y Siarter newydd, yn ogystal â'r £100 miliwn yr amcangyfrifir y bydd ei angen i ariannu gorchwyddiant mewn meysydd megis chwaraeon a drama.

Mae'r gwaith o nodi arbedion eisoes wedi dechrau ym mhob un o is-adrannau'r BBC, ond bydd yn rhaid gwneud dewisiadau anodd yn y dyfodol wrth i'r arbedion sylweddol hyn gael eu trosi'n gynlluniau y mae modd eu cyflawni.

> Mae'r setliad y cytunwyd arno gyda'r Llywodraeth yn golygu bod penderfyniadau anodd ynghylch gwasanaethau yn anochel.
>
> *Nick Prettejohn, un o Ymddiriedolwyr y BBC*

## Barn gyhoeddus

Mae bron i dri o bob pum ymatebydd (57%) i Arolwg blynyddol yr Ymddiriedolaeth o Gylchoedd Gwaith Dibenion yn teimlo bod eu cartref yn cael gwerth 'da iawn' neu 'eithaf da' am arian o ffi'r drwydded. Mae hwn yn feincnod pwysig sydd wedi aros yn gymharol gyson ers 2008. O ystyried gwydnwch y mesur hwn, roedd yr Ymddiriedolaeth am gael gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n llywio barn y cyhoedd ynglŷn â gwerth am arian y BBC, felly gwnaethom hyn yn ffocws un o seminarau



Dywed cynulleidfaoedd wrthym mai gwerth am arian yw un o'u prif flaenoriaethau ar gyfer y BBC



Yn 2015, cyhoeddodd y BBC y byddai'n gwerthu ac yn isosod ei safle Media Village yng Ngorllewin Llundain

## Crynodeb o berfformiad

### Arbedion
Mae rhaglen arbedion y BBC – Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf – ar y trywydd cywir i gyflawni lleihad parhaol gwerth £700 miliwn yn sylfaen costau'r BBC erbyn diwedd y flwyddyn nesaf.

**Sut mae'r BBC yn cymharu**


**£621m**

**Arbedion cynaliadwy eleni**

### Y camau nesaf
— byddwn yn parhau i fonitro'r rhaglen arbedion er mwyn sicrhau y caiff yr arbedion sy'n weddill eu cyflawni gan effeithio cyn lleied â phosibl ar gynulleidfaoedd

### Lleihau'r bwlch cyflog
Mae'r lluosrif cyflog yn dangos y gymhareb rhwng enillion canolrifol staff y BBC a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol.


**Sut mae'r BBC yn cymharu**




### Y camau nesaf
— byddwn yn parhau i fonitro sefydliadau eraill tebyg er mwyn asesu perfformiad

### Lleihau nifer yr uwch reolwyr
Bum mlynedd yn ôl, ymrwymodd y BBC i barhau i leihau cyfanswm nifer yr uwch reolwyr a'u cost gyffredinol.

**Bil cyflog a nifer yr uwch reolwyr**





### Y camau nesaf
— mae'r strategaeth wedi cael ei hymestyn tan hydref 2016. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn ceisio sicrhau bod gwaith da'r BBC yn y maes hwn yn parhau

### Cystadlu neu gymharu
Rydym yn disgwyl gallu asesu bron i 90% o'n sylfaen costau drwy naill ai gystadleuaeth uniongyrchol neu gymhariaeth a meincnodi manwl.

**Sut mae'r BBC yn cymharu**
Ffynhonnell: Adroddiad effeithlonrwydd PwC

Nod y BBC yw asesu 90% o'i sylfaen costau

Faint o'r sylfaen costau a aseswyd mewn gwirionedd




### Y camau nesaf
— byddwn yn parhau i herio'r BBC er mwyn sicrhau bod y gyfran fwyaf bosibl o wariant yn destun cystadlu neu gymharu ac yn cyhoeddi'r gyfran o wariant y nodir ei bod yn effeithlon

> Mae BBC rhydd a diduedd sy'n annibynnol yn olygyddol yn hollbwysig nid yn unig i farchnad y cyfryngau ond hefyd o ran darparu newyddion a lluosogrwydd.
>
> *John Whittingdale AS, Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon*

cyhoeddus yr Ymddiriedolaeth a gynhaliwyd yn ystod yr hydref y llynedd.

Ffocws y seminar cyntaf oedd pwy sy'n llywodraethu'r BBC, a ffocws yr ail oedd ariannu a gwerth am arian. Yn y ddau seminar, dywedodd cyfranogwyr bod perthynas gynhenid rhwng annibyniaeth y BBC a'r ffordd y caiff ei ariannu, ac y gallai unrhyw niwed i fodel ffi'r drwydded leihau annibyniaeth y BBC. Mae ein gwaith ymchwil i'r gynulleidfa yn ategu'r pryder hwn.

Roedd cyfranogwyr eraill yn y seminar ariannu yn cwestiynu pam nad oedd y BBC yn achub ar y cyfle a oedd yn gysylltiedig â'r Adolygiad o'r Siarter i ddiwygio ffi'r drwydded yn llwyr ar gyfer yr oes ddigidol. Roedd yr ymatebion i'n ymgynghoriad cyhoeddus yn fwy cymysg ar y pwynt hwn, gyda mwyafrif yr ymatebwyr yn ffafrio newid llai radical. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o blaid ffi'r drwydded (wedi'i diweddaru er mwyn cynnwys gwasanaethau dal i fyny fel iPlayer). Ond roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn erbyn system ffi'r drwydded gyda chyfraniadau ychwanegol am wasanaethau tanysgrifio'r BBC. Yr hyn a oedd yn amlwg iawn yn y gwaith ymchwil a'r seminarau oedd pwysigrwydd system ariannu a fyddai'n cefnogi'r BBC fel gwasanaeth cyffredinol sydd am ddim i bawb wrth ei dderbyn. Mae cylch gwaith cyffredinol y BBC yn hynod o bwysig i gynulleidfaoedd ac maent am iddo barhau.

Mae'n galonogol na wnaeth y Llywodraeth geisio newid daliadau craidd y system ariannu na natur gyffredinol y BBC yn y Papur Gwyn.

## Rôl y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (SAG)

Mae cyfrifoldeb ar yr Ymddiriedolaeth o dan y Siarter i sicrhau bod ffi'r drwydded yn cael ei gwario'n effeithlon ac yn effeithiol. Mae'r adolygiadau gwerth am arian a gynhelir gan SAG yn rhan annatod o'r fframwaith llywodraethu y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei ddefnyddio i gyflawni'r cyfrifoldeb hwn. Mae'r adolygiadau hyn, ynghyd ag adolygiadau eraill a gomisiynir gan yr Ymddiriedolaeth, yn ein helpu i ddwyn y Bwrdd Gweithredol i gyfrif a chynnig argymhellion ymarferol er mwyn gwella prosesau a rheolaethau.

O dan y Siarter a'r Cytundeb, gall y Swyddfa Archwilio Genedlaethol gynnal adolygiadau pryd bynnag y mae'n dymuno, ar ba bynnag bwnc y mae'n dymuno. Mae ganddi hefyd hawl i gael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arni i gefnogi ei gwaith, ond, er mwyn diogelu annibyniaeth a rhyddid golygyddol y BBC, fe'i gwaherddir rhag cwestiynu teilyngdod penderfyniadau golygyddol a barn greadigol. Mae cryfder y trefniant presennol i'w weld yn nifer yr adolygiadau cynhwysfawr ac effaith uchel a gynhaliwyd yn ystod cyfnod y Siarter ddiwethaf, gan gynnwys pynciau fel symud y BBC i Salford, prosiect Menter y Cyfryngau Digidol (DMI) a Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf, sef rhaglen arbedion y BBC.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn falch bod Papur Gwyn y Llywodraeth wedi cynnig y dylai'r hawl hon i gael gafael ar wybodaeth a gwaith pwysig SAG barhau yn ystod cyfnod y Siarter nesaf fel rhan o'r broses o sicrhau bod trefniadau llywodraethu a rheoleiddio da ar waith ar gyfer y BBC. Wrth i'r trafodaethau â'r Llywodraeth fynd rhagddynt, ac wrth bennu faint o wybodaeth y bydd gan SAG hawl i'w chael, mae'n bwysig ceisio canfod cydbwysedd rhwng perthynas agos SAG â'r senedd a'r 81% o bobl sydd o'r farn ei bod yn bwysig i'r BBC fod yn annibynnol ar y llywodraeth ac ASau. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen cynnal y mesurau diogelu golygyddol presennol ac ymgorffori mesurau diogelu ychwanegol sy'n ymwneud â budd masnachol a chyfrinachedd.

## Adolygiadau SAG

Eleni, cynhaliodd SAG adolygiad o'r ffordd y mae'r BBC yn rheoli ei brosiectau pwysicaf. Mae'r adolygiad yn gyfle amserol i fyfyrio ynghylch y newidiadau a wnaed o ran rheoli prosiectau, effaith y newidiadau hyn, a'r cyfleoedd a geir i wella'r ffordd y caiff prosiectau critigol y BBC eu cyflawni ymhellach, dair blynedd ar ôl methiant prosiect TG Menter y Cyfryngau Digidol (DMI).

Cynhaliodd SAG adolygiad o'r trefniadau sicrwydd newydd sydd ar waith ers 2013.



Yn ystod cyfnod y Siarter hon, mae SAG wedi adolygu sawl un o brosiectau mawr y BBC, er enghraifft symud nifer o adrannau allweddol i Salford



Canfu SAG fod BBC World Service wedi cyflawni arbedion drwy fuddsoddi mewn gwasanaethau teledu a digidol newydd

Canfu'r adolygiad fod cyflwyno pwynt atebolrwydd unigol a chynllun cymeradwyo a sicrwydd integredig ar gyfer pob prosiect (sy'n nodi'r cymeradwyaethau a'r adolygiadau a gynhelir) wedi gweithio'n dda yn y mwyafrif o achosion. Daeth SAG i'r casgliad bod y BBC wedi atgyfnerthu ei brosesau goruchwylio drwy gyflwyno adroddiadau yn gyflymach ac yn amlach ar berfformiad prosiectau. Yn ei dro, mae hyn wedi tynnu sylw'r Bwrdd Gweithredol at broblemau yn gyflymach nag o'r blaen, gan ei alluogi i ymateb yn fwy amserol.

Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth a SAG yn cytuno y gallai'r Bwrdd Gweithredol wneud mwy o gyfraniad at reoli'r portffolio. Yn benodol, byddai gwybodaeth fwy cyson ar lefel portffolio am gostau, buddiannau a chyfraniad prosiectau at amcanion strategol yn helpu'r Bwrdd Gweithredol i reoli'r gwaith o gyflawni'r holl brosiectau critigol yn well.

Mae SAG hefyd wedi adolygu'r World Service, gan archwilio ei berfformiad ers 2010. Canfu'r adolygiad fod y World Service wedi llwyddo i gyflawni'r rhan fwyaf o'r hyn roedd wedi bwriadu ei gyflawni. Mae wedi buddsoddi mewn gwasanaethau teledu a digidol newydd, wedi integreiddio ei wasanaethau'n agosach â gweddill y BBC a, thrwy wneud hynny, wedi cyflawni arbedion tra'n cyrraedd tua 246 miliwn o bobl yn 2015/16.

Mae SAG wedi dod i'r casgliad bod y trawsnewid hwn wedi sicrhau gwerth am arian ond mae hefyd wedi gwneud argymhellion ar gyfer gwella'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn pennu targedau ac yn adrodd ar berfformiad.

## Prosiectau mawr eraill

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymeradwyo nifer o brosiectau mawr eraill eleni, gan gynnwys ailgaffael y contract Darlledu (a ddefnyddir ar gyfer rheoli a defnyddio ffeiliau cyfryngau digidol ar adeg darlledu) a defnyddio personél ac adnoddau mewnol yn Ystafelloedd Rheoli Cyfryngau'r BBC (sy'n rheoli symudiad cyfryngau darlledu i mewn i'r BBC, allan ohono ac o'i gwmpas). Mae'r ddau brosiect yn cyflawni arbedion sylweddol i'r BBC a fydd yn cael eu hailfuddsoddi mewn cynnwys a gwasanaethau i gynulleidfaoedd eu mwynhau.

Hefyd eleni, cwblhaodd y BBC y broses a gynlluniwyd i symud staff o'i ystad yng Ngorllewin Llundain. Mae hyn wedi ei alluogi i isosod tri o'r pum adeilad a oedd yn cael eu defnyddio'n flaenorol yn Media Village. Bydd y safle nawr yn cael ei ailddatblygu, gyda'r elw'n cael ei ailfuddsoddi mewn rhaglenni a gwasanaethau newydd.

## Cyflogau

Yn ystod y flwyddyn, cytunodd yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol i ymestyn y strategaeth gyflogau bresennol ar gyfer uwch reolwyr tan hydref 2016, pan fydd gwaith ar strwythur sefydliadol y BBC wedi dod yn ei flaen yn ddigonol i allu pennu targedau newydd ystyrlon. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys: lleihau nifer yr haenau o fewn y BBC; sicrhau llinellau adrodd clir; a safoni teitlau swyddi, rolau a chyfrifoldebau o fewn y sefydliad. Bydd y camau gweithredu hyn yn helpu i barhau i leihau nifer yr uwch reolwyr sydd eu hangen i gyflawni cenhadaeth y BBC.

Mae'r BBC wedi sicrhau lleihad o 109 yn nifer yr uwch reolwyr a gostyngiad o fwy na £10 miliwn yn y bil cyflogau ers 2011. Yn ystod cyfnod o gystadleuaeth a chwyddiant cynyddol yn y diwydiant darlledu, mae'r rhain yn gyflawniadau arwyddocaol iawn ond mae dau darged yn dal i fod heb eu cyrraedd, sef sicrhau nad yw mwy nag 1% o'r gweithlu yn uwch reolwyr a sicrhau lleihad o 20% yn y nifer sy'n ennill mwy na £150,000. Mae cynnydd wedi cael ei wneud yn erbyn y targed 1% yn ystod y 12 mis diwethaf ond mae'n annhebygol y bydd y targed yn cael ei gyrraedd cyn i strategaeth newydd gael ei rhoi ar waith, gan ei fod yn dibynnu ar ragor o newidiadau sylfaenol i strwythurau rheoli mewnol y BBC.

Mae cyfyngu ar gyflogau uwch reolwyr hefyd i'w weld ar lefelau uchaf y BBC; nid yw'r Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi cael codiad cyflog ers iddo ymuno â'r BBC yn 2013, ac mae'n ennill llai o lawer na phrif weithredwyr ITV, Channel 4 a Sky. Mae'r lluosrif cyflog wedi gostwng eto eleni i 10.4 gwaith enillion canolrifol staff y BBC.

Mae costau talent yn faes gwariant arall lle mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymateb i bryderon y cyhoedd drwy annog mwy o dryloywder ac asesu p'un a yw'r BBC yn cael gwerth am arian. Ers ein hadolygiad cyntaf o gyflogau talent yn 2008, mae'r BBC wedi bod yn fwy agored ynglŷn â faint o dalent ar y sgrîn ac ar yr awyr a gyflogir, ac am ba gost. Dros yr wyth mlynedd diwethaf, mae'r gwariant cyffredinol ar dalent wedi gostwng 12.7% ac mae nifer y perfformwyr a chyflwynwyr a gyflogir wedi lleihau 29%.

# Gwasanaethu cynulleidfaoedd ledled y DU

Rhaid i'r BBC anelu at wasanaethu pob cynulleidfa yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr â rhywbeth o werth, er mwyn cyflawni ei ddibenion cyhoeddus. Ar y cyd â'n cyrff ymgynghorol, y Cynghorau Cynulleidfa, mae'r Ymddiriedolaeth wedi asesu pa mor dda y mae'r BBC wedi perfformio ledled y DU eleni.

Rydym o'r farn bod y ffaith bod bron i bawb yn y DU yn dal i lwyddo i ddod o hyd i rywbeth sy'n berthnasol iddynt gan y BBC yn gyflawniad sylweddol. Eleni, mae'r BBC wedi cynnal ei gyrhaeddiad cyffredinol, fwy neu lai, gyda 96% o oedolion y DU yn gwylio ei gynnwys, yn gwrando arno neu'n ei gyrchu bob wythnos.

Fodd bynnag, rhaid i'r BBC barhau i weithio'n galed er mwyn parhau'n berthnasol wrth i amrywiaeth ei gynulleidfa gynyddu ac wrth i'w hanghenion newid. Ar ddechrau cyfnod y Siarter hon, cytunodd yr Ymddiriedolaeth ar amcanion gyda'r BBC y câi mwy o'i raglenni teledu rhwydwaith ei gynhyrchu y tu allan i Lundain, gyda'r gyfran a wnaed yn y gwledydd datganoledig yn unol â'r boblogaeth yn y gwledydd hynny. Bu'r datblygiad hwn yn newid mawr, gan wella gallu'r BBC i gynrychioli pobl o bob cwr o'r DU. Gostyngodd lefelau ychydig eleni, ond mae'r BBC ar y trywydd cywir o hyd i gyrraedd y targedau y cytunwyd arnynt ar gyfer 2016.

Eleni, rydym hefyd wedi gwneud ymrwymiadau i roi mwy o atebolrwydd i Gynulliad Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Caiff yr adroddiad hwn ei gyflwyno gerbron y deddfwrfeydd hynny a byddwn yn ateb cwestiynau am berfformiad y BBC gan eu pwyllgorau craffu perthnasol. Rydym yn ymrwymedig i ymgysylltu mwy â'r priod wledydd, gan ddarparu gwybodaeth berthnasol am weithrediadau'r BBC er mwyn iddynt allu craffu ar ein perfformiad yn effeithiol. Mae adroddiad eleni yn cymryd cam i'r cyfeiriad hwnnw, ond bydd angen i Fwrdd newydd y BBC sicrhau bod adroddiad y flwyddyn nesaf yn cymryd camau pellach.

## Cymru

### Asesiad yr Ymddiriedolaeth

Yn hanesyddol, mae'r BBC wedi dangos perfformiad cadarn yng Nghymru. Er bod teledu'r BBC yn perfformio'n well yng Nghymru nag unrhyw un o wledydd eraill y DU (ac yn well na'r DU yn gyffredinol), cafwyd gostyngiad ychydig yn fwy o ran cyrhaeddiad wythnosol nag a gafwyd mewn rhannau eraill o'r DU, o 85% i 83%. Mae gwerthfawrogiad cynulleidfaoedd o deledu'r BBC yng Nghymru wedi gostwng ychydig ond erys yn uchel.

Mae rhaglenni teledu dewisol yn parhau'n boblogaidd ac mae BBC Cymru yn awyddus i ehangu amrywiaeth y cynnwys a gynhyrchir i gynulleidfaoedd yng Nghymru ac i atgyfnerthu'r ffordd y caiff Cymru ei phortreadu ar y sgrîn, ond gan ystyried cyfyngiadau ariannu. Mae hyn yn her o ystyried cyfyngiadau cyllido'r BBC.

Mae radio'r BBC yn perfformio'n well yng Nghymru nag yng ngwledydd eraill y DU o ran cyrhaeddiad cynulleidfaoedd ac o ran eu canfyddiadau o'i ansawdd. Mae Radio 1 a Radio 2 yn dangos perfformiad arbennig o gryf ond gostyngodd cyrhaeddiad a chyfran cynulleidfaoedd Radio Wales a Radio Cymru rywfaint.

### Asesiad Cyngor Cynulleidfa Cymru

Fel rhan o'i waith allgymorth helaeth eleni, mae Cyngor Cynulleidfa Cymru wedi clywed cryn dipyn am y meddwl mawr sydd gan gynulleidfaoedd yng Nghymru o'r BBC a'r rôl allweddol y mae'r BBC yn ei chwarae, yn eu barn hwy, mewn bywyd cenedlaethol yng Nghymru, o ran ei raglennu Cymraeg a Saesneg eu hiaith.

Mae'r Cyngor wedi clywed pryderon gan y gynulleidfa am y nifer isel o raglenni o ansawdd uchel a wneir gan BBC Cymru Wales ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru, yn enwedig dramâu a chomedïau. Mae cynulleidfaoedd yn awyddus i'r BBC allu portreadu'r wlad iddi hi ei hun o ran rhaglennu i Gymru ac o ran rhaglennu a wneir i'r DU gyfan.

Nododd y Cyngor rai gwelliannau sylweddol o ran gallu BBC Newyddion i gymharu safbwyntiau polisi a deddfwriaeth ledled gwledydd y DU, ond hoffai cynulleidfaoedd weld mwy o hyn. Mae'r Cyngor hefyd wedi clywed pobl ifancach yng Nghymru eleni yn mynegi barn fwy amheus am annibyniaeth newyddion y BBC ac ymddengys fod hyn yn effeithio ar eu canfyddiad o berthnasedd y BBC iddynt hwy.



Mae Cynghorau Cynulleidfa'r Ymddiriedolaeth yn asesu pa mor dda y mae'r BBC yn perfformio ledled y DU

## Crynodeb o berfformiad

### Cyrhaeddiad gwasanaethau'r BBC

Dylai'r BBC sicrhau bod ei gynnwys ar gael yn eang i holl dalwyr ffi'r drwydded mewn ffyrdd sy'n gyfleus iddynt hwy.

**Sut mae'r BBC yn cymharu**

Ffynhonnell: Arolwg BBC Pulse

**96%**

2014/15: **97%**


**Y camau nesaf**

— rhaid i'r BBC barhau i weithio'n galed er mwyn parhau'n berthnasol wrth i amrywiaeth ei gynulleidfa gynyddu ac wrth i'w hanghenion newid

### Canran gwariant y rhwydwaith y tu allan i Lundain

Pennodd yr Ymddiriedolaeth darged i'r BBC sicrhau bod 50% o wariant y rhwydwaith y tu allan i Lundain erbyn 2016.

**Sut mae'r BBC yn cymharu**





**Y camau nesaf**

— mae creu cynnwys y tu allan i Lundain yn ffordd bwysig y gall y BBC wneud mwy i gynrychioli ac adlewyrchu cynulleidfaoedd ledled y DU. Rydym yn disgwyl i'r targed hwn barhau

### Cynrychioli'r gwledydd a'r rhanbarthau

Mae'r map yn dangos % y bobl ym mhob gwlad sydd o'r farn bod y BBC yn llwyddo i gynrychioli eu bywyd mewn cynnwys newyddion a materion cyfoes.

**Sut mae'r BBC yn cymharu**




**Y camau nesaf**

— mae darparu allbwn sy'n cynrychioli'r DU gyfan yn her allweddol o hyd a byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa drwy gydol gweddill y flwyddyn

Mae cynulleidfaoedd yng Nghymru yn parhau i werthfawrogi'r BBC fel hysbyswr ac addysgwr o ran ei raglennu Cymraeg a Saesneg eu hiaith ac o ran ei arlwy addysgol, megis Bitesize.

Cyflwynir asesiad llawn y Cyngor ar wefan yr Ymddiriedolaeth.

### Yr Alban

**Asesiad yr Ymddiriedolaeth**

Ar ôl 2014, lle denodd darllediadau'r BBC o ddau ddigwyddiad pwysig yn yr Alban – Gemau'r Gymanwlad yn Glasgow a Refferendwm Annibyniaeth yr Alban – gynulleidfaoedd mawr, mae'n braf gweld bod cyrhaeddiad teledu'r BBC wedi parhau'n gadarn yn 2015/16, gyda gostyngiad llai na'r lefel ledled y DU yn gyffredinol. Perfformiodd rhaglenni dewisol BBC Scotland ar BBC One a BBC Two yn gadarn gan barhau i chwarae rhan bwysig wrth roi hwb i gynrychiolaeth a phortreadau o'r Alban ar deledu'r BBC.

Cynyddodd cyrhaeddiad wythnosol radio'r BBC yn yr Alban ychydig yn ystod y flwyddyn, er ei fod islaw cyfartaledd y DU o hyd. Cyfrannodd rhywfaint o dwf gan Radio Scotland at y perfformiad cryf hwn.

Cynyddodd nifer gwrandawyr yr orsaf ar gyfer pob rhan o'i hamserlen a newidiwyd yn 2014.

Parhaodd y gwasanaethau Gaeleg yn boblogaidd ymhlith siaradwyr a dysgwyr Gaeleg. Llwyddodd Radio nan Gàidheal, yn ôl pob tebyg, i atal ei gostyngiad mewn cyrhaeddiad ac roedd 73.6% o siaradwyr Gaeleg yn gwylio BBC Alba bob wythnos, gostyngiad bach yn unig o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Yn yr Alban, mae argraff gyffredinol cynulleidfaoedd o'r BBC wedi parhau'n is na'r DU yn gyffredinol ers y Refferendwm, a gostyngodd ymhellach yn ystod Etholiad Cyffredinol y DU.

Mae sgoriau cymeradwyaeth ar gyfer newyddion y BBC wedi parhau'n gymharol sefydlog o gymharu â'r llynedd, ond wedi lleihau o gymharu â dwy flynedd yn ôl. Rydym yn annog y BBC i sicrhau bod yr arlwy newyddion a materion cyfoes yn yr Alban yn briodol ar gyfer anghenion cyfnewidiol ei gynulleidfaoedd.

**Asesiad Cyngor Cynulleidfa'r Alban**
Parhaodd rhaglennu teledu rhwydwaith y BBC i berfformio'n dda yn yr Alban yn dilyn perfformiad cadarn yn 2014 a chafwyd drama o ansawdd uchel gan yr Alban ar BBC One a ddangosodd awydd y gynulleidfa i weld yr Alban gyfoes yn cael ei chynrychioli. Mae hyn hefyd yn wir am newyddion y BBC. Cynigiodd BBC Scotland fwy o gynnwys i gynulleidfaoedd ifancach yn yr Alban a sefydlodd bresenoldeb sylweddol ar gyfryngau cymdeithasol.

Perfformiodd Radio Scotland yn dda wrth i newidiadau a wnaed i'r orsaf yn ystod y blynyddoedd diwethaf ddod at ei gilydd fel rhan o amserlen yr ystyriwyd bod ei hansawdd a'i naws yn gyson. Cafwyd perfformiad cyson gan wasanaethau Gaeleg y BBC ei hun a'i gyd-fentrau ond nid oes digon o adnoddau ar gael iddynt o hyd, ym marn y Cyngor.

Oherwydd yr Adolygiad o'r Siarter gan Lywodraeth y DU, cafwyd mwy o drafodaethau cyhoeddus am y BBC yn yr Alban nag erioed o'r blaen, ond nododd y Cyngor fod canfyddiadau cyffredinol cynulleidfaoedd ohono yn parhau'n wannach na rhannau eraill o'r DU.

Cred Cyngor Cynulleidfa'r Alban fod diffygion pwysig o hyd o ran y ffordd y caiff yr Alban ei chynrychioli o fewn newyddion a drama'r BBC ac y gallai'r trafodaethau cyhoeddus am newidiadau i ddarpariaeth newyddion y BBC a'r potensial ar gyfer neilltuo mwy o bŵer comisiynu teledu i'r Alban arwain at welliannau. Cred y Cyngor, yn anad dim, fod angen mwy o awdurdod ar BBC Scotland i ddylanwadu ar ganlyniadau i gynulleidfaoedd yn yr Alban.

Cyflwynir asesiad llawn y Cyngor ar wefan yr Ymddiriedolaeth.

## Gogledd Iwerddon

**Asesiad yr Ymddiriedolaeth**
Yn draddodiadol, ni fu perfformiad y BBC cystal yng Ngogledd Iwerddon i ryw raddau, ond mae'r sefyllfa hon yn newid ac yn gwella, yn achos teledu'r BBC yn arbennig. Mae gwerthfawrogiad ar gyfer teledu'r BBC yn uwch yng Ngogledd Iwerddon na gweddill y DU ac mae cyrhaeddiad teledu'r BBC yn debyg i weddill y DU o hyd. Erys rhaglennu dewisol lleol BBC Northern Ireland ar BBC One a BBC Two yn boblogaidd, gan gyrraedd tua thraean o oedolion bob wythnos.

Mae cyrhaeddiad radio'r BBC wedi lleihau ychydig, yn bennaf oherwydd perfformiad gwannach Radio 1 yng Ngogledd Iwerddon eleni. Erys gwerthfawrogiad ar gyfer radio'r BBC ychydig yn is na chyfartaledd y DU. Fodd bynnag, Radio Ulster/Foyle yw un o orsafoedd radio mwyaf poblogaidd y DU o hyd, gan gyrraedd 36% o oedolion bob wythnos. Ynghyd â hyn, nid yw arlwy ar-lein BBC Northern Ireland wedi'i ddatblygu'n ddigonol ac mae'r BBC yn cydnabod y bydd angen rhoi ffocws ar ddatblygu hyn yn ystod y blynyddoedd nesaf er mwyn bodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd o ran cynnwys ar-lein cyflym a chynhwysfawr.

Erys argraff gyffredinol poblogaeth Gogledd Iwerddon o'r BBC yn is na chyfartaledd y DU. Felly, rydym yn annog y BBC i ddod o hyd i ffyrdd newydd yn ei allbwn rhwydwaith a'i allbwn lleol o sicrhau y caiff ei ystyried yn berthnasol i'r gynulleidfa yng Ngogledd Iwerddon.

**Asesiad Cyngor Cynulleidfa Gogledd Iwerddon**
Cred Cyngor Cynulleidfa Gogledd Iwerddon fod perfformiad cadarn teledu'r BBC yng Ngogledd Iwerddon yn ystod y flwyddyn hon yn pwysleisio pwysigrwydd ansawdd ac amrywiaeth rhaglennu lleol, ynghyd â rhaglenni rhwydwaith sy'n adlewyrchu chwaethau a diddordebau gwylwyr yng Ngogledd Iwerddon.

Dengys adborth fod cynulleidfaoedd am weld eu hunain a'u cymunedau wedi'u hadlewyrchu mewn ffordd fwy cynhwysfawr a dilys ar wasanaethau'r BBC ledled y DU, boed hynny drwy ddigwyddiadau fel *Sports Personality of the Year*, a gynhaliwyd yn Belfast, neu raglenni a gynhyrchir ac a leolir yng Ngogledd Iwerddon.




BBC Northern Ireland sy'n cynhyrchu *Line of Duty* ar gyfer y BBC



Cynhyrchodd BBC Scotland *The Story of Scottish Art* ar gyfer BBC Two




## Astudiaeth achos
### **Adolygiad o radio, newyddion a materion cyfoes lleol**

Daeth ein hadolygiad o Radio Lleol, newyddion a materion cyfoes y BBC yn Lloegr i'r casgliad bod y gwasanaethau lleol yn rhan bwysig iawn o arlwy newyddion a radio cyffredinol y BBC i dalwyr ffi'r drwydded a'u bod yn cyflawni dibenion cyhoeddus y BBC i nifer fawr o bobl sy'n gwerthfawrogi'r gwasanaethau ac o'r farn eu bod o ansawdd uchel, yn addysgiadol ac y gellir ymddiried ynddynt.

Rydym yn glir iawn bod gwasanaethau'r BBC yn chwarae rhan wahanol i gyfryngau masnachol a chyfryngau lleol eraill, ac rydym o'r farn bod Radio Lleol y BBC a'i faterion cyfoes rhanbarthol yn unigryw ym maes darlledu gwasanaeth cyhoeddus y DU.

Gwnaethom ddatgan yn yr adolygiad bod datganoli gwleidyddol a chyllidol cynyddol yn Lloegr yn golygu bod mwy o gyfrifoldeb ar wasanaethau'r BBC i hysbysu cynulleidfaoedd am faterion lleol a allai effeithio arnynt, ac nid yw disgwyliadau cynulleidfaoedd yn cael eu bodloni'n llawn yn y maes hwn.

Felly, bydd angen i'r BBC ystyried sut y gall ymdrin ag angen cynyddol am wybodaeth am wleidyddiaeth leol wrth i drefniadau datganoli rhanbarthol barhau.

Cafwyd gennym hefyd bod defnydd o wasanaethau teledu a radio lleol a rhanbarthol y BBC yn llawer is na'r cyfartaledd ymhlith cynulleidfaoedd du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Felly, rydym wedi gofyn i'r BBC wella apêl ei gynnwys rhanbarthol a lleol i amrywiaeth ehangach o gynulleidfaoedd, yn enwedig oedolion du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

Noda'r Cyngor fod Radio Ulster/Foyle wedi parhau i gyrraedd cynulleidfa fawr a gwerthfawrogol gydag amrywiaeth eang o raglenni ac ymdrechion i ryngweithio gyda'i gwrandawyr. Hoffai cynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon weld newyddion y BBC yn gwneud mwy i adlewyrchu'r ffordd y mae cymdeithas wedi newid ac i ddod o hyd i ffyrdd newydd o gyflwyno materion polisi cyhoeddus y tu hwnt i'r lens wleidyddol, gydag amrywiaeth ehangach o bynciau a safbwyntiau. Maent yn awyddus i dudalennau newyddion lleol gwefan y BBC gael eu diweddaru'n amlach, yn enwedig ar benwythnosau, ac maent o'r farn y dylai newyddion rhwydwaith wneud mwy i gymharu gwahaniaethau polisi yn y gwledydd datganoledig.

Wrth i ni ddynesu at gyfnod y Siarter newydd, mae'r Cyngor o'r farn bod yn rhaid i'r BBC drawsnewid yr hyn a gynigir ganddo i gynulleidfaoedd ifanc, anelu at gau'r bwlch rhwng y rheini â mynediad llawn i wasanaethau digidol a'r rheini nad oes ganddynt fynediad llawn iddynt, a dod o hyd i ffyrdd arloesol o adeiladu ar y ffordd y mae'n gwrando ar ei gynulleidfaoedd amrywiol.

Cyflwynir asesiad llawn y Cyngor ar wefan yr Ymddiriedolaeth.

## Lloegr
### Asesiad yr Ymddiriedolaeth

Mae perfformiad y BBC yn Lloegr yn adlewyrchu'n fras berfformiad y DU yn gyffredinol – mae argraff gyffredinol cynulleidfaoedd a'u canfyddiadau o ansawdd cynnwys yn uchel. Fel gyda'r DU yn gyffredinol, gostyngodd cyrhaeddiad teledu'r BBC ychydig ymhellach eleni, a gostyngodd sgoriau gwerthfawrogiad cynulleidfaoedd ychydig hefyd. Parhaodd cyrhaeddiad radio'r

BBC yn sefydlog – mae 66% o oedolion yn Lloegr yn gwrando bob wythnos, ac mae canfyddiadau o ansawdd yn uchel.

Yn gyffredin â thueddiadau ar gyfer y DU yn gyffredinol, erys anghysondeb eang yn Lloegr o ran y defnydd o wasanaethau'r BBC ymhlith gwahanol grwpiau cynulleidfaoedd. Yn arbennig, erys cyrhaeddiad a'r amser a gaiff ei dreulio gyda theledu a radio'r BBC yn is ymhlith cynulleidfaoedd ifancach a chynulleidfaoedd du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

Ar draws 12 o Ranbarthau Lloegr y BBC, erys amrywiad o ran defnydd a chanfyddiadau o wasanaethau'r BBC. Mae'r defnydd o deledu a radio'r BBC yn gyffredinol is yn Llundain, Canolbarth Lloegr a Gogledd Lloegr; ac mae argraff gyffredinol cynulleidfaoedd o'r BBC yn parhau'n is na'r cyfartaledd yng Ngogledd Lloegr.

Mae 6.5 miliwn o wrandawyr yn gwrando ar Radio Lleol y BBC bob wythnos, gan gynnwys 23% o'i gynulleidfa darged o oedolion 50 oed a throsodd. Er ei fod yn uchel o hyd, mae ei gyrhaeddiad mewn perthynas â'r gynulleidfa wedi lleihau unwaith eto eleni. Mewn ymateb, mae'r BBC yn anelu at sicrhau bod Radio Lleol, mewn perthynas â'i arlwy craidd o newyddion a materion lleol, yn fwy apelgar i wrandawyr drwy gyflwynwyr sy'n dangos mwy o gynhesrwydd a phersonoliaeth. Rydym yn fodlon nad yw hyn yn lleihau ffocws y gorsafoedd ar newyddion, nac yn awgrymu unrhyw newid i gylch gwaith Radio Lleol y BBC.

Yn Lloegr, mae newyddion rhanbarthol y BBC ar y teledu yn parhau i gyrraedd nifer fawr iawn o bobl ac mae canfyddiadau cynulleidfaoedd yn gadarnhaol iawn. Caiff ei wylio gan 45% o oedolion yn Lloegr bob wythnos a'r rhaglen am 6.30pm yn ystod yr wythnos yw'r rhaglen newyddion a gaiff ei gwylio fwyaf ar y BBC. Mae ei gyrhaeddiad wedi lleihau ychydig yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond mae hyn yn adlewyrchu tueddiadau gwylio ehangach. Canfu ein hadolygiad gwasanaeth fod gan bobl feddwl uchel o faterion cyfoes rhanbarthol yn Lloegr a'i fod bellach yn rhan unigryw o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus y DU, gan nad oes unrhyw ddarpariaeth gyfatebol gan ddarlledwyr eraill yn y DU.

### Asesiad Cyngor Cynulleidfa Lloegr

Noda Cyngor Cynulleidfa Lloegr fod gan gynulleidfaoedd yn Lloegr yn gyffredinol ganfyddiad cadarnhaol o'r BBC a'u bod yn gwerthfawrogi ei gynnwys o ansawdd uchel.

Cred y Cyngor fod cenhadaeth y BBC i hysbysu, addysgu a diddanu yn parhau'n bwysig i gynulleidfaoedd. Ac, er bod gwahaniaethau ar draws Rhanbarthau Lloegr, y BBC yw'r darlledwr y byddai cynulleidfaoedd yn fwyaf tebygol o weld ei eisiau o hyd, gyda chanmoliaeth ar gyfer amrywiaeth a gwreiddioldeb y rhan fwyaf o'i gynnwys teledu a radio. Fodd bynnag, cred y Cyngor y gallai'r BBC wneud mwy i apelio i gynulleidfaoedd ifancach.

Canfu'r Cyngor lefelau gwerthfawrogiad cynulleidfaoedd sylweddol ar gyfer newyddion a materion cyfoes rhanbarthol y BBC, sy'n addysgiadol ac yr ymddiriedir ynddynt, ac ar gyfer Radio Lleol y BBC. Rydym yn annog y BBC i gynnal rôl unigryw Radio Lleol y BBC hyd yn oed wrth i arferion cynulleidfaoedd newid ac o ystyried bod nifer y bobl sy'n gwrando ar y radio yn is o bosibl.

Cred y gynulleidfa ei bod yn hanfodol i'r BBC arloesi o ran gwasanaethau a chynnwys newydd yn y farchnad cyfryngau digidol esblygol. Fodd bynnag, mae angen cynllunio hyn yn ofalus er mwyn sicrhau na chaiff rhai o dalwyr ffi'r drwydded eu gor-wasanaethu ar draul talwyr ffi'r drwydded eraill na allant fanteisio ar wasanaethau'r BBC.

Croesawn fentrau amrywiaeth y BBC ac anogwn gamau gweithredu cyson i sicrhau newid parhaus ac i ymdrin â'r anghysondeb o ran defnydd ymhlith gwahanol grwpiau cynulleidfaoedd yn Lloegr. Rhaid i wasanaethu'r gynulleidfa amrywiol yn Lloegr barhau'n flaenoriaeth i'r BBC.

Cyflwynir asesiad llawn y Cyngor ar wefan yr Ymddiriedolaeth.



Huw Stephens yn darlledu'n fyw o Gastell Caerdydd ar gyfer BBC Radio 1

# Y BBC a'r farchnad ehangach

### Effaith y BBC ar y farchnad

Cododd Papur Gwyrdd y Llywodraeth ddau gwestiwn ynglŷn ag effaith y BBC ar y farchnad. Gofynnodd p'un a oedd tystiolaeth i awgrymu bod y BBC yn cael effaith ehangach gadarnhaol neu negyddol ar y farchnad a hefyd p'un a oedd y BBC yn rhwystro cystadleuaeth fasnachol.

Comisiynodd yr Ymddiriedolaeth KPMG i gynnal dadansoddiad annibynnol er mwyn helpu i ateb y cwestiynau hyn. Ni chanfu'r dadansoddiad hwn unrhyw dystiolaeth glir o effaith negyddol ar y farchnad ac, mewn meysydd penodol y canolbwyntiodd KPMG arnynt, canfu ei adroddiad hefyd fod y BBC wedi cael effaith gadarnhaol ar y farchnad.

Yn amlwg, mae datblygiadau o fewn y farchnad hefyd yn effeithio ar allu'r BBC i ddarparu'r gwasanaethau a'r cynnwys y mae talwyr ffi'r drwydded yn eu disgwyl. Yn benodol, mae globaleiddio a chyfnerthu cynyddol, yn ogystal â newydd-ddyfodiaid cryf newydd fel Netflix ac Amazon Video, yn golygu bod y BBC yn wynebu mwy o gystadleuaeth nawr nag erioed o'r blaen.

Rydym yn cydnabod y gall unrhyw faes newydd penodol o wariant neu weithgarwch y BBC gael effaith andwyol ar bartïon eraill â diddordeb, felly mae'n hanfodol bod y cynigion hyn yn cael eu rheoleiddio'n ofalus gan yr Ymddiriedolaeth ac Ofcom er mwyn rhoi diogelwch a sicrwydd digonol i'r farchnad.

### Masnachu teg

Yn ôl y Siarter, mae gan yr Ymddiriedolaeth ddyletswydd i ystyried effaith gystadleuol gweithgareddau'r BBC ar y farchnad ehangach. Mae'n gosod fframwaith polisi i sicrhau bod y BBC yn masnachu mewn ffordd deg ac yn ei ddwyn i gyfrif am gydymffurfio â'r fframwaith hwn drwy archwiliadau ac adolygiadau rheolaidd, a thrwy ei rôl fel corff apelio ar gyfer cwynion yn ymwneud â masnachu teg.

Mae'r polisi a'r gweithdrefnau masnachu teg yn sicrhau bod y BBC yn ystyried unrhyw effaith negyddol a gaiff ei weithgareddau ar y farchnad ehangach ac yn ceisio ei lleihau i'r eithaf. Maent hefyd yn sicrhau bod rhaniad gwirioneddol rhwng y gweithgareddau hynny a ariennir yn gyhoeddus a'r rhai a ariennir yn fasnachol, fel nad yw gwasanaethau masnachol y BBC yn derbyn unrhyw fantais annheg nac yn gwyrdroi'r farchnad.

Ym mis Chwefror, cyhoeddodd yr Ymddiriedolaeth ei hail adolygiad tair blynedd o weithrediad rheolaethau masnachu teg y BBC. Cafodd yr adolygiad, a dderbyniodd dystiolaeth gan ystod eang o gyfranwyr, ei gynnal ar ran yr Ymddiriedolaeth gan Fingleton Associates Ltd. a gwnaethom gyhoeddi eu hadroddiad ar y cyd â'n casgliadau a'n camau gweithredu ein hunain.

Ar y cyfan, gwelsom fod y trefniadau masnachu teg yn gweithio'n dda. Ni welsom dystiolaeth o unrhyw broblem sylfaenol yng nghynllun na gweithrediad y trefniadau masnachu teg.

Canfu ein proses adolygu rai meysydd y gellid eu gwella. Daethom i'r casgliad y dylid ailwampio hunanasesiad y BBC i gynnwys trosolwg mwy annibynnol gan reoleiddiwr, y dylid craffu'n fanylach ar y trefniadau gwahanu a phrisio trosglwyddiadau rhwng y BBC a'i is-gwmnïau gwasanaethau masnachol, ac y dylai'r Ymddiriedolaeth weithio gyda'r farchnad i asesu effaith syniadau'r BBC cyn iddynt gael eu cymeradwyo yn amlach nag y mae wedi gwneud yn y gorffennol. Mae'r Ymddiriedolaeth eisoes wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r rhain a materion eraill a nodwyd. Yn benodol, cyn bo hir bydd yn cwblhau ac yn cyhoeddi canfyddiadau adolygiad cynhwysfawr o drefniadau prisio trosglwyddiadau sy'n cael ei gynnal gan EY.

Gwnaethom hefyd ofyn i'r BBC gael cofnod mwy trylwyr o'r gwaith manwl a wnaed fel rhan o'r archwiliad masnachu teg eleni, gan roi mwy o bwyslais ar nodi priodoldeb canlyniadau masnachu teg mewn achosion unigol, yn ogystal â ph'un a yw prosesau wedi cael eu dilyn yn gywir.

Yn ogystal ag archwilio'r amgylchedd rheoli cyffredinol, cynhaliodd yr archwilwyr ddadansoddiad seiliedig ar risg er mwyn nodi'r agweddau hynny ar reolaethau masnachu teg y BBC sy'n peri'r risg fwyaf i fasnachu teg gan ganolbwyntio ar y meysydd hynny yn eu gwaith archwilio manylach.

Dewiswyd mwy na 50 o achosion unigol o gofnod masnachu teg y BBC i'w hadolygu. Ym mhob un o'r achosion hyn, edrychodd yr archwilwyr ar gofnodion ysgrifenedig a chyfweld â phartïon perthnasol er mwyn llunio barn ar weithrediad y systemau rheoli yn ogystal â phriodoldeb y canlyniad. Roedd yr achosion a archwiliwyd, a'r meysydd risg sylweddol y canolbwyntiwyd arnynt, yn cwmpasu tri is-gwmni gwasanaeth masnachol y BBC ac yn cynnwys archwiliad o drefniadau prisio trosglwyddiadau a gwahanu, y defnydd a wnaed o frand y BBC a thaliadau amdano, a'r camau a gymerwyd i gymhwyso gofyniad yr Ymddiriedolaeth y dylai'r BBC, wrth gyflawni'r dibenion cyhoeddus, leihau unrhyw effaith negyddol ar y farchnad i'r eithaf (Egwyddor yr Effaith Gystadleuol).

Yn dilyn y gwaith hwn, roedd yr archwilwyr wedi gallu cyhoeddi barn ddiamod, gan gadarnhau eu barn bod y BBC wedi sefydlu a chymhwyso system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol ei fod wedi cydymffurfio â gofynion y Trefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn dan sylw. Mae barn yr archwilydd ac ymateb Pwyllgor Masnachu Teg y Bwrdd Gweithredol i'r canfyddiadau wedi'u cyhoeddi yn Rhan Dau o'r adroddiad blynyddol hwn.

> Y cynnig mewn perthynas â BBC Studios yw un o'r newidiadau mwyaf a gynigiwyd i gynyrchiadau teledu y BBC yn ei hanes. Ein casgliadau cynnar yw y gallai gwneud mwy o raglennu yn agored i gystadleuaeth fod o fantais wirioneddol i gynulleidfaoedd a'r farchnad greadigol.
>
> *Rona Fairhead, Cadeirydd, Ymddiriedolaeth y BBC*

Ni dderbyniodd yr Ymddiriedolaeth unrhyw apeliadau masnachu teg yn ystod 2015/16.

### Cystadleuaeth i gyflenwi rhaglenni

Mae talwyr ffi'r drwydded yn disgwyl i'r BBC gynhyrchu'r allbwn o'r ansawdd uchaf, mwyaf nodedig posibl ar sgrîn, ar yr awyr ac ar-lein. Er mwyn cyflawni'r disgwyliadau hyn, mae angen i'r BBC gael ei drefnu mewn ffordd sy'n ei alluogi i fynd ar drywydd y syniadau gorau, waeth beth fo'u ffynhonnell. Mae'r Ymddiriedolaeth yn teimlo'n gryf y dylai trefniadau cyflenwi cynnwys y BBC, felly, fod yn agored i amrywiaeth eang o ffynonellau, gan gynnwys cynhyrchwyr y BBC ei hun a chynhyrchwyr annibynnol, a hybu cystadleuaeth greadigol rhyngddynt. Dylai hyn greu amgylchedd lle mae'r syniadau gorau ar gyfer rhaglenni a chynnwys ar gael i gomisiynwyr y BBC.

Yn 2015, cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth adolygiad mawr o'r ffyrdd y caiff rhaglenni a chynnwys eu gwneud a'u cyflenwi i'r BBC ym maes teledu, radio ac ar-lein ac, ar ddechrau 2016, gwnaethom gyhoeddi cyngor i'r Llywodraeth ar ddiwygiadau posibl i'r trefniadau hyn yn ystod cyfnod y Siarter nesaf[1].

### Cyflenwadau teledu

Ar hyn o bryd, mae trefniadau cyflenwi cynnwys teledu'r BBC yn ei gwneud hi'n ofynnol iddo gomisiynu 50% o oriau




Mae'r Ymddiriedolaeth yn disgwyl i'r BBC gomisiynu 25% o'i wariant ar-lein cymwys ar gyfer cynnwys a gwasanaethau gan gyflenwyr annibynnol

rhaglenni'r rhwydwaith gan gynyrchiadau mewnol y BBC, 25% gan gwmnïau annibynnol cymhwysol a'r 25% arall gan unrhyw gyflenwr, drwy'r Ffenestr Cystadleuaeth Greadigol (WoCC). Yn 2015/16, cyrchodd y BBC 54% o'i raglenni gan gynyrchiadau'r BBC a 46% gan y farchnad ehangach, gan wario dros £443 miliwn gyda chyflenwyr allanol.

Canfu adolygiad yr Ymddiriedolaeth fod y trefniadau hyn wedi llwyddo i helpu i newid diwylliant comisiynu'r BBC ac agor y cyflenwad i gystadleuaeth am y syniadau gorau. Fodd bynnag, o ystyried perfformiad cryf cynhyrchwyr allanol wrth ennill comisiynau cystadleuol yn ogystal â datblygiadau yn y farchnad ehangach, gwnaethom ganfod hefyd fod y system bresennol yn dod yn anghynaliadwy. Yn 2015/16, enillodd cynhyrchwyr allanol 83% o'r oriau WoCC oedd ar gael ac enillodd cynyrchiadau mewnol y BBC 17% (o gymharu â 76% i gynhyrchwyr allanol a 24% i gynyrchiadau mewnol y BBC yn 2014/15).

Daethom i'r casgliad fod dadl gref dros newid y trefniadau drwy o leiaf ostwng y warant sy'n galw am 50% o gynyrchiadau mewnol. Fel arall, gwnaethom nodi risg gynyddol y bydd comisiynwyr y BBC yn ei chael hi'n anodd gwneud y penderfyniadau creadigol gorau ar ran talwyr ffi'r drwydded gan eu bod yn debygol o orfod rhoi blaenoriaeth i fodloni'r cwotâu.

O fewn ein dibenion cyffredinol i sicrhau'r syniadau gorau a gwerth am arian i gynulleidfaoedd, mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn disgwyl i'r BBC fanteisio ar allu a sgiliau'r DU gyfan wrth gyrchu ei gynyrchiadau teledu rhwydwaith. Yn unol â hyn, mae'r Ymddiriedolaeth wedi pennu targed i'r BBC sicrhau y bydd 50% o wariant ar gynyrchiadau teledu rhwydwaith yn dod o'r tu allan i Lundain erbyn 2016 ac, fel rhan o hyn, y dylai'r BBC gyrchu o leiaf 17% o'r gwariant hwn o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn 2015, comisiynodd y BBC 48.1% o wariant ar deledu rhwydwaith y tu allan i Lundain, gydag 16.6% yn dod o'r Gwledydd. Canfu ein hadolygiad fod trefniadau strategol y BBC o ran cyflenwadau rhwydwaith wedi helpu i gynyddu amrywiaeth y sail gyflenwi yn ogystal â thwf sgiliau cynhyrchu ledled y DU. Fodd bynnag, mae adeiladu ar y perfformiad hwn er mwyn creu amgylcheddau lleol cynaliadwy a darparu allbwn sy'n cynrychioli'r DU yn ei chyfanrwydd yn parhau i fod yn heriau allweddol i'r diwydiant.

Fel rhan o broses yr Adolygiad o'r Siarter, gofynnodd y Llywodraeth ym mis Medi am farn yr Ymddiriedolaeth ar opsiynau i ddiwygio'r system bresennol, sef newidiadau i'r cwotâu, lleihau darpariaeth gynhyrchu fewnol y BBC yn uniongyrchol a chynnig Bwrdd Gweithredol y BBC ei hun i gael gwared ar y warant fewnol yn y rhan fwyaf o genres a galluogi cynyrchiadau mewnol y BBC i weithredu'n fasnachol fel BBC Studios, is-gwmni dan berchenogaeth lawn y Gorfforaeth.

Ar ôl ymgynghori ar yr opsiynau hyn, gwnaethom gyhoeddi ein cyngor i'r Llywodraeth ym mis Chwefror[1].

Yn ein cyngor, daethom i'r casgliad ei bod yn debygol mai creu BBC Studios a gwneud trefniadau cyflenwi'r BBC yn agored i fwy o gystadleuaeth fyddai orau i gynulleidfaoedd o gymharu â'r opsiynau eraill. Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, o'r opsiynau a gyflwynwyd, rhagwelir mai BBC Studios fydd yn y sefyllfa orau i adfywio darpariaeth gynhyrchu fewnol y BBC a chredwn fod capasiti o'r fath yn hanfodol er mwyn sicrhau parhad y model cyflenwi cymysg sydd wedi gwasanaethu cynulleidfaoedd ledled y DU yn dda hyd yma, yn ogystal â diogelu gallu'r BBC i gyflawni'r dibenion cyhoeddus yn y dyfodol. Yn y Papur Gwyn, nododd y Llywodraeth ei bod yn cefnogi opsiwn BBC Studios mewn egwyddor ond y byddai'n rhaid cynnal asesiad rheoleiddiol llawn o'r cynigion terfynol er mwyn sicrhau y caiff yr is-gwmni masnachol ei sefydlu i fasnachu'n deg heb gael budd o ffi'r drwydded.

## Cyflenwadau radio

Mae'r Ymddiriedolaeth yn disgwyl i radio'r BBC gomisiynu o leiaf 10% o'i oriau radio cymwys gan gyflenwyr annibynnol ac mae 10% arall yn agored i gystadleuaeth ar draws y rhwydweithiau fel WoCC. Canfu ein

1 Ymddiriedolaeth y BBC, Options for changes to the supply arrangements for the production of the BBC's television content, radio content and online content and services: BBC Charter Review Submission to the Secretary of State for Culture, Media and Sport, Chwefror 2016

hadolygiad i gynhyrchwyr annibynnol ennill y rhan fwyaf o gomisiynau cystadleuol hyd yma a'i bod yn amser priodol i ystyried p'un a fyddai newidiadau i WoCC a chwotâu radio yn diwallu anghenion talwyr ffi'r drwydded yn well ac yn helpu i ddatblygu'r farchnad.

Ar gyfer Radio, mae'r BBC wedi cynnig cynyddu nifer yr oriau radio cymwys sydd ar gael i gynhyrchwyr annibynnol yn sylweddol, o'r lefel bresennol, sef 20%, i 60% dros gyfnod y Siarter nesaf. Mae'r Papur Gwyn bellach yn dweud y bydd y Siarter newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC sicrhau bod o leiaf 60% o oriau radio cymwys ar gael i gynhyrchwyr annibynnol erbyn 2022. Cred yr Ymddiriedolaeth mai cyflenwad cymysg, sy'n galluogi cynulleidfaoedd y BBC i fanteisio ar y syniadau mwyaf creadigol, yw'r dull gweithredu gorau. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi na all hyn ond gweithio pan fydd digon o gapasiti yn y farchnad, neu fel arall mae perygl y bydd yn methu â chyflawni gwerth am arian ar gyfer talwyr ffi'r drwydded.

## Cyflenwadau ar-lein

Mae'r Ymddiriedolaeth yn disgwyl i'r BBC gomisiynu 25% o'i wariant ar-lein cymwys ar gyfer cynnwys a gwasanaethau gan gyflenwyr annibynnol. Er bod y BBC yn bodloni'r cwota hwn yn gyson, nododd ein hadolygiad y bydd cynhyrchu cynnwys ar-lein yn dod yn bwysicach fyth i'r BBC dros y degawd nesaf ac, fel teledu a radio, roeddem o'r farn ei bod yn amserol ailystyried dull y BBC o weithredu mewn perthynas â chyflenwi syniadau yn y maes hwn.

## Egwyddorion y Fframwaith Dosbarthu

Egwyddorion Fframwaith Dosbarthu'r Ymddiriedolaeth a luniwyd i warchod buddiannau cynulleidfaoedd:

- dylai gwasanaethau fod yn hygyrch i bawb ac am ddim i bawb wrth eu defnyddio
- dylai trefniadau dosbarthu gynnig gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded
- dylai'r BBC fod yn agored ac yn dryloyw ynglŷn â phenderfyniadau ynghylch ble y dylai a ble na ddylai ei wasanaethau fod ar gael
- dylai gwasanaethau a chynnwys y BBC fod yn hawdd i'w canfod ar y llwyfannau a'r dyfeisiau a ddefnyddir i'w dosbarthu
- dylai trefniadau dosbarthu hwyluso cydberthnasau uniongyrchol rhwng y BBC a'i gynulleidfaoedd
- dylai fod gan y BBC reolaeth ddigonol dros ei gynnwys os caiff ei ddosbarthu drwy drydydd parti

Yn dilyn cynigion y BBC ei hun i wneud diwygiadau er mwyn cyflwyno mwy o gystadleuaeth, mae'r Papur Gwyn wedi cynnig y dylai holl gynnwys ar-lein y BBC, ar wahân i gynnwys newyddion, fod yn agored i gystadleuaeth erbyn diwedd cyfnod y Siarter nesaf. Fel y cynigion eraill, bydd angen astudio'r manylion er mwyn sicrhau bod buddiannau talwyr ffi'r drwydded yn cael eu diogelu.

## Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod gwasanaethau'r BBC ar gael yn eang

Er mwyn gallu cyflawni'r dibenion cyhoeddus, rhaid bod gan y BBC drefniadau digonol ar waith i sicrhau bod ei wasanaethau ar gael yn eang i gynulleidfaoedd drwy amrywiaeth o ddulliau cyfleus a chost-effeithiol. Ym mis Hydref, gwnaethom gyhoeddi Fframwaith Dosbarthu sy'n nodi'r egwyddorion y dylai'r BBC eu dilyn er mwyn sicrhau'r gwerth cyhoeddus mwyaf wrth weithio gyda sefydliadau partner. Y nod yw gosod sail glir a theg i'r diwydiant ymgysylltu â'r BBC yn y maes hwn.

Fel y cadarnhaodd ein hymchwil i'r gynulleidfa, mae'r rhan fwyaf o bobl am i'r BBC barhau i ddarparu ei wasanaethau ar lwyfannau a dyfeisiau mwy newydd. Yn unol â hyn, mae'r Fframwaith yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r BBC gadw i fyny â datblygiadau technolegol drwy ddilyn strategaeth gymysg sy'n gwneud y defnydd gorau o seilwaith darlledu ac IP a hefyd drwy gefnogi cyfleoedd i arloesi.

Mae'r Fframwaith hefyd yn cadarnhau barn yr Ymddiriedolaeth mai'r ffordd orau o barhau i fodloni buddiannau talwyr ffi'r drwydded, o ran y rhyngrwyd, yw drwy alluogi gweithredwyr llwyfannau ac eraill i gael mynediad i holl gynnwys y BBC mewn amgylchedd BBC drwy gynnyrch safonol, sef BBC iPlayer ar hyn o bryd.



Mae'r Ymddiriedolaeth yn disgwyl i'r BBC sicrhau bod o leiaf 20% o oriau radio cymwys – ar gyfer rhaglenni fel *Kermode and Mayo's Film Review* ar 5 live – ar gael i gyflenwyr annibynnol

# Goruchwylio gweithgareddau eraill

## S4C

Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn goruchwylio'r arian a gaiff S4C o ffi'r drwydded ac, ar y cyd ag Awdurdod S4C, yn adolygu perfformiad y sianel bob blwyddyn.

Ceir rhagor o dystiolaeth eleni o fanteision partneriaeth y BBC ac S4C: mae'r cytundeb i leoli rhan o'r ddau sefydliad mewn adeilad newydd yng nghanol Caerdydd a'r penderfyniad y dylai S4C barhau fel sianel ar BBC iPlayer, yn enghreifftiau sy'n dangos sut y gall y ddau sefydliad gydweithio'n effeithiol er budd siaradwyr Cymraeg.

Mae'r Ymddiriedolaeth ac Awdurdod S4C wedi cytuno ar lefel o ariannu i S4C ar gyfer y flwyddyn 2017/18 sy'n dilyn diwedd y Cytundeb Gweithredu presennol. Rydym wedi dechrau trafod ag S4C sut y gall y newidiadau i drefniadau llywodraethu'r BBC yn ystod cyfnod y Siarter nesaf gael eu trosglwyddo i berthynas strategol y ddau sefydliad.

O ran perfformiad S4C eleni, rydym unwaith eto'n falch o weld bod canfyddiadau cynulleidfaoedd o ansawdd rhaglenni S4C yn dal yn uchel. Rydym wedi nodi ym mhroses yr Adolygiad o'r Siarter mor bwysig yw S4C i bobl yng Nghymru.

Mae'r sianel yn wynebu'r un heriau â'r rhan fwyaf o ddarlledwyr, wrth iddi gystadlu am sylw ei chynulleidfaoedd ymhlith nifer gynyddol o ffynonellau eraill o wybodaeth ac adloniant. Yn y cyd-destun hwn, mae'n galonogol gweld bod cyrhaeddiad S4C ledled y DU wedi cynyddu a bod mwy o bobl yn gwylio ei rhaglenni ar alw a'i gwasanaeth i blant, *Cyw*. Fodd bynnag, mae'r cyrhaeddiad yng Nghymru yn dal i leihau.

Rydym yn falch o glywed bod S4C wedi bod yn gweithio i ddeall mwy am siaradwyr Cymraeg a'u hanghenion, a'i bod yn addasu ei strategaeth raglennu yn unol â hynny gan roi ffocws cynyddol ar raglenni sy'n cael effaith sylweddol a fydd yn boblogaidd ar alw yn ogystal â phan gânt eu darlledu. Roedd llwyddiant *Hinterland*, sef y ddrama a gynhyrchwyd ar y cyd gan S4C a'r BBC, yn dangos manteision posibl y dull gweithredu hwn.

## BBC Monitoring

Mae BBC Monitoring yn olrhain cyfryngau ffynhonnell agored ledled y byd ac yn coladu deunydd ar gyfer y Llywodraeth, y BBC a chleientiaid masnachol er mwyn eu helpu i ddeall y materion, y tueddiadau a'r datblygiadau presennol mewn lleoliadau o ddiddordeb iddynt hwy.

Ers mis Ebrill 2013, mae BBC Monitoring wedi bod yn gweithredu o dan gyfundrefn ariannu a llywodraethu a nodwyd mewn diwygiad i Gytundeb y BBC, sy'n nodi ei fod yn cael ei ariannu gan ffi'r drwydded. Mae'r gyfundrefn yn cynnwys adolygiadau rheolaidd gan ddefnyddwyr y gwasanaeth yn y Llywodraeth ac o fewn y BBC, y cyflwynir adroddiadau arnynt wedyn i'r Ymddiriedolaeth.

## Gwasanaethau masnachol

Yr Ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol am sicrhau bod gwasanaethau masnachol y BBC (BBC Worldwide Ltd., BBC Global News Ltd., a BBC Studioworks Ltd.) yn gweddu i ddibenion cyhoeddus y BBC, nad ydynt yn niweidio ei frand na'i enw da, nad ydynt yn ystumio'r farchnad a'u bod yn effeithlon yn fasnachol. Mae'n nodi'r fframwaith ar gyfer cymeradwyo gwasanaethau masnachol ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i bob gwasanaeth masnachol asesu ei gydymffurfiaeth â'r meini prawf hyn a chyhoeddi ei ganfyddiadau bob blwyddyn.

Nid yw wedi bod yn ofynnol i unrhyw wasanaethau masnachol gael cymeradwyaeth gan yr Ymddiriedolaeth yn ystod 2015/16.

Ym mis Ebrill 2015 daeth fframwaith newydd i rym er mwyn sicrhau bod gwaith Ymddiriedolaeth y BBC o ran goruchwylio gwasanaethau masnachol y BBC yn cyd-fynd â'r ffordd y caiff gwasanaethau a ariennir gan ffi'r drwydded eu goruchwylio.

Mae'r fframwaith yn nodi pedair egwyddor ar gyfer y gwasanaethau masnachol, gan lywodraethu:

- y cysondeb strategol rhwng gwasanaethau a ariennir gan ffi'r drwydded a gwasanaethau masnachol
- sut, ble a phryd y gellir cynnal busnes masnachol
- sut y caiff perfformiad masnachol ei asesu a sut yr eir ati i atal achosion o ystumio'r farchnad, a
- sut y bydd y gwahaniaeth ariannol a gweithredol angenrheidiol rhwng gweithgarwch a ariennir gan y cyhoedd a gweithgarwch masnachol y BBC yn cael ei gynnal

Pan lansiwyd y fframwaith, cyhoeddodd yr Ymddiriedolaeth hefyd adolygiad annibynnol o'r trefniadau prisio trosglwyddo sydd ar waith rhwng y BBC a'i wasanaethau masnachol er mwyn asesu p'un a oedd y rheolaethau a'r gweithdrefnau angenrheidiol yn cael eu defnyddio i sicrhau bod cyfraddau marchnad teg yn cael eu talu. Cyn hir byddwn yn cwblhau ac yn cyhoeddi canfyddiadau'r adolygiad a gynhaliwyd gan Ernst & Young LLP (EY).

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn monitro effeithlonrwydd masnachol gwasanaethau masnachol y BBC, gan ystyried p'un a yw pob un ohonynt yn perfformio'n ddigonol i osgoi ystumio'r farchnad mewn unrhyw ffordd. Dylai pob gwasanaeth greu elw hirdymor ar fuddsoddiad i'r BBC sy'n briodol ar gyfer y farchnad y mae'n gweithredu ynddi. Mae'r Ymddiriedolaeth yn adolygu'r perfformiad blynyddol, y gyllideb a'r cynigion benthyca, a thystiolaeth gan archwilwyr y BBC er mwyn asesu p'un a yw'r gofyniad hwn yn cael ei fodloni.



Mae'r Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod gwasanaethau masnachol y BBC, fel BBC Global News Ltd., yn gweddu i ddibenion cyhoeddus y BBC


BBC



# Y tu mewn i'r Ymddiriedolaeth

## Pwy ydym ni, sut rydym yn gweithredu a beth yw'r gost


Ymddiriedolwyr y BBC .......... 46
Llywodraethu .......... 48
Cyllid yr Ymddiriedolaeth .......... 51

# Ymddiriedolwyr y BBC

## Sicrhau bod pawb sy'n talu ffi'r drwydded yn cael y gorau o'r BBC.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn rhan-amser ac yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd, gan gynnig ystod eang o brofiad i'r BBC.



### Rona Fairhead, Cadeirydd

Yn cadeirio Grŵp Rheoli'r Ymddiriedolaeth a Phwyllgor Adolygu'r Fonesig Janet Smith.

**Rolau eraill**
Cyfarwyddwr Anweithredol, PepsiCo Inc; Cymrawd Anrhydeddus ac Aelod o'r Pwyllgor Cronfa Ddatblygu, Coleg St Catharine, Caergrawnt; Aelod, Fforwm Cenhadon Busnes, Prosiect Canmlwyddiant yr Awyrlu Brenhinol.



### Syr Roger Carr, Is-Gadeirydd

Aelod o'r Pwyllgor Gwerth am Arian, Grŵp Rheoli'r Ymddiriedolaeth a Phwyllgor Adolygu'r Fonesig Janet Smith.

**Rolau eraill**
Cadeirydd, BAE Systems Ltd; Uwch Gynghorydd, KKR (yn cynnwys rôl Bwrdd Cynghori ar Trainline.com); Mentor, CMi; Mentor, Mentore; Ymddiriedolwr, Ymddiriedolaeth Academi Landau Forte; Cymrawd Gwadd, Ysgol Fusnes Saïd, Prifysgol Rhydychen; Uwch Gynghorydd, Agilitas Private Equity.



### Sonita Alleyne OBE

Ymddiriedolwr Arweiniol ar amrywiaeth a chydraddoldeb. Dirprwy Gadeirydd y Bwrdd Cwynion ac Apeliadau. Aelod o'r Pwyllgor Safonau Golygyddol, y Pwyllgor Gwerth am Arian a Phwyllgor Adolygu'r Fonesig Janet Smith.

**Rolau eraill**
Sylfaenydd, Yes Programme Ltd; Cyfarwyddwr Anweithredol, Cultural Capital Fund Ltd; Aelod, Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain; Aelod, Corfforaeth Datblygu Gwaddol Llundain; Cynghorydd, Rhaglen MBA greadigol, Ysgol Fusnes Ashridge.



### Richard Ayre

Yn cadeirio'r Pwyllgor Safonau Golygyddol. Ymddiriedolwr Arweiniol ar faterion tryloywder a'r fframwaith cwynion.



### Mark Damazer CBE

Aelod o'r Pwyllgor Safonau Golygyddol a'r Pwyllgor Gwasanaethau.

**Rolau eraill**
Meistr, Coleg St. Peter's Rhydychen; Ymddiriedolwr, Amgueddfa Victoria ac Albert; Cymrawd Anrhydeddus Coleg Gonville a Caius, Caergrawnt.



### Mark Florman

Ymddiriedolwr ar gyfer Lloegr (yn cadeirio Cyngor Cynulleidfa Lloegr), Aelod o'r Pwyllgor Gwerth am Arian.

**Rolau eraill**
Cadeirydd, Time Partners; Cadeirydd, Spayne Lindsay LLP; Uwch Gynghorydd, MCF Corporate Finance; Llywydd Anrhydeddus, B Labs (UK); Cadeirydd y Noddwyr, Build Africa; Ymddiriedolwr, Sefydliad FutureLondon; Ymddiriedolwr, Siambr Fasnach Sweden; Ymddiriedolwr, the Commonwealth Education Trust Ltd; aelod o'r Pwyllgor Cynghori Rhyngwladol, Ymddiriedolaeth Wyddonol Baleontolegol.



## Bill Matthews

Ymddiriedolwr ar gyfer yr Alban (yn cadeirio Cyngor Cynulleidfa'r Alban). Yn cadeirio'r Bwrdd Cwynion ac Apeliadau. Aelod o'r Pwyllgor Safonau Golygyddol a Phwyllgor Adolygu'r Fonesig Janet Smith. Cadeirydd, Ymddiriedolaeth Pensiynau'r BBC.

**Rolau eraill**

Dirprwy Gadeirydd/Aelod Bwrdd yr Alban, Awdurdod y Diwydiant Diogelwch; Cadeirydd, Hub West Scotland; Aelod yr Alban, Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain; Cynghorydd Anweithredol, Awdurdod Iawndal Anafiadau Troseddol; Cyfarwyddwr Anweithredol, Cofnodion Cenedlaethol yr Alban.



## Aideen McGinley OBE

Ymddiriedolwr ar gyfer Gogledd Iwerddon (yn cadeirio Cyngor Cynulleidfa Gogledd Iwerddon). Aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau a Grŵp Rheoli'r Ymddiriedolaeth.

**Rolau eraill**

Comisiynydd, Comisiwn Maer Lerpwl ar Greadigrwydd ac Arloesedd; Ymddiriedolwr, Ymddiriedolaeth y DU Carnegie; Cydgadeirydd, Bord Gron Ymddiriedolaeth Carnegie ar Lesiant yng Ngogledd Iwerddon; Aelod o'r Rheithgor, Dinas Diwylliant y DU 2017; Ymddiriedolwr, Ymddiriedolaeth Fermanagh; Llywodraethwr, Coleg St Michael, Enniskillen; Cyfarwyddwr, Canolfan Aisling; Aelod Cyswllt, Future Search Associates; Aelod, Grŵp Cynghori Mencap



## Nick Prettejohn

Yn cadeirio'r Pwyllgor Gwerth am Arian. Aelod o'r Pwyllgor Safonau Golygyddol a Grŵp Rheoli'r Ymddiriedolaeth. Ymddiriedolwr Arweiniol ar adolygiadau Gwerth am Arian.

**Rolau eraill**

Cadeirydd, Scottish Widows; Cyfarwyddwr Anweithredol, Lloyds Banking Group plc; Cadeirydd, Sefydliad Britten-Pears; Cadeirydd, Coleg Brenhinol Cerdd Gogledd Lloegr; Cadeirydd y Gweithgor Cyngor Ariannol.



## Elan Closs Stephens CBE

Ymddiriedolwr ar gyfer Cymru (yn cadeirio Cyngor Cynulleidfa Cymru). Aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau a Grŵp Rheoli'r Ymddiriedolaeth.

**Rolau eraill**

Athro Emeritus, Prifysgol Aberystwyth; Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd Archwilio a Risg, Llywodraeth Cymru; Cadeirydd Archwilio a Risg, Aelod o Bwyllgorau Personél a Chwynion, Awdurdod S4C; Cyfarwyddwr Anweithredol, IMAX (Waterloo) a Monitor, Gwobr Cronfa Dreftadaeth y Loteri ar Ddatgloi Treftadaeth Ffilm, BFI; Aelod, Bwrdd Datblygu Amgueddfa Cymru; Cymrawd Anrhydeddus, Coleg Cymraeg Cenedlaethol.



## Suzanna Taverne

Yn cadeirio'r Pwyllgor Gwasanaethau. Aelod o'r Pwyllgor Gwerth am Arian.

**Rolau eraill**

Cyfarwyddwr Anweithredol, Ford Credit Europe; Ymddiriedolwr, Elusen Dyledion StepChange.



## Yr Arglwydd Williams o Faglan

Ymddiriedolwr Arweiniol ar wasanaethau rhyngwladol. Aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau a Grŵp Rheoli'r Ymddiriedolaeth.

**Rolau eraill**

Cymrawd Gwadd Amlwg, Tŷ Chatham; Aelod o fwrdd llywodraethu, Ysgol Astudiaethau Dwyreiniol ac Affricanaidd; Aelod, Cyngor Prifysgol Abertawe; Cadeirydd, Grŵp Cynghori Mines; Aelod Oes Anrhydeddus, Cymdeithas Astudiaethau Dwyrain Canol Prydain.

# Llywodraethu

Ymddiriedolaeth y BBC yw corff llywodraethu'r BBC. Cawn ein cefnogi gan Uned yr Ymddiriedolaeth, sef tîm o staff proffesiynol y BBC sy'n uniongyrchol atebol i ni.

Yr Ymddiriedolaeth sy'n pennu amcanion strategol y BBC ac yn rhoi trwydded gwasanaeth i bob un o wasanaethau'r BBC gan nodi'r hyn rydym yn disgwyl iddo ei gyflawni a faint y gall ei wario. Rydym yn cynnal safonau golygyddol y BBC ac yn diogelu ei annibyniaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth ar wahân i'r Bwrdd Gweithredol a arweinir gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, sy'n darparu arweinyddiaeth olygyddol a chreadigol y BBC ac yn rheoli'r broses o gyflwyno ei wasanaethau.

Caiff swyddogaethau a dyletswyddau'r Ymddiriedolaeth eu hamlinellu yn Siarter Frenhinol y BBC a Chytundeb y BBC gyda'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu yn unol â phrotocolau cyhoeddedig, a chaiff y ffordd y gwnawn benderfyniadau ei llywodraethu gan ein Rheolau Sefydlog. Fel Ymddiriedolwyr rydym yn ymrwymo i weithredu yn unol â'n Cod Ymarfer.

Trafodwn ein busnes rheolaidd mewn cyfarfodydd misol o'r Ymddiriedolaeth lawn a rhai is-bwyllgorau. Yn y cyfarfodydd hyn, gwnawn benderfyniadau sy'n ymwneud â'n dyletswyddau a'n cyfrifoldebau ac ystyriwn gynigion gan y Bwrdd Gweithredol.

Cyhoeddwn gofnodion ein cyfarfodydd misol o'r Ymddiriedolaeth ar ein gwefan. Rydym hefyd yn cyhoeddi'r dystiolaeth a'r ymchwil y mae ein penderfyniadau yn seiliedig arnynt, canfyddiadau pob penderfyniad apêl golygyddol, a chanlyniadau adolygiadau gwerth am arian a thrwyddedau gwasanaeth.

## Newidiadau i Ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn

Mae'r Ymddiriedolwyr a restrir ar dudalennau 46 a 47 yn adlewyrchu aelodaeth yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2016. Ar 1 Ebrill 2015, ymunodd Mark Florman fel aelod yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Lloegr ac ymunodd Mark Damazer fel aelod yr Ymddiriedolaeth. Gadawodd Diane Coyle ar 30 Ebrill 2015. Ymunodd Syr Roger Carr fel Is-Gadeirydd ar 1 Mai 2015.

| Presenoldeb Ymddiriedolwyr yng nghyfarfodydd yr Ymddiriedolaeth (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016) | |
|---|---|
| **Cadeirydd** | |
| Rona Fairhead | 19/19 |
| **Is-Gadeirydd** | |
| Diane Coyle* | 1/1 |
| **Is-Gadeirydd** | |
| Syr Roger Carr** | 15/18 |
| **Ymddiriedolwyr Cenedlaethol** | |
| Mark Florman | 19/19 |
| Bill Matthews | 15/19 |
| Aideen McGinley | 18/19 |
| Elan Closs Stephens | 19/19 |
| **Ymddiriedolwyr** | |
| Sonita Alleyne | 17/19 |
| Richard Ayre | 19/19 |
| Mark Damazer | 18/19 |
| Nick Prettejohn | 15/19 |
| Suzanna Taverne | 18/19 |
| Arglwydd Williams | 17/19 |

* Daeth cyfnod Diane Coyle mewn swydd i ben ar 30 Ebrill 2015.
** Ymunodd Syr Roger Carr fel Is-Gadeirydd ar 1 Mai 2015.

## Asesu ein perfformiad ein hunain

Yn Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth, nodwn ein hymrwymiad i werthuso perfformiad yr Ymddiriedolaeth a'i phwyllgorau, ac i gyhoeddi'r canlyniadau yn yr Adroddiad Blynyddol.

Yn dilyn cymathiad cyflym tri aelod newydd ym mis Mawrth 2015 roedd y Bwrdd yn gyflawn eto ac rydym wedi gweithio'n gydlynol fel grŵp. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi canolbwyntio fwyfwy ar yr Adolygiad o'r Siarter, gan rannu'r hyn a gredwn sy'n flaenoriaethau i BBC yfory. Ar yr un pryd, rydym hefyd wedi parhau i weithio i sicrhau'r gwasanaeth a'r gwerth gorau posibl i dalwyr ffi'r drwydded o BBC heddiw, gan ymdrin â materion cymhleth fel symud BBC Three ar-lein.

Wrth i ni symud tuag at gyfnod Siarter newydd, gwnaethom fyfyrio ar waith yr Ymddiriedolaeth dros y 10 mlynedd diwethaf; ymhlith y meysydd lle roeddem yn credu iddi gael y llwyddiant mwyaf roedd sicrhau bod llais talwr ffi'r drwydded yn cael ei glywed a dwyn y BBC i gyfrif drwy asesu perfformiad yn gyson. Credwn y bydd y newidiadau strwythurol a gynigir o ran llywodraethu'r BBC yn cynnig cyfle i wella atebolrwydd ymhellach.

## Uned yr Ymddiriedolaeth

Cawn ein cefnogi yn ein gwaith gan Uned yr Ymddiriedolaeth, sy'n darparu cyngor annibynnol a gwrthrychol, ac yn galw ar arbenigwyr allanol pan fo angen. Mae'r Uned yn cynnwys staff y BBC sy'n annibynnol ar y Bwrdd Gweithredol ac yn uniongyrchol atebol i ni. Mae'n cynnwys staff proffesiynol sy'n arbenigo mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau, gan gynnwys llywodraethu corfforaethol, datblygu polisi, ymchwil cynulleidfa, dadansoddi ariannol a pherfformiad, economeg a'r gyfraith. Mae'r Uned yn ein cynghori ar ein dyletswyddau, yn rheoli swyddogaethau goruchwylio a rheoleiddio'r Ymddiriedolaeth, ac yn rhoi asesiadau annibynnol o gynigion gan y Bwrdd Gweithredol i'r Ymddiriedolaeth. Lleolir y rhan fwyaf o staff yr Uned yn Llundain; lleolir eraill mewn swyddfeydd yn Belfast, Birmingham, Caerdydd a Glasgow.

## Cofrestr buddiannau

Mae ein Cod Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal a chyhoeddi cofrestr o'r holl fuddiannau allanol a allai effeithio ar ein gallu i gyflawni dyletswyddau Ymddiriedolwr y BBC. Mae'r gofrestr hon yn cynnwys datgan swyddi, cyfarwyddiaethau a rolau gwirfoddol, yn ogystal â buddiannau aelodau agos o'r teulu, os yn berthnasol. Cyhoeddir cofrestr buddiannau'r Ymddiriedolaeth ar ein gwefan.

## Pwyllgorau'r Ymddiriedolaeth

Gwnawn gryn dipyn o'n gwaith drwy bwyllgorau, a all wneud rhai penderfyniadau ar ran yr Ymddiriedolaeth gyfan. Dangosir aelodau pob pwyllgor a'u presenoldeb yn ystod 2015/16 isod. Nodir cylch gorchwyl pwyllgorau ar ein gwefan.

## Bwrdd Cwynion ac Apeliadau

**Cadeirydd: Bill Matthews**

Mae'r Bwrdd Cwynion ac Apeliadau (BCA) yn ymdrin ag apeliadau a chwynion i'r BBC sy'n ymwneud â masnachu teg, Trwyddedu Teledu, a materion cyffredinol eraill nad ydynt yn olygyddol. Mae pob Ymddiriedolwr yn aelod o'r BCA. Cynhelir dyletswyddau'r pwyllgor gan baneli sy'n cynnwys o leiaf ddau Ymddiriedolwr a bydd o leiaf un o'r aelodau yn Gadeirydd neu'n Ddirprwy Gadeirydd BCA.

**Presenoldeb mewn cyfarfodydd (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)**

| Ymddiriedolwr | Presenoldeb |
|---|---|
| Bill Matthews | 9/11 |
| Sonita Alleyne* | 11/11 |
| Mynychodd Ymddiriedolwyr eraill y nifer ganlynol o gyfarfodydd panel | |
| Syr Roger Carr | 1 |
| Richard Ayre | 3 |
| Mark Damazer | 2 |
| Mark Florman | 1 |
| Aideen McGinley | 1 |
| Nick Prettejohn | 3 |
| Suzanna Taverne | 1 |
| Arglwydd Williams | 1 |
| Diane Coyle* | 1 |

Caiff Rona Fairhead, Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth, fynychu unrhyw gyfarfodydd o'r pwyllgor a rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016 mynychodd un cyfarfod BCA.

* Aelodaeth y Pwyllgor yn newid: daeth Sonita Alleyne yn Ddirprwy Gadeirydd ar 1 Mai 2015. Daeth cyfnod Diane Coyle mewn swydd i ben ar 30 Ebrill 2015.

## Pwyllgor Safonau Golygyddol

**Cadeirydd: Richard Ayre**

Mae'r Pwyllgor Safonau Golygyddol (PSG) yn gyfrifol, ar ran yr Ymddiriedolaeth, am sefydlu safonau golygyddol y BBC. Mae'r PSG yn comisiynu Canllawiau Golygyddol y BBC ac yn monitro cydymffurfiaeth y Bwrdd Gweithredol â'r canllawiau hyn.

Fel cam olaf proses gwynion y BBC, mae'r PSG yn ystyried apeliadau sy'n ymwneud â thorri Canllawiau Golygyddol yn ogystal â materion cysylltiedig yn ymwneud ag ymdrin â chwynion. Hefyd, mae'n gweithredu ym meysydd darllediadau etholiadol a refferendwm, darllediadau pleidiau gwleidyddol, darllediadau etholiadol pleidiau a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm. Yn ogystal, mae'r pwyllgor yn rheoli rhaglen yr Ymddiriedolaeth o adolygiadau a seminarau ar ddidueddrwydd.

**Presenoldeb mewn cyfarfodydd (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)**

| Ymddiriedolwr | Presenoldeb |
|---|---|
| Richard Ayre | 14/14 |
| Sonita Alleyne | 14/14 |
| Mark Damazer* | 12/12 |
| Bill Matthews | 12/14 |
| Nick Prettejohn | 13/14 |
| Aideen McGinley | 2/2 |
| Diane Coyle* | 1/1 |
| Mark Florman | 1/1 |

Caiff Rona Fairhead, Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth, fynychu unrhyw gyfarfodydd o'r pwyllgor a rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016 mynychodd saith cyfarfod PSG.

* Aelodaeth y Pwyllgor yn newid: ymunodd Mark Damazer â'r pwyllgor ar 1 Mai 2015. Daeth cyfnod Diane Coyle mewn swydd i ben ar 30 Ebrill 2015.

## Grŵp Rheoli'r Ymddiriedolaeth

**Cadeirydd: Rona Fairhead**

Mae Grŵp Rheoli'r Ymddiriedolaeth (GRhY) yn cymeradwyo taliadau cydnabyddiaeth a diswyddo staff Uned yr Ymddiriedolaeth sy'n werth dros £75,000, ynghyd â goruchwylio treuliau, gwrthdaro buddiannau a lletygarwch Ymddiriedolwyr, a Chod Ymarfer yr Ymddiriedolaeth.

**Presenoldeb mewn cyfarfodydd GRhY (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)**

| Ymddiriedolwr | Presenoldeb |
|---|---|
| Rona Fairhead | 3/3 |
| Diane Coyle* | 0/1 |
| Syr Roger Carr* | 1/2 |
| Aideen McGinley | 3/3 |
| Nick Prettejohn | 3/3 |
| Elan Closs Stephens | 3/3 |
| Arglwydd Williams | 2/3 |
| Mynychodd Sonita Alleyne, Richard Ayre a Bill Matthews un cyfarfod yr un ond ni wnaethant bleidleisio | 1/1 |

* Aelodaeth y Pwyllgor yn newid: ymunodd Syr Roger Carr â'r pwyllgor ar 1 Mai 2015. Daeth cyfnod Diane Coyle mewn swydd i ben ar 30 Ebrill 2015.

## Pwyllgor Gwasanaethau

**Cadeirydd: Suzanna Taverne**

Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau (PG) yn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus y BBC, ynghyd â'i weithgareddau dosbarthu a masnachol, yn cael eu darparu yn unol â'r trwyddedau a'r fframweithiau a bennwyd gan yr Ymddiriedolaeth. Mae hyn yn cynnwys goruchwylio adolygiadau a materion rheoleiddio'r Ymddiriedolaeth.

**Presenoldeb mewn cyfarfodydd (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)**

| Ymddiriedolwr | Presenoldeb |
|---|---|
| Suzanna Taverne | 10/10 |
| Diane Coyle* | 1/1 |
| Aideen McGinley | 9/10 |
| Arglwydd Williams | 8/10 |
| Richard Ayre* | 8/9 |
| Elan Closs Stephens* | 8/9 |
| Mark Damazer* | 1/1 |

Caiff Rona Fairhead, Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth, fynychu unrhyw gyfarfodydd o'r pwyllgor a rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016 mynychodd dri chyfarfod PG.

* Aelodaeth y pwyllgor yn newid: daeth cyfnod Diane Coyle mewn swydd i ben ar 30 Ebrill 2015. Ymunodd Elan Closs Stephens â'r Pwyllgor ym mis Mai 2015. Gadawodd Richard Ayre ym mis Rhagfyr 2015. Ymunodd Mark Damazer â'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2016.

## Pwyllgor Gwerth am Arian

**Cadeirydd: Nick Prettejohn**

Mae'r Pwyllgor Gwerth am Arian yn goruchwylio prosesau cyllidebol, cymeradwyo ariannol a gwerth am arian yr Ymddiriedolaeth.

**Presenoldeb mewn cyfarfodydd (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)**

| Ymddiriedolwr | Presenoldeb |
|---|---|
| Nick Prettejohn | 9/9 |
| Sonita Alleyne | 9/9 |
| Suzanna Taverne | 8/9 |
| Mark Florman | 6/7 |
| Syr Roger Carr | 4/7 |

Caiff Rona Fairhead, Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth, fynychu unrhyw gyfarfodydd o'r pwyllgor a rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016 mynychodd dri chyfarfod GAA.

* Aelodaeth y pwyllgor yn newid: Gadawodd Diane Coyle y pwyllgor ym mis Mawrth 2015 a daeth ei chyfnod mewn swydd i ben ar 30 Ebrill 2015. Ymunodd Mark Florman â'r pwyllgor ar 1 Ebrill 2015. Ymunodd Syr Roger Carr â'r Pwyllgor ar 1 Mai 2015.

## Pwyllgor Adolygu'r Fonesig Janet Smith

Cyfarfu'r pwyllgor ad hoc hwn o'r Ymddiriedolaeth i adolygu Adroddiad Adolygiad y Fonesig Janet Smith; ystyried ymateb y Bwrdd Gweithredol i'r Adroddiad; paratoi ymateb yr Ymddiriedolaeth i'r Adroddiad ac i ymateb y Bwrdd Gweithredol; a gwneud argymhellion i'r Ymddiriedolaeth. Ei aelodau oedd Rona Fairhead (Cadeirydd), Syr Roger Carr, Sonita Alleyne a Bill Matthews.

## Cydnabyddiaeth ariannol yr Ymddiriedolwyr

### Ffioedd

Caiff ffioedd yr Ymddiriedolwyr eu pennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Ym mis Medi 2010, cymerodd yr Ymddiriedolwyr doriad cyflog gwirfoddol o 8.3% (sef mis o gyflog), yn unol â'r Cyfarwyddwr Cyffredinol ar y pryd ac aelodau eraill o'r Bwrdd Gweithredol. Bydd ffioedd is yr Ymddiriedolwyr yn parhau mewn grym tan 31 Rhagfyr 2016 ac maent wedi'u hadlewyrchu yn y tabl isod. Ni chaiff Ymddiriedolwyr dâl diswyddo nac unrhyw iawndal arall am golli swydd.

### Treuliau

Caiff Ymddiriedolwyr eu had-dalu am dreuliau yr eir iddynt ar fusnes y BBC, sy'n cynnwys costau teithio, llety, prydau bwyd tra'n gweithio a lletygarwch. Llywodraethir treuliau'r Ymddiriedolwyr gan God Ymarfer yr Ymddiriedolaeth, a gyhoeddir ar ein gwefan. Bob chwe mis rydym yn cyhoeddi rhestr lawn o'r holl dreuliau y mae pob Ymddiriedolwr wedi mynd iddynt, yn ogystal â'r gwasanaethau a drefnwyd yn ganolog gan Uned yr Ymddiriedolaeth. Caiff rhai o'r treuliau a'r gwasanaethau cymorth eu hystyried yn fuddiannau trethadwy gan Gyllid a Thollau EM. Cyhoeddir y ffigur hwn yn y tabl cydnabyddiaeth ariannol; mae'r BBC yn ymdrin ag unrhyw dreth ar dreuliau yr eir iddynt.

### Buddiannau'r Cadeirydd

Ni chaiff Rona Fairhead unrhyw fuddiannau heblaw am ei ffi ond mae'n defnyddio un o yrwyr y BBC pan fo angen ar gyfer busnes y BBC.

## Cydnabyddiaeth ariannol yr Ymddiriedolwyr

| | Ffioedd[1] £000 | Buddiannau trethadwy £000 | **Cyfanswm 2015/16 £000** | Cyfanswm 2014/15 £000 | Dyddiad dechrau'r penodiad | Dyddiad gorffen y penodiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cadeirydd ac Is-Gadeirydd** | | | | | | |
| Rona Fairhead[A] | 110 | 6 | **116** | 55 | 9 Hyd 14 | 8 Hyd 18 |
| Syr Roger Carr[2] | 65 | – | **65** | – | 1 Mai 15 | 30 Ebr 19 |
| Diane Coyle[3] | 6 | – | **6** | 87 | 1 Tach 06 | 30 Ebr 15 |
| Arglwydd Patten[4] | – | – | **–** | 11 | 1 Mai 11 | 6 Mai 14 |
| **Ymddiriedolwyr Cenedlaethol** | | | | | | |
| Mark Florman | 38 | – | **38** | – | 1 Ebr 15 | 31 Maw 19 |
| Bill Matthews[5] | 38 | – | **38** | 38 | 1 Ion 11 | 31 Rhag 16 |
| Aideen McGinley | 38 | – | **38** | 38 | 1 Tach 12 | 31 Hyd 16 |
| Elan Closs Stephens | 38 | – | **38** | 38 | 1 Tach 10 | 31 Hyd 18 |
| Alison Hastings[6] | – | – | **–** | 22 | 1 Tach 06 | 31 Hyd 14 |
| David Liddiment[7] | – | – | **–** | 19 | 1 Tach 06 | 31 Hyd 14 |
| **Ymddiriedolwyr** | | | | | | |
| Sonita Alleyne | 33 | – | **33** | 33 | 1 Tach 12 | 31 Hyd 16 |
| Richard Ayre | 33 | – | **33** | 33 | 1 Awst 10 | 31 Gor 18 |
| Mark Damazer[8] | 30 | – | **30** | – | 1 Ebr 15 | 31 Maw 19 |
| Nick Prettejohn | 33 | – | **33** | 33 | 1 Ion 14 | 31 Rhag 17 |
| Suzanna Taverne | 33 | – | **33** | 33 | 1 Ion 12 | 31 Rhag 19 |
| Arglwydd Williams | 33 | – | **33** | 33 | 1 Rhag 11 | 30 Tach 17 |
| Cyfanswm Ymddiriedolwyr | 528 | 6 | **534** | 473 | | |

Nodiadau
1 Cymerodd yr Ymddiriedolwyr doriad cyflog gwirfoddol o 8.3%, yn unol â'r Cyfarwyddwr Cyffredinol ar y pryd a'r Bwrdd Gweithredol, ym mis Medi 2010. Bydd hyn yn parhau mewn grym tan 31 Rhagfyr 2016.
2 Dechreuodd Syr Roger Carr ei benodiad ar 1 Mai 2015; yn unol â hynny mae ei ffioedd ar gyfer 2015/16 ond yn ymwneud â'i gyfnod mewn swydd ac nid ydynt yn cwmpasu'r flwyddyn gyfan.
3 Daeth penodiad Diane Coyle i ben ar 30 Ebrill 2015; yn unol â hynny mae ei ffioedd ar gyfer 2015/16 ond yn ymwneud â'i chyfnod mewn swydd ac nid ydynt yn cwmpasu'r flwyddyn gyfan.
4 Daeth cyfnod yr Arglwydd Patten i ben ar 6 Mai 2014.
5 Bill Matthews yw Cadeirydd Bwrdd BBC Pension Trust Ltd., ymddiriedolwr corfforaethol Cynllun Pensiwn y BBC. Caiff gydnabyddiaeth ariannol ar wahân am y rôl hon. Ceir rhagor o fanylion yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cynllun Pensiwn y BBC.
6 Daeth cyfnod Alison Hastings i ben ar 31 Hydref 2014.
7 Daeth cyfnod David Liddiment i ben ar 31 Hydref 2014.
8 Gofynnodd Mark Damazer am beidio â chael ei dalu am ei fis cyntaf yn y swydd (Ebrill 2015); yn unol â hynny mae ei ffioedd ar gyfer 2015/16 yn adlewyrchu hyn.

A Ni chaiff Rona Fairhead unrhyw fuddiannau heblaw am ei ffi ond mae'n defnyddio un o yrwyr y BBC pan fo angen ar gyfer busnes y BBC.

# Cyllid yr Ymddiriedolaeth

Rydym yn gweithredu mor effeithlon â phosibl ac roedd ein gwariant uniongyrchol ar gyfer 2015/16 yn sylweddol is na'r flwyddyn flaenorol.

Fel gweddill y BBC, rydym yn ymrwymedig i arbed arian. Yn benodol, rydym yn ymrwymedig i gadw ein gwariant uniongyrchol islaw 0.31% o gyfanswm incwm ffi'r drwydded. Eleni, roedd gwariant uniongyrchol yn cynrychioli llai na 0.2% o gyfanswm incwm ffi'r drwydded (2014/15 0.21%).

## Cydnabyddiaeth ariannol cyfarwyddwyr ac uwch reolwyr

Gadawodd Jon Zeff, cyn-Gyfarwyddwr, Ymddiriedolaeth y BBC, ei rôl ar 19 Ebrill 2015 ond parhaodd i weithredu fel cynghorydd am weddill ei gyfnod o rybudd ar ei gyflog blaenorol. Cafodd Alex Towers, cyn-Ddirprwy Gyfarwyddwr, ei benodi'n Gyfarwyddwr ar sail barhaol ar 20 Ebrill 2015.

Y taliadau cronnol a'r cyflog sylfaenol ar gyfer y swydd yn ystod 2015/16 oedd: Alex Towers £178,008 (yr oedd £148,814 yn gyflog sylfaenol) a Jon Zeff £10,469 (yr oedd £9,500 yn gyflog sylfaenol). Yn 2014/15, roedd taliadau cronnol a chyflog sylfaenol Jon Zeff yn £154,103 a £127,742 yn y drefn honno, ac roedd taliadau cronnol a chyflog sylfaenol Alex Towers yn ystod ei gyfnod fel Cyfarwyddwr dros dro yn £18,301 ac £16,254 yn y drefn honno. Mae deiliad y swydd yn aelod o Gynllun Pensiwn y BBC.

Yn ystod 2015/16, roedd gan Uned yr Ymddiriedolaeth chwe uwch reolwr yn ogystal â'r Cyfarwyddwr, ac ar ein gwefan ceir dadansoddiad o'u cydnabyddiaeth ariannol wedi'i rhannu'n fandiau cyflog £5,000.

## Rheoliadau adrodd

Mae'r Siarter Frenhinol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon gael eu harchwilio'n allanol. Gwnaethom ofyn i Ernst & Young LLP (EY) gadarnhau ein bod wedi cyflwyno gwariant yr Ymddiriedolaeth yn gywir, gan gynnwys cydnabyddiaeth ariannol yr Ymddiriedolwyr, yn Rhan Un.

Ceir adroddiad EY a datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth ar dudalennau 52 a 53. Nid yw'r BBC yn ddarostyngedig i ofynion Rheoliadau Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 na rhai'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol ond, lle bo'n berthnasol, rydym wedi paratoi'r adroddiad hwn fel petai'r fath ofynion yn gymwys.

## Datganiad o wariant yr Ymddiriedolaeth

| | Nodyn | 2015/16 £000 | 2014/15 £000 |
|---|---|---|---|
| Cydnabyddiaeth ariannol yr Ymddiriedolwyr | 1 | **588** | 521 |
| Costau staff | 2 | **4,218** | 4,002 |
| Costau gweithredu eraill | 3 | **2,216** | 3,183 |
| **Gwariant uniongyrchol yr Ymddiriedolaeth** | 4,5 | **7,022** | 7,706 |
| Ffioedd rheoleiddio Ofcom | 6 | **2,425** | 2,204 |
| Ffioedd Asesu Effaith y Farchnad Ofcom | 7 | **445** | 332 |
| **Cyfanswm ffioedd Ofcom i'w talu gan yr Ymddiriedolaeth** | | **2,870** | 2,536 |
| **Cyfanswm gwariant yr Ymddiriedolaeth** | | **9,892** | 10,242 |

Nodiadau
1 Dangosir cydnabyddiaeth ariannol pob Ymddiriedolwr yn y tabl ar dudalen 50. Mae'r ffigur yn y tabl uchod yn cynnwys costau nawdd cymdeithasol. Mae cyfanswm 2015/16 yn adlewyrchu llenwi swyddi gwag yn ystod 2014/15.
2 Mae costau staff yn cynnwys cyflogau, costau nawdd cymdeithasol a chyfraniadau pensiwn y cyflogwr.
3 Mae costau gweithredu yn cynnwys gwariant uniongyrchol ar weithgareddau fel ymchwil, cyngor cyfreithiol, gwasanaethau cynghori arbenigol eraill a gweithgareddau a digwyddiadau rhanddeiliaid yr Ymddiriedolaeth.
4 Mae hyn yn cynrychioli gwariant allanol uniongyrchol gan yr Ymddiriedolaeth. Hefyd defnyddiodd yr Ymddiriedolaeth wasanaethau a rennir, a oedd yn cynnwys gwasanaethau darparu eiddo, cyllid, adnoddau dynol a gwybodaeth a ddarparwyd gan wasanaethau cyhoeddus y BBC.
5 O wariant uniongyrchol yr Ymddiriedolaeth, mae £826,823 (2014/15: £731,245) yn ymwneud â gwariant ar weithgareddau'r Ymddiriedolaeth yn y pedair gwlad.
6 Mae Ofcom yn dyrannu ei gostau rheoleiddio teledu a radio i'r BBC a sianelau darlledu eraill y DU. Mae'r Ymddiriedolaeth yn talu cyfran y BBC o'r dyraniad hwnnw.
7 Mae ffioedd Asesu Effaith y Farchnad (AEF) Ofcom yn cwmpasu costau uniongyrchol ac anuniongyrchol Ofcom wrth gynnal AEF at ddibenion profion gwerth cyhoeddus.

## Pobl yr Ymddiriedolaeth

| Cyfartaledd ar gyfer y flwyddyn | 2015/16 | 2014/15 |
|---|---|---|
| Ymddiriedolwyr | **11.9** | 11.8 |
| Staff Uned yr Ymddiriedolaeth (CALI)[1] | **63.0** | 61.8 |

Nodyn
1 Staff Uned yr Ymddiriedolaeth yw'r rhai a gyflogir yn uniongyrchol gan Uned yr Ymddiriedolaeth. O'r 63.0 o staff Uned yr Ymddiriedolaeth cyfateb i amser llawn (CALI) cyfartalog ar gyfer 2015/16, roedd 13.7% CALI y tu allan i Lundain ac yn cefnogi gwaith yr Ymddiriedolaeth yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr (2014/15: 13). Roedd 8.7% yn dod o gefndir pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (2014/15: 10.2%); roedd 4.8% yn anabl (2014/15: 5.3%) ac roedd 69.8% yn ferched (2014/15: 70%).

## Adroddiad Ernst & Young LLP i Ymddiriedolaeth y BBC

Rydym wedi cyflawni'r gweithdrefnau a gytunwyd â chi ac a nodir isod o ran Datganiad o Wariant Ymddiriedolaeth y BBC. Gwnaethom ymgysylltu yn unol â'r Safon Ryngwladol ar Wasanaethau Cysylltiedig 4400 sy'n gymwys i ymgysylltu gweithdrefnol cytûn. Cyflawnwyd y gweithdrefnau at ddiben cyflawni rhwymedigaethau'r Ymddiriedolaeth o dan y Siarter Frenhinol dyddiedig Hydref 2006 ac maent fel a ganlyn:

1. Cytuno ar gydnabyddiaeth ariannol yr Ymddiriedolwyr i'w chadarnhau gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS).

2. Cytuno bod y gwariant fel y'i dangosir yn Natganiad Gwariant yr Ymddiriedolaeth wedi'i ddethol yn gywir o lyfrau a chofnodion yr Ymddiriedolaeth ar sail y nodiadau i Ddatganiad o Wariant yr Ymddiriedolaeth.

Nodir ein canfyddiadau isod:

A. O ran eitem 1, nodwyd bod holl gydnabyddiaeth ariannol yr Ymddiriedolwyr wedi'i chadarnhau gan DCMS.

B. O ran eitem 2, nodwyd bod y gwariant fel y'i dangosir yn Natganiad Gwariant yr Ymddiriedolaeth wedi'i ddethol yn gywir o lyfrau a chofnodion yr Ymddiriedolaeth ar sail y nodiadau i Ddatganiad o Wariant yr Ymddiriedolaeth.

Gan nad yw'r gweithdrefnau uchod yn gyfystyr ag archwiliad nac adolygiad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol neu Safonau Rhyngwladol Ymgysylltiadau Adolygu (neu safonau neu arferion cenedlaethol perthnasol), ni fynegwn unrhyw sicrwydd ar Ddatganiad o Wariant Ymddiriedolaeth y BBC.

Petaem wedi cyflawni gweithdrefnau ychwanegol neu wedi cynnal archwiliad neu adolygiad o'r datganiadau ariannol yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon) neu Safonau Rhyngwladol ar Ymgysylltiadau Adolygu, efallai y byddem wedi nodi materion eraill a fyddai'n berthnasol i chi.

Unig ddiben ein hadroddiad yw cyflawni'r hyn a nodwyd ym mharagraff cyntaf yr adroddiad hwn a darparu gwybodaeth i chi ac ni ddylai gael ei ddefnyddio gan unrhyw bartïon eraill ac ni ddylent ddibynnu arno. Dim ond ymwneud â'r cyfrifon a'r eitemau a nodwyd uchod a wna'r adroddiad hwn ac nid yw'n cwmpasu unrhyw ddatganiadau ariannol sy'n perthyn i'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig, yn ei chyfanrwydd. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn atebol i unrhyw un heblaw am Ymddiriedolwyr y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig am yr adroddiad hwn.

**Richard Wilson**
**Ar gyfer ac ar ran**
**Ernst & Young LLP**
1 More London Place
Llundain SE1 2AF
16 Mehefin 2016

## Datganiad o gyfrifoldebau o ran yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

Mae Siarter Frenhinol y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon gael eu paratoi mewn dwy ran, Rhan Un gan yr Ymddiriedolaeth a Rhan Dau gan y Bwrdd Gweithredol. Nodir cyfrifoldebau'r Bwrdd Gweithredol yn adran Llywodraethu Rhan Dau o'r Adroddiad Blynyddol hwn. I grynhoi, mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a'r datganiadau cydymffurfio gyda chodau llywodraethu corfforaethol a rheoliadau cydnabyddiaeth ariannol cymwys, a chyflwyno'r rhain i'r Ymddiriedolaeth yn Rhan Dau o'r Adroddiad Blynyddol hwn. Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE (EU IFRS), gan adlewyrchu'r ffaith bod EU IFRS yn cael eu defnyddio'n helaeth yn y DU, yn cael eu mabwysiadu gan y sector cyhoeddus, ac y byddai eu defnydd wedi'i ganiatáu o dan Ddeddf Cwmnïau 2006. Caiff y datganiadau ariannol hyn eu harchwilio gan archwilwyr allanol.

Wrth baratoi ei ddatgeliadau llywodraethu corfforaethol cysylltiedig, mae'r Bwrdd Gweithredol wedi dewis cydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU, a, lle bo'n gymwys, Reolau Rhestru'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol sy'n gymwys i gwmni a ddyfynnwyd ar farchnad a reoleiddir gan yr UE.

Er mwyn bodloni'r gofynion hynny, rhaid i'r Adroddiad Blynyddol gynnwys datgeliadau ar drefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth, yn ogystal â rhai'r Bwrdd Gweithredol. Yr Ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol am y datgeliadau hyn, ac maent wedi'u cynnwys yn Rhan Un o'r Adroddiad Blynyddol.

Mae'r Siarter hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth baratoi datganiad o'i gwariant a'i gynnwys yn Rhan Un o'r Adroddiad Blynyddol.

## Datganiad datgelu gwybodaeth i archwilwyr

Mae'r Ymddiriedolwyr a oedd mewn swydd ar adeg cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon hyn yn cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y BBC yn ymwybodol ohoni; ac mae pob Ymddiriedolwr wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd fel Ymddiriedolwr er mwyn dod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a phennu bod archwilwyr y BBC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Cafodd y datganiad hwn ei gymeradwyo gan yr Ymddiriedolaeth ar 16 Mehefin 2016.

**Rona Fairhead**
**Cadeirydd**
16 Mehefin 2016





# Adolygiad ac asesiad Bwrdd Gweithredol y BBC

Bwrdd Gweithredol y BBC sy'n gyfrifol am ddarpariaeth weithredol gwasanaethau'r BBC a chyfeiriad allbwn golygyddol a chreadigol y BBC yn unol â'r fframwaith a bennir gan yr Ymddiriedolaeth.


**Cyflwyniad y Cyfarwyddwr Cyffredinol** .......... **56**

**Adroddiad strategol**

Rhoi ein strategaeth ar waith .......... 59
- Ein cyflawniadau .......... 60
- Rhoi ein strategaeth ar waith .......... 64
- Amcanion y BBC ar gyfer y flwyddyn i ddod .......... 71

Perfformiad .......... 75
- Perfformiad fesul maes cynnwys .......... 76
- Perfformiad fesul cyrhaeddiad a genre .......... 87
- Y BBC ym mhob un o'r gwledydd .......... 90

**Adroddiad llywodraethu a chyllid**

Cyllid .......... 99
- Adolygiad y Rheolwr Gyfarwyddwr .......... 100
- Cyflawniadau ariannol .......... 103
- Trosolwg ariannol .......... 104
- Datganiad ariannol cryno .......... 113
- Adroddiad yr archwilydd .......... 114

Gweithrediadau .......... 115
- Ein pobl .......... 116
- Datblygu talent a sgiliau newydd .......... 121
- Allgymorth .......... 124
- Partneriaethau .......... 126
- Cefnogi achosion da .......... 128
- Cynaliadwyedd amgylcheddol .......... 130

Llywodraethu .......... 131
- Y Bwrdd Gweithredol .......... 132
- Adroddiad yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol .......... 134
- Adroddiad llywodraethu a'r Pwyllgor Enwebiadau .......... 136
- Adroddiad Cydnabyddiaeth y Pwyllgor Gweithredol .......... 138
- Adroddiad y Pwyllgor Archwilio .......... 148
- Risgiau a chyfleoedd .......... 153
- Adroddiad ar fasnachu teg .......... 157
- Datganiad ynghylch hyfywedd .......... 160


Drama BBC One, *War and Peace*, a gynhyrchwyd gan BBC Cymru

# Dewiniaeth darlledu

## Uwchlaw holl drin a thrafod y 12 mis diwethaf, rwy'n argyhoeddedig mai ansawdd ein rhaglenni a'n gwasanaethau sydd bwysicaf i bobl. Ein creadigrwydd a'n huchelgais golygyddol ar y sgrîn ac ar yr awyr sy'n pledio achos y BBC.

Rydym yma am un rheswm syml, sef sicrhau'r gorau i bawb: arddangos dramâu, chwaraeon a digwyddiadau pwysig o Brydain sy'n dod â phawb ynghyd; cynhyrchu newyddion a dadansoddiadau y gall pobl ymddiried ynddynt; dwysáu ein dealltwriaeth o'r byd; ehangu ein gorwelion a gwneud i ni chwerthin hefyd. Dyna fy man cychwyn i ar gyfer pob sgwrs am y sefydliad arbennig hwn. A dyna pam y gallwn edrych i'r dyfodol yn llawn hyder.

Pan ddychwelais i'r BBC, roeddwn am wneud mwy ar gyfer awduron, cyfarwyddwyr, actorion a chynhyrchwyr penigamp ein gwlad. Dyna pam y gwnaethom fuddsoddi mewn dramâu arbennig fel *War and Peace*, *Sherlock*, *The Night Manager*, *Happy Valley*, *The Dresser*, *Line of Duty* a *Doctor Foster*. Maent wedi rhoi oriau lu o straeon bythgofiadwy i bob un ohonom eleni.

Cafwyd digwyddiadau hynod ddramatig ym myd gwleidyddiaeth hefyd – ein rhifyn arbennig o Question Time adeg yr etholiad; ein darllediadau ar-lein o'r Etholiad Cyffredinol, a ddenodd fwy a 19 miliwn o borwyr unigryw ledled y byd y diwrnod ar ôl yr etholiad; yn ogystal â blwyddyn eithriadol o newyddion rhyngwladol. Gadewch i ni gofio hefyd rôl hanfodol ein gorsafoedd radio lleol o ran rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w gwrandawyr a'r DU gyfan am y llifogydd. Ac maent yn gwneud cymaint mwy ar ben hynny.

Eleni, mae Radio'r BBC wedi gwneud llawer o bethau y gallwn ymfalchïo ynddynt. Rwyf wrth fy modd â'r ffordd y mae ein gorsafoedd yn cefnogi artistiaid newydd ac yn hyrwyddo talent o Brydain ledled y byd. Dyna pam y dewisodd Adele weithio gyda ni pan ddechreuodd berfformio eto. A dyna pam y mae artistiaid o'r radd flaenaf fel Coldplay yn dychwelyd i'r BBC dro ar ôl tro. Hefyd, ni sy'n cynhyrchu'r tymor mwyaf a'r tymor gorau o gerddoriaeth glasurol yn y byd, gyda phob cyngerdd, bob dydd ar Radio 3. Ac mae *The Archers* yn haeddu clod arbennig am osod yr agenda a thynnu sylw at faterion sy'n ymwneud â thrais domestig mewn stori ryfeddol a ddatblygodd yn raddol, gan hoelio sylw'r wlad.

Rwyf wedi sôn am y BBC yn cydweithio'n agosach o lawer ag eraill, ac eleni mae tymor Shakespeare wedi bod yn agoriad llygad. Rydym wedi cydweithio mwy nag erioed o'r blaen, rydym wedi bod yn agored i syniadau newydd ac wedi gweithio mewn partneriaeth â rhai o bobl fwyaf creadigol a chwareus y wlad. Cynhyrchodd The Royal Shakespeare Company ddathliad unigryw ar BBC Two, cynhyrchodd Sam Mendes a'i dîm gyfres ryfeddol o *The Hollow Crown*, a daeth Russell T Davies â swyn *A Midsummer Night's Dream* i BBC One. Gwnaethom hefyd greu gŵyl ryngwladol ar-lein gyda'r British Council a sefydliadau diwylliannol ledled y DU, gan gynnwys Shakespeare's Globe, Ymddiriedolaeth Man Geni Shakespeare, y Tŷ Opera Brenhinol, Sefydliad Ffilm Prydain ac Ysgol Gelf Glasgow. Am y tro cyntaf, rhoesom gyfle i rai o sefydliadau mwyaf blaenllaw'r wlad ddefnyddio iPlayer gan alluogi pawb i ymuno yn eu digwyddiadau.

Rhaglenni a digwyddiadau sy'n dod â phobl ynghyd fydd wrth wraidd yr hyn a wnawn bob amser. O *Big Weekend* Radio 1 i *Bake Off*, mae'r BBC wedi helpu i ddiddanu teuluoedd, cymunedau a gwledydd drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf. Ond yn ogystal â rhannu'r achlysuron hyn, mae cynulleidfaoedd hefyd yn defnyddio technoleg mewn ffyrdd newydd ac arloesol, yn enwedig ar y rhyngrwyd.

Eleni rydym wedi bod yn ymateb i'r newidiadau hyn. Mae BBC Three yn enghraifft o hyn. Lansiodd y sianel ar-lein ym mis Chwefror 2016 ac rwy'n falch iawn o'r hyn y mae'r tîm wedi bod yn ei wneud. Mae'r sianel yn cynnig cynnwys byr, cynnwys hir a ffurfiau newydd o gynnwys, nid yn unig ar y we ond fel rhan o'r we, wedi'i blethu'n rhan o sgyrsiau ei chynulleidfa ifanc yn y cyfryngau cymdeithasol.

Yn ogystal â'n llwyddiant creadigol eleni, mae gennym hefyd sicrwydd bellach ynghylch dyfodol y BBC. Cynhaliwyd y drafodaeth ynglŷn ag adnewyddu Siarter y BBC dros y flwyddyn ddiwethaf ac, o ganlyniad, cyhoeddwyd Papur Gwyn gan y Llywodraeth ym mis Mai 2016, sy'n cefnogi BBC cryf o'r radd flaenaf. Mae'r Llywodraeth wedi cytuno i roi Siarter newydd i'r BBC ar gyfer yr 11 mlynedd nesaf, a fydd yn darparu sylfaen gadarn a fydd yn ein galluogi i barhau i synnu a swyno cynulleidfaoedd.



**Darlledodd *Strictly Come Dancing*, a enillodd wobr BAFTA, ei rhifyn arbennig blynyddol o Dŵr Blackpool unwaith eto**



**Perfformiwyd cynhyrchiad CBeebies o *A Midsummer Night's Dream* fel rhan o dymor Shakespeare y BBC**




> "Yn ystod cyfnod y Siarter nesaf, rydym am ddod yn bartner creadigol i Brydain. Rydym am barhau i ysgogi syniadau a chydweithrediadau newydd, gan ddwyn ynghyd bartneriaid o brifysgolion ac amgueddfeydd, i theatrau a gwyliau."
>
> *Tony Hall*

## Mae BBC mwy agored yn golygu sefydliad mwy darbodus a thryloyw.


Credaf yn gryf fod dyddiau gorau'r BBC o'n blaenau, a dyna y bûm yn brwydro yn ei gylch drwy gydol y flwyddyn.

Wrth gwrs, mae gennym fwy o lawer i'w wneud yn awr – rhaid i ni barhau i ddiwygio'r BBC. Dros y flwyddyn i ddod, byddwn yn ail-lunio'r sefydliad er mwyn ei wneud yn symlach, yn fwy creadigol ac yn fwy agored. Mae angen i ni ymateb i'r ffyrdd newydd y mae cynulleidfaoedd yn dod o hyd i'n cynnwys a'i ddefnyddio, a chyflawni'r arbedion sy'n angenrheidiol i allu byw o fewn yr adnoddau sydd ar gael i ni.

Mae BBC mwy agored yn golygu sefydliad mwy darbodus a thryloyw – gyda llai o is-adrannau a strwythurau symlach. Nid dim ond torri costau a byw o fewn y setliad newydd ar gyfer ffi'r drwydded yw diben hyn, ond hefyd creu man lle y gall creadigrwydd ffynnu.

Ni fydd yn hawdd creu BBC agored. Bydd yn golygu datgymalu strwythurau a ffyrdd o weithio sydd wedi bodoli ers cenedlaethau; mewn sawl ffordd, mae BBC agored yn golygu BBC newydd. Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni hyn – ac mae gennym ragor i'w wneud.

Fodd bynnag, nid oes a wnelo ein hagenda diwygio â'r sefydliad yn unig – mae hefyd yn ymwneud â'r cynnwys a gynhyrchir gennym a sut rydym yn ei gynhyrchu. Yn ystod cyfnod y Siarter nesaf, rydym am ddod yn bartner creadigol i Brydain. Rydym am barhau i ysgogi syniadau a chydweithrediadau newydd, gan ddwyn ynghyd bartneriaid o brifysgolion ac amgueddfeydd, i theatrau a gwyliau. Gallwn roi llawer o gymorth: cynulleidfaoedd torfol o'r cychwyn cyntaf, tywysydd dibynadwy ac arbenigedd golygyddol a thechnegol helaeth.



Darlithoedd ar dyllau du gan yr Athro Stephen Hawking oedd testun cyfres *Reith Lectures* y BBC eleni




Comedi BBC One, *Car Share*, a enillodd wobr BAFTA

Ac os ydym am fod yn sefydliad gwirioneddol agored, rhaid i ni ganiatáu i bobl graffu arnom a rhaid i ni dderbyn cyfrifoldeb am ein methiannau yn ogystal â'n llwyddiannau. Eleni cyhoeddwyd Adolygiad y Fonesig Janet Smith ar ddiwylliant ac arferion y BBC yn ystod y blynyddoedd y bu Stuart Hall a Jimmy Savile yn gweithio yma. Roedd y digwyddiadau yr ymdriniwyd â hwy yn yr Adolygiad ymhlith yr achosion gwaethaf o fradychu ymddiriedaeth yn hanes y BBC. Rwyf eisoes wedi dweud mai methu'r rhai a gafodd eu cam-drin a wnaeth y BBC yn hytrach na'u hamddiffyn. Unwaith eto, hoffwn ddiolch yn fawr i'r goroeswyr hynny a benderfynodd rannu eu straeon fel rhan o'r Adolygiad.

Rhaid i ni hefyd wneud popeth y gallwn i sicrhau ein bod yn dysgu'r gwersi a geir yn Adolygiad y Fonesig Janet. Rydym eisoes wedi ymrwymo i weithredu ar ei argymhellion ac rydym yn cyhoeddi, ochr yn ochr â'r Adroddiad Blynyddol hwn, adroddiad cynnydd sy'n nodi ble rydym arni ar hyn o bryd a beth rydym yn bwriadu ei wneud dros y misoedd nesaf er mwyn sicrhau ein bod yn dysgu'r gwersi hynny ac yn gweithredu arnynt. Rydym am weithredu, a byddwn yn gryfach o'r herwydd.

Rydym hefyd wedi colli rhai o eiconau'r byd darlledu eleni, gan gynnwys neb llai na Syr Terry Wogan, sydd wedi gadael etifeddiaeth anhygoel sy'n parhau i ysbrydoli pob un ohonom.

Ac rydym wedi cael cyfle i ddathlu rhywun sy'n cynrychioli popeth sy'n wych am y BBC – Syr David Attenborough. Yn ystod blwyddyn ei ben-blwydd yn 90 oed, mae'n dal mor chwilfrydig, arloesol a difyr ag erioed, os nad mwy nag erioed. Mae wedi teithio i bedwar ban y byd ac wedi dangos rhyfeddodau'r byd i filiynau o bobl ar y BBC.

Rydym oll yn hynod ddiolchgar iddo. Ond hoffwn hefyd ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at flwyddyn lwyddiannus drwy weithio gyda ni ac i ni. Gwaith tîm ardderchog sy'n gyfrifol am hyn – ar y sgrîn, ar yr awyr, y tu ôl i'r llenni ac mewn ystod o rolau cynorthwyol hollbwysig. Oherwydd eu cyfraniad hwy y mae'r BBC yn sefydliad mor arbennig.



**Tony Hall**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol**
16 Mehefin 2016

Cynhaliwyd y drafodaeth ynglŷn ag adnewyddu Siarter y BBC dros y flwyddyn ddiwethaf ac, o ganlyniad, cyhoeddwyd Papur Gwyn gan y Llywodraeth sy'n cefnogi BBC cryf o'r radd flaenaf.

# Rhoi ein strategaeth ar waith

Ein cyflawniadau ar gyfer y flwyddyn a sut rydym wedi rhoi ein strategaeth ar waith yn 2015/16.




Cyflwynwyr CBBC (o'r chwith i'r dde) Lauren Layfield, Hacker, Katie Thistleton, Dodge a Karim Zeroual

# Uchafbwyntiau creadigol

Gwnaethom gyflwyno cynnwys cofiadwy, achlysuron pwysig a buddiannau technolegau newydd i gynulleidfaoedd.



## The Night Manager

Cafodd cyfres *The Night Manager* ei mwynhau gan 8.4 miliwn ar gyfartaledd a chyflawnodd y sgôr uchaf am natur nodedig o blith unrhyw gyfres ddrama gan y BBC yn ystod y flwyddyn.



## 500 O EIRIAU

Cafodd 123,436 o blant eu hysbrydoli i roi cynnig ar gystadleuaeth straeon byrion 500 O EIRIAU Radio 2 ar gyfer plant 13 oed ac iau.




## CBeebies

Mae 18.3 miliwn o straeon unigol wedi cael eu lawrlwytho i ap CBeebies Storytime hyd yma.



## Deg Darn

Mae Deg Darn yn ymgyrch arloesol i gyflwyno plant i gerddoriaeth glasurol. Gwnaethom ymestyn y fenter i ysgolion uwchradd, gan adeiladu ar lwyddiant Deg Darn i ysgolion cynradd – sydd eisoes wedi cynnwys dros hanner yr ysgolion cynradd yn y DU.



## Tymor y Proms

Yn ogystal â Radio'r BBC, cafodd 29 o ddigwyddiadau'r Proms eu darlledu ar deledu'r BBC, sef yr ymrwymiad mwyaf i gerddoriaeth glasurol ar sianelau genre cymysg unrhyw le yn y byd.




## BBC World Service

Mae cynulleidfa'r World Service wedi tyfu'n sylweddol yn y flwyddyn ddiwethaf ac mae'n cyrraedd 246m o bobl bob wythnos ar draws y byd, sy'n record. Rhan allweddol o'r twf hwn yw'r gwasanaethau teledu ieithoedd newydd a lansiwyd, sy'n cyrraedd bron 20 miliwn o bobl yr wythnos gyda'i gilydd.



### The Great British Bake Off

Cyrhaeddodd rhaglen olaf *The Great British Bake Off* fwy na 15 miliwn o bobl, ac felly hon oedd y rhaglen â'r nifer fwyaf o wylwyr yn 2015.



### Ap iPlayer Radio

Lawrlwythwyd dros filiwn o raglenni radio drwy ap BBC iPlayer Radio mewn llai na mis ar ôl ei lansio, a drama Radio 4 oedd fwyaf poblogaidd.




### Newyddion

Bellach, rydym yn cynnig hyd yn oed fwy o newyddion, dadansoddiadau ac esboniadau o straeon lleol, cenedlaethol a rhyngwladol mwyaf y dydd i gynulleidfaoedd, gan ymestyn *News at Ten* y BBC 15 munud o ddydd Llun i ddydd Gwener.



### Chwaraeon

Gwyliodd dros 50 miliwn o bobl – 87% o boblogaeth y DU – chwaraeon ar deledu'r BBC yn ystod 2015; mwy nag unrhyw ddarlledwr arall.




### Cerddoriaeth

Cafodd y clip o'r rhaglen *Adele at the BBC*, a oedd yn arbennig i'r BBC, ei weld gan y nifer fwyaf o wylwyr erioed ar Sianel YouTube y BBC ac mae wedi cael ei weld fwy na 48 miliwn o weithiau.



### Sherlock

*Sherlock: The Abominable Bride* oedd y rhaglen â'r nifer fwyaf o wylwyr ar unrhyw sianel dros y Nadolig – cafodd 11.6 miliwn o wylwyr.



## Stick Man

Cafodd rhaglen *Stick Man* ei gwylio gan fwy o blant rhwng 4 a 15 oed nag unrhyw raglen arall ar unrhyw sianel dros y Nadolig.



## Strictly Come Dancing

Cafodd rhaglen olaf *Strictly Come Dancing* 2015 ei gwylio gan 12.3 miliwn o bobl a chafodd y gyfres gyfan ei gwylio gan fwy na 50% o'r holl wylwyr teledu.



## Bwletin Ysgol

Eleni dathlwyd 10 mlynedd o gynllun Bwletin Ysgol y BBC ac mae mwy na 400,000 o ohebwyr ysgol o flynyddoedd un i naw eisoes wedi cymryd rhan ynddo.



## Tywydd

Ar 1 Gorffennaf 2015, torrwyd record haf newydd lle gwelwyd 7.3 miliwn o borwyr unigryw yn y DU yn dod i wefan Tywydd y BBC, wrth i'r DU fwynhau'r heulwen ar y diwrnod poethaf erioed a gofnodwyd ym mis Gorffennaf.



## Etholiad Cyffredinol

Dyfeisiau symudol oedd y sgrîn o ddewis i weld BBC Newyddion Ar-lein yn ystod yr etholiad. Defnyddiodd dros 76.1m o borwyr unigol BBC Newyddion Ar-lein yn fyd-eang ac, yn y DU, cyrhaeddodd arlwy'r BBC ar bob llwyfan 89% o'r holl oedolion ac 84% o bobl rhwng 18 a 34 oed yn ystod wythnos y canlyniadau.



## World at One

Dathlodd *World at One* ar Radio 4 hanner can mlynedd ar yr awyr. Cafwyd y darllediad cyntaf ar yr Home Service ym mis Hydref 1965 a chafodd y rhaglen ei chyflwyno gan William Hardcastle.

# Cyflawniadau corfforaethol

Gwnaethom barhau ar y daith i newid y BBC er mwyn sicrhau ein bod yn fwy effeithlon, cynrychioliadol, teg ac arloesol.




## Digidol

Lansiodd Academi'r BBC raglen hyfforddiant Make it Digital y BBC ar gyfer hyd at 5,000 o bobl ifanc ddi-waith, mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Asiantaeth Ariannu Sgiliau.



## Sound Women

Lansiodd Radio'r BBC gynllun mentora gyda Sound Women, gan gynnig y cyfle i 20 o ferched gael eu mentora gan staff cynhyrchu radio profiadol, er mwyn adeiladu ar eu profiad gyda'r prif nod o gynyddu nifer y merched mewn uwch rolau yn y diwydiant radio.




## Plant mewn Angen

Cododd *Plant mewn Angen* £37.1 miliwn; y cyfanswm mwyaf erioed ar y noson. Caiff y cyfanswm cyffredinol terfynol ei gyhoeddi'r haf hwn.

## Gorbenion

Yn 2015/16, roedd 94% o wariant rheoladwy'r BBC yn canolbwyntio ar gynnwys a chyflawni, gyda dim ond 6% yn cael ei wario ar redeg y sefydliad. Mae'r ffocws hwn ar leihau ein costau yn sicrhau ein bod yn buddsoddi cymaint o arian â phosibl yn uniongyrchol mewn cynnwys ar gyfer talwyr ffi'r drwydded.

**6%**



## micro:bit

Fel rhan o fenter addysg fwyaf uchelgeisiol y BBC mewn 30 mlynedd, mae pob plentyn 11 neu 12 oed ledled y DU (blwyddyn 7 neu'r hyn sy'n cyfateb iddi) wedi cael micro:bit – cyfrifiadur poced y gellir ei godio a lansiwyd gan y BBC a phartneriaid, sy'n galluogi plant i ddefnyddio technoleg mewn ffordd greadigol.




## Talent ddigidol ac ysgrifennu

Camodd BBC Birmingham i'r blaen fel canolfan ar gyfer talent ddigidol ac ysgrifennu, gan adeiladu ar ei rôl fel canolfan sgiliau a thalent y BBC cyfan.

# Rhoi ein strategaeth ar waith

Ein cenhadaeth yw hysbysu, addysgu a diddanu, er mwyn cynnig y gorau i bawb. Mae gennym ddiben syml iawn: gwneud rhaglenni gwych a chynnig gwasanaethau neilltuol a nodedig – gwella bywydau pawb yn y DU a thanio dychymyg a chwilfrydedd ein cynulleidfaoedd.

Mae'r BBC yn gwella bywydau pawb yn y DU mewn mwy o ffyrdd nag erioed o'r blaen ac yn amlach nag erioed o'r blaen. Dros y degawd nesaf rydym am barhau i gyflawni'r rôl honno wrth wraidd bywyd Prydeinig, gan gynnal ein statws fel sefydliad diwylliannol mwyaf Prydain.

Mae'r ffordd unigryw y caiff y BBC ei ariannu yn golygu bod gennym rwymedigaethau penodol.

Am fod y BBC yn cael ei ariannu'n annibynnol, mae hynny'n rhoi rhyddid creadigol i ni. Mae'n golygu bod yn rhaid i'r BBC fod yn fwy parod nag erioed i fentro; yn fwy agored nag erioed i bartneriaethau a chyfleoedd i gydweithredu; yn agored i weithio gyda'r syniadau a'r dalent orau o ble bynnag y dônt. Hynny yw, mae ffi'r drwydded yn rhoi'r rhyddid i ni fod yn nodedig ac yn wreiddiol ynghyd â'r rhwymedigaeth i wneud hynny.

Am fod y BBC yn cael ei ariannu drwy ffi'r drwydded, mae ein cenhadaeth yn gwasanaethu pawb. Ond nid yw hyn yn golygu gwneud popeth i bawb. Mae'n golygu cyrraedd pawb â phethau da, pethau o werth gwirioneddol, o werth cyhoeddus, ond o werth personol hefyd: ni waeth pwy ydynt; pa mor gyfoethog ydynt; beth yw eu hoedran; o ba gefndir y maent yn dod; nac o ba ran o'r DU y maent yn dod.

Wrth i ni hysbysu, addysgu a diddanu'r cyhoedd, rhaid i'r BBC gyflawni'r tri nod hyn: ansawdd, gwasanaethu pawb a natur nodedig. Er bod natur nodedig yn bwysig, rhaid cydbwyso hynny â dyhead y cyhoedd i weld BBC o'r ansawdd uchaf a BBC sy'n gwasanaethu pawb ac yn diwallu eu hanghenion. Nid ydym yn dymuno ac nid oes angen i ni gyrraedd pob cynulleidfa fel diben ynddo'i hun, ond rydym yn dymuno ac mae angen i ni gyrraedd pob cynulleidfa gyda chynnwys gwasanaeth cyhoeddus perthnasol, o ansawdd uchel, sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu. Dyna sut y gwnawn gyflawni ein cenhadaeth. Ar gyfer 2015/16, gwnaethom bennu pedwar amcan strategol fel bod y sefydliad yn canolbwyntio ar roi ein strategaeth ar waith, sef:

- gwneud cynnwys nodedig, o'r radd flaenaf
- trawsnewid yr hyn a gynigir i gynulleidfaoedd ifancach
- datblygu BBC mwy personol
- dangos gwerth am arian ym mhob maes o'n gwaith

Yn yr adroddiad hwn amlinellwn yr hyn mae'r sefydliad wedi'i wneud er mwyn cyflawni'r amcanion hyn drwy gydol y flwyddyn.

## Gwneud cynnwys nodedig, o'r radd flaenaf

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cyflwyno mwy o gynnwys neilltuol i'n cynulleidfaoedd ar ein holl lwyfannau, o ddramâu o'r radd flaenaf fel *Dickensian*, *Doctor Foster*, *And Then There Were None*, *War and Peace*, *The Night Manager* a *Capital*, i ddychweliad y *Clangers* ar CBeebies a chystadleuaeth Cwpan y Byd pêl-droed i ferched yng Nghanada. Gwnaethom ymdrin â phynciau sensitif, heriol a dadleuol mewn amrywiaeth o raglenni, gyda cham-drin domestig yn *The Archers* ar Radio 4, lladd er anrhydedd yn *Murdered by my Father* ar BBC Three ac ymchwiliadau treiddiol *Panorama* ar BBC One. Gwnaeth BBC Newyddion roi sylw i ddigwyddiadau mawr byd-eang, gan feithrin dealltwriaeth o gytundeb hinsawdd Paris ac argyfwng ymfudwyr Ewrop, datgelu twyll ym myd chwaraeon a rhannu'r newyddion dilys diweddaraf wrth i ymosodiadau terfysgol ddatblygu yn Nhiwnisia, Paris a Brwsel. Gwnaethom ddathlu achlysuron cenedlaethol gydag arlwy anhygoel *Stargazing* wrth i Tim Peake, y gofodwr Prydeinig, deithio i'r gofod a'r cyfnod yn arwain i fyny at yr Etholiad Cyffredinol, ynghyd â'r canlyniadau, a gyrhaeddodd 89% o'r holl oedolion, gyda 19 miliwn o bobl yn gwylio darllediadau Teledu'r BBC ar noson y canlyniadau.

Eleni, rydym wedi cyrraedd cerrig milltir newydd, gan ddathlu 25 mlynedd ers sefydlu BBC Films, trosglwyddo BBC Three ar-lein yn y digwyddiad cyntaf o'i fath ledled y byd o deledu llinellol, a chyrraedd mwy o bobl ledled y byd nag erioed o'r blaen drwy ehangu BBC World Service. Eleni hefyd, mae BBC Introducing wedi darganfod 27 o artistiaid sydd wedi mynd ymlaen i lofnodi contractau â chwmnïau recordiau mawr, ac mae menter Deg Darn, sy'n cyflwyno plant i gerddoriaeth glasurol, wedi cael ei hymestyn i ysgolion uwchradd.



Eleni cynhaliwyd Gŵyl BBC Radio 6 Music mewn lleoliadau cerddoriaeth ar draws Bryste



*Britain's Forgotten Slave Owners* ar BBC Two a enillodd wobr BAFTA ac a gyflwynwyd gan David Olusoga



Heriodd drama deuluol BBC One *The A Word* ganfyddiadau am fyw ag awtistiaeth

Rydym yn ymfalchïo mewn gwasanaethau nodedig a rhaglenni neilltuol fel *Strictly Come Dancing* a *The Great British Bake Off* sydd wedi dod yn fyd-enwog ac yn ffefrynnau ar aelwydydd yn y DU a thu hwnt, ac rydym yn canolbwyntio ar foderneiddio a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer yr oes ddigidol. Rydym newydd gwblhau adolygiad creadigol o BBC Ar-lein. Ein huchelgais yw darparu gwasanaeth cyhoeddus nodedig sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu.

Gwnawn hyn ar-lein drwy ganolbwyntio ein hegni a'n creadigrwydd ar chwe phrif faes:

1. Newyddion diduedd a chywir yr ymddiriedir ynddo – BBC Newyddion.
2. Y darllediadau chwaraeon byw a'r newyddion chwaraeon gorau – BBC Chwaraeon.
3. Lle mae plant y DU yn dod i ddysgu a chwarae'n ddiogel – iPlay a BBC Bitesize.
4. Adloniant o'r ansawdd uchaf sy'n cyfoethogi ein bywydau – BBC iPlayer a BBC iPlayer Radio.
5. Y gorau o ran y celfyddydau a diwylliant, hanes a gwyddoniaeth – y Gwasanaeth Syniadau.
6. Achlysuron hanesyddol, digwyddiadau cenedlaethol – BBC Live.

Fel rhan o'r adolygiad a'n cynlluniau arbed cyffredinol, byddwn hefyd yn gwneud newidiadau i wefannau presennol, gan gynnwys cau gwasanaeth iWonder. Byddwn yn canolbwyntio ar newyddiaduraeth ffurf hir nodedig ar-lein o dan faner materion cyfoes ac yn cau News Magazine sydd ar-lein, safle ac ap ar wahân Newsbeat, a'r safle Teithio. Byddwn hefyd yn rhoi'r gorau i ddarparu tudalennau gwe mynegai newyddion lleol, ac yn lle hynny yn cynnig ffrwd agored ar ein canllaw treigl i straeon y BBC a darparwyr newyddion lleol, sef Local Live.

Rydym am agor y BBC i fod yn adnodd i eraill, yn ysgogydd i ddiwydiannau creadigol y DU, fel na fydd y buddsoddiad yn ffi'r drwydded yn fuddsoddiad yn y BBC yn unig. Dengys adroddiad KPMG yn haf 2015 fod y BBC yn chwarae rôl werthfawr yn y gwaith o gefnogi'r economi greadigol gyda £2.2 biliwn o incwm ffi'r drwydded yn cael ei fuddsoddi yn niwydiannau creadigol y DU. Yn yr hydref gwnaethom gyhoeddi cynlluniau i weithio'n agos gyda phartneriaid creadigol er mwyn gwasanaethu cynulleidfaoedd mewn ffyrdd newydd a chyffrous.

## Meithrin partneriaethau

Mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill yn werthfawr iawn. Drwy gyfuno ein harbenigedd a'n hadnoddau â rhai partneriaid allanol, gallwn gefnogi'r diwydiant creadigol ehangach a chynnig gwerth gwell am arian i bawb. Mae archif gymunedol y BBC, a ddeilliodd o'n partneriaeth ag amgueddfeydd ac orielau cenedlaethol yng Ngogledd Iwerddon, yn un enghraifft o bartneriaeth strategol â buddiannau pellgyrhaeddol. Anelwn at sefydlu partneriaethau sy'n cefnogi ac yn dangos y gorau o'n cynnwys ac yn rhoi llwyfan i'r syniadau a'r arloesedd gorau ar yr awyr ac ar y sgrîn. Mae ein partneriaeth hirdymor ag MG ALBA yn cyflwyno'r cynnwys Gaeleg gorau i'r gynulleidfa ehangaf bosibl.

Yn 2016 rydym yn cofio 400 mlynedd ers marwolaeth William Shakespeare ac mae'r BBC yn dathlu ei waith, gyda chynnwys ar gyfer pob cynulleidfa ar ein holl lwyfannau, fel rhan o Ŵyl Shakespeare y BBC. Gwnaethom weithio gyda'r Royal Shakespeare Company ar *Shakespeare Live!*, dathliad ar y teledu i gofio 400 mlynedd ers ei farw, ym mis Ebrill 2016. Rydym wedi cyhoeddi cynlluniau ar gyfer partneriaeth newydd gyda llyfrgelloedd lleol ac, ar y cyd â'r Llyfrgell Brydeinig, rydym wedi lansio gwefan – Shakespeare on Tour – er mwyn creu darlun digidol o'r ffordd y mae gwaith Shakespeare wedi dylanwadu ar Loegr.

Mae Get Creative yn ddathliad blwyddyn o hyd o gelfyddydau, diwylliant a chreadigrwydd Prydain, mewn partneriaeth â mudiad diwylliannol What Next?, yn ogystal ag ystod eang o sefydliadau celfyddydol, diwylliannol a gwirfoddol ledled y DU. Y syniad yw rhoi hwb i greadigrwydd yn y DU, yn ogystal â dathlu'r miliynau o bobl sydd eisoes yn gwneud rhywbeth artistig a chreadigol bob dydd.

Yn Get Creative, rydym yn gweithio'n agos gyda nifer fawr iawn o sefydliadau allanol gan gynnwys Culture at King's, Voluntary Arts, 64 Million Artists, Fun Palaces, y Gynghrair Dysgu Diwylliannol, a Chyngor Celfyddydau Lloegr, yn ogystal â Culture 24, y Royal Shakespeare Company, y BFI, y Roundhouse, Sadler's Wells, y Young Vic, National Theatre Wales, Cyngor Celfyddydau Cymru a llawer mwy. Dyma'r tro cyntaf i sefydliadau celfyddydol amatur a phroffesiynol ddod ynghyd i weithio ar brosiect cenedlaethol o'r maint hwn.

Dros y Pasg, gwnaethom ddechrau cyflwyno micro:bit, cyfrifiadur poced y gellir ei godio sydd â thechnoleg adnabod symudiadau, cwmpawd a thechnoleg Bluetooth, i bob plentyn ym mlwyddyn 7 neu'r hyn sy'n cyfateb iddi ledled y DU. Gan weithio gyda 29 o bartneriaid, y micro:bit yw menter addysgol fwyaf uchelgeisiol y BBC mewn 30 mlynedd.

Gwnaeth rhaglen hyfforddiant Make it Digital, a ddatblygwyd gyda phartneriaid yn cynnwys Canolfannau Gwaith a'r Asiantaeth Ariannu Sgiliau, roi cyfleoedd i fwy na mil o bobl ifanc ddi-waith yn 2015/16 a bydd yn parhau'r flwyddyn nesaf.

Ym maes newyddion, rydym wedi cyhoeddi cynllun partneriaeth newydd gyda darparwyr newyddion lleol, er mwyn cryfhau a gwella newyddiaduraeth leol, a'r rôl hollbwysig y mae'n ei chwarae wrth ddwyn awdurdodau lleol i gyfrif, tra'n cynnal y gystadleuaeth iach rhwng gwahanol ffynonellau newyddion sydd mor bwysig mewn democratiaeth.

## Trawsnewid yr hyn a gynigir i gynulleidfaoedd ifancach

Pan gafodd BBC Three ei lansio yn 2003, nid oedd Facebook, BBC iPlayer, Buzzfeed, yr Apple iPhone, Spotify na llawer o gynhyrchion eraill sydd wedi chwyldroi'r cyfryngau yn bodoli. Mae pobl ifanc heddiw mor gyfarwydd â chael gafael ar gynnwys ar ffôn ag ydynt ar y teledu, ac maent yn disgwyl gallu cael gafael ar gynnwys ar amrywiaeth o ddyfeisiau pan fo'n gyfleus iddynt. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae BBC Three wedi parhau ar ei daith i sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion pobl ifanc heddiw, ac mae'n arloesi gyda ffyrdd newydd o greu a chyflwyno cynnwys a fydd yn cadw i fyny â bywydau pobl ifanc yn y dyfodol. Felly, ym mis Chwefror eleni, ar ôl 18 mis o ymgynghori â rhanddeiliaid yn cynnwys pobl ifanc, ac yn dilyn Prawf Gwerth Cyhoeddus gan Ymddiriedolaeth y BBC, BBC Three oedd y sianel deledu gyntaf yn y byd i symud ar-lein, a manteisiodd ar y newid yn y ffordd y mae cynulleidfa 16-34 oed BBC Three yn defnyddio'r cyfryngau heddiw.

Mae cynnwys BBC Three yn cael ei wneud ar gyfer pobl ifanc ac mae'n cwmpasu materion sy'n berthnasol i fywydau pobl ifanc. Mae ar gael ar alw drwy setiau teledu cysylltiedig, consolau gemau, blychau pen set, apiau brodorol, dyfeisiau ffrydio a phorwyr drwy BBC Three ar iPlayer, ac mae The Daily Drop yn ffrwd 'symudol yn gyntaf' o straeon a chynnwys gan y BBC ac o'r we sy'n sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu diweddaru drwy gydol y dydd.

Rydym hefyd yn newid y ffordd rydym yn cyflwyno cynnwys i'n cynulleidfaoedd ieuengaf. Mae BBC Children yn dal i chwarae rôl arweiniol yn y gwaith o greu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus sy'n addas i'r ffordd mae cynulleidfaoedd ifanc am ei gael. Cam allweddol fu creu gofod ar alw diogel drwy lansio iPlayer Kids. Ymhlith datblygiadau digidol yn gyntaf eraill mae drama ar-lein CBBC *Dixi*, a datblygiad parhaus apiau CBeebies Storytime a Playtime.

Mae 18.3 miliwn o straeon unigol, sy'n nifer ryfeddol, wedi cael eu lawrlwytho i ap CBeebies Storytime mor belled, ac fel rhan o fenter addysgol fwyaf uchelgeisiol y BBC mewn 30 mlynedd, mae ein gwaith gydag ysgolion wedi gweld Bwletin Ysgol y BBC yn dathlu 10 mlynedd, gyda mwy na 400,000 o ohebwyr ysgol o flynyddoedd 1 i 9 eisoes wedi cymryd rhan. Mae Deg Darn, y fenter arloesol i gyflwyno plant i gerddoriaeth glasurol, wedi cael ei hymestyn i ysgolion uwchradd, gan adeiladu ar lwyddiant Deg Darn i ysgolion cynradd, sydd eisoes wedi cynnwys dros hanner yr ysgolion cynradd yn y DU, a chafodd



## Natur nodedig a chynulleidfa'r BBC

**Helen Boaden**
Cyfarwyddwr
Radio a BBC England

Nid yw'r term natur nodedig yn un cyffredin iawn wrth sgwrsio o ddydd i ddydd, ond mae'n un rydym yn ei ddefnyddio yn weddol reolaidd. Y rheswm dros hynny yw ei bod yn un o nodweddion sylfaenol y BBC a'n gwasanaethau, ac yn rhywbeth rydym yn canolbwyntio arno ym mhopeth a wnawn.

Mae'r rhan fwyaf o gwmnïau yn y cyfryngau yn ceisio bod yn wahanol, ac mae gan rai Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus eraill ofyniad ffurfiol i fod yn nodedig, ond nid oes gan yr un darlledwr arall yr un ymrwymiad i fod yn nodedig mewn cynifer o feysydd.

Ar y radio, mae dwy ran o dair o'r gerddoriaeth ar Radio 1 yn newydd, mae 1,100 awr o gerddoriaeth y flwyddyn ar Radio 2 yn perthyn i genres arbenigol fel jazz, canu gwerin a chanu gwlad, ac mae'r gorsafoedd sy'n weddill o Radio 4 i Nan Gàidheal yn gwbl unigryw. Ar y teledu, y BBC yw'r unig ddarparwr sylweddol ym maes rhaglenni hanes naturiol yn y DU. Ac i blant, mae CBeebies a CBBC yn darparu mwy nag 85% o'r holl raglennu teledu a ddarlledir am y tro cyntaf ac sy'n dod o'r DU.

Mae'r tair enghraifft hyn yn dangos beth yw natur nodedig – a beth nad yw. Mae CBeebies a CBBC yn sianelau unigryw, ond maent hefyd yn hynod boblogaidd, gyda CBeebies yn cyrraedd 46% o'i chynulleidfa darged. Mae Radio 2 yn eclectig ac yn rhyfeddol, ond hi hefyd yw'r orsaf radio fwyaf yn y DU.

Nid yw natur nodedig yn golygu darlledu niche, nad yw'n llwyddiant masnachol. Mae sianelau fel BBC ALBA a BBC Four yn amlwg yn wahanol i bopeth arall ar y teledu ond gellir dadlau mai ein gwasanaeth mwyaf nodedig yw BBC One. Tri deg mlynedd yn ôl, roedd pumed ran o amserlen oriau brig BBC One yn cynnwys cyfresi o dramor fel *Dallas*, *The Rockford Files* a *Kojak*. Heddiw, nid oes yr un gyfres o'r fath.

O *Happy Valley* ar BBC One i *Slow TV* ar BBC Four, ni fu gwasanaethau a rhaglenni'r BBC mor nodedig erioed. Yn ystod cyfnod y Siarter nesaf byddwn yn sicrhau, fel y Gorfforaeth ei hun, eu bod yn parhau i fod yn unigryw ac yn werthfawr, i bawb.

123,436 o blant, sy'n nifer anhygoel, eu hysbrydoli i roi cynnig ar gystadleuaeth straeon byrion 500 O EIRIAU Radio 2 ar gyfer plant 13 oed ac iau.

Anogodd ymgyrch #1millionhours Radio 1 wrandawyr ifanc i wirfoddoli i achosion da gyda phedair elusen genedlaethol, a gweithiodd Radio 1Xtra mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Lloegr a'r Roundhouse fel rhan o'i thymor llafar, a chyrhaeddodd sianel YouTube Radio 1 dair miliwn o danysgrifwyr.

Wrth gwrs, mae cynulleidfaoedd ifanc yn dal i ddefnyddio a mwynhau ystod eang o gynnwys o bob rhan o'r BBC ond canolbwyntio ar drawsnewid yr hyn a gynigir i gynulleidfaoedd ifancach yw'r prif amcan ar gyfer y flwyddyn i ddod o hyd.

## Datblygu BBC mwy personol

Mae'r BBC wedi bod ar flaen y gad o ran arloesi digidol ers 20 mlynedd, gan gyfuno ein harbenigedd golygyddol a digidol er mwyn helpu i newid sut, pryd a ble rydym yn darllen straeon, yn gwrando ar raglenni neu'n dal i fyny â'n hoff sioeau. Nawr, rydym yn anelu at roi cynulleidfaoedd wrth y llyw gan eu galluogi i bersonoli ein gwasanaethau. Rydym yn creu profiadau personol, gan ddefnyddio ein cyfuniad unigryw o arbenigedd creadigol a thechnolegol, ac ystod o gynnwys heb ei ail.




Dros y chwe mis diwethaf, rydym wedi bod wrthi'n cyflwyno amrywiaeth o nodweddion i feysydd allweddol o'r BBC. O adran My News yn ap BBC News i Fy Rhaglenni yn BBC iPlayer, argymhellion ar yr hafan i hysbysiadau gan BBC Sport, a newyddlenni wedi'u teilwra o bob



## Cysylltu'r DU drwy ddigwyddiadau

**Charlotte Moore**
Rheolwr
Sianelau Teledu ac iPlayer

Bob Nadolig, mae'r BBC yn dod â'r teulu cyfan a'r genedl gyfan ynghyd. Eleni, roedd wyth o'r 10 rhaglen fwyaf poblogaidd dros yr Ŵyl yn perthyn i'r BBC, gyda chast o gymeriadau yn cynnwys ditectif Fictorianaidd, bydwraig o'r 1950au, a brigyn wedi'i animeiddio.

Gall y BBC uno'r genedl mewn gorfoledd a dathlu, ond bydd hefyd yn sefyll yn un â hi yn ei galar. Y Gorfforaeth yw'r dewis ddarlledwr ar gyfer digwyddiadau fel Sul y Cofio, a dyma lle mae cynulleidfaoedd yn troi er mwyn deall digwyddiadau erchyll fel yr ymosodiadau ym Mharis y llynedd.

Blwyddyn ar ôl blwyddyn, mae'r BBC yn rhoi sylw i'r digwyddiadau sydd bwysicaf i bobl y Deyrnas Unedig, ynghyd â'u creu.

Daw gwylwyr i'r BBC ar gyfer y Gemau Olympaidd ac etholiadau, ond hefyd ar gyfer pobi, materion busnes a dawnsio neuadd, a drosir gan y BBC yn rhywbeth y gall pawb ei brofi a'i fwynhau. Mae sioeau fel *The Great British Bake Off*, *The Apprentice* a *Strictly Come Dancing* nid yn unig yn diddanu ac yn addysgu, maent yn creu sgwrs genedlaethol ac yn cryfhau gwead cymdeithas.

Mae'r BBC wedi chwarae'r rôl hon erioed. Gall teuluoedd a fyddai wedi ymgasglu o amgylch y radio yn y 1940au, neu o flaen y Coroni yn y 1950au, nawr wylio ar ddyfeisiau niferus ar adeg ac mewn lleoliad sy'n gyfleus iddynt.

Mae technoleg yn newid, ac mae gan gynulleidfaoedd fwy o ddewis a rheolaeth nag erioed, ond y BBC yw'r darlledwr sy'n ein dwyn ynghyd o hyd.

Nid yw twf technoleg na'r gallu i newid amser gwylio yn golygu na all darlledu ein huno mwyach. Roedd y ffigurau cynulleidfa cychwynnol ar gyfer amserlen Nadolig y BBC yn is na blynyddoedd blaenorol, ond wrth ychwanegu canlyniadau ar gyfer sesiynau gwylio ar adeg wahanol, enillodd rhaglenni fel *Call the Midwife*, *Mrs Brown's Boys* a *Sherlock* dros dair miliwn o wylwyr, gan olygu mai nhw oedd rhai o'r rhaglenni lle newidiwyd eu hamser gwylio fwyaf mewn hanes, a chan gyfateb i berfformiad dros y Nadolig yn ystod blynyddoedd blaenorol.

rhan o'r BBC, rydym yn ei gwneud hyd yn oed yn haws ac yn fwy cyfleus i gynulleidfaoedd ddod o hyd i gynnwys sy'n bwysig iddynt a'i ddarllen, ei wylio a gwrando arno.

Rydym yn dechrau gweld bod y cyfuniad o nodweddion newydd rydym wedi eu lansio yn gwella profiad defnyddwyr. Mae 6.4 miliwn o bobl wedi mewngofnodi i'r BBC - gyda mwy na 2 filiwn o ddefnyddwyr wedi mewngofnodi ar safleoedd y BBC bob mis. Ers yr adeg hon y llynedd, mae 1.6 biliwn o raglenni'r BBC wedi cael eu hargymell; anfonwyd 1.4 biliwn o negeseuon wedi'u personoli drwy ap BBC Sport; yn yr ychydig fisoedd diwethaf, mae 1.7 miliwn o ddefnyddwyr wedi personoli adran My News ar ap a gwefan BBC News - gan ddewis dros 12 miliwn o bynciau i gadw llygad arnynt; a bu cynnydd o 400% yn y nifer sy'n cofrestru ar gyfer ein newyddlenni gan y BBC cyfan, sy'n fwyfwy perthnasol i'r hyn mae defnyddwyr yn ei ffafrio ac yn ei ddewis.

Rydym hefyd am weld mwy o'n cynulleidfa yn dylanwadu ar gyfeiriad y BBC yn y dyfodol a chyda'r trefniadau llywodraethu newydd o dan y Siarter nesaf, rydym wedi adolygu'r ffordd mae pobl yn rhyngweithio â'r BBC ei hun.

Rydym yn datblygu Ein BBC lle mae'r cyhoedd yn teimlo'n fwy cysylltiedig ac yn teimlo bod ganddynt fwy o berchenogaeth wirioneddol o'r BBC. Rydym am gynnal sgwrs ddwy ffordd â'n cynulleidfaoedd, gan ei gwneud yn haws i rannu eu sylwadau, syniadau, clod a beirniadaeth, a chael ymateb. Rydym yn ystyried ffyrdd o fod yn fwy agored gyda'n data, gan eu gwneud yn fwy hygyrch ac yn haws eu defnyddio a'u deall. Rydym am rannu cymaint â phosibl gan gofio hefyd ein bod yn gweithredu mewn amgylchedd masnachol a newyddiadurol, lle na all gwybodaeth sensitif fod ar gael.

### Dangos gwerth am arian ym mhob maes o'n gwaith

Llwyddwyd i wneud hyn oll drwy raglen ddiwygio sylweddol. Dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae'r BBC wedi trawsnewid ei effeithlonrwydd a'i gynhyrchiant, gan ddarparu mwy o wasanaethau am lai, ac mae bellach mor effeithlon â sefydliadau cymharol. Mae ein record o ran gwneud arbedion effeithlonrwydd ymhell ar y blaen i'r sector cyhoeddus hyd yn oed ar ôl ystyried cost gwneud y newidiadau. Mae 94% o wariant rheoladwy bellach yn cael ei wario ar gynnwys, dosbarthu a chymorth cysylltiedig.

Proses yw effeithlonrwydd, yn hytrach na diwedd y daith. Rydym yn parhau i geisio a chyflawni arbedion effeithlonrwydd er mwyn rheoli chwyddiant yn ein sylfaen gostau bresennol a chyllido lefelau arferol o fuddsoddiad mewn gwariant cyfalaf. Yn ei Adolygiad o Effeithlonrwydd y BBC, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2015, nododd PricewaterhouseCoopers (PwC) y byddai arbedion effeithlonrwydd cynhyrchiol yn galw am gryn dipyn o ailstrwythuro a newidiadau sylweddol i arferion gwaith. Ers cyhoeddi'r ddogfen honno, mae'r BBC wedi bod yn gweithio i nodi a gweithredu arbedion effeithlonrwydd newydd. Ym mis Tachwedd 2015, gwnaethom gyhoeddi £150 miliwn o arbedion er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg cyllid, a achoswyd yn bennaf gan gwymp yng nghanran y cartrefi â set deledu. Rydym yn cyflawni'r arbedion hyn drwy greu BBC symlach, mwy darbodus sydd â llai o is-adrannau ac uwch reolwyr mewn meysydd cynnwys, torri mil o swyddi erbyn 2017, sy'n cynnwys ailstrwythuro gwasanaethau cefn



## Y World Service ac ehangu rhyngwladol

**James Harding**
Cyfarwyddwr
Newyddion a Materion Cyfoes

Tasg BBC Newyddion yw gwneud synnwyr o'r byd. Yn 2015, bu angen gwneud hyn yn fwy nag erioed. Roedd yn flwyddyn a wnaeth ein dychryn a'n syfrdanu. Cafwyd un argyfwng ar ôl y llall.

Gwnaeth pobl safiad dros y rhyddid i fynegi barn pan lofruddiwyd newyddiadurwyr Charlie Hebdo. Pan oedd Ewrop fel petai wedi distewi storm yr Ewro yng Ngwlad Groeg, cafodd ei siglo gan y symudiad mwyaf o ymfudwyr ers yr Ail Ryfel Byd. Baglu fu hanes twf yn Tsieina; cwympodd prisiau olew; gwelodd India adfywiad; ffrwydrodd Fifa. Dechreuodd robotiaid a deallusrwydd artiffisial symud, mewn ffordd amlwg, y tu hwnt i'n dychymyg ac i mewn i'n bywydau. Cafwyd cymodi rhwng yr UD ac Iran a Chiwba. Amgloddiodd Rwsia yn yr Ukrain a daeth yn rhan o'r darlun yn Syria. Yn Nigeria a Myanmar, gwnaeth yr etholiadau synnu'r rheini a oedd wedi amau y gallai trosglwyddo pŵer yn heddychlon, y bu hir aros amdano, fyth ddigwydd. Ac yn y DU, gwnaeth yr etholwyr ddrysu'r polwyr wrth i Blaid Geidwadol David Cameron ennill mwyafrif cyffredinol.

Mewn byd swnllyd, lle mae cymaint o wybodaeth yn ddarniog ac yn gwta, daeth pobl i'r BBC am wybodaeth ddibynadwy. Yn 2015, ymrwymodd y Llywodraeth £290 miliwn arall i'w fuddsoddi yn BBC World Service. Bydd yn galluogi'r BBC i gynnig arlwy newyddion annibynnol, diduedd a deallus i filiynau yn fwy o bobl yng Ngogledd Korea a Rwsia, India ac Affrica. Mae'n dangos cefnogaeth i'r hyn a wna'r BBC. A bydd yn galluogi'r BBC, yn fwy nag erioed, i wneud synnwyr o'r byd i bobl ledled y byd.

swyddfa a chymorth, ac uno is-adrannau technoleg a digidol.

Bydd £35 miliwn yn cael ei arbed o gyllideb hawliau chwaraeon teledu'r BBC. Mae'r gwaith o gyflawni'r targed arbedion hwn yn anodd, yn enwedig o ystyried y lefelau uchel o chwyddiant yn y farchnad. Rydym eisoes wedi gwneud rhai penderfyniadau anodd sydd wedi arwain at golli rhai hawliau a digwyddiadau presennol, ac sydd wedi cyfrannu at yr arbedion, er enghraifft o ran y gystadleuaeth Golff Agored a therfynu ein contract i ddarlledu rasys Fformiwla 1 dair blynedd yn gynt. Mae'r cam hwn yn adlewyrchu'r cyfyngiadau ariannol presennol ond nid yw'n golygu bod gennym lai o ymrwymiad i'n harlwy chwaraeon. Yn ddiweddar, rydym wedi sicrhau cyfres o hawliau pwysig – yn cynnwys Wimbledon, uchafbwyntiau'r Uwch Gynghrair, Cwpan yr FA, darllediadau byw o Ewro 2016 a phencampwriaeth bêl-droed 2020, y Gemau Olympaidd ar y cyd â Discovery, a phencampwriaeth rygbi'r Chwe Gwlad ar y cyd ag ITV.

Rydym yn dal i fod yn ymrwymedig i sicrhau ein bod yn gwario cymaint â phosibl ar gynnwys. Mae newidiadau radical ar droed o fewn y BBC. Erbyn diwedd y Siarter nesaf, bydd ein holl allbwn naill ai'n agored i gystadleuaeth yn y farchnad neu'n cael ei gymharu â'r gorau. Byddwn yn defnyddio cystadleuaeth lle y bo'n bosibl, ac yn cymharu lle nad yw'n bosibl. Prif ysgogydd Cystadlu neu Gymharu yw sicrhau'r gwerth gorau i dalwyr ffi'r drwydded – gan sicrhau ein bod yn cyflwyno'r allbwn gorau am y gost isaf. Yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol gan Ymddiriedolaeth y BBC neu ei holynydd, byddwn yn lansio BBC Studios ynghyd â dileu'r gwarantau mewnol sydd wedi diogelu cynyrchiadau teledu nad ydynt yn rhai newyddion.

Gwneud rhaglenni sydd wrth wraidd y BBC ac rydym am sicrhau bod y cynnwys gorau ar gael i'n cynulleidfaoedd. Drwy lansio BBC Studios, gallwn sicrhau bod y BBC yn cynnig yr ansawdd gorau a'r gwerth gorau am arian i dalwyr ffi'r drwydded. Cafodd BBC Studios ei lansio fel is-adran o'r BBC ar 29 Ebrill 2016 a chynigir ei bod yn dod yn is-gwmni ar wahân ym mis Ebrill 2017. Bydd mwy o gystadleuaeth yn rhoi mwy o ryddid a dewis creadigol i gomisiynwyr.

O ran radio, rydym yn ystyried ffyrdd o gynyddu'r cyfleoedd i gynhyrchwyr annibynnol greu cynnwys, gan agor cystadleuaeth ym mhob maes lle ceir buddiannau creadigol neu economaidd. Byddai'r cynigion hyn, sy'n amodol ar gymeradwyaeth, yn arwain at gystadleuaeth am tua 60% o oriau radio rhwydwaith cymwys. Byddai gwneud tua 60% o oriau cymwys yn agored i gystadleuaeth yn rhoi mwy o gyfleoedd i gwmnïau annibynnol wneud rhaglenni ar gyfer portffolio radio rhwydwaith cyfan y BBC.

O ran cynnwys ar-lein, bydd 100% o gynnwys ar-lein y BBC nad yw'n gysylltiedig â newyddion ar agor i gystadleuaeth lawn erbyn diwedd cyfnod y Siarter.

Drwy gydol gweddill 2016, byddwn yn gweithio ar ein cynllun arbedion tymor hwy er mwyn ateb her ariannol hanner cyntaf y Siarter newydd. Rydym wedi amcangyfrif y bydd angen i ni ddod o hyd i gyfanswm o tua £800 miliwn o arbedion cylchol erbyn 2021/22.



## Rhoi llwyfan i greadigrwydd yn y DU

**Tim Davie**
Prif Swyddog Gweithredol
BBC Worldwide a Chyfarwyddwr Global

Ar adeg pan fo cyfuno o fewn y diwydiant, pan welir newydd-ddyfodiaid yn ymuno â'r farchnad a phan fo chwyddiant o ran y gyllideb ddrama, credaf fod gan BBC Worldwide ran bwysig i'w chwarae yn darganfod ac yn meithrin y gorau o ran creadigrwydd yn y DU, ynghyd â rhoi llwyfan iddo.

Eleni, gwnaethom ddathlu 40 mlynedd ers sefydlu BBC Worldwide Showcase, ffair allforio teledu fwyaf y byd gan un dosbarthwr a llwyfan unigryw i gynnwys o Brydain. Gan gynnal y ffair yn Lerpwl am y bumed flwyddyn, gwnaethom groesawu dros 700 o brynwyr o bob cwr o'r byd, a wnaeth wylio a phrynu'r teitlau diweddaraf gan y BBC a chynhyrchwyr annibynnol. Mae'r cynadleddwyr yn adlewyrchu'r newidiadau rwyf wedi eu gweld yn y farchnad ehangach – bellach mae gennym niferoedd cynyddol o brynwyr o lwyfannau digidol byd-eang a rhanbarthol ynghyd â'r darlledwyr teledu traddodiadol.

Pan fo grŵp mwy o faint yn berchen ar 50% o gwmnïau annibynnol yn y DU, yn ôl Arolwg Broadcast ar Gwmnïau Annibynnol yn 2016, rwy'n falch bod BBC Worldwide yn gallu cynnig gwasanaethau dosbarthwr mawr a leolir yn y DU i gwmnïau annibynnol. At hynny, mae poblogrwydd parhaus drama bremiwm yn yr iaith Saesneg – cynyddodd refeniw'r pum prif gwmni drama annibynnol yn y DU draean y llynedd yn ôl Broadcast – yn golygu bod mwy o angen partneriaid lluosog er mwyn ymateb i gost gynyddol cynhyrchu. Fel partner creadigol gweithredol, rydym wedi sefydlu partneriaethau cyd-ddatblygu a dosbarthu â chynhyrchwyr a gallwn gynnig cyd-gyllid rhyngwladol.

Mae cynnwys gwych wrth wraidd popeth a wna BBC Worldwide ac rwy'n falch o allu rhannu'r cynnwys o'r radd flaenaf, na ellir ei golli, a wneir gan y BBC, ynghyd â'r gorau o ddiwydiannau creadigol y DU, ledled y byd.



## Yr Adolygiad o'r Siarter ac ymateb y BBC i'r Papur Gwyn

**James Purnell**
Cyfarwyddwr
Strategaeth a Materion Allanol

Daw Siarter Frenhinol gyfredol y BBC i ben ym mis Rhagfyr 2016. Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) sy'n gyfrifol am adnewyddu'r Siarter ac mae'r BBC wedi bod mewn trafodaethau â Gweinidogion a swyddogion i lywio dyfodol y BBC. Dechreuodd y broses yn swyddogol pan gyhoeddodd y Llywodraeth Bapur Gwyrdd ym mis Gorffennaf 2015 a chynnal ymgynghoriad arno. Dros yr haf, cafwyd ymateb heb ei debyg i'r ymgynghoriad ymhlith y cyhoedd, gyda thua 190,000 o gyflwyniadau, gan ddangos cefnogaeth y cyhoedd i'r BBC a'r lefel o ymgysylltu sydd rhyngddynt. Drwy gydol hydref 2015, cymerodd swyddogion gweithredol y BBC ran mewn seminarau a gynhaliwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC ledled y DU, gan wrando ac ateb cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd a chyflwyno gweledigaeth y BBC.

Roedd Papur Gwyn Llywodraeth y DU ym mis Mai 2016 yn garreg filltir arwyddocaol o ran adnewyddu Siarter Frenhinol y BBC. Yn ei hanfod, mae'n cadarnhau pa mor bwysig yw'r BBC i'r cyhoedd a'r diwydiannau creadigol. Cyflwynodd dri chynnig pwysig a ddylai sicrhau dyfodol diogel ac annibynnol. Yn gyntaf, cynigiodd gyfnod Siarter o 11 mlynedd fel nad yw trafodaethau ynghylch Siarter y BBC yn cyd-daro ag Etholiadau Cyffredinol. Yn ail, mae wedi cadarnhau mai drwy ffi'r drwydded y caiff y BBC ei ariannu dros yr 11 mlynedd nesaf. Yn drydydd, sicrhaodd fod graddfa a chwmpas y BBC yn parhau. Gyda'i gilydd, dylai'r mesurau hyn gynnig sefydlogrwydd hirdymor a sylfaen gadarn i'r BBC.

Nawr, mae'n hollbwysig ein bod yn gallu sicrhau bod bwriadau cadarnhaol y Papur Gwyn yn cael eu trosglwyddo'n glir i'r Siarter Frenhinol a'r Cytundeb newydd. Mae'r BBC yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda'r Llywodraeth er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd. Byddwn hefyd yn parhau i drafod y meysydd sy'n weddill lle mae anghytundeb rhyngom.

Wrth gwrs, wrth wneud hyn byddwn yn parhau i wneud paratoadau er mwyn sicrhau bod y BBC mewn sefyllfa i ateb unrhyw heriau yn y dyfodol, gan gynnwys ymddygiad newidiol y gynulleidfa a newidiadau yn y tirlun cystadleuol. Ym mis Medi 2015, gwnaethom gyflwyno rhaglen ddiwygio uchelgeisiol ar gyfer y BBC, sef Balch, Beiddgar, Creadigol – gan anelu at wneud y BBC yn fwy agored, creadigol, nodedig a phersonol nag erioed. Rydym eisoes wedi dechrau gweithio ar gyflawni hyn y tu ôl i'r llenni ac rydym yn hyderus, gyda Siarter newydd ar waith, y bydd yn arwain at BBC a all edrych ymlaen at y dyfodol yn hyderus.



Cyrhaeddodd y rhaglen olaf yn y gyfres ddrama newydd *Doctor Foster* fwy na 10 miliwn o wylwyr

# Ein cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf

Ar gyfer y flwyddyn nesaf, mae'r BBC wedi gosod pedwar amcan strategol i'w hun – mae pob un yn perthyn i'n cenhadaeth gyffredinol i ddarparu cynnwys a gwasanaethau nodedig o'r radd flaenaf. Byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol: creu BBC agored, a gweithio gyda phartneriaid; cynnig BBC mwy personol a digidol; gwneud y BBC yn symlach a hyd yn oed yn fwy creadigol; a thrawsnewid yr hyn a wnawn i gynulleidfaoedd ifancach.

## Creu BBC agored, gan weithio gyda phartneriaid

Yn 2016/17 ein nodau yw:

— adeiladu ar gydberthnasau sy'n bodoli eisoes

— datblygu prosiectau partner newydd

— ystyried ffyrdd newydd o weithio a churadu cynnwys

— ehangu cynnwys trydydd parti ar lwyfannau'r BBC fel iPlayer

Bydd y Siarter a'r Cytundeb newydd yn cael eu cefnogi gan fframwaith partneriaeth newydd er mwyn egluro a symleiddio dull gweithredu'r BBC, fel y gall gwaith partneriaeth a gwaith cydweithredol barhau'n flaenoriaeth, tra'n cadw o fewn fframwaith rheoleiddio'r BBC.

Byddwn yn paratoi'r ffordd tuag at y Gwasanaeth Syniadau gyda phrosiectau braenaru, er enghraifft New Age of Wonder, a gaiff ei lansio yn 2017 gyda phartneriaid o'r sector gwyddoniaeth.

Bydd BBC Arts yn sefydlu partneriaeth rhwng y BBC a Chyngor Celfyddydau Lloegr ar sail celfyddydau byw, gan adeiladu ar Live from Television Centre.

Bydd Arts Online yn cyflwyno ffyrdd newydd o weithio ac yn rhedeg prosiect braenaru ar gyfer cynnwys trydydd parti ar iPlayer drwy ei bartneriaethau niferus ar gyfer Gŵyl Shakespeare.

Bydd Get Reading yn gweithio gyda phartneriaid allweddol er mwyn dathlu'r mawrion llenyddol ac annog y genedl i ddarllen a rhannu eu hoff lyfrau.

Gan weithio gyda Dinas Diwylliant Hull 2017, byddwn yn ymchwilio i ffyrdd pellach o ddefnyddio technoleg ddigidol er mwyn ei gwneud yn haws i'r cyhoedd ymgysylltu â diwylliant, syniadau a'r celfyddydau.

Bydd The Space yn parhau i greu modelau comisiynu a chynhyrchu mwy agored ar gyfer cynnwys mewn partneriaeth â'r sector celfyddydol.

Mewn mannau eraill, bydd arlwy'r Rhyfel Byd Cyntaf ar y BBC yn parhau gyda phartneriaid er mwyn meithrin dealltwriaeth newydd o frwydrau Jutland a'r Somme ymhlith cynulleidfaoedd.

Ar y teledu, bydd *A Black History of Britain* yn edrych ar y berthynas rhwng Ynysoedd Prydain a phobl Affrica, gan weithio gyda sefydliadau treftadaeth i ysbrydoli ymchwil a gweithgareddau cymunedol.

Mae Radio 4 a'r Amgueddfa Brydeinig yn cynllunio prosiect cydweithredol newydd a fydd yn canolbwyntio ar ffydd a chymdeithas, drwy wrthrychau o hen hen hanes hyd heddiw.

Bydd Radio 1 yn parhau â'i hymgyrch wirfoddoli #1millionhours mewn partneriaeth â phartneriaid elusennol yn y DU.




Perfformiodd y grŵp acapella o Sunderland Dodici Voce fel rhan o *Hadrian's Wall of Sound* ar gyfer Diwrnod Cerddoriaeth y BBC



Cafodd *Mrs Brown's Boys Christmas Special*, a gynhyrchwyd gan BBC Scotland, ei gwylio gan 6.5 miliwn o bobl ar y diwrnod



Darlledwyd *The World's Worst Place To Be Disabled?* gan BBC Three fel rhan o gyfres o raglenni a oedd yn canolbwyntio ar fywydau pobl ifanc anabl

Bydd BBC Music yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid o fwy na 250 o sefydliadau ledled y DU er mwyn cyflwyno Deg Darn arall i ysgolion cynradd ac uwchradd yn y DU, ac i gynnal Diwrnod Cerddoriaeth blynyddol y BBC. Caiff y ddwy fenter eu cefnogi gan grwpiau perfformio'r BBC.

Bydd Radio 3 yn adeiladu ar bartneriaethau cerddoriaeth sy'n bodoli eisoes ac yn chwilio am bartneriaid newydd, gan gynnwys lleoliadau ac ensembles ledled y wlad, er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd.

Ym maes newyddion, bydd creu partneriaeth newydd gyda darparwyr newyddion lleol yn cryfhau a gwella newyddiaduraeth leol, a'r rôl hollbwysig y mae'n ei chwarae wrth ddwyn awdurdodau lleol i gyfrif. Caiff mwy o sylw a chynnwys o gynghorau eu dosbarthu'n ehangach, gan sicrhau bod mwy o atebolrwydd a thryloywder mewn Prydain fwyfwy datganoledig.

Mae'r cynlluniau hyn yn fwy na dim ond carreg filltir yn y berthynas rhwng y BBC a'r wasg leol. Byddant yn gwella newyddiaduraeth leol, gan sicrhau bod mwy o atebolrwydd o ran pobl mewn bywyd cyhoeddus, a byddant yn galluogi cynulleidfaoedd y BBC a darllenwyr papurau newydd i dderbyn gwell arlwy o ran yr hyn sy'n digwydd yn eu cymunedau mewn gwirionedd.

Mae ein mentrau partneriaeth yn cynnwys sefydlu uned newyddiaduraeth data ar y cyd, gan wella maes newydd hollbwysig o newyddiaduraeth ddigidol. Byddwn yn creu cronfa newyddion fideo, gan alluogi gwefannau cyfryngau newyddion i gael gafael ar gynnwys newyddion fideo a sain lleol y BBC, a fydd yn gwella eu harlwy ar-lein ac yn gwneud allbwn newyddion y BBC yn fwy hygyrch i gynulleidfaoedd ar-lein. Byddwn yn sefydlu gwasanaeth gohebu ar gyfer y sector cyhoeddus lleol er mwyn rhoi sylw i awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus. Bydd y BBC yn ariannu 150 o newyddiadurwyr o 2017, a gaiff eu cyflogi gan bapurau newydd lleol a darparwyr newyddion lleol cymwys eraill.

### Ledled y DU

Mae Make it Digital wedi cyflwyno hyd at filiwn o ddyfeisiau micro:bit y BBC i ddisgyblion ym Mlwyddyn 7 neu'r hyn sy'n cyfateb iddi ledled y DU a bydd yn gweithio mewn partneriaeth â llyfrgelloedd er mwyn meithrin sgiliau digidol.

Bydd gorsafoedd radio lleol yn cydweithio â'r sector llyfrgelloedd. Bydd Tasglu'r Celfyddydau yn adrodd ar weithio gyda sefydliadau lleol ledled y DU.

Mae Rhanbarthau Lloegr hefyd yn anelu at ddatblygu partneriaethau mwy effeithiol â sefydliadau newyddion lleol eraill.

Gyda thalent ysgrifennu a pherfformio yn yr Alban, bydd BBC Scotland yn cynnig drama gynrychioliadol ac yn dathlu treftadaeth ddiwylliannol a cherddorol cyfoethog ac amrywiol y genedl. Bydd hefyd yn gweithio gyda sefydliadau datganoledig, y wasg leol a cholegau newyddiaduraeth er mwyn cyflwyno newyddion perthnasol a bydd yn cydweithredu ag arbenigwyr addysgol a myfyrwyr er mwyn cefnogi'r arlwy dysgu ac yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag MG ALBA er mwyn darparu BBC ALBA.

### Ymchwil a Datblygu

Bydd y Bartneriaeth Ymchwil Ddata yn bartneriaeth newydd uchelgeisiol rhwng Ymchwil a Datblygu a sawl sefydliad academaidd. Bydd y bartneriaeth yn ymchwilio i ffyrdd newydd o gasglu a dadansoddi symiau mawr o ddata – ac yna bydd yn defnyddio'r data hyn i wella ein gwasanaethau. Er enghraifft, drwy greu profiadau mwy personol; drwy leihau cost gweithredu ein gwasanaethau; neu drwy greu profiadau cyfryngau newydd sbon.

Bydd Ymchwil a Datblygu yn gweithio mewn partneriaeth mewn ffyrdd eraill hefyd. Er enghraifft, gweithio gyda Chymdeithas Llif Gwaith Uwch y Cyfryngau er mwyn datblygu safonau cyffredin ar gyfer technoleg cynhyrchu IP newydd sy'n galluogi cynhyrchwyr i gasglu, golygu a dosbarthu cynnwys ar y we. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i bawb ddatblygu gwasanaethau newydd sydd i gyd yn gweithio mewn ffordd debyg ac a all gael eu cyfuno'n hawdd. Bydd Ymchwil a Datblygu hefyd yn gweithio gyda JANET (y rhwydwaith ymchwil cyflymder uchel) fel bod sefydliadau a sefydliadau diwylliannol yn cael yr ystod band (100mb+) sydd ei hangen arnynt i weithio gyda ni er mwyn manteisio ar y technolegau cynhyrchu IP newydd hyn.

## Cynnig BBC mwy personol a digidol

Gan adeiladu ar lwyddiant eleni, byddwn yn parhau i wella'r ffyrdd presennol y mae profiad ein cynulleidfa yn dod yn fwy personol – gan eu teilwra ar sail eu diddordebau unigol.

### myBBC

Byddwn yn parhau i wella ein harlwy ar-lein er mwyn helpu mwy o'n cynulleidfaoedd i ddod o hyd i gynnwys rydym yn gwybod eu bod yn ei werthfawrogi, a'i ddarparu fel y gallant ei wylio, gwrando arno neu ei ddarllen, mewn ffyrdd sy'n fwy cyfleus iddynt.

Drwy wella a symleiddio system adnabod y BBC, byddwn yn ei gwneud yn hawdd i'r gynulleidfa reoli'r cynnwys maent yn ei weld a'r hyn rydym yn argymell ar eu cyfer. Byddwn yn rhoi mwy o reolaeth iddynt o ran y pethau rydym yn eu dysgu am eu gweithgareddau ar-lein gyda'r BBC ynghyd â sut rydym yn eu defnyddio i wella eu profiad. Byddwn yn cyflwyno nodweddion sy'n ein helpu i ddysgu mwy am weithgareddau defnyddiwr ar ôl iddo fewngofnodi. Drwy wylio, gwrando, darllen ac ychwanegu cynnwys maent yn ei hoffi at eu

proffil eu hunain, byddwn yn dysgu beth mae pawb yn ei fwynhau. Bydd hyn yn ein galluogi i bersonoli negeseuon e-bost, anfon hysbysiadau ar-lein pan fydd cynnwys ar gael o nifer gynyddol o feysydd ac argymell rhaglennu perthnasol arall ar ôl iddynt orffen chwarae eitem yn ôl ar iPlayer a chynhyrchion digidol eraill.

Rydym hefyd yn helpu gwneuthurwyr cynnwys i ryngweithio â chynulleidfaoedd yn fwy, drwy sylwadau, pleidleisiau, cysylltu â ni, mwy o ffyrdd o gymryd rhan – a fydd yn helpu i lywio ein trafodaethau am wneud cynnwys yn y dyfodol.

### Y Ras i Rio

Gwelwyd newid sylweddol yn y ffordd y mae cynulleidfaoedd yn mwynhau chwaraeon byw ar y BBC adeg Llundain 2012. Fe'u galwyd yn 'y gemau Olympaidd digidol' cyntaf, gyda 39 miliwn o borwyr unigryw yn y DU yn defnyddio BBC Sport Online dros gyfnod y gemau - y nifer fwyaf erioed ar y pryd. Rydym yn bwriadu cynnig hynny oll a mwy ar gyfer Rio 2016. Bydd cynulleidfaoedd yn gallu personoli eu profiad o Rio 2016 drwy ychwanegu ffrwd o gynnwys Olympaidd at eu tudalen My Sport bersonol, ynghyd â ffrydiau cynnwys o'u hoff gampau Olympaidd. Bydd defnyddwyr ap BBC Sport hefyd yn gallu derbyn hysbysiadau personol drwy ychwanegu hysbysiadau am fedalau ar gyfer eu gwlad a hefyd hysbysiadau newyddion o'r Gemau Olympaidd er mwyn sicrhau nad ydynt yn colli allan ar unrhyw straeon newyddion sy'n torri nac uchafbwyntiau allweddol yn uniongyrchol o Rio.

### Ein BBC

Yn ogystal â dysgu am ddewisiadau unigol, bydd technoleg newydd yn allweddol i feithrin perthynas ddyfnach â'n cynulleidfaoedd fel dinasyddion yn ogystal â defnyddwyr. Byddwn yn dwyn y broses o wneud penderfyniadau o fewn y BBC yn agosach at gynulleidfaoedd, gan eu hannog i rannu eu safbwyntiau â ni a'i gilydd, eu gwahodd i gydweithio ar greu cynnwys newydd, a'u hysbysu am y ffordd y caiff y BBC ei redeg a'r ffordd y caiff ein hadnoddau eu rheoli.

## Gwneud y BBC yn symlach a hyd yn oed yn fwy creadigol

Rydym wrthi'n gwneud y BBC yn symlach ac yn fwy darbodus – nid yn unig i foderneiddio'r ffordd mae'r BBC yn gweithio, ond hefyd i wella'r ffordd mae'n gweithio.

Ym mis Gorffennaf 2015, gwnaethom gyhoeddi cynigion a fydd yn arbed £50 miliwn drwy wneud newidiadau sy'n lleihau dyblygu, cymhlethdod a chost. Bydd y cynigion yn gwneud y canlynol:

- symleiddio a safoni dull gweithredu unedig 'un BBC' mewn meysydd proffesiynol a chymorth – marchnata a chysylltiadau, cyllid, adnoddau dynol, cymorth TG a chyfreithiol – gan arbed £25 miliwn
- lleihau nifer yr is-adrannau, gan arbed tua £15 miliwn
- lleihau nifer yr haenau rheoli o'r brig i'r bôn, gan arbed tua £10 miliwn

Bydd hyn yn creu BBC â llai o is-adrannau, llai o haenau rheoli a llai o gymorth busnes costus. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo bellach gyda chynnydd ym mhob maes. Erbyn hyn, disgwylir i'r newidiadau i wasanaethau proffesiynol arbed £30 miliwn mewn costau staff.


Bellach, mae gorbenion wedi gostwng i 6% o gyfanswm y costau, o gymharu â chyfartaledd y sector cyhoeddus, sef 11.2%, a chyfartaledd y diwydiant a reoleiddir, sef 8.8%. Cafodd arbedion hanesyddol y BBC a'n bil gorbenion eu dilysu'n annibynnol gan y cyfrifwyr PwC. Nodwyd ein bod nid yn unig wedi arbed dros £1.6 biliwn yn flynyddol dros y pum mlynedd diwethaf, ond bod ein canran gorbenion yn golygu ein bod yn un o'r sefydliadau a reoleiddir mwyaf effeithlon – yn well na'r rhan fwyaf o'r Llywodraeth ac yn uwch na chwmni cyfryngau nodweddiadol.

Lleihawyd cost a maint yr haen uwch reolwyr. Pan ddechreuodd ein rhaglen ddiwygio bresennol, roedd cynifer â 10 haen rhwng y Cyfarwyddwr Cyffredinol a staff. Mae holl is-adrannau'r BBC wedi adolygu eu strwythurau er mwyn lleihau hyn – sy'n golygu bod haenau rheoli eisoes wedi lleihau i wyth, ac rydym ar y trywydd iawn i gyflawni targed i leihau haenau ymhellach. Ym mis Mawrth, gwnaethom ragori ar addewid yn 2012 i dorri bil cyflogau uwch reolwyr £9 miliwn ac rydym bellach ar y trywydd iawn i arbed £10 miliwn arall. Ymhlith yr enghreifftiau o'r newidiadau hyn, cafodd un rheolwr ar gyfer holl sianelau teledu'r BBC ac iPlayer ei gyhoeddi ym mis Ionawr, ac ym mis Ebrill, daeth Technoleg, Peirianneg a Digidol yn un is-adran.

Mae mwy o ddewisiadau anodd o'n blaenau gyda newidiadau i raglenni a gwasanaethau'n anochel. Fodd bynnag, bydd gweithio tuag at BBC symlach a mwy darbodus yn parhau i sicrhau ein bod yn lleihau effaith toriadau o'r fath ar wasanaethau gymaint â phosibl.

## Trawsnewid yr hyn a gynigir i gynulleidfaoedd ifancach

Mae ymrwymiad cadarn y BBC i wasanaethu pawb a'i gred mewn darparu cymysgedd cyfoethog o gynnwys i bob grŵp oedran yn golygu bod angen i ni ddatblygu ein harlwy i bobl ifanc yn barhaus er mwyn sicrhau ei bod




Wrth i fyfyrwyr baratoi ar gyfer eu harholiadau, lansiodd BBC Learning ap adolygu am ddim gan Bitesize




*Life and Death Row: Love Triangle* yw cyfres ddogfen gyntaf BBC Three ar gyfer cynulleidfaoedd digidol

yn apelio i gynulleidfaoedd o hyd. Cynulleidfaoedd ifanc yw conglfaen newid ymddygiad; maent yn mabwysiadu technolegau newydd cyn grwpiau oedran eraill, ac maent yn defnyddio'r technolegau hyn mewn ffyrdd arloesol. Er gwaethaf hyn, maent yn parhau i hoffi cynnwys wedi'i ddarlledu, gan fwynhau cynnwys radio a theledu mewn niferoedd enfawr. Felly, mae angen i'r BBC gynnig amrywiaeth o brofiadau cynnwys ar bob llwyfan i'r grŵp soffistigedig hwn o ddefnyddwyr. Mae hyn yn golygu darparu gwasanaethau arbenigol sy'n targedu cynulleidfaoedd ifanc yn uniongyrchol, fel BBC Three ar ei newydd wedd a Radio 1/1Xtra; ond hefyd sicrhau bod ein gwasanaethau poblogaidd eang, fel BBC One, yn parhau i gynnig cynnwys sy'n apelio i gynulleidfaoedd ifanc.

Bydd BBC Three sydd newydd ei lansio yn adeiladu ar ei lwyddiant ac yn parhau i arloesi gyda chynnwys newydd, talent newydd a llwyfannau newydd. Ymhlith yr uchafbwyntiau sydd i ddod mae dychweliad *People Just Do Nothing*, a enwebwyd am wobr Bafta, *Class* – sioe i oedolion ifanc yn deillio o *Doctor Who*, tymhorau dogfen ar hil, anabledd a chrefydd, ac *Unsolved*, a fydd yn defnyddio sawl fformat i adrodd stori wir am ddiflaniad bachgen yn ei arddegau 20 mlynedd yn ôl. Caiff apiau brodorol ar gyfer dyfeisiau symudol eu lansio yn 2016.

Bydd Radio 1 a 1Xtra yn parhau i ymgysylltu â chynulleidfaoedd ifanc drwy strategaeth Gwrando, Gwylio a Rhannu. Ategir ein rhaglenni nodedig ar yr awyr gan weithgarwch ar-lein ar lwyfannau priodol, ynghyd ag arlwy ar-lein amrywiol drwy Radio 1 ar iPlayer. Yn unol ag uchelgais Radio 1 i weithredu er budd pobl ifanc yn y DU, bydd ein hymgyrch wirfoddoli, #1millionhours, yn parhau drwy gydol 2016. Bydd hyn yn annog gwrandawyr i wirfoddoli miliwn awr o'u hamser i helpu eraill drwy gyfres o bartneriaid elusennol allweddol. Byddwn hefyd yn cynyddu effaith allbwn dogfen Radio 1 gan gynnig cynnwys gweledol ategol a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo rhaglenni'n effeithiol.

Bydd BBC Learning yn parhau i gefnogi ac addysgu dysgwyr ifanc. Blwyddyn nesaf byddwn yn trawsnewid Bitesize, sef adnodd addysg gwricwlaidd y BBC, sy'n helpu plant a phobl ifanc gyda'u hastudiaethau y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Defnyddir Bitesize gan naw allan o ddeg o ddisgyblion 15 ac 16 oed yn ystod tymor yr haf. Diolch i ddatblygiad myBBC, yn y dyfodol bydd defnyddwyr yn mewngofnodi i Bitesize ac yn rhoi gwybodaeth am eu haddysg, gan olygu y gallant gael cynnwys wedi'i bersonoli, gwneud cynnydd a chael eu gwobrwyo. Bydd BBC Learning hefyd yn cynnal ymgyrch gwyddoniaeth gwricwlaidd uchelgeisiol a blaengar. Bydd yr ymgyrch yn ysbrydoli plant oed cynradd drwy arbrofion torfol cyffrous, arloesol a hygyrch.

Bydd ein gwasanaethau craidd, fel BBC One, yn cynnig cynnwys prif ffrwd nodedig sy'n apelio'n fawr i gynulleidfaoedd ifanc. Er enghraifft, mae *EastEnders* yn dal i fod yn ffefryn ymhlith cynulleidfaoedd ifanc, gydag ychydig dros 1.5 miliwn o bobl rhwng 16 a 34 oed yn gwylio pob pennod yn 2016 hyd yn hyn ar gyfartaledd. Mae'n siŵr bydd dychweliad rhaglenni adloniant ffeithiol fel *The Great British Bake Off* a *Strictly Come Dancing* yn diddanu ac yn hysbysu cynulleidfa ifanc sylweddol, a hwythau wedi denu 3.1 miliwn ac 1.1 miliwn o wylwyr ifanc ar gyfartaledd, yn y drefn honno, bob wythnos yn 2015. Mae drama hefyd yn bwysig i'r grŵp cynulleidfa hwn, felly bydd dychweliad *Sherlock, Doctor Who* ac *Our Girl* yn denu cynulleidfaoedd ifanc i'r sianel drwy gydol y flwyddyn. Bydd yr haf hwn o chwaraeon, gydag Ewro 2016 a Gemau Olympaidd Rio, yn denu cynulleidfaoedd ifanc - ar sail digwyddiadau blaenorol, gallwn ddisgwyl i ryw chwarter o'r gynulleidfa fod rhwng 16 a 34 oed.




*Big Weekend* BBC Radio 1 yw gŵyl tocynnau am ddim fwyaf Ewrop



# Perfformiad

Sut y gwnaethom berfformio yn erbyn ein hamcanion yn ôl maes cynnwys, genre, sianel neu rwydwaith.

Cyfres ddrama BBC One a enillodd wobr BAFTA, *Happy Valley*

# Teledu

Cafodd y BBC rai llwyddiannau teledu nodedig eleni, er gwaethaf gostyngiadau parhaus o ran cyrhaeddiad cynulleidfaoedd a'r amser a gaiff ei dreulio ar draws y diwydiant yn gyffredinol.

**Roedd gallu pwerus BBC One i'n huno drwy bethau a rannwn yn amlwg unwaith eto eleni.** Cyrhaeddodd rhaglen olaf *The Great British Bake Off* fwy na 15 miliwn o bobl, ac felly hon oedd y rhaglen â'r nifer fwyaf o wylwyr yn 2015. O ran drama, llwyddodd ail gyfres *Happy Valley* i ddenu cynulleidfaoedd mwy na'r gyfres glodwiw gyntaf, a hudodd y comisiwn newydd *Doctor Foster* gynulleidfaoedd – gan gyrraedd mwy na 10 miliwn o bobl gyda'r bennod derfynol. Parhaodd y BBC hefyd â'i draddodiad o gynnig comedïau gan y goreuon o blith talent Brydeinig i gynulleidfaoedd, gan lansio *Car Share* Peter Kay yn llwyddiannus (a ddarlledwyd am y tro cyntaf ar BBC iPlayer cyn ei ddarlledu ar BBC One), a dychweliad *Still Open All Hours* gyda Syr David Jason.

**Gostyngodd lefelau gwylio teledu mewn blynyddoedd diweddar ar gyfer y BBC, yn enwedig ymhlith pobl ifanc, fel ar gyfer pob portffolio gwasanaeth cyhoeddus o bwys.** Gostyngodd y gyfran o'r gynulleidfa (pob unigolyn) ychydig o flwyddyn i flwyddyn o 32.9% i 32.3%, o ganlyniad i golledion bach ar draws y sianelau.

**Aeth ein rhaglennu ffeithiol yn groes i'r tueddiadau pennaf yn y farchnad, gan gynyddu cyrhaeddiad yn gyffredinol, yn enwedig ymhlith gwylwyr du a lleiafrifoedd ethnig.** Lansiwyd cyfresi newydd ar BBC One a BBC Two, megis *Hugh's War on Waste*, *Back in Time for the Weekend* a *The Real Marigold Hotel*, gan gyfrannu'n sylweddol at y perfformiad cryf hwn. Dangosodd Hanes Naturiol ei fod yn parhau i apelio i gynulleidfaoedd gydag *Attenborough and the Giant Dinosaur* ar BBC One (a gyflawnodd gynulleidfa o 8.1 miliwn) a dangosodd *Fake or Fortune* y gall fformatau celfyddydol ddenu cynulleidfaoedd mawr, gan ennill ei phlwyf fel cyfres gelfyddydol fwyaf poblogaidd y BBC ers 2004.

**Chwaraeodd BBC Three a BBC Four hefyd ran arbennig wrth gyflwyno cynnwys ffeithiol i'n cynulleidfa.** Roedd tymhorau ffeithiol BBC Three yn ymdrin ag anabledd, hil a rhywedd yn cynnwys rhaglen ddogfen a gyflwynwyd gan Professor Green ar hunanladdiadau ymhlith dynion, sydd bellach yn cael ei dangos gan athrawon mewn ysgolion. Llwyddodd tymor Go Slow BBC Four i uniaethu â chynulleidfaoedd a oedd yn chwilio am rywbeth gwahanol a nodedig – yn wir, cyflawnodd y rhaglen ddogfen *Handmade: Wood* sgôr 'Ffres a Newydd' uchaf erioed y BBC ar gyfer rhaglen wreiddiol a gynhyrchwyd yn fewnol.

**Parhaodd BBC Three i arloesi, arbrofi a chefnogi talent newydd yn ystod y cyfnod cyn ei lansio ar-lein ym mis Chwefror.** Dangosodd rhaglenni newydd fel *The Fear*, *Murder In Successville* ac *Asian Provocateur*, gyda'r digrifwr newydd addawol Romesh Ranganathan, ymrwymiad y sianel i lansio fformatau newydd beiddgar gyda thalent newydd gyffrous.

**Cyrhaeddodd rhaglen olaf *The Great British Bake Off* fwy na**

**15m**

**15 miliwn o bobl, ac felly hon oedd y rhaglen â'r nifer fwyaf o wylwyr yn 2015**

Os hoffech ddarllen mwy am wariant y BBC ym mhob un o'r Gwledydd, gweler tudalen 93 yn Natganiadau Ariannol Llawn y BBC.

**Mentrodd ein sianelau plant i diroedd newydd** – anfonodd CBBC fathodyn *Blue Peter* i'r gofod gyda Tim Peake, a dogfennodd fywyd plentyn o Syria mewn gwersyll ffoaduriaid yn *Boy on the Bicycle*; a chyflwynodd CBeebies ddigwyddiadau eithriadol i'w chynulleidfa megis bale'r *Tortoise and the Hare*, a dramâu arloesol fel *Topsy & Tim*.



Cyflawnodd *Handmade: Wood* ar BBC Four sgôr 'Ffres a Newydd' uchaf erioed y BBC ar gyfer rhaglen wreiddiol a gynhyrchwyd yn fewnol



Cododd *The Real Marigold Hotel* ambell i gwestiwn pwysig am y ffordd rydym yn byw rhan ddiweddarach ein bywyd

## Perfformiad teledu fesul gwasanaeth

### Teledu rhwydwaith

| | | Cynnwys (£m) Gwnaethom wario cyfanswm o £1,648.3 miliwn ar y gwasanaethau hyn y llynedd | Cyrhaeddiad (%) Poblogaeth y DU sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos | Amser a dreuliwyd yn gwylio sianel bob wythnos (oriau:munudau) Y cyfnod o amser a dreuliodd gwylwyr cyffredin gyda'r sianel bob wythnos | Mynegai Gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth Cyfanswm y sgôr a roddodd pobl i raglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100 | Cost fesul awr defnyddiwr (c) Faint mae'n ei gostio i gyflwyno pob gwasanaeth i ddefnyddwyr unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| BBC One | BBC One yw ein prif wasanaeth a sianel deledu fwyaf poblogaidd y DU. Mae'n uno ac yn ysbrydoli'r genedl gyda rhaglenni o safon mewn amrywiaeth o genres yn cynnwys newyddion a materion cyfoes, drama, comedi, adloniant a ffeithiol. | £1,052.5m<br>2014/15: £1,110.0m | 71.8%<br>2014/15: 73.3% | 07:34<br>2014/15: 07:39 | 80.0<br>2014/15: 80.4 | 6.3c<br>2014/15: 6.5c |
| BBC Two | Mae BBC Two yn sianel genre cymysg sydd â rhaglenni treiddgar o sylwedd. Mae'n cynnwys y swm a'r amrywiaeth mwyaf o raglennu sy'n meithrin gwybodaeth ar y BBC, ynghyd â rhaglennu comedi, drama a chelfyddydol nodedig. | £399.0m<br>2014/15: £404.8m | 46.1%<br>2014/15: 47.3% | 03:06<br>2014/15: 03:08 | 81.9<br>2014/15: 82.2 | 9.0c<br>2014/15: 9.0c |
| BBC Three | Mae BBC Three yn arloesi yn barhaus i annog cynulleidfaoedd o bobl ifanc 16 oed i bobl yn eu 30au i feddwl ac i'w difyrru gyda rhaglennu comedi, drama a ffeithiol gwreiddiol sy'n dathlu talent Brydeinig newydd. | £52.9m*<br>2014/15: £82.0m | 17.1%**<br>2014/15: 18.4% | 01:44<br>2014/15: 01:49 | 82.4<br>2014/15: 82.8 | 6.7c<br>2014/15: 8.1c |
| BBC Four | Nod BBC Four yw sicrhau mai hi yw'r sianel sy'n cynnig y cyfoeth deallusol a diwylliannol gorau ym Mhrydain, gan gynnig amrywiaeth uchelgeisiol o raglenni celfyddydol, cerddoriaeth, diwylliant a ffeithiol o'r DU ac yn rhyngwladol. | £44.2m<br>2014/15: £46.0m | 12.8%<br>2014/15: 13.6% | 01:43<br>2014/15: 01:42 | 83.4<br>2014/15: 84.0 | 6.5c<br>2014/15: 6.6c |
| CBBC | Mae sianel CBBC yn cynnig amserlen gymysg nodedig i blant rhwng 6 a 12 oed, gan ddarlledu rhaglenni o'r DU yn bennaf mewn amgylchedd ysgogol, creadigol a phleserus. | £70.6m<br>2014/15: £72.2m | 4.6%†<br>2014/15: 4.9% | 02:31<br>2014/15: 02:34 | dd/g<br>2014/15: dd/g | 19.8c<br>2014/15: 18.8c |
| CBeebies | Mae CBeebies yn cynnig cyfuniad o raglenni o ansawdd uchel, wedi'u cynhyrchu yn y DU yn bennaf, sydd wedi'u cynllunio i annog dysgu drwy chwarae mewn amgylchedd cyson ddiogel i blant o dan chwech oed. | £29.1m<br>2014/15: £27.7m | 7.9%‡<br>2014/15: 8.2% | 04:21<br>2014/15: 04:04 | dd/g<br>2014/15: dd/g | 2.7c<br>2014/15: 2.7c |

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15+ munud yn olynol ar gyfer pob sianel a gwasanaeth a chynulleidfaoedd 4+ oed (teledu).
Ffynonellau: BARB (cyrhaeddiad teledu a'r amser a dreuliwyd – mae pob sianel yn cynnwys ei sianel cyd-ddarlledu HD lle y bo'n berthnasol); Mynegai Gwerthfawrogiad: Panel Pulse o 20,000 o oedolion 16+ oed yn y DU gan GfK.
dd/g Nid oes data ar gyfer y mesur hwn ar hyn o bryd.
D.S. Dim ond achosion o wylio set deledu a fesurir gan ddata BARB ar hyn o bryd, sy'n golygu na chaiff achosion o wylio iPlayer ar ddyfeisiau eraill eu cynnwys yn unrhyw un o'r ffigurau uchod. Mae'r defnydd o iPlayer yn tyfu, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau sy'n targedu plant a phobl ifanc fel CBBC lle mae iPlayer yn cyfrif am dros un rhan o bump o'r gwylio yn 2015/16.

* Daeth BBC Three i ben fel gwasanaeth llinellol ym mis Mawrth 2016, ac fe'i disodlwyd â gwasanaeth ar-lein o fis Chwefror 2016. Roedd gwariant ar BBC Three Ar-lein yn rhan o wasanaeth BBC ar-lein a'r botwm Coch yn dilyn hynny.

** BBC Three: ymhlith ei grŵp targed o bobl ifanc rhwng 16 a 34 oed, cafwyd cyrhaeddiad o 22.0% a'r amser a dreuliwyd oedd 02:09. Gan fod y sianel wedi symud ar-lein, ceir data BARB ar gyfer BBC Three hyd at 14/02/2016; a data Mynegai Gwerthfawrogiad ar gyfer BBC Three hyd at 15/02/2016.

† CBBC: ymhlith ei chynulleidfa darged o blant rhwng 6 a 12 oed, cafwyd cyrhaeddiad o 21.3% a'r amser a dreuliwyd fesul gwyliwr oedd 02:57 (yn seiliedig ar gyrhaeddiad o 15+ munud). Yn seiliedig ar gyrhaeddiad o 3+ munud, cafwyd cyrhaeddiad o 25.8% o blant rhwng 6 a 12 oed a'r amser a dreuliwyd fesul gwyliwr oedd 02:27.

‡ CBeebies: ymhlith ei chynulleidfa darged o blant rhwng 0 a 6 oed (wedi'i mesur fel plant rhwng 4 a 6 oed a mamau a thadau gartref â phlant rhwng 0 a 3 oed), cafwyd cyrhaeddiad o 40.3% a'r amser a dreuliwyd oedd 05:01 (yn seiliedig ar gyrhaeddiad o 15+ munud). Yn seiliedig ar gyrhaeddiad o 3+ munud, cafwyd cyrhaeddiad o 46.2% o blant rhwng 0 a 6 oed a'r amser a dreuliwyd fesul gwyliwr oedd 04:23.

Mae'r saethau'n dynodi p'un a fu newid o +/- 1.1-2.4% neu +/-2.5% o gymharu â Mynegai Gwerthfawrogiad y flwyddyn flaenorol.

# Radio

Gan wynebu cystadleuaeth ddigidol gynyddol ac arferion cyfnewidiol ymhlith y gynulleidfa, llwyddodd radio ar draws y BBC i gynnal cyrhaeddiad ac oriau drwy ganolbwyntio ar raglennu nodedig o ansawdd uchel, partneriaethau creadigol ac arloesedd digidol.

**Anogodd ymgyrch #1millionhours Radio 1 wrandawyr ifanc i wirfoddoli ar gyfer achosion da gyda phedair elusen genedlaethol**, a gweithiodd Radio 1Xtra mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Lloegr a'r Roundhouse fel rhan o'i thymor llafar. Cyrhaeddodd sianel YouTube Radio 1 dair miliwn o danysgrifwyr.

**Darlledodd Radio 2 rownd derfynol y gystadleuaeth 500 Words o Balas St James yn dilyn y nifer uchaf o gystadleuwyr erioed** a choffaodd 75 mlynedd ers Brwydr Prydain. Dathlodd cyfres gan Shilpa Shetty India, ochr yn ochr â chyd-ddarllediad cerddoriaeth fyw gydag Asian Network, a Radio 6 Music yw'r orsaf fwyaf sy'n darlledu'n ddigidol yn unig.

**Cyflwynodd Radio 3 gerddoriaeth a diwylliant arbennig i'w gwrandawyr drwy dymhorau fel Northern Lights a *Why Music?*** gyda'r Wellcome Collection, gan ddarlledu cyfansoddiad clodwiw gan Max Richter o'r enw *Sleep*. Mae Proms y BBC yn dathlu ei ben-blwydd yn 120 gyda ffocws ar y piano a Chyngherddau Prynhawn Dydd Sul newydd rheolaidd wedi'u hanelu at deuluoedd.

**Darlledwyd *Reith Lectures* yr Athro Stephen Hawking a Glenda Jackson yn *Blood, Sex and Money* gan Zola ar Radio 4**, lle yr aeth Andrew Marr hefyd ati i ystyried hunaniaeth Brydeinig drwy farddoniaeth a thrafodwyd ffiniau cenedlaethol yn *The Global Philosopher*. Cyrhaeddodd cynulleidfa Radio 4 extra uchafbwynt o 2.2 miliwn.

**Darlledodd Radio 5 live drawsblaniad calon mewn amser real**, darlledodd yn fyw o 20 o seddau ymylol yn ystod ymgyrch yr etholiad ac aeth y tu ôl i'r llenni yn RAF Akrotiri, canolfan Prydain ar gyfer ymgyrchoedd yn Syria.

**Lansiwyd ap BBC Music a nifer o orsafoedd DAB dros dro gennym**, gan gynnwys gwasanaeth jazz dros dro mewn partneriaeth â Jazz FM. Cynigiwyd adnodd lawrlwytho gennym ar gyfer BBC iPlayer Radio a llwyddodd ein casgliadau sain byr i ddenu'r cynulleidfaoedd uchaf erioed ar-lein.

**Gwnaethom amlinellu cynnig i gynnig mwy o gyfleoedd i gynhyrchwyr annibynnol gystadlu am waith mewn perthynas â Radio'r BBC** a gwnaethom barhau i gyflawni arbedion, tra'n parhau i ganolbwyntio ar ansawdd ein hallbwn a'r rôl unigryw y mae Radio'r BBC yn ei chwarae ym mywyd beunyddiol pobl.

**Cyrhaeddodd sianel YouTube Radio 1 3 miliwn o danysgrifwyr**




Os hoffech ddarllen mwy am wariant y BBC ym mhob un o'r Gwledydd, gweler tudalen 93 yn Natganiadau Ariannol Llawn y BBC.



Daeth cyflwynydd Asian Network, Bobby Friction a chyflwynydd Radio 2, Jo Whiley at ei gilydd i ddathlu cerddoriaeth Indiaidd gan gyd-ddarlledu ar y ddwy orsaf



Cyflwynwyr Radio 5 live Tony Livesey ac Anna Foster yn cyflwyno'r rhaglen *5 live Drive*

## Perfformiad radio fesul gwasanaeth

### Radio rhwydwaith

| Gwasanaeth | | Cynnwys (£m) Gwnaethom wario cyfanswm o £277.3 miliwn ar y gwasanaethau hyn y llynedd | Cyrhaeddiad (%) Poblogaeth y DU sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos | Amser a dreuliwyd yn gwrando ar wasanaeth bob wythnos (oriau:munudau) Y cyfnod o amser a dreuliodd gwrandawyr cyffredin gyda'r gwasanaeth bob wythnos | Mynegai Gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth Cyfanswm y sgôr a roddodd pobl i raglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100 | Cost fesul awr defnyddiwr (c) Faint mae'n ei gostio i gyflwyno pob gwasanaeth i ddefnyddwyr unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| BBC Radio 1 | Mae BBC Radio 1 yn darlledu cymysgedd nodedig o gerddoriaeth newydd ac adloniant i bobl ifanc rhwng 15 a 29 oed ac yn cynnig newyddion, rhaglenni dogfen ac ymgyrchoedd cynghori sydd wedi'u teilwra i oedolion ifanc. | £36.2m 2014/15: £40.5m | 19.3%* 2014/15: 19.4% | 06:11 2014/15: 06:37 | 78.9 2014/15: 77.3 | 1.1c 2014/15: 1.1c |
| BBC Radio 1Xtra | Mae BBC 1Xtra yn chwarae'r gerddoriaeth ddu gyfoes orau â phwyslais cryf ar gyflwyno cerddoriaeth fyw o ansawdd uchel a chefnogi artistiaid newydd. | £4.6m 2014/15: £6.2m | 1.9%‡ 2014/15: 1.9% | 04:56 2014/15: 05:11 | 82.4 2014/15: 79.2 | 1.7c 2014/15: 2.3c |
| BBC Radio 2 | Mae BBC Radio 2 yn darlledu cymysgedd unigryw o gerddoriaeth a rhaglenni llafar yn cwmpasu cymysgedd eang o allbwn pop a roc byw, comedi, rhaglenni dogfen a chrefyddol amrywiol, ac yn cynnal ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol i dros 14 miliwn o wrandawyr. | £44.6m 2014/15: £46.2m | 28.5%† 2014/15: 28.4% | 11:53 2014/15: 11:49 | 82.2 2014/15: 81.4 | 0.5c 2014/15: 0.5c |
| BBC Radio 3 | Mae BBC Radio 3 yn canolbwyntio ar gerddoriaeth glasurol, ac ar sail hynny yn darparu sbectrwm eang o jazz, cerddoriaeth y byd, rhaglenni celfyddydol, crefydd a drama. Ceir pwyslais cryf ar berfformiadau cerddorol ledled y DU. | £37.7m 2014/15: £38.4m | 3.8% 2014/15: 3.7% | 06:21 2014/15: 05:49 | 82.0 2014/15: 82.1 | 5.5c 2014/15: 6.4c |
| BBC Radio 4 | Mae BBC Radio 4 yn orsaf radio sy'n cynnig gwasanaeth llafar cymysg, gyda newyddion a materion cyfoes treiddgar ac ystod eang o raglenni llafar eraill yn cynnwys drama, darlleniadau, comedi, rhaglenni ffeithiol a rhaglenni cylchgrawn. | £88.6m 2014/15: £87.8m | 20.0% 2014/15: 20.1% | 11:30 2014/15: 11:30 | 80.6 2014/15: 80.4 | 1.4c 2014/15: 1.4c |
| BBC Radio 4 extra | Lansiwyd yr orsaf yn wreiddiol yn 2002 fel BBC 7, a chafodd ei hail-lansio ym mis Ebrill 2011 fel BBC Radio 4 extra. Y rhwydwaith digidol yn unig yw'r prif gyfrwng ar gyfer archif y BBC o adloniant llafar, yn cynnwys comedi, drama a darlleniadau. | £3.1m 2014/15: £3.9m | 3.7% 2014/15: 3.3% | 05:48 2014/15: 05:47 | 77.4 2014/15: 77.1 | 0.5c 2014/15: 0.7c |
| BBC Radio 5 live | Mae BBC Radio 5 live yn darlledu newyddion a chwaraeon byw yn barhaus, gan gyflwyno straeon newyddion a digwyddiadau chwaraeon mawr wrth iddynt ddigwydd a darparu cyd-destun drwy ddadansoddiadau a thrafodaeth eang. | £45.5m 2014/15: £49.1m | 10.3% 2014/15: 10.9% | 06:35 2014/15: 06:35 | 78.8 2014/15: 78.3 | 2.4c 2014/15: 2.5c |

## Perfformiad radio fesul gwasanaeth

### Radio rhwydwaith

| | Cynnwys (£m) Gwnaethom wario cyfanswm o £277.3 miliwn ar y gwasanaethau hyn y llynedd | Cyrhaeddiad (%) Poblogaeth y DU sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos | Amser a dreuliwyd yn gwrando ar wasanaeth bob wythnos (oriau:munudau) Y cyfnod o amser a dreuliodd gwrandawyr cyffredin gyda'r gwasanaeth bob wythnos | Mynegai Gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth Cyfanswm y sgôr a roddodd pobl i raglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100 | Cost fesul awr defnyddiwr (c) Faint mae'n ei gostio i gyflwyno pob gwasanaeth i ddefnyddwyr unigol |
|---|---|---|---|---|---|
| BBC Radio 5 live sports extra: Mae BBC Radio 5 live sports extra yn cynnig dewis ehangach o chwaraeon byw i wrandawyr drwy ymestyn y darllediadau byw o ddigwyddiadau chwaraeon amrywiol. | £2.5m<br>2014/15: **£2.5m** | 2.7%<br>2014/15: **1.9%** | 03:19<br>2014/15: **03:31** | 85.4<br>2014/15: **83.0** | 1.0c<br>2014/15: **1.3c** |
| BBC Radio 6 music: Mae BBC 6 Music yn orsaf radio ddigidol sy'n diddanu'r rhai sy'n mwynhau cerddoriaeth boblogaidd gyda gwasanaeth sy'n dathlu ysbryd amgen cerddoriaeth boblogaidd o'r 60au hyd heddiw, ynghyd â cherddoriaeth, newyddion a rhaglenni dogfen. | £7.9m<br>2014/15: **£8.0m** | 4.0%<br>2014/15: **3.8%** | 09:09<br>2014/15: **08:38** | 82.4<br>2014/15: **82.5** | 0.7c<br>2014/15: **0.9c** |
| BBC Radio Asian Network: Mae BBC Asian Network yn cynnig allbwn llafar a cherddoriaeth sy'n apelio at Asiaid Prydeinig, gyda ffocws ar newyddion a materion cyfoes. Mae'n darlledu yn Saesneg yn bennaf, ond mae'n cynnig rhai rhaglenni mewn ieithoedd eraill. | £6.6m<br>2014/15: **£6.2m** | 1.1%§<br>2014/15: **1.1%** | 05:52<br>2014/15: **06:29** | 80.1<br>2014/15: **74.4** | 3.5c<br>2014/15: **3.1c** |

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15+ munud ar gyfer pob gorsaf a chynulleidfaoedd 15+ oed.
Ffynonellau: RAJAR (Cyrhaeddiad radio a'r amser a dreuliwyd). Mynegai Gwerthfawrogiad: Panel Pulse o 20,000 o oedolion 16+ oed yn y DU gan GfK.
dd/g Nid oes data yn bodoli ar gyfer y mesur hwn ar hyn o bryd.
Heb gynnwys y rhaglen "Coming up on 5 live sports extra".
* Radio 1: ymhlith ei grŵp targed o bobl ifanc rhwng 15 a 29 oed, cafwyd cyrhaeddiad o 37.1% a'r amser a dreuliwyd oedd 06:16.
† Radio 2: ymhlith ei grŵp targed o bobl 35+ oed, cafwyd cyrhaeddiad o 34.9% a'r amser a dreuliwyd oedd 12:53.
‡ 1Xtra: ymhlith pobl ifanc rhwng 15 a 24 oed, cafwyd cyrhaeddiad o 6.3% a'r amser a dreuliwyd oedd 04:08.
§ Asian Network: ymhlith ei grŵp targed o Asiaid Prydeinig o dan 35 oed, cafwyd cyrhaeddiad o 13.8% a'r amser a dreuliwyd oedd 05:44.
Mae'r saethau'n dynodi p'un a fu newid o +/- 1.1-2.4% neu =+/-2.5% o gymharu â Mynegai Gwerthfawrogiad y flwyddyn flaenorol.

# Newyddion

## Mae BBC Newyddion yn cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU.

**Mae ein lefelau cyrhaeddiad yn ddigyffelyb.** Y llynedd, gwyliodd a gwrandawodd 320 miliwn o bobl ledled y byd ar deledu, radio, gwasanaethau ar-lein a gwasanaethau symudol. Yn y DU defnyddiodd 77% o oedolion wasanaethau BBC Newyddion bob wythnos. Ymhlith yr arlwy roedd yr ymosodiadau terfysgol ym Mharis, Brwsel, Tiwnisia, Beirut ac anialwch Sinai, ymchwiliad trylwyr i broblemau economaidd Tsieina, y parlys gwleidyddol ym Mrasil, atgyfodiad India, llywodraeth newydd yn Nigeria, a'n hymrwymiad i ohebu ar y rhyfel parhaus yn Syria a dealltwriaeth o'r broses o adfywio cysylltiadau diplomataidd ag Iran a Chiwba. Yn anad dim, 2015 oedd y flwyddyn lle y lledaenodd anghydraddoldeb economaidd byd-eang a'r bygythiad o drais ledled Ewrop ar ffurf miliynau o ymfudwyr yn cyrraedd mewn cwch neu ar droed. Ar adegau pwysig, roedd y BBC yno.

**Ni yw'r ffynhonnell newyddion fwyaf cywir, mwyaf diduedd ac yr ymddiriedir ynddi fwyaf yn y DU.** Cynhaliwyd Etholiad Cyffredinol y DU yn 2015 ac roedd tri digwyddiad a safodd allan i'n cynulleidfa: cyfweliad David Cameron gyda'r BBC lle y dywedodd wrth y wlad na fyddai'n sefyll am drydydd tymor; rhaglen Question Time y BBC yn Leeds lle y cafwyd gwrthdaro go iawn rhwng y gwleidyddion a'r cyhoedd am y tro cyntaf; a'r adeg pan gyhoeddodd David Dimbleby ganlyniad yr arolwg barn wrth i bobl adael y gorsafoedd pleidleisio, yr arolwg barn a heriodd bob un arall. Dyma hefyd oedd y flwyddyn lle y chwaraeodd arlwy lleol a rhanbarthol ran hanfodol yn ystod y gyfres o stormydd a llifogydd ledled y DU.

**Rydym ar y blaen o ran newyddion ar-lein a symudol.** Yn ystod 2015, ymgysylltodd cynulleidfaoedd yn y DU a ledled y byd â newyddion yn gynyddol gan ddefnyddio eu ffonau symudol. Cynyddodd dilynwyr BBC Breaking News ar Twitter i dros 21 miliwn. Gyda chymorth deunydd fideo, BBC Newyddion yw'r darparwr newyddion mwyaf ar Facebook gyda mwy na 28 miliwn o bobl wedi'i 'hoffi'.

**Rydym yn cyrraedd y nifer fwyaf o bobl erioed ledled y byd.** Y llynedd, defnyddiodd 320 miliwn o bobl ledled y byd, neu un o bob 16 o oedolion, wasanaethau newyddion rhyngwladol y BBC, sydd bellach ar gael mewn 30 o ieithoedd gan gynnwys Saesneg. Mae hyn yn gynnydd o 13% ers y llynedd ac yn golygu ein bod ar y trywydd cywir i gyrraedd targed y Cyfarwyddwr Cyffredinol o sicrhau cynulleidfa fyd-eang gyffredinol o 500 miliwn erbyn ein canmlwyddiant yn 2022. Rydym wedi cyflwyno bwletinau newyddion teledu newydd mewn ieithoedd heblaw am Saesneg, sydd wedi hybu ein twf yn sylweddol. Mae gan bob llwyfan – radio, teledu ac ar-lein – gynulleidfaoedd mwy na'r llynedd. Yn fuan, byddwn yn dechrau ar y cynllun mwyaf i ehangu'r World Service ers y 1940au, diolch i gyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU.

**320m**



**nifer y bobl ledled y byd a wyliodd ac a wrandawodd ar Newyddion y BBC ar deledu, radio, gwasanaethau ar-lein a dyfeisiau symudol**

Bydd hyn yn ein helpu i gyrraedd mwy fyth o bobl, yn enwedig y rheini mewn gwledydd lle mae rhyddid y cyfryngau dan fygythiad.

Os hoffech ddarllen mwy am wariant y BBC ym mhob un o'r Gwledydd, gweler tudalen 93 yn Natganiadau Ariannol Llawn y BBC.



Y llynedd, gwyliodd a gwrandawodd 77% o oedolion yn y DU ar Newyddion y BBC ar deledu, radio, gwasanaethau ar-lein a gwasanaethau symudol bob wythnos



Enillodd *This World, Outbreak: The Truth About Ebola* wobr BAFTA am Faterion Cyfoes am ei hymchwiliad i'r epidemig

## Perfformiad newyddion fesul gwasanaeth

| | | Cynnwys (£m)<br>Gwnaethom wario cyfanswm o £48.5m ar gynnwys ar gyfer y gwasanaethau hyn y llynedd | Cyrhaeddiad (%)<br>Poblogaeth y DU sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos | Yr amser a dreuliwyd yn gwylio neu'n gwrando ar wasanaeth bob wythnos (oriau:munudau)<br>Y cyfnod o amser a dreuliodd gwylwyr neu wrandawyr cyffredin gyda'r gwasanaeth bob wythnos | Mynegai Gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth<br>Cyfanswm y sgôr a roddodd pobl i raglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100 | Cost fesul awr defnyddiwr (c)<br>Faint mae'n ei gostio i gyflwyno pob gwasanaeth i ddefnyddwyr unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| BBC NEWS | Mae sianel BBC News yn wasanaeth newyddion diduedd ac annibynnol 24 awr y dydd sy'n cynnig y newyddion diweddaraf, dadansoddiadau a dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd. Mae'n rhoi sylw cyflym a chynhwysfawr i ddigwyddiadau lleol, rhai yn y DU a rhai rhyngwladol wrth iddynt ddigwydd. | £46.6m<br>2014/15: **£46.2m** | 10.3%<br>2014/15: **10.2%** | 02:41<br>2014/15: **02:34** | dd/g<br>2014/15: **dd/g** | 5.5c<br>2014/15: **5.8c** |
| BBC PARLIAMENT | BBC Parliament yw unig sianel y DU sy'n ymroddedig i wleidyddiaeth. Mae'n dangos dadleuon a phwyllgorau o San Steffan, Holyrood, Stormont, Bae Caerdydd a Strasbourg yn ogystal â rhaglenni gwleidyddol o bob cwr o'r DU. | £1.9m<br>2014/15: **£1.7m** | 0.6%<br>2014/15: **0.5%** | 02:12<br>2014/15: **01:46** | dd/g<br>2014/15: **dd/g** | 7.0c<br>2014/15: **6.3c** |

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15+ munud ar gyfer pob sianel a gwasanaeth a chynulleidfaoedd 4+ oed (teledu) a 15+ oed (radio).
Ffynhonnell: cyrhaeddiad ac amser a dreuliwyd BARB (teledu).
dd/g Nid oes data ar gyfer y mesur hwn ar hyn o bryd.
Byddai cyrhaeddiad tri munud ar gyfer sianel BBC News a BBC Parliament – yn unol â safonau'r diwydiant – yn 14.8% ac 1.3% yn y drefn honno (16.5% ac 1.5% ymhlith y boblogaeth 16+ oed).

## Perfformiad newyddion fesul gwasanaeth

### Perfformiad byd-eang

Grŵp BBC World Service yw is-adran fyd-eang Newyddion y BBC ac mae'n cynnwys y World Service, World News, bbc.com a Media Action. Mae BBC World Service yn ddarlledwr amlgyfrwng rhyngwladol, sy'n darparu amrywiaeth eang o wasanaethau iaith a gwasanaethau rhanbarthol ar radio, teledu, ar-lein a thrwy ddyfeisiau symudol. Caiff BBC World News a bbc.com, sef llwyfannau newyddion a gwybodaeth 24 awr rhyngwladol y BBC a gaiff eu hariannu'n fasnachol, eu gweithredu gan BBC Global News Ltd, aelod o grŵp cwmnïau masnachol y BBC.

BBC WORLD SERVICE GROUP

| Cynulleidfa fesul gwasanaeth (m) | 2015/16 | 2014/15 | Newid o flwyddyn i flwyddyn (%) |
|---|---|---|---|
| Grŵp World Service (Cyfanswm cynulleidfa Global News) | 320.3 | 282.6 | 13.3 |
| BBC World Service | 246.3 | 209.8 | 17.4 |
| Teledu World Service | 90.6 | 74.2 | 22.1 |
| Radio World Service | 144.6 | 131.6 | 9.9 |
| World Service Ar-lein | 41.6 | 24.0 | 73.4 |
| Sianel BBC World News | 83.5 | 84.8 | -1.5 |
| bbc.com a'r cyfryngau cymdeithasol | 39.2 | 33.3 | 17.7 |
| Cyrhaeddiad BBC World Service ar draws pob llwyfan fesul gwasanaeth iaith | | | |
| Arabeg | 36.7 | 36.3 | 1.2 |
| Azeri | 0.13 | 0.08 | 55.5 |
| Bengaleg | 6.2 | 7.7 | -20.4 |
| Brasil | 7.4 | 3.9 | 88.3 |
| Byrmaneg | 6.0 | 6.9 | 13.3 |
| Ffrangeg | 14.8 | 12.7 | 16.8 |
| Fietnameg | 1.5 | 0.42 | 260.1 |
| Hawsa | 23.3 | 18.1 | 28.7 |
| Hindi | 6.3 | 10.8 | -41.9* |
| Indoneseg | 4.7 | 4.1 | 13.0 |
| Kyrgyz | 3.0 | 0.1 | 2,808.7 |

## Perfformiad newyddion fesul gwasanaeth

BBC WORLD SERVICE GROUP

| Cynulleidfa fesul gwasanaeth (m) | 2015/16 | 2014/15 | Newid o flwyddyn i flwyddyn (%) |
|---|---|---|---|
| **Cyrhaeddiad BBC World Service ar draws pob llwyfan fesul gwasanaeth iaith parhad** | | | |
| Mundo | 6.9 | 3.9 | 78.2 |
| Nepali | 5.3 | 4.6 | 14.1 |
| Pashto | 6.6 | 6.5 | 1.7 |
| Perseg | 17.9 | 17.7 | 1.5 |
| Rwsieg | 4.4 | 5.6 | -20.4 |
| Sinhala | 0.89 | 0.89 | 0.0 |
| Somalieg | 3.6 | 3.5 | 3.3 |
| Swahili | 17.2 | 16.6 | 3.6 |
| Tamil | 9.6 | 1.4 | 591.3 |
| Thai | 1.2 | 0.16 | 666.9 |
| Tsieinëeg | 0.82 | 0.47 | 73.1 |
| Twrceg | 1.7 | 0.84 | 107.4 |
| Wcreineg | 2.9 | 3.0 | -3.4 |
| World Service Saesneg | 65.8 | 52.1 | 26.3 |
| Wrdw | 11.9 | 11.5 | 3.2 |
| Wsbeg | 0.59 | 0.58 | 1.0 |
| Y Llynnoedd Mawr | 3.2 | 3.2 | 0.8 |

* Dilëwyd cyrhaeddiad teledu Hindi presennol World Service o Fesur Cynulleidfa Fyd-eang 2016 oherwydd newid mewn fformat; nid yw'r fformat newydd wedi'i fesur eto.
Noder bod cyfanswm cyrhaeddiad cynulleidfa World Service yn llai na swm gwasanaethau iaith unigol World Service. Y rheswm dros hyn yw ein bod yn dad-ddyblygu cynulleidfaoedd ac yn cofnodi ffigurau defnyddwyr unigol. Er enghraifft, dim ond unwaith y caiff pobl sy'n defnyddio llwyfannau lluosog i gael gafael ar ein cynnwys, neu sy'n defnyddio gwasanaethau neu ieithoedd lluosog, eu cyfrif. Effaith net y broses hon yw lleihau cyfanswm ffigur cyrhaeddiad World Service – a thrwy hynny sicrhau ei fod yn fwy cywir.
Ffynhonnell: Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC. Mae'r Mesur hwn yn rhoi cipolwg ar gynulleidfa wythnosol newyddion fyd-eang y BBC gan ddefnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael ym mis Mai 2016, lle cwmpesir 238 o wledydd a thiriogaethau. Caiff data eu casglu o gyfuniad o arolygon o'r farchnad, data sgorio cynulleidfaoedd wedi'u syndicetio a gwaith dadansoddi'r we. Ni chaiff newyddion domestig y DU ei gynnwys yn y cyfrifiad. Cynhwyswyd cyfryngau cymdeithasol (Facebook a YouTube) yn ffigurau 2015/16 am y tro cyntaf, yn ogystal â theledu, radio ac ar-lein.

# Digidol

Eleni, defnyddiodd mwy o bobl BBC Ar-lein. Rydym wedi dechrau cynnig profiadau mwy personol ac arloesedd o'r radd flaenaf, tra'n cynnig mwy i gynulleidfaoedd ledled y byd.

**Yn ystod 2015/16, cynyddodd cyrhaeddiad BBC Ar-lein i 51.4%, o 50.2% yn 2014/15.** Yn ystod yr Etholiad Cyffredinol, defnyddiodd mwy na 76.1 miliwn o borwyr unigol ledled y byd BBC Newyddion Ar-lein. Mae hefyd wedi cael ei hystyried fel y ffynhonnell newyddion ar-lein yr ymddiriedir ynddi fwyaf yn y DU. Mae BBC Ar-lein ymysg y pum safle â'r cyrhaeddiad mwyaf yn y DU yn gyson. Dyma'r unig wasanaeth Prydeinig i gael ei gynnwys yn y pum safle uchaf hwnnw - mae'r lleill i gyd wedi'u lleoli yn yr UD[1]. Dyfeisiau symudol a ddefnyddir yn bennaf i gyrchu BBC Ar-lein o hyd: dyma'r sgrîn fwyaf o ran traffig i BBC Ar-lein.

**Yn 2015/16, gwnaethom barhau i bersonoleiddio BBC Ar-lein, gyda mwy na chwe miliwn o bobl yn cofrestru i ddefnyddio ein nodweddion wedi'u personoleiddio** yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd hysbysiadau chwaraeon a newyddion cyflym; negeseuon am hoff gynnwys unigolion ar iPlayer; ac argymhellion wedi'u teilwra.

**Gwnaethom greu corff o gynnwys nodedig a lansiwyd cyfres o brofiadau arloesol gennym:** roedd rhifyn rhyngweithiol o *Casualty* ymhlith dros 100 o gynlluniau peilot a lansiwyd eleni ar ein llwyfan profi, BBC Taster. Mae'r cynlluniau peilot hyn yn llywio strategaethau comisiynu yn llwyddiannus.

**Daeth BBC Ar-lein hefyd yn fwy agored a chydweithredol.** Lluniwyd partneriaeth â diwydiant gennym ar gyfer Make it Digital, menter bwysig sy'n anelu at ysbrydoli'r genhedlaeth bresennol o blant ysgol i ddysgu sgiliau codio. Yn ogystal, gwnaethom lansio BBC Store ar y cyd â BBC Worldwide, sy'n galluogi cynulleidfaoedd i fwynhau casgliad cynhwysfawr o raglenni o'n harchif.

**Rydym wedi parhau i drawsnewid ein harlwy i gynulleidfaoedd ifanc** gyda BBC Three yn symud o sianel ddarlledu linellol i gyrchfan ar-lein yn gyntaf – y darlledwr cyntaf yn y byd i wneud hyn. Mae BBC Three ar-lein yn dangos cynnwys ar ffurf hir a byr wedi'i deilwra ar gyfer llwyfannau megis YouTube, Facebook a Twitter, gan sicrhau bod y byd digidol yn rhan o wead BBC Three ar ei newydd wedd, nid dim ond yn gyfrwng darlledu iddi.

**Y flwyddyn nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar gyflwyno galluoedd digidol y BBC i'r sector creadigol yn y DU**; gan weithio ar roi'r Gwasanaeth Syniadau ar waith fel yr amlinellir yn ein cynigion ar gyfer y Siarter; a chyflwyno cynnwys gorau'r BBC i'n cynulleidfaoedd ar-lein. Yn fewnol, mae'r BBC yn dod â'i holl swyddogaethau gwasanaeth cyhoeddus a thechnoleg fasnachol ynghyd er mwyn helpu i sicrhau y bydd y sefydliad yn parhau i adeiladu ar ei draddodiad arloesi cyfoethog wrth iddo ddechrau cyfnod ei Siarter nesaf.

**Yn ystod yr Etholiad Cyffredinol**

**76.1m**

**defnyddiodd mwy na 76.1 miliwn o borwyr unigol BBC Newyddion Ar-lein**

Os hoffech ddarllen mwy am wariant y BBC ym mhob un o'r Gwledydd, gweler tudalen 93 yn Natganiadau Ariannol Llawn y BBC.

1 Ffynhonnell: comScore, MMX Multi-Platform, Gorffennaf 2014 – Mawrth 2016, y pum uchaf yn seiliedig ar Ymwelwyr Unigryw, Top 100 Properties



Mae BBC Three ar ei newydd wedd yn cynnig sioeau teledu i'w ffrydio a'u lawrlwytho drwy ein hafan newydd *The Best Of* ac yn cyhoeddi cynnwys dyddiol drwy ei llwyfan symudol yn gyntaf *The Daily Drop*

## Perfformiad digidol fesul gwasanaeth

| | | Cynnwys (£m) Gwnaethom wario cyfanswm o £153.3m ar gynnwys ar gyfer y gwasanaethau hyn y llynedd | Cyrhaeddiad (%) Poblogaeth y DU sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos | Amser a dreuliwyd gyda phob gwasanaeth bob wythnos (oriau:munudau) Y cyfnod o amser a dreuliodd defnyddwyr cyffredin gyda'r gwasanaeth bob wythnos | Mynegai Gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth Cyfanswm y sgôr a roddodd pobl i raglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100 | Cost fesul defnyddiwr a gyrhaeddir bob wythnos (c) Faint mae'n ei gostio i gyflwyno pob gwasanaeth i ddefnyddwyr unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| BBC ONLINE RED BUTTON | Mae BBC Ar-lein yn cynnwys portffolio'r BBC o gynhyrchion ar-lein ar gyfrifiaduron bwrdd gwaith, teledu, ffonau symudol a thabledi, yn cynnwys newyddion, chwaraeon a'r tywydd; ein gwasanaethau i blant sef CBBC a CBeebies; a Gwybodaeth a Dysgu – yn ogystal â gwasanaethau teledu a radio a ddarperir ar IP, gyda rhaglenni byw ac ar alw ar gael ar BBC iPlayer. Mae BBC Red Button a Red Button+ yn darparu gwasanaethau a chynnwys rhyngweithiol i wylwyr teledu digidol, ynghyd â'r cynnwys a'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer newyddion, chwaraeon, y tywydd, adloniant, rhaglennu rhyngweithiol a digwyddiadau mawr. | £153.3m<br>2014/15: **£124.6m** | 63.1%*<br>2014/15: **63.6%** | dd/g<br>2014/15: **dd/g** | dd/g<br>2014/15: **dd/g** | 9.4c<br>2014/15: **7.6c** |

Diffiniad o gyrhaeddiad: 3+ munud ar gyfer y ddau wasanaeth, ac oedolion 16+ oed.
Ffynonellau: Cyrhaeddiad: Arolwg 'Cross-Media Insight' gan GfK ar gyfer y BBC, 16+.
dd/g Nid oes data ar gyfer y mesur hwn ar hyn o bryd.
Mae balans y flwyddyn flaenorol wedi cael ei ddiweddaru yn dilyn addasiad i'r data sydd wedi rhoi dadansoddiad mwy cywir.
* Noder bod cyrhaeddiad y gwasanaeth a restrir yn y tabl perfformiad yn ymwneud â chyrhaeddiad BBC Ar-lein a BBC Red Button, ac o ganlyniad bod hyn yn cynnwys cynulleidfaoedd ychwanegol a gyrhaeddir gan wasanaethau BBC Red Button nad ydynt o reidrwydd yn defnyddio BBC Ar-lein.
D.S. Mae'r ffigur ar gyfer y gost fesul defnyddiwr a gyrhaeddir ar gyfer 2014/15 yn wahanol i'r ffigur a nodwyd yn Adroddiad Blynyddol 2014/15 oherwydd gwall a wnaed wrth gyfrifo'r ffigur yn 2014/15.


# Perfformiad fesul cyrhaeddiad

## Teledu

| Cyrhaeddiad wythnosol | Holl deledu'r BBC | Cyfanswm sianelau eraill | Holl deledu ITV | Holl deledu Channel 4 | Holl deledu Channel 5 | Holl deledu Sky |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Teledu rhwydwaith y BBC o gymharu â'r prif grwpiau masnachol | 80.3%<br>2014/15: **82.0%** | 88.5%*<br>2014/15: **89.4%** | 68.4%<br>2014/15: **70.5%** | 60.7%†<br>2014/15: **61.9%** | 42.4%<br>2014/15: **42.6%** | 40.5%<br>2014/15: **41.6%** |

Ffynhonnell: BARB, Yn seiliedig ar 4+. Amod cyrhaeddiad = 15+ munud di-dor.
* Cyrhaeddiad pob sianel deledu ac eithrio portffolio teledu'r BBC.
† Heb gynnwys S4C.
Portffolio Sky – yn cynnwys Flextech o wythnos 1 2011 ond heb gynnwys Flextech yn 2010.
Nid yw ffigurau portffolio ITV a Channel 4 yn cyfateb i ffigurau 2012/13 yn yr Adroddiad Blynyddol o ganlyniad i newid i fethodoleg cyrhaeddiad TechEdge a weithredwyd ar ddiwedd 2013.
Cyfrifwyd yr holl ddata cyn newid methodoleg cyrhaeddiad TechEdge ym mis Mai 2016 ac eithrio 'Cyfanswm Arall (heb gynnwys portffolio'r BBC)' a gyfrifwyd ar ôl y newid hwn. Er mwyn gallu cymharu, ailgyfrifwyd y ffigurau ar gyfer blynyddoedd ariannol cynharach ar gyfer y categori hwn felly nid ydynt yn cyfateb i'r ffigurau yn Adroddiad Blynyddol 2014/15.

### Cyrhaeddiad teledu wythnosol




Ffynhonnell: BARB / TRP Research.
Yn seiliedig ar indent 4+.
Amod cyrhaeddiad = 15+ munud di-dor.
Portffolio Sky – yn cynnwys Flextech o wythnos 1 2011 ond heb gynnwys Flextech yn 2010.
Nid yw ffigurau portffolio ITV a Channel 4 yn cyfateb i ffigurau 2012/13 yn yr Adroddiad Blynyddol o ganlyniad i newid i fethodoleg cyrhaeddiad TechEdge a weithredwyd ar ddiwedd 2013.

## Radio

| Cyrhaeddiad wythnosol | Holl radio'r BBC | Holl radio masnachol | Holl radio rhwydwaith y BBC | Holl radio masnachol cenedlaethol | Holl radio lleol y BBC | Holl radio masnachol lleol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Radio'r BBC o gymharu â gorsafoedd masnachol | 65.2%<br>2014/15: **65.3%** | 64.7%<br>2014/15: **63.8%** | 59.7%<br>2014/15: **59.6%** | 33.9%<br>2014/15: **31.8%** | 16.2%<br>2014/15: **16.6%** | 50.8%<br>2014/15: **50.6%** |

Ffynhonnell: RAJAR, 15+, cyrhaeddiad o 15 munud.

# Perfformiad fesul genre

| Oriau allbwn rhwydwaith fesul genre | BBC One | BBC Two | BBC Three* | BBC Four | Radio |
|---|---|---|---|---|---|
| Newyddion a'r Tywydd | 3,385 awr<br>2014/15: 3,256 awr | 819 awr<br>2014/15: 409 awr | 30 awr<br>2014/15: 34 awr | 6 awr<br>2014/15: 6 awr | 11,543 awr<br>2014/15: 11,391 awr |
| Materion Cyfoes | 184 awr<br>2014/15: 197 awr | 343 awr<br>2014/15: 443 awr | 123 awr<br>2014/15: 166 awr | 113 awr<br>2014/15: 111 awr | 1,645 awr<br>2014/15: 1,668 awr |
| Ffeithiol | 2,264 awr<br>2014/15: 2,102 awr | 3,382 awr<br>2014/15: 3,356 awr | 1,007 awr<br>2014/15: 971 awr | 1,311 awr<br>2014/15: 1,196 awr | 3,476 awr<br>2014/15: 3,318 awr |
| Cerddoriaeth a'r Celfyddydau | 51 awr<br>2014/15: 44 awr | 282 awr<br>2014/15: 286 awr | 30 awr<br>2014/15: 48 awr | 1,425 awr<br>2014/15: 1,434 awr | 42,236 awr<br>2014/15: 42,024 awr |
| Crefydd | 92 awr<br>2014/15: 86 awr | 50 awr<br>2014/15: 50 awr | dd/g<br>2014/15: dd/g | 24 awr<br>2014/15: 21 awr | 573 awr<br>2014/15: 592 awr |
| Drama | 576 awr<br>2014/15: 643 awr | 278 awr<br>2014/15: 242 awr | 169 awr<br>2014/15: 282 awr | 106 awr<br>2014/15: 177 awr | 4,632 awr<br>2014/15: 4,280 awr |
| Ffilm | 359 awr<br>2014/15: 356 awr | 788 awr<br>2014/15: 783 awr | 197 awr<br>2014/15: 190 awr | 101 awr<br>2014/15: 129 awr | dd/g<br>2014/15: dd/g |
| Adloniant | 575 awr<br>2014/15: 579 awr | 317 awr<br>2014/15: 314 awr | 91 awr<br>2014/15: 197 awr | 27 awr<br>2014/15: 28 awr | 7,385 awr<br>2014/15: 7,490 awr |
| Comedi | 177 awr<br>2014/15: 161 awr | 294 awr<br>2014/15: 252 awr | 1,088 awr<br>2014/15: 1,208 awr | 28 awr<br>2014/15: 49 awr | dd/g†<br>2014/15: dd/g |
| Ysgolion/ Addysg Ffurfiol | dd/g<br>2014/15: dd/g | 95 awr<br>2014/15: 309 awr | dd/g<br>2014/15: 1 hr | dd/g<br>2014/15: 1 awr | 104 awr<br>2014/15: 112 awr |
| Chwaraeon | 604 awr<br>2014/15: 819 awr | 1,034 awr<br>2014/15: 1,087 awr | 44 awr<br>2014/15: 167 awr | 2 awr<br>2014/15: dd/g | 5,483 awr<br>2014/15: 5,166 awr |

* Daeth BBC Three yn sianel ar-lein yn unig ar 16 Chwefror 2016. Felly dim ond tan 15/02/2016 y dangosir oriau allbwn ar deledu llinellol rhwydwaith ac nid ydynt yn cynnwys rhaglennu ar-lein. Nid yw'r gymhariaeth â 2014/15 yn debyg-at-ei-debyg.
† Datgelir oriau comedi radio o fewn y genre Adloniant.

| Oriau allbwn rhwydwaith fesul genre | BBC One | BBC Two | BBC Three | CBBC | CBeebies |
|---|---|---|---|---|---|
| Plant | 2 awr<br>2014/15: 1 hr | 8 awr<br>2014/15: 21 awr | dd/g<br>2014/15: dd/g | 4,090 awr<br>2014/15: 4,076 awr | 4,393 awr<br>2014/15: 4,355 awr |

Mae Addysg (ffurfiol) yn cynnwys addysg i blant, y Brifysgol Agored a BBC Learning Zone.
Symudodd rhaglennu CBBC a CBeebies o BBC One a BBC Two i ddarlledu ar ei sianelau digidol yn unig o fis Rhagfyr 2012.

# Cyflenwadau rhwydwaith

Caiff bron i hanner teledu rhwydwaith ei gynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, gyda mwy na 48.1% o'r tu allan i Lundain a mwy nag 16% o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

**Gwariant ar raglennu teledu rhwydwaith fesul rhanbarth fel canran o wariant cymwys**

| | 2015 | 2014 |
|---|---|---|
| **Llundain** | **51.9%** | 46.7% |
| Yr Alban | **7.7%** | 9.2% |
| Cymru | **7.1%** | 6.5% |
| Gogledd Iwerddon | **1.8%** | 2.5% |
| **Cyfanswm y gwledydd** | **16.6%** | 18.1% |
| Canolbarth Lloegr | **1.8%** | 1.7% |
| Gogledd Lloegr | **17.4%** | 23.1% |
| De Lloegr | **9.3%** | 7.6% |
| Aml-ranbarth* | **3.0%** | 2.8% |
| **Cyfanswm y rhanbarthau** | **31.6%** | 35.2% |
| Cyfanswm y gwledydd a'r rhanbarthau | **48.1%** | 53.3% |
| **Cyfanswm cyfan** | **100%** | 100% |


**Oriau allbwn Radio Lleol y BBC** a radio'r gwledydd**

| | 2015 | 2014 |
|---|---|---|
| **Llundain** | **8,014** | 8,260 |
| Lloegr (heb gynnwys Llundain) | **226,367** | 225,084 |
| Yr Alban | **12,133** | 12,494 |
| Cymru | **13,842** | 13,784 |
| Gogledd Iwerddon | **8,616** | 8,722 |
| **Cyfanswm** | **268,972** | 268,344 |

Gwariant ar deledu rhwydwaith yn seiliedig ar ddiffiniadau Ofcom yn ôl blwyddyn galendr.

* Mae aml-ranbarth yn cwmpasu rhaglenni a wnaed y tu allan i Lundain ond na ellir eu priodoli i unrhyw un rhanbarth neu wlad.

** Dim ond rhaglenni gwreiddiol gan y BBC y mae oriau allbwn Radio Lleol y BBC a radio'r gwledydd yn eu cynnwys ac nid yw'n cynnwys unrhyw raglenni a gaiff eu hailddarlledu.



# Y BBC yng Nghymru

Mewn blwyddyn pan gynhaliwyd Cwpan Rygbi'r Byd, digwyddiadau i ddathlu canmlwyddiant a hanner y Wladfa, ac Etholiad Cyffredinol, perfformiodd y BBC yn gryf yng Nghymru gyda chyfartaledd o 19 awr o gynnwys y BBC yn cael ei ddefnyddio fesul oedolyn bob wythnos.

## Parhaodd perfformiad cynulleidfa Teledu a Radio'r BBC i fod yn uwch na gwledydd eraill y DU, yn sgil perfformiad cryf BBC One Wales, Radio 1 a Radio 2.

Denodd rhaglennu teledu lleol a gynhyrchwyd ar gyfer BBC One Wales a BBC Two Wales 870,000 o wylwyr bob wythnos (31% o oedolion), a pharhaodd cyfran y gynulleidfa ar gyfer allbwn lleol i ragori ar fesurau tebyg ar gyfer allbwn rhwydwaith y BBC yng Nghymru.

Roedd llwyddiant cynnwys brodorol yn nodedig; ac roedd arlwy cyfoethog ac amrywiol o raglennu ffeithiol yn cynnwys y rhaglen glodwiw *Life After April*, portread treiddgar o fywydau cenhedlaeth newydd yn *Young, Welsh and Pretty Skint*, a darlun gonest o frwydr un ardal i warchod ei hunaniaeth yn *Welsh Heartland*. Ar yr ochr ysgafnach, bu *Rhod Gilbert's Work Experience* a *Max's World Cup Warm-Up* yn boblogaidd ymhlith cynulleidfaoedd yng Nghymru a'r DU.

Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y defnydd o BBC iPlayer yng Nghymru yn ystod y flwyddyn hefyd, gan gymylu'r ffiniau traddodiadol rhwng sianelau byw a gwasanaethau ar alw. Er enghraifft, cafwyd dros filiwn o geisiadau i wylio *Young, Welsh and Pretty Skint*, a ddarlledwyd gyntaf ar BBC Three.

Parhaodd cynyrchiadau dramâu teledu yng Nghymru i ragori. Denodd ail gyfres *Doctor Who* gyda Peter Capaldi chwe miliwn o wylwyr yn y DU, a denodd cynhyrchiad BBC Cymru o *War and Peace* – a addaswyd gan Andrew Davies – fwy na saith miliwn o wylwyr ym mis Ionawr. Cadarnhaodd ail gyfres *Hinterland* (cyd-gynhyrchiad rhwng y BBC ac S4C) ei safle fel y gyfres ddrama fwyaf llwyddiannus i'w chomisiynu'n lleol gan BBC Cymru yn ddiweddar a *Sherlock*, a ddychwelodd i BBC One ar Ddydd Calan, oedd hoff raglen gwylwyr yn y DU dros yr ŵyl, wrth i 11.6 miliwn o wylwyr ledled y DU groesawu Benedict Cumberbatch a Martin Freeman yn ôl dros gyfnod y Nadolig.

Ar draws cynnwys drama, ffeithiol a cherddoriaeth, roedd gwariant ar gynyrchiadau teledu rhwydwaith yng Nghymru yn cynrychioli 7.1% o gyfanswm buddsoddiad y BBC, gyda *Crimewatch*, *Bargain Hunt*, *Casualty*, *BBC Cardiff Singer of the World* a *Coast* wrth wraidd y ddarpariaeth.

Cafwyd gwasanaeth darlledu cynhwysfawr gan BBC Radio Wales a Radio Cymru o Gwpan Rygbi'r Byd 2015, gemau rhagbrofol Cymru ar gyfer Ewro 2016 a'r Etholiad Cyffredinol ond roedd cyrhaeddiad cynulleidfaoedd yn is yn gyffredinol o flwyddyn i flwyddyn. Ar yr un pryd, parhaodd y defnydd o wasanaethau cyfryngau cymdeithasol a symudol i dyfu'n dda a gwelodd y ddwy orsaf gynnydd mewn ffigurau gwrando drwy bodlediadau a chynnwys rhyngweithiol.

Cafodd canmlwyddiant a hanner y Wladfa ei ddathlu gan amrywiaeth o raglennu, gan gynnwys rhaglen ddogfen nodedig gyda Huw Edwards, a gynhyrchwyd yn Gymraeg ac yn Saesneg. I nodi'r digwyddiad hanesyddol hwn, ymwelodd Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC â'r ardal, y gerddorfa symffoni broffesiynol gyntaf i wneud hynny, gan gynnal amrywiaeth o weithdai cerdd mewn ysgolion lleol a chanolfannau cymunedol. Penllanw'r daith oedd dau gyngerdd mawreddog mewn warws a addaswyd yn arbennig yn Chubut, prifddinas y dalaith, a ddenodd filoedd o drigolion lleol o bob oed i'w cyngerdd cerddorfaol cyntaf.

Parhaodd rhaglennu'r BBC ar gyfer S4C i chwarae rhan greiddiol yn amserlen y sianel, gyda'r ddrama boblogaidd *Pobol y Cwm* yn dychwelyd i'w phatrwm arferol o bum noson yr wythnos yn yr hydref. Bu'r penderfyniad i gynnwys S4C ar BBC iPlayer yn llwyddiannus hefyd, gyda mwy na 100,000 o geisiadau i wylio cynnwys bob wythnos ar gyfartaledd. Ochr yn ochr â'r llwyddiant hwn, darparodd BBC Cymru Fyw – y gwasanaeth ar-lein a symudol Cymraeg – wasanaeth bywiog ac arloesol i ddefnyddwyr, gan ddenu bron 45,000 o borwyr unigol bob wythnos.

**Mae'r BBC yn gwario**

**£177.7m**

**ar gynnwys rhwydwaith a lleol o Gymru**

Os hoffech ddarllen mwy am wariant y BBC yng Nghymru, gweler tudalen 94 yn Natganiadau Ariannol Llawn y BBC.

## Perfformiad fesul gwasanaeth

### Gwasanaethau penodedig

| Gwasanaeth | Cynnwys (£m) Gwnaethom wario cyfanswm o £29.3 miliwn ar gynnwys ar gyfer y gwasanaethau penodedig hyn y llynedd | Cyrhaeddiad (%) Poblogaeth Cymru sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos | Yr amser a dreuliwyd yn gwylio neu'n gwrando ar wasanaeth bob wythnos (oriau:munudau) Y cyfnod o amser a dreuliodd gwylwyr neu wrandawyr cyffredin gyda'r gwasanaeth bob wythnos | Mynegai Gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth Cyfanswm y sgôr a roddodd pobl i raglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100 | Cost fesul awr defnyddiwr (c) Faint mae'n ei gostio i gyflwyno pob gwasanaeth i ddefnyddwyr unigol |
|---|---|---|---|---|---|
| BBC radio wales — Mae BBC Radio Wales yn wasanaeth llafar yn bennaf i oedolion, sy'n cynnig amrywiaeth eang o genres ac yn adlewyrchu materion, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl Cymru. | £15.1m 2014/15: **£15.5m** | 14.8% 2014/15: **16.2%** | 08:15 2014/15: **09:22** | 82.5 2014/15: **83.0** | 9.0c 2014/15: **7.6c** |
| BBC cymru wales — Mae BBC Radio Cymru yn wasanaeth radio llafar a cherddoriaeth i siaradwyr Cymraeg, sy'n cynnig amrywiaeth eang o genres ac yn adlewyrchu materion, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl Cymru. | £14.2m 2014/15: **£14.1m** | 4.3% 2014/15: **4.6%** | 10:47 2014/15: **10:49** | 77.0 2014/15: **78.1** | 22.3c 2014/15: **21.1c** |

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15+ munud a chynulleidfaoedd 15+ oed. Ffynonellau: RAJAR (Cyrhaeddiad radio a'r amser a dreuliwyd). Mynegai Gwerthfawrogiad: Panel Pulse o 20,000 o oedolion 16+ oed yn y DU gan GfK. BBC Radio Wales, BBC Radio Cymru: data yn seiliedig ar eu Hardal Arolygu Gyfan. Mae'r saethau'n dynodi p'un a fu newid o +/- 1.1-2.4% neu +/-2.5% o gymharu â Mynegai Gwerthfawrogiad y flwyddyn flaenorol. Mae BBC Radio Cymru yn cyrraedd 18.9% o'r boblogaeth o siaradwyr Cymraeg 15+ oed yng Nghymru bob wythnos, sy'n defnyddio'r gwasanaeth am 12:07 yr wythnos ar gyfartaledd. Mae gwrandawyr Cymraeg yn rhoi sgôr Mynegai Gwerthfawrogiad gyfartalog o 76.5 iddo. Mae balans y flwyddyn flaenorol wedi cael ei ddiweddaru yn dilyn addasiad i'r data sydd wedi rhoi dadansoddiad mwy cywir.

## Cyrraedd ein cynulleidfaoedd

**Cyrhaeddiad cynulleidfa**

Canran yr oedolion yng Nghymru sy'n defnyddio teledu, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos yn 2015.



97%

2014: 97%

**Cyfanswm yr amser a dreulir**

Y cyfnod o amser y mae'r cynulleidfaoedd hyn yn ei dreulio gyda'r BBC bob wythnos yn 2015.



19.5 awr

**Argraff gyffredinol**

Argraff gyffredinol o'r BBC.



7/10

2014/15: 7/10

## Perfformiad fesul llwyfan


**Cyrhaeddiad wythnosol Teledu'r BBC**



83%

2014/15: 85%


**Cyrhaeddiad wythnosol gwasanaethau newyddion penodedig ar y teledu**



48%

2014/15: 49%

**Cyrhaeddiad wythnosol Radio'r BBC**



72%

2014/15: 76%

# Y BBC yn yr Alban

O ymchwiliadau a dramâu clodwiw, i raglenni dogfen beiddgar a darllediadau o ddigwyddiadau, adlewyrchodd BBC Scotland yr Alban yn ei holl amrywiaeth cyfoethog drwy gydol 2015/16.

> Denodd trydedd gyfres trosedd a chyffro *Shetland* gynulleidfa rwydwaith gyfartalog o 5.8 miliwn.

Roedd darllediadau BBC Scotland o'r Etholiad Cyffredinol yn gynhwysfawr ac awdurdodol ac, am y tro cyntaf, darlledodd ein rhaglen ganlyniadau yn fyw o'r 32 o leoliadau cyfrif ledled yr Alban.

Roedd ffermio cŵn bach yn anghyfreithlon, ffracio a thrychineb lori sbwriel Glasgow ymhlith y pynciau a gafodd sylw ein tîm Ymchwiliadau, a chafodd gwaith y tîm ar honiadau difrifol o gyffuriau ym maes athletau rhyngwladol effaith fyd-eang. Yn ddiweddarach, enillodd *Catch Me If You Can* Wobr Stori Chwaraeon y Flwyddyn yng Ngwobrau Newyddiaduraeth Prydain 2015.

Ym maes drama, denodd trydedd gyfres trosedd a chyffro glodwiw Ann Cleeves, *Shetland*, gynulleidfa rwydwaith gyfartalog o 5.8 miliwn ar draws y chwe rhan. Ymhlith yr uchafbwyntiau eraill roedd *Stonemouth* gan Iain Banks a *Murder* ar BBC Two ym mis Mawrth. Roedd wynebau newydd a storïau grymus wedi helpu *River City* i gadw ei statws fel yr 'opera sebon' yr oedd pobl yn ei gwerthfawrogi fwyaf yn yr Alban a, chan weithio ochr yn ochr â'r Gymdeithas Hosbisau Plant, cyflwynodd ein tîm drama un o ddarnau teledu mwyaf dirdynnol y flwyddyn wrth adrodd stori marwolaeth baban.

Roedd arlwy cyfoethog ac amrywiol o raglenni dogfen yn cynnwys portreadau treiddgar o fywyd yn yr Alban fodern, gan ymdrin â phynciau fel *Transplant Tales*, *Teenage Millionaire* a *Transsexual Stories*. Cafodd stori ingol y rheiny sy'n dal i deimlo effaith trychineb a syfrdanodd y byd 20 mlynedd yn ôl ei hadrodd yn *Dunblane: Our Story*.

Canolbwyntiodd *What Do Artists Do All Day?*, tymor *BBC Goes Pop* ar BBC Four a'r gyfres bedair rhan *Story of Scottish Art* ar gelf ac artistiaid o'r Alban a thu hwnt. A chafodd bywyd gwledig sylw amlwg yn *The Mart*, *Bothy Life*, *Lady Lairds*, *The Mountain* a'r gyfres 12 rhan glodwiw *This Farming Life*, ar gyfer BBC Two.

Unwaith eto, roedd *Mrs Brown's Boys* wrth wraidd arlwy teledu'r BBC dros y Nadolig a denodd y gyfres gomedi a pharodi newydd *Scot Squad* 20% o gyfran cynulleidfa'r Alban ar gyfartaledd ar draws ei chwe rhan.

Cafodd ffefrynnau sioe loteri BBC One ar nos Sadwrn, sef *Who Dares Wins*, In *It To Win It* a *Win Your Wish List*, i gyd eu ffilmio ym mhencadlys BBC Scotland yn Glasgow a bu ein criwiau darlledu allanol yn darlledu'n helaeth o wyliau o bob rhan o'r wlad, o'r Proms a Celtic Connections, i Bencampwriaethau Bandiau Pibau'r Byd a T in the Park.

Parhaodd yr allbwn plant i ddifyrru a diddanu, wrth i fformatau newydd arloesol fel *Lifebabble* ymuno â *Katie Morag* a ffefrynnau sefydledig eraill.

Cadwodd BBC ALBA ei chynulleidfa deyrngar, gan gyrraedd 660,000 o wylwyr bob wythnos, a dychwelodd y ddrama glodwiw *Bannan* i'n sgriniau yn ystod y flwyddyn.

**Mae'r BBC yn gwario**

**£176.4m**

**ar gynnwys rhwydwaith a lleol o'r Alban**

Os hoffech ddarllen mwy am wariant y BBC yn yr Alban, gweler tudalen 99 yn Natganiadau Ariannol Llawn y BBC.

Yn sgil newidiadau i amserlenni Radio Scotland, cafodd rhaglenni *Kaye Adams* a *Newsdrive* eu hymestyn, ac mae *Good Morning Scotland* bellach yn cael ei darlledu saith diwrnod yr wythnos. Helpodd y cwis comedi cyfoes newydd *Breaking the News*, y rhaglen gylchgrawn wythnosol *Out for the Weekend* a *Quay Sessions*, sy'n arddangos y doniau cerddorol brodorol a rhyngwladol gorau, yr orsaf i fynd o nerth i nerth yn 2015.

Mae cyfryngau cymdeithasol yn dod yn fwyfwy pwysig fel ffordd o gysylltu â'n cynulleidfaoedd. Cynyddodd cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog tudalen Facebook BBC Scotland o 260,000 (Hydref 2014 – Mawrth 2015) i 1.68 miliwn yn 2015/16. Cyrhaeddodd un sgetsh, o *Scot Squad*, 16.1miliwn o ddefnyddwyr unigryw.

## Perfformiad fesul gwasanaeth

### Gwasanaethau penodedig

| | Cynnwys (£m) Gwnaethom wario cyfanswm o £32.3 miliwn ar y gwasanaethau hyn y llynedd | Cyrhaeddiad (%) Poblogaeth oedolion yr Alban sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos | Amser a dreuliwyd yn gwylio sianel bob wythnos (oriau:munudau) Y cyfnod o amser a dreuliodd gwylwyr cyffredin gyda'r sianel bob wythnos | Mynegai Gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth Cyfanswm y sgôr a roddodd pobl i raglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100 | Cost fesul awr defnyddiwr (c) Faint mae'n ei gostio i gyflwyno pob gwasanaeth i ddefnyddwyr unigol |
|---|---|---|---|---|---|
| BBC ALBA – Mae BBC ALBA yn cynnig amrywiaeth nodedig o raglennu gwreiddiol i siaradwyr a dysgwyr Gaeleg sy'n adlewyrchu ac yn cefnogi diwylliant, hunaniaeth a threftadaeth Gaeleg. | £5.5m<br>2014/15: **£6.0m** | 15.0%<br>2014/15: **16.2%** | 01:59<br>2014/15: **01:56** | dd/g<br>2014/15: **dd/g** | 7.8c<br>2014/15: **8.3c** |

## Perfformiad fesul gwasanaeth

### Gwasanaethau penodedig

| | Cynnwys (£m) Gwnaethom wario cyfanswm o £32.3 miliwn ar gynnwys ar gyfer y gwasanaethau penodedig hyn y llynedd | Cyrhaeddiad (%) Poblogaeth yr Alban sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos | Yr amser a dreuliwyd yn gwylio neu'n gwrando ar wasanaeth bob wythnos (oriau:munudau) Y cyfnod o amser a dreuliodd gwylwyr neu wrandawyr cyffredin gyda'r gwasanaeth bob wythnos | Mynegai Gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth Cyfanswm y sgôr a roddodd pobl i raglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100 | Cost fesul awr defnyddiwr (c) Faint mae'n ei gostio i gyflwyno pob gwasanaeth i ddefnyddwyr unigol |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae BBC Radio Scotland yn wasanaeth llafar yn bennaf i oedolion. Mae rhaglennu genre cymysg yn adlewyrchu amrywiaeth diwylliant yr Alban ac yn ymdrin â materion a digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol sy'n berthnasol i wrandawyr ledled y wlad. | £22.9m<br>2014/15: £21.7m | 21.0%<br>2014/15: 20.0% | 06:55<br>2014/15: 07:09 | 76.0<br>2014/15: 75.6 | 6.6c<br>2014/15: 6.5c |
| Mae BBC Radio nan Gàidheal‡ yn cynnig gwasanaeth radio llafar a cherddoriaeth cynhwysfawr i siaradwyr Gaeleg. Mae rhaglennu genre cymysg yn adlewyrchu amrywiaeth diwylliant yr Alban ac, o safbwynt Gaeleg a thrwy gyfrwng yr iaith Gaeleg, yn ymdrin â materion a digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol sy'n berthnasol i wrandawyr ledled y wlad. | £3.9m<br>2014/15: £3.7m | 69.0%*<br>2014/15: 63.3% | 08:27<br>2014/15: 07:40 | dd/g<br>2014/15: dd/g | 16.3c<br>2014/15: 18.9c |

Diffiniad o gyrhaeddiad RAJAR: 15+ munud a chynulleidfaoedd 15+ oed. Ffynonellau: RAJAR (cyrhaeddiad radio a'r amser a dreuliwyd). Mynegai gwerthfawrogiad: Panel Pulse o 20,000 o oedolion 16+ oed yn y DU gan GfK. BBC Radio Scotland: data yn seiliedig ar ei Ardal Arolygu Gyfan.
* Panel TRP: Y boblogaeth 16+ oed sy'n siarad Gaeleg yn yr Alban. Mae'r saethau'n dynodi p'un a fu newid o +/- 1.1-2.4% neu +/-2.5% o gymharu â Mynegai Gwerthfawrogiad y flwyddyn flaenorol.

## Cyrraedd ein cynulleidfaoedd

**Cyrhaeddiad cynulleidfa**
Canran yr oedolion yn yr Alban sy'n defnyddio teledu, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos yn 2015.

95%

2014: 95%

**Cyfanswm yr amser a dreulir**
Y cyfnod o amser y mae'r cynulleidfaoedd hyn yn ei dreulio gyda'r BBC bob wythnos yn 2015.

18.4 awr

**Argraff gyffredinol**
Argraff gyffredinol o'r BBC.

6/10

2014/15: 6/10

## Perfformiad fesul llwyfan

**Cyrhaeddiad wythnosol Teledu'r BBC**

83%

2014/15: 83%

**Cyrhaeddiad wythnosol gwasanaethau newyddion penodedig ar y teledu**

51%

2014/15: 51%

**Cyrhaeddiad wythnosol Radio'r BBC**

59%

2014/15: 57%

# Y BBC yng Ngogledd Iwerddon

Cawsom flwyddyn anhygoel o raglenni a digwyddiadau'r BBC yng Ngogledd Iwerddon yn ystod 2015/16.

## Dathlwyd pen-blwydd BBC Radio Ulster yn 40 oed gyda chyfres o ddarllediadau allanol a mentrau arbennig, gan gynnwys Cyngerdd Mawreddog o Neuadd Ulster.

Gwnaethom hefyd ddenu mwy o bobl nag erioed o'r blaen i gymryd rhan yn nigwyddiadau'r BBC fel rhan o Tall Ships Belfast a'n *Proms in the Park* blynyddol. Ac roeddem wrth ein bodd i groesawu digwyddiad nodedig *BBC Sports Personality of the Year* i Belfast am y tro cyntaf. Roedd yn destun balchder i staff lleol y BBC, cynulleidfaoedd a chwaraeon, ac ysgogodd rywfaint o'r adborth gorau rydym erioed wedi'i gael.

Rhoddodd ein hallbwn newyddion a materion cyfoes sylw i etholiad San Steffan, gan ddarparu arlwy treiddgar a pharhaus ar radio, teledu ac ar-lein. Gwnaethom hefyd egluro a dadansoddi datblygiadau yn Stormont a darparu llwyfan trafod pwysig i gynulleidfaoedd y BBC. Parhaodd *Spotlight* â'i gyfres glodwiw o ymchwiliadau; roedd *Nolan Live* wedi cynnwys darn unigryw ac uchelgeisiol ar y cyd ag RTÉ yn edrych ar safbwyntiau ac agweddau ar bob ochr i'r ffin; ac elwodd *BBC Newsline* ar fuddsoddiad newydd i wella ein cyfleusterau stiwdio yn y Ganolfan Ddarlledu – datblygiad a wnaeth wella ymddangosiad ac effaith ein hallbwn.

Gwnaethom adeiladu ar ein llwyddiant wrth greu dramâu teledu o ansawdd ar gyfer y rhwydwaith, gyda chomisiynau ar gyfer cyfres arall o *The Fall* a *Line of Duty*, a drama gyfnod newydd wedi'i lleoli yng ngorllewin Gogledd Iwerddon. Mae'r holl waith hwn yn esgor ar fuddiannau pwysig i'n diwydiannau creadigol ac amrywiaeth amserlenni rhwydwaith y BBC.

Caiff ei ategu gan eitemau allbwn eraill a gynhyrchir yn lleol ar gyfer cynulleidfaoedd ledled y DU sy'n datblygu o ran eu hamrywiaeth a'u nifer, gan gynnwys rhaglenni dogfen, dramâu a darlleniadau ar gyfer y radio, ymchwiliadau materion cyfoes, gan gynnwys *Panorama*, a'r lle sefydledig, a gwerthfawr iawn, sydd gan Gerddorfa Ulster o fewn amserlenni BBC Radio 3.

Cafodd doniau ac amrywiaeth cerddorol lleol eu harddangos yn effeithiol fel rhan o Ddiwrnod Cerddoriaeth y BBC. A gwnaethom ddathlu pen-blwydd Van Morrison yn 70 oed gan ddarlledu cyngerdd o Cyprus Avenue ac wythnos o raglennu arbennig ar BBC Radio Ulster. Croesawyd Syr James Galway nôl ar yr awyr hefyd a chafwyd proffil ohono mewn rhaglen ddogfen delynegol, *Being James Galway*. Hawliodd doniau cerddorol newydd eu lle ar lwyfan y BBC hefyd drwy ein cystadleuaeth newydd *School Choir of the Year*.

Mae arloesedd technegol wrth Wraidd holl uchelgeisiau golygyddol BBC Northern Ireland. Mae ein timau lleol wedi bod yn gwneud gwaith arloesol i sicrhau bod archifau'r BBC yn fwy hygyrch fel rhan o brosiect BBC Rewind ac rydym yn awyddus i atgyfnerthu a datblygu'r cyflawniadau hyn dros y cyfnod nesaf. Mae mynd i'r afael â'r gofynion technegol a'r gofynion eraill y mae ein dyfodol darlledu yn dibynnu arnynt wedi bod yn flaenoriaeth hefyd, ac mae gwaith yn mynd rhagddo o hyd ar anghenion eiddo'r BBC yng Ngogledd Iwerddon.

Adlewyrchwyd ein treftadaeth ieithyddol a diwylliannol mewn ffyrdd gwahanol ar draws ein gwasanaethau lleol. Ysgrifennodd a chyflwynodd Mary McAleese raglen ddogfen rymus, sef *Columbanus: The Man Who Saved Europe*, a gafodd ei darlledu mewn Gwyddeleg hefyd. A rhoddwyd sylw i themâu yn ymwneud ag Albanwyr-Ulster mewn cyfresi, gan gynnwys *Imagining Ulster*. Mae llawer o'r rhaglennu hyn ond yn bosibl o ganlyniad i'r cymorth a gawn gan NI Screen – partneriaeth sydd hefyd yn helpu i roi cyfeiriad strategol ac ysgogiad i ddatblygu'r sector yn fwy cyffredinol.

**Mae'r BBC yn gwario**

**£73.4m**

**ar gynnwys rhwydwaith a lleol o Ogledd Iwerddon**

Os hoffech ddarllen mwy am wariant y BBC yng Ngogledd Iwerddon, gweler tudalen 104 yn Natganiadau Ariannol Llawn y BBC.

## Perfformiad fesul gwasanaeth

### Gwasanaethau penodedig

| Gwasanaethau penodedig | Cynnwys (£m) Gwnaethom wario cyfanswm o £17.7 miliwn ar gynnwys ar gyfer y gwasanaethau penodedig hyn y llynedd | Cyrhaeddiad (%) Poblogaeth Gogledd Iwerddon sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos | Yr amser a dreuliwyd yn gwylio neu'n gwrando ar wasanaeth bob wythnos (oriau:munudau) Y cyfnod o amser a dreuliodd gwylwyr neu wrandawyr cyffredin gyda'r gwasanaeth bob wythnos | Mynegai Gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth Cyfanswm y sgôr a roddodd pobl i raglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100 | Cost fesul awr defnyddiwr (c) Faint mae'n ei gostio i gyflwyno pob gwasanaeth i ddefnyddwyr unigol |
|---|---|---|---|---|---|
| BBC Radio Ulster: Mae BBC Radio Ulster yn wasanaeth llafar yn bennaf, sy'n darparu amrywiaeth o raglenni sy'n adlewyrchu newyddion, digwyddiadau a phob agwedd ar fywyd cymunedol yn ei ehangder.<br>BBC Radio Foyle: Mae BBC Radio Foyle yn wasanaeth llafar yn bennaf i gynulleidfaoedd yng ngogledd-orllewin Gogledd Iwerddon. Mae'n cynnig cymysgedd o newyddion a rhaglennu eraill sy'n ategu ac yn cyfrannu at wasanaeth BBC Radio Ulster ar draws y rhanbarth. | £17.7m<br>2014/15: **£17.3m** | 36.2%<br>2014/15: **35.6%** | 10:47<br>2014/15: **10:02** | 74.2<br>2014/15: **77.9** | 5.7c<br>2014/15: **6.3c** |

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15+ munud a chynulleidfaoedd 15+ oed.
Ffynonellau: RAJAR (Cyrhaeddiad radio a'r amser a dreuliwyd). Mynegai gwerthfawrogiad: Panel Pulse o 20,000 o oedolion 16+ oed gan GfK.
BBC Radio Ulster/Foyle: data yn seiliedig ar ei Ardal Arolygu Gyfan.
Mae'r saethau'n dynodi p'un a fu newid o +/- 1.1-2.4% neu +/-2.5% o gymharu â Mynegai Gwerthfawrogiad y flwyddyn flaenorol.

## Cyrraedd ein cynulleidfaoedd

**Cyrhaeddiad cynulleidfa**
Canran yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon sy'n defnyddio teledu, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos yn 2015.

96%

2014: 95%

**Cyfanswm yr amser a dreulir**
Y cyfnod o amser y mae'r cynulleidfaoedd hyn yn ei dreulio gyda'r BBC bob wythnos yn 2015.

17.0 awr

**Argraff gyffredinol**
Argraff gyffredinol o'r BBC.

6/10

2014/15: 7/10

## Perfformiad fesul llwyfan

**Cyrhaeddiad wythnosol Teledu'r BBC**

80%

2014/15: 82%

**Cyrhaeddiad wythnosol gwasanaethau newyddion penodedig ar y teledu**

53%

2014/15: 55%

**Cyrhaeddiad wythnosol Radio'r BBC**

60%

2014/15: 61%

# Y BBC yn Lloegr

Mae wedi bod yn flwyddyn dda arall i'r BBC ledled Lloegr, y gellir ei phriodoli i gymysgedd grymus o gynnwys atyniadol, storïau newyddion mawr, digwyddiadau byw unigryw a buddsoddiad parhaus yn ein safleoedd ledled y wlad.

O *Poldark* i *Happy Valley,* bu cefn gwlad Lloegr yn gefnlen odidog i rai o'n dramâu mwyaf grymus, a fu'n boblogaidd gyda chynulleidfaoedd ledled y wlad ac a wnaeth helpu i ysgogi gwerthiannau rhyngwladol ac enw da byd-eang y BBC o ran drama o ansawdd.

Amgylchedd trefol Manceinion Fwyaf oedd y gefnlen i gomedi boblogaidd Peter Kay *Car Share*. Ymddangosodd y sitcom ar iPlayer gyntaf a, gyda 2.8 miliwn o geisiadau, hon oedd un o'r rhaglenni a gafodd y nifer fwyaf o geisiadau erioed, ac aeth ymlaen i fod yn ffefryn ar BBC One. Llwyddiant nodedig arall oedd *Boy Meets Girl*; y gomedi hon, sydd wedi'i lleoli yn Newcastle ac sy'n ffrwyth ymdrech benodol i chwilio am sgriptiau yn cynnwys portreadau cadarnhaol o gymeriadau trawsrywiol, oedd y gyntaf ar y BBC i roi lle amlwg i faterion trawsrywiol. Ym mis Mawrth 2016 ymddangosodd *The A Word*, a oedd yn canolbwyntio ar fachgen bach ag awtistiaeth wrth iddo dyfu i fyny yn Ardal y Llynnoedd, ar ein sgriniau gan ddangos ein hawydd parhaus i wneud ein storïau yn fwy amrywiol a chynrychioladol ar adegau gwylio brig.

Roedd amrywiaeth o ddigwyddiadau byw ledled y wlad wedi ein helpu i ddod yn agosach fyth at gynulleidfaoedd yn Lloegr; cafodd The 6 Music Festival a digwyddiad ymylol cysylltiedig eu cynnal ym Mryste er mawr lawenydd i'r rheiny yn yr ardal sydd â diddordeb mewn cerddoriaeth, a chynhaliwyd yr ail BBC Music Awards yn Birmingham. Yn sgil prosiect Cue Sheffield gan BBC Chwaraeon, ymwelodd nifer o raglenni rhwydwaith megis *The One Show* a *Woman's Hour* â'r ddinas yn ystod Pencampwriaethau Snwcer y Byd. Yn Salford, cynhaliodd 5 Live a BBC Chwaraeon farathon pêl-droed pump bob ochr, lle gwnaeth cannoedd o bêl-droedwyr amatur chwarae ar gae a adeiladwyd yn arbennig ar sgwâr MediaCity ochr yn ochr ag Alan Shearer a Robbie Savage er mwyn codi dros £370,000 i Sport Relief.

Cyflwynodd CBBC Live & Digital brosiect Make it Digital y BBC i 25,000 o ymwelwyr yn Hull ac, yn Leeds, ffilmiodd CBeebies ei drydydd darn ar y cyd â Northern Ballet – perfformiad o *Elves and the Shoemaker*. Erys ymrwymiad CBBC i'r gogledd-ddwyrain yn gryf wrth i ddwy o gyfresi drama mwyaf poblogaidd y rhwydwaith barhau i ffilmio yn ardal Newcastle. Mae'r cyfresi hyn, ar y cyd â holl weithgareddau cynhyrchu eraill yr adran, yn golygu bod 83% o wariant BBC Children y tu allan i Lundain.

Adnewyddwyd cydberthynas y BBC â Birmingham ymhellach ar ôl symud 300 o swyddi ychwanegol i'r safle, gydag Academi'r BBC wrth wraidd canolfan newydd ar gyfer sgiliau, hyfforddiant a recriwtio. Cafodd tua 250 o rolau eraill eu symud i Salford hefyd, gan ein galluogi i barhau i ddatblygu ein presenoldeb y tu allan i dde-ddwyrain Lloegr a lleihau costau ein hystad yn Llundain.

Unwaith eto, dangosodd Radio Lleol y BBC y rôl hollbwysig y mae'n ei chwarae mewn argyfwng yn ystod cyfres o lifogydd yng ngogledd Lloegr. Arhosodd gorsafoedd yng Nghaerefrog, Cumbria, Swydd Gaerhirfryn, Manceinion a Leeds ar yr awyr gan ddarparu diweddariadau ar-lein rheolaidd er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyhoedd am y digwyddiadau a oedd yn newid yn gyson. Gadawodd llawer o staff eu teuluoedd er mwyn gweithio dros wyliau'r Nadolig, er bod y llifogydd wedi effeithio ar eu cartrefi hwythau hefyd.

Ar y teledu, rhaglenni rhanbarthol BBC One yn gynnar gyda'r nos, ar y cyd, yw'r rhaglennu newyddion teledu mwyaf poblogaidd yn Lloegr o hyd, gyda chynulleidfa gyfartalog o 4.3 miliwn o oedolion. Ym mis Ionawr, cafodd y bwletinau hwyr am 22.30 eu hymestyn yn barhaol fel eu bod dair munud yn hwy, er mwyn darparu mwy o ddiweddariadau byw o wahanol gymunedau ledled Lloegr.

**4.3m**

**Rhaglenni rhanbarthol BBC One yn gynnar gyda'r nos, ar y cyd, yw'r gwasanaeth newyddion mwyaf poblogaidd yn Lloegr o hyd, gyda chynulleidfa gyfartalog o 4.3 miliwn o oedolion**

## Perfformiad fesul gwasanaeth

| Gwasanaethau penodedig | | Cynnwys (£m) Gwnaethom wario cyfanswm o £119.8 miliwn ar gynnwys ar gyfer y gwasanaethau penodedig hyn y llynedd | Cyrhaeddiad (%) Poblogaeth Lloegr sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos | Yr amser a dreuliwyd yn gwylio neu'n gwrando ar wasanaeth bob wythnos (oriau:munudau) Y cyfnod o amser a dreuliodd gwylwyr neu wrandawyr cyffredin gyda'r gwasanaeth bob wythnos | Mynegai Gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth Cyfanswm y sgôr a roddodd pobl i raglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100 | Cost fesul awr defnyddiwr (c) Faint mae'n ei gostio i gyflwyno pob gwasanaeth i ddefnyddwyr unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| BBC LOCAL RADIO | Mae Radio Lleol y BBC yn darparu gwasanaeth llafar yn bennaf sy'n cynnig newyddion, gwybodaeth a thrafodaethau, gyda phwyslais cryf ar ryngweithedd. | £119.8m<br>2014/15: **£115.6m** | 15.0%<br>2014/15: **15.5%** | 08:51<br>2014/15: **08:44** | 82.4<br>2014/15: **81.2** | 3.9c<br>2014/15: **3.8c** |

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15+ munud a chynulleidfaoedd 15+ oed.
Ffynonellau: RAJAR (Cyrhaeddiad radio a'r amser a dreuliwyd). Mynegai Gwerthfawrogiad: Panel Pulse o 20,000 o oedolion 16+ oed gan GfK.
Radio Lleol y BBC yn Lloegr: data yn seiliedig ar ei Ardal Arolygu Gyfan.
Mae'r saethau'n dynodi p'un a fu newid o +/- 1.1-2.4% neu +/-2.5% o gymharu â Mynegai Gwerthfawrogiad y flwyddyn flaenorol.

### Cyrraedd ein cynulleidfaoedd

**Cyrhaeddiad cynulleidfa**
Canran yr oedolion yn Lloegr sy'n defnyddio teledu, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos yn 2015.



96%

2014: 96%

**Cyfanswm yr amser a dreulir**
Y cyfnod o amser y mae'r cynulleidfaoedd hyn yn ei dreulio gyda'r BBC bob wythnos yn 2015.



18.4 awr

**Argraff gyffredinol**
Argraff gyffredinol o'r BBC.



7/10

2014/15: 7/10

### Perfformiad fesul llwyfan


**Cyrhaeddiad wythnosol Teledu'r BBC**



80%

2014/15: 82%


**Cyrhaeddiad wythnosol gwasanaethau newyddion penodedig ar y teledu**



45%

2014/15: 45%

**Cyrhaeddiad wythnosol Radio'r BBC**




65%

2014/15: 65%

# Radio Lleol

Radio Lleol y BBC yw gwasanaeth radio rhanbarthol y BBC ar gyfer Lloegr ac Ynysoedd y Sianel, ac mae'n cynnwys 40 o orsafoedd. Cafodd ei lansio gyda BBC Radio Leicester yn 1967 ac ers hynny, mae wedi ymestyn i wasanaethu'r wlad gyfan, gan ddarparu gwasanaeth newyddion lleol, a ategir gan gerddoriaeth.



# Cyllid

Rhaid i'r BBC roi cyfrif am y ffordd y mae'n defnyddio ffi'r drwydded ac incwm arall yn gyfrifol



Dathlodd *Attenborough at 90* ar BBC One yrfa eithriadol Syr David ym maes hanes naturiol

# Adolygiad y Rheolwr Gyfarwyddwr, BBC Cyllid a Gweithrediadau



"Wrth i ni gyrraedd diwedd cyfnod y Siarter gyfredol, mae'r BBC yn wynebu cyfnod o newid ac ansicrwydd mawr ochr yn ochr â'r gwaith o gyflawni blwyddyn olaf rhaglen DQF. Mae gennym gynlluniau ar waith i sicrhau sefydlogrwydd ariannol y BBC."

*Anne Bulford*

## Ymdrechu o hyd i sicrhau arbedion effeithlonrwydd wrth i ni ddechrau ar flwyddyn olaf DQF

Eleni, rydym wedi parhau i adeiladu ar ein hanes nodedig o sicrhau arbedion effeithlonrwydd.

2015/16 oedd blwyddyn olaf ond un rhaglen arbedion 'Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf' (DQF) y BBC, sydd wedi sicrhau arbedion cynaliadwy gwerth £621 miliwn erbyn 31 Mawrth 2016. Mae'r rhaglen ar y trywydd cywir i sicrhau cyfanswm blynyddol o £700 miliwn o arbedion cylchol blynyddol erbyn 31 Mawrth 2017. Canolbwyntiodd yr arbedion effeithlonrwydd ar bobl, eiddo a chaffael:

- **pobl:** mae cyfyngu ar gyflog a lleihau nifer y staff wedi sicrhau gostyngiad o fwy na £150 miliwn y flwyddyn mewn costau a lleihad o fwy na 2,000 o gyflogeion dros y naw mlynedd diwethaf. Mae bil cyflog yr uwch reolwyr hefyd wedi gostwng dros £31 miliwn ers 2009, sy'n cyfateb i 40%
- mae **eiddo** wedi lleihau'n sylweddol ers 2010, gan arbed £75 miliwn y flwyddyn i'r BBC erbyn 2016/17
- mae **caffael** yn ein helpu i wneud arbedion wrth gyd-drafod contractau. Gwnaeth y saith caffaeliad mawr diwethaf sicrhau arbedion gwerth cyfanswm o £649 miliwn dros oes y contractau

Yn 2015, cafodd cynnydd y BBC yn erbyn ei dargedau effeithlonrwydd ei ddilysu'n annibynnol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (SAG) a PricewaterhouseCoopers (PwC). Archwiliodd SAG gynnydd rhaglen DQF, a chadarnhaodd PwC y bydd y BBC yn llwyddo i sicrhau £1.6 biliwn o arbedion effeithlonrwydd cylchol mewn costau yn 2016/17, sef mwy na 40% o gostau'r BBC y gellir mynd i'r afael â hwy. Bu hyn yn bosibl yn rhannol o ganlyniad i gyflwyno strategaeth effeithlonrwydd newydd a elwir yn Cystadlu neu Gymharu. Mae hyn yn sicrhau bod pob cost naill ai'n cael ei herio yn y farchnad neu ei graddio yn ei herbyn, gan helpu i sefydlu diwylliant o effeithlonrwydd parhaus yn y BBC. Prif ysgogydd Cystadlu neu Gymharu yw sicrhau'r gwerth gorau i dalwyr ffi'r drwydded ar bob cyfle. Canfu PwC fod 87% o'r sylfaen costau presennol a reolir gan y BBC wedi cael ei brofi bellach, o gymharu â thua 80% yn 2014. Yn 2016/17, rydym yn disgwyl i 90% o'r costau rheoladwy hyn gael eu profi o dan y strategaeth Cystadlu neu Gymharu.

Ym mis Gorffennaf 2015, adolygodd PwC y ffordd yr oedd y BBC wedi cyfrifo gorbenion hefyd a chymharodd ein cymhareb gorbenion â meincnodau'r diwydiant. Yn 2015/16, roedd 94% o wariant rheoladwy'r BBC yn canolbwyntio ar gynnwys a chyflawni, gyda dim ond 6% yn cael ei wario ar redeg y sefydliad. Mae hyn yn ein gosod yn y 25% uchaf ymhlith sefydliadau a reoleiddir, yn erbyn cyfartaledd o 11% yn y sector cyhoeddus a chyfartaledd o 9% mewn diwydiannau a reoleiddir. Mae'r ffocws hwn ar leihau ein costau rhedeg yn sicrhau ein bod yn buddsoddi cymaint o arian â phosibl mewn cynnwys ar gyfer talwyr ffi'r drwydded.

Pan ddechreuwyd ar raglen DQF yn 2011, nododd y BBC yr arbedion angenrheidiol yn seiliedig ar ragolygon o incwm ffi'r drwydded yn y dyfodol. Yn ystod 2015, cyhoeddodd y BBC y byddai incwm ffi'r drwydded a ragwelir yn 2016/17 £150 miliwn yn is na rhagolwg blaenorol DQF. Mae hyn yn cyfateb i tua miliwn yn llai o aelwydydd yn talu ffi'r drwydded. Wrth i fwy o bobl ddibynnu ar BBC iPlayer, dyfeisiau symudol a dal i fyny ar-lein, mae canran yr aelwydydd sy'n berchen ar deledu yn gostwng yn gyflymach na'r hyn a ragwelwyd o'r blaen, ac mae dihangfa rhag talu

yn golygu nad oes rhaid i aelwydydd sy'n gwylio teledu ar-alw yn unig dalu ffi'r drwydded. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Llywodraeth i gael gwared ar y ddihangfa rhag talu sy'n gysylltiedig ag iPlayer drwy greu deddfwriaeth ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC.

Yn y cyfamser, mae'n rhaid i'r BBC ddod o hyd i arbedion er mwyn gwneud iawn am y diffyg hwn o £150 miliwn a fydd yn codi erbyn diwedd cyfnod presennol ffi'r drwydded. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi amlinellu pecyn o gynigion i arbed £50 miliwn drwy wneud y BBC yn symlach ac yn fwy darbodus. Bydd y rhain yn lleihau nifer yr is-adrannau, yn lleihau nifer yr haenau yn y sefydliad o'r brig i'r bôn ac yn symleiddio ac yn safoni gweithdrefnau ym mhob rhan o'r BBC. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo. Daw'r swm o £100 miliwn sy'n weddill o gymysgedd o arbedion cynnwys a mentrau eraill ar draws y BBC. Bydd cyllideb hawliau chwaraeon y BBC yn cyfrannu £35 miliwn o'r arbedion sydd eisoes wedi'u sicrhau o newidiadau, gan gynnwys sut y darlledir Open Golf a'r penderfyniad i symud Formula 1 i Channel 4.

Mae setliad ffi'r drwydded yn 2015 yn ei gwneud yn ofynnol, i bob diben, i'r BBC ymdopi â chwyddiant yn y sylfaen costau a fydd yn cyfateb i £400 miliwn y flwyddyn erbyn 2021/22 a hunanariannu unrhyw fuddsoddiad mewn gwasanaethau newydd. Yn ogystal â hynny, rydym yn wynebu uwchchwyddiant o tua £100 miliwn y flwyddyn mewn costau erbyn 2021/22 mewn meysydd megis chwaraeon a drama. Ni all y BBC sefyll yn ei unman a bydd y buddsoddiad hwn mewn gwasanaethau newydd i gynulleidfaoedd yn gofyn am £150 miliwn ychwanegol erbyn 2021/22. Mae hyn yn golygu y bydd angen gosod targed o wneud cyfanswm o £800 miliwn o arbedion y flwyddyn erbyn 2021/22, sy'n cyfateb i fwy nag 20% o wariant disgwyliedig 2016/17, neu darged arbedion blynyddol cyfartalog o tua 4% y flwyddyn dros y pum mlynedd nesaf.

Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd ac ni allwn osgoi effaith ar wasanaethau a chwmpas yn yr hirdymor.

## Partneriaethau gwerthfawr

Mewn blwyddyn arferol, mae'r BBC yn gwario £1.4 biliwn ar nwyddau a gwasanaethau gan ddefnyddio 12,000 o gyflenwyr (heb gynnwys y rhai sy'n gweithio'n llawrydd a chomisiynau gan gwmnïau annibynnol). Rydym yn ymrwymedig i weithio gyda'n cyflenwyr i ddod o hyd i ffyrdd o leihau costau tra'n cynnal ansawdd ac amseroldeb. Mae tua hanner y gwariant blynyddol ar 11 o gontractau gwasanaeth mawr fel technoleg (Atos); rheoli cyfleusterau (Interserve); a darlledu (Arqiva). Mae'r hanner arall yn cwmpasu prynu nwyddau a gwasanaethau arferol sy'n gysylltiedig â rhedeg y busnes, gan amrywio o wisgoedd a chostau teithio i gamerâu a goleuadau. Rydym yn ddiolchgar iawn i'n cyflenwyr – maent yn rhan bwysig o'r broses o ddarparu ein gwasanaethau ac ni allem gyflawni ein targedau o ran arbedion heb eu cymorth.

## Y defnydd o ffi'r drwydded*

| | 2016 | | | 2015^ | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cynnwys, dosbarthu a chymorth cysylltiedig £m | Cymorth cyffredinol £m | Cyfanswm £m | Cynnwys, dosbarthu a chymorth cysylltiedig £m | Cymorth cyffredinol £m | Cyfanswm £m |
| Teledu | 2,059.4 | 141.8 | 2,201.2 | 2,186.0 | 180.4 | 2,366.4 |
| Radio | 608.2 | 33.9 | 642.1 | 611.0 | 41.4 | 652.4 |
| BBC Ar-lein | 224.8 | 13.2 | 238.0 | 187.8 | 13.1 | 200.9 |
| **Gwariant fesul trwydded gwasanaeth** | **2,892.4** | **188.9** | **3,081.3** | **2,984.8** | **234.9** | **3,219.7** |
| Cerddorfeydd a grwpiau perfformio | 26.2 | 2.1 | 28.3 | 29.7 | 2.8 | 32.5 |
| S4C** | 32.3 | 2.4 | 34.7 | 28.5 | 2.5 | 31.0 |
| Gwariant ar ddatblygu*** | 81.2 | 6.4 | 87.6 | 75.6 | 7.1 | 82.7 |
| Trwydded gweithredu BBC World Service | 246.2 | 15.0 | 261.2 | 236.2 | 17.2 | 253.4 |
| **Cyfanswm gwariant ar y gwasanaeth** | **3,278.3** | **214.8** | **3,493.1** | **3,354.8** | **264.5** | **3,619.3** |
| **% gwariant** | **94%** | **6%** | **100%** | **93%** | **7%** | **100%** |

^ Mae'r BBC wedi adolygu ei ddadansoddiad o gostau cymorth gwariant Grŵp PSB yn ystod y flwyddyn ac o ganlyniad ailddatganodd y farn hon er mwyn sicrhau bod dosbarthiad y flwyddyn flaenorol yn gyson â'r flwyddyn gyfredol.
* Defnyddir ffi'r drwydded hefyd, ar ôl costau casglu, i ariannu rhwymedigaethau'r BBC i gyflwyno band eang ac ariannu S4C yn ogystal â'i daliadau diffyg pensiwn.
** Y swm o £34.7 miliwn a wariwyd gydag S4C yw cost cynnwys a ddarparwyd i S4C yn ychwanegol at y rhwymedigaeth newydd o £75 miliwn.
***Mae costau datblygu'n ariannu datblygiad llwyfannau a gwasanaethau newydd yn y dyfodol agos, yn enwedig ar gyfer BBC Ar-lein a Red Button. Mae hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar nodweddion newydd ar gyfer gwasanaethau sy'n bodoli eisoes, eu costau cymorth a gorbenion cysylltiedig. Mae ar wahân i gostau ymchwil sy'n canolbwyntio ar ymchwilio i dechnoleg a safonau newydd yn y tymor hwy a fydd o fudd i'r BBC a gweddill y diwydiant.

Yn ystod y flwyddyn, daeth gwasanaethau recriwtio'r BBC yn rhai mewnol unwaith eto er mwyn uno ei swyddogaeth adnoddau dynol, gan roi terfyn ar ei gontract 10 mlynedd â Capita. Disgwylir i hyn sicrhau 20% o arbedion. Mae Capita yn parhau i weithio gyda ni mewn meysydd eraill, gan gynnwys ein partneriaeth lwyddiannus i gasglu ffi'r drwydded.

Cafodd y broses o ail-gaffael gwasanaethau Business Process Outsourcing (BPO) y BBC ar gyfer cyllid, cyfrifyddu, y gyflogres a thechnoleg gysylltiedig ei chwblhau'n ddiweddar, gyda'r contract yn cael ei roi i IBM. Bydd y bartneriaeth newydd ag IBM yn sicrhau arbedion sylweddol i'r BBC drwy ddull gweithredu symlach ac arloesol. Bydd IBM yn cymryd lle Sopra Steria o 1 Tachwedd 2016.

Hoffem ddiolch i Capita a Sopra Steria am eu cymorth gwerthfawr dros y degawd diwethaf.

O fis Ebrill 2017, bydd y BBC yn symud i fodel gwasanaeth TG newydd, a gaiff ei ddarparu gan nifer o gyflenwyr. Fel rhan o hyn, mae BT wedi'i benodi fel ei ddarparwr rhwydwaith darlledu. Bydd y contract hwn hefyd yn sicrhau arbedion mawr a disgwylir iddo fraenaru'r tir ar gyfer arloesi digidol yn y dyfodol.

## Edrych ymlaen

Daw'r Siarter gyfredol i ben ar 31 Rhagfyr 2016, a bydd y Siarter newydd ar waith o 1 Ionawr 2017. Gan gadw hynny mewn cof, rydym yn croesawu Papur Gwyn y Llywodraeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar a'r eglurder y mae'n ei gynnig ynglŷn â dyfodol y BBC. Y pethau allweddol i'w nodi yn y Papur Gwyn, o safbwynt ariannol a llywodraethu, yw'r canlynol:

- bydd y Siarter nesaf yn ymestyn dros gyfnod o 11 mlynedd, hyd at 31 Rhagfyr 2027
- mae ffi'r drwydded wedi'i sicrhau ar gyfer cyfnod y Siarter a bydd yn cynyddu'n unol â chwyddiant ar gyfer pum mlynedd gyntaf y Siarter newydd, sef y cynnydd cyntaf mewn degawd bron
- yn amodol ar gymeradwyaethau rheoleiddiol, gallwn bellach fwrw ymlaen â'n cynlluniau i greu BBC Studios fel is-gwmni masnachol – gan roi cyfle i ni, am y tro cyntaf, wneud rhaglenni i eraill, gan ddileu'r gwarantau mewnol sydd wedi diogelu cynyrchiadau teledu hyd yn hyn
- am y tro cyntaf bydd gennym fwrdd unedol cryf gyda rheoleiddiwr allanol: Ofcom

Byddwn yn cynnal trafodaethau â'r Llywodraeth dros y misoedd sydd i ddod er mwyn trafod yr argymhellion yn y Papur Gwyn, yn enwedig o ran annibyniaeth y Bwrdd newydd ac union rôl SAG. Mae'n hanfodol bod y Siarter a'r Cytundeb terfynol yn cyflwyno system lywodraethu gref ac annibynnol sy'n ennyn cryn gefnogaeth ac sy'n sicrhau gwerth i dalwyr ffi'r drwydded dros yr 11 mlynedd nesaf.

Mae sefyllfa ariannol gref bresennol y BBC, ynghyd â'i lwyddiant wrth roi'r cynlluniau arbedion presennol ar waith, yn golygu ein bod mewn sefyllfa dda i gyflawni ein rhwymedigaethau yn y dyfodol a pharhau i ddarparu cynnwys o'r radd flaenaf i'n cynulleidfaoedd.



**Anne Bulford**
**Rheolwr Gyfarwyddwr,**
**BBC Cyllid a Gweithrediadau**
16 Mehefin 2016



Rhaglen jazz reolaidd newydd BBC Radio 3 *Jazz Now*



Dychwelodd y gyfres ddrama drosedd boblogaidd *Silent Witness* am y 19eg gyfres

# Cyflawniadau ariannol



## Ad-drefnu ystâd y BBC

Bu ffocws penodol ar ad-drefnu a moderneiddio ystâd y BBC. Rydym wedi gadael y Ganolfan Deledu a rhannau o White City ac rydym yn parhau i symud mwy o'n busnes y tu allan i Lundain. Yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd y broses o werthu pedair erw o dir rhydd-ddaliadol yn Llundain W12 ochr yn ochr ag is-brydles ar gyfer chwe adeilad yn BBC Media Village, gan sicrhau elw o £96 miliwn o'r gwerthiant ac arbedion cylchol blynyddol o £33 miliwn. Mae 55% o'n cyflogeion bellach wedi'u lleoli y tu allan i'r M25, sef cynnydd o 1% o gymharu â'r llynedd.




## Cydnabyddiaeth uwch reolwyr

Rydym wedi parhau i leihau nifer yr uwch reolwyr a'u cost. Mae bil cyflogau uwch reolwyr bellach yn £47.0 miliwn o gymharu â £78.5 miliwn ar 1 Awst 2009. Cyfanswm nifer yr uwch reolwyr yw 356, sef 45 yn llai na'r llynedd a 279 yn llai nag yn 2009.

**SICRHAU**
**ANSAWDD**
**YN GYNTAF**

## Arbedion parhaus

Sicrhaodd rhaglen arbedion Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf arbedion cynaliadwy gwerth £621 miliwn erbyn 31 Mawrth 2016. Mae'r rhaglen ar y trywydd cywir i sicrhau cyfanswm blynyddol o £700 miliwn o arbedion cylchol blynyddol erbyn 31 Mawrth 2017.



## Blaenoriaethu gwariant ar gynnwys

Yn 2015/16, mae 94% o'n gwariant rheoladwy craidd bellach yn cael ei wario ar gynnwys, dosbarthu a chymorth cysylltiedig, gyda dim ond 6% yn cael ei wario ar y redeg y sefydliad. Mae'r ffocws hwn ar leihau ein costau yn sicrhau ein bod yn buddsoddi cymaint o arian â phosibl yn uniongyrchol mewn cynnwys ar gyfer talwyr ffi'r drwydded.



## Gwariant ar dalent

Mae cyfanswm y gwariant ar dalent, sef £200 miliwn yn 2015/16 yn cyfrif am 12% (2014/15: 12.2%) o wariant mewnol ar gynnwys ac mae wedi lleihau £8.4 miliwn (4%) o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyfyngu gwariant ar dalent ar y sgrîn ac ar yr awyr i ddim mwy na 15% o'r gwariant mewnol cyffredinol ar gynnwys (gyda goddefiad o 1%).

# Trosolwg ariannol

## Sut rydym yn defnyddio ffi'r drwydded

Mae'r ffordd y caiff y BBC ei ariannu yn gosod cyfrifoldebau sylweddol arno fel sefydliad:

- i roi gwerth am arian drwy ganolbwyntio gwariant ar y rhaglenni a'r gwasanaethau y mae'r cyhoedd am eu cael fwyaf gan y BBC
- i sicrhau bod yr allbwn yn cael ei gyflwyno mewn ffordd mor gosteffeithlon â phosibl
- i sicrhau trefniadau effeithiol ac effeithlon ar gyfer casglu ffi'r drwydded
- i sicrhau'r incwm mwyaf o ffynonellau eraill, yn enwedig BBC Worldwide, cwmni masnachol y BBC, mewn ffordd sy'n gyson â thelerau ei Siarter a rhwymedigaethau eraill

## Canlyniadau ar gyfer y flwyddyn

Dengys ein canlyniadau eleni unwaith eto ein bod wedi llwyddo i ateb yr heriau ariannol sy'n ein hwynebu, gan roi sylfaen gadarn ar gyfer cyflawni ein hymrwymiadau yn y dyfodol a'n huchelgeisiau strategol. Mae gostyngiad mewn costau gweithredu drwy ein rhaglenni effeithlonrwydd, ynghyd ag enillion sylweddol ar drafodyn eiddo Media Village yng Ngorllewin Llundain, wedi arwain at warged grŵp o £59 miliwn ar gyfer y flwyddyn (2015: diffyg o £125 miliwn).

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r datganiad incwm.

## Incwm

Cynyddodd cyfanswm incwm ffi'r drwydded 0.2% neu £8 miliwn o £3,735 miliwn i £3,743 miliwn o ganlyniad i gynlluniau casglu gwell a thwf bach yn nifer yr aelwydydd.

## Casglu ffi'r drwydded

Mae systemau rheoli ariannol effeithiol yn rhan allweddol o gydberthynas unigryw'r BBC â'i gynulleidfaoedd. Mae hyn yn cynnwys gwario ffi'r drwydded yn effeithlon a chasglu ffi'r drwydded deledu gan bawb y mae'n ofynnol iddynt brynu un.

Dyma drydedd flwyddyn y contract newydd ar gyfer ffi'r drwydded a disgwylir arbed cyfanswm o £220 miliwn mewn costau dros wyth mlynedd y contract, gan ryddhau mwy o arian i'w wario ar ein rhaglenni a'n gwasanaethau. Mae hyn yn gyflawniad enfawr sydd ond wedi bod yn bosibl oherwydd y gydberthynas gref â Capita, ein darparwr allanol sy'n casglu arian ffi'r drwydded.

## Datganiad incwm cyfunol cryno

**Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016**

| Dosbarthiad y datganiad incwm | Beth ydyw? | 2016 £m | 2015 £m | Beth ddigwyddodd eleni? |
|---|---|---|---|---|
| Incwm o ffi'r drwydded | Cyfanswm ffioedd trwyddedau a gasglwyd | **3,743** | 3,735 | Mae'r cynnydd o 0.2% yn adlewyrchu twf net cyfyngedig yn nifer yr aelwydydd sy'n prynu trwydded |
| Incwm a refeniw arall | Incwm masnachol (BBC Worldwide yn bennaf) | **1,084** | 1,070 | |
| **Cyfanswm yr incwm** | | **4,827** | 4,805 | |
| Costau gweithredu | Cost cynhyrchu'r holl gynnwys a rhedeg y BBC | **(4,776)** | (4,903) | Mae'r gostyngiad o ganlyniad i ddigwyddiadau chwaraeon mawr yn 2014/15 megis Gemau'r Gymanwlad a Chwpan y Byd FIFA |
| Costau ailstrwythuro | Symiau a ddarparwyd er mwyn ariannu mentrau effeithlonrwydd yn y dyfodol | **(21)** | (11) | Costau i sicrhau arbedion DQF a chostau ad-drefnu yn BBC Worldwide |
| **Cyfanswm y costau gweithredu** | | **(4,797)** | (4,914) | |
| Cyfran o ganlyniadau partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | Ein cyfran o elw'r busnesau lle rydym yn rheoli 50% neu lai | **40** | 33 | Mae'r cynnydd yn 2015/16 yn adlewyrchu cyfran blwyddyn lawn o'r bartneriaeth gyswllt newydd â BBC AMERICA ar ôl gwerthiant rhannol yn ystod 2014/15 |
| Ennill o werthu gweithrediadau | Elw o waredu gweithrediadau | **–** | 116 | Mae 2014/15 yn adlewyrchu'r ennill o werthu rhan o BBC AMERICA |
| Ennill o waredu asedau sefydlog | Elw o waredu asedau sefydlog | **96** | 8 | Ennill a gofnodwyd o werthu tir rhydd-ddaliadol yn safle Media Village yng Ngorllewin Llundain |
| Costau ariannu net | Y llog net ar asedau a rhwymedigaethau pensiwn y BBC, llog ar fenthyciadau a symudiadau gwerth teg ar ddeilliadau | **(107)** | (143) | Tâl cyfrifyddu is ar gyfer rhwymedigaethau cynllun pensiwn y BBC |
| Tâl trethiant | Rhwymedigaeth dreth net y BBC ar ei elw trethadwy | **–** | (30) | Tâl treth a godir ar weithgareddau masnachol. Defnyddiwyd gorddarpariaeth mewn blynyddoedd blaenorol i leihau'r tâl treth a godir eleni |
| **Gwarged/(diffyg) y Grŵp am y flwyddyn** | | **59** | (125) | |

### Datganiad ffi'r drwydded

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r BBC yn paratoi datganiad refeniw ffi'r drwydded a gaiff ei archwilio gan SAG. Mae'r cofnod hwn yn nodi'r symiau a gasglwyd gennym yn ystod y flwyddyn ac a dalwyd i Lywodraeth EM. Ynghyd â'i gwaith archwilio, mae SAG yn edrych ar ein trefniadau casglu ac yn adrodd arnynt i'r Senedd. Ceir rhagor o wybodaeth am ddatganiad refeniw ffi'r drwydded ar ein gwefan: bbc.co.uk/aboutthebbc

## Gweithgarwch masnachol

Ategir ffi'r drwydded gan incwm o'r defnydd masnachol o gynnwys a seilwaith a ariennir gan ffi'r drwydded drwy dri is-gwmni masnachol – BBC Worldwide, BBC Global News a BBC Studioworks (BBC Studios and Post Production gynt).

### BBC Worldwide

Mae BBC Worldwide yn bodoli i gefnogi cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus y BBC a sicrhau bod y Grŵp yn cael cymaint o incwm â phosibl ar ei ran. Dychwelodd £222 miliwn i'r BBC yn 2015/16, dipyn yn uwch na £200 miliwn am yr ail flwyddyn yn olynol (2014/15: £227 miliwn). Cafodd yr enillion mwyaf erioed y llynedd eu cynyddu gan elw o werthu BBC AMERICA yn rhannol, a hefyd enillion eleni i raddau llai. Ar ôl addasu ar gyfer elw gwaredu o'r ddwy flwyddyn, dangosodd enillion eleni welliant o 18% o un flwyddyn i'r llall. Mae'r cyfraniad hwn yn gynyddol bwysig i ariannu rhaglenni a gomisiynir gan wasanaeth cyhoeddus y BBC.

Mewn byd cynyddol gymhleth o gynhyrchwyr cynnwys a llwyfannau lluosog, mae BBC Worldwide yn chwarae rhan hollbwysig o ran cefnogi ac arddangos creadigrwydd gorau Prydain, gan y BBC a diwydiannau creadigol ehangach y DU. Roedd 2015/16 yn flwyddyn gryf arall i BBC Worldwide. Cyflawnodd brif werthiannau o £1,029 miliwn (2014/15: £1,002 miliwn), sef cynnydd o 3% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a 7% o ran twf sylfaenol. Cyflawnodd hyn drwy ddatblygu ei statws fel partner creadigol gweithredol a bwrw ymlaen â'i strategaeth twf. Y prif ffactorau a ysgogodd y cynnydd mewn refeniw oedd gwerthiannau da i drydydd partïon megis Netflix, sy'n gweithredu gwasanaethau Tanysgrifio Fideo Ar-alw (SVOD), ac UKTV. Roedd y prif elw o £134 miliwn £5 miliwn yn is na'r flwyddyn flaenorol (2014/15: £139 miliwn) oherwydd effaith blwyddyn lawn gwaredu BBC AMERICA yn rhannol ym mis Hydref 2014, buddsoddiad sylweddol mewn brandiau sianel newydd a chost gynyddol cynnwys. O dynnu effaith BBC AMERICA, y twf mewn prif elw oedd 4%.

Mae BBC Worldwide wedi gwneud cynnydd ar bob un o dair colofn ei strategaeth: cynnwys premiwm; brandiau byd-eang; a thrawsnewid yn raddol i gynhyrchion a gwasanaethau digidol.

### Cynnwys premiwm

Mae cynnwys o'r radd flaenaf wrth wraidd popeth a wna'r cwmni. Yn 2015/16, buddsoddodd £162 miliwn mewn cynnwys (2014/15: £181 miliwn), sef gostyngiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol oherwydd gwaredu BBC AMERICA yn rhannol yn ystod 2014. Parhaodd y buddsoddiad mewn cynnwys a gomisiynwyd gan y BBC i fod yn eithaf sefydlog, sef £93 miliwn (2014/15: £94 miliwn), gan gefnogi rhaglenni ar y sgrîn ar bob un o sianelau'r BBC. Parhaodd BBC Worldwide i feithrin cydberthnasau â'r sector annibynnol hefyd, gan wneud elw o £116 miliwn yn ystod y flwyddyn (2014/15: £113 miliwn)

| | Prif werthiannau | | Prif elw | |
|---|---|---|---|---|
| | **2015/16 £m** | 2014/15 £m | **2015/16 £m** | 2014/15 £m |
| Grŵp UK PSB | **181** | 192 | **dd/g** | dd/g |
| BBC Worldwide | **1,029** | 1,002 | **134** | 139 |
| Global News | **101** | 93 | **0** | (5) |
| BBC Studioworks (S&PP gynt) | **22** | 29 | **2** | (1) |



Cadwodd y brand byd-eang *Dancing with the Stars* ei safle fel un o'r 10 rhaglen adloniant fwyaf poblogaidd yn UDA.



Cafodd animeiddiad 3D newydd CBeebies *Go Jetters* ffigurau gwylio da yn y DU ac yn rhyngwladol




Cafodd bron dri chwarter *The Hunt* gan Silverback Films ei ariannu'n fasnachol drwy BBC Worldwide, gan gynnwys cytundebau cydgynhyrchu â BBC AMERICA, CCTV-9 ac NDR

drwy weithio gyda thros 250 o gynhyrchwyr annibynnol yn y DU. Hefyd yn 2015/16, prynodd BBC Worldwide fuddrannau ecwiti yn Amazing Productions, Mighty Productions, Red Planet Pictures (Entertainment) a Greenbird Media. Disgwylir i'r cydberthnasau dyfnach hyn â chynhyrchwyr annibynnol, ynghyd â phartneriaeth strategol agos â BBC Studios, helpu i ddatblygu eiddo deallusol a berchenogir yn y DU a sicrhau llif o gynnwys o'r radd flaenaf i BBC Worldwide yn y dyfodol.

## Brandiau byd-eang

Parhaodd brandiau byd-eang allweddol i berfformio'n dda yn ystod 2015/16. Parhaodd BBC Worldwide i adeiladu ei frandiau genre sianel eleni, ac o ganlyniad, roedd 12 o 33 o ffrydiau sianel rhyngwladol BBC Worldwide yn darlledu ei frandiau sianel newydd erbyn 31 Mawrth 2016. Lansiwyd brandiau sianel newydd yn ystod y flwyddyn yng Ngwlad Pwyl, y gwledydd Nordig, De Affrica ac America Ladin a disgwylir i'r rhan fwyaf o sianelau thematig eraill y BBC ail-frandio yn ystod 2016/17. Mae BBC Earth a BBC First bellach ar gael mewn o leiaf 40 o wledydd ac mae BBC Brit ar gael mewn 61 o wledydd.

Cadwodd *Dancing with the Stars* ei safle fel un o'r 10 rhaglen adloniant fwyaf poblogaidd yn UDA a gwerthwyd *Sherlock: The Abominable Bride* i 216 o diriogaethau ac fe'i sgriniwyd mewn sinemâu mewn mwy nag 20 o wledydd. Ym maes hanes naturiol, llofnododd BBC Earth Films a Grŵp Cyfryngau Shanghai ei gytundeb cyntaf o dan y Cytuniad Cydgynhyrchu Ffilmiau nodedig rhwng Tsieina a'r DU i gyd-gynhyrchu ffilm nodwedd ddogfennol newydd i'w rhyddhau mewn sinemâu yn 2017.

## Cynhyrchion a gwasanaethau digidol

Roedd cynnydd ar arlwy 'uniongyrchol i ddefnyddwyr' BBC Worldwide yn cynnwys lansio BBC Store ym mis Tachwedd 2015. Gyda thros 7,000 o oriau o gynnwys cyfoes a chlasurol ar adeg lansio, mae BBC Store yn rhoi cyfle i wylwyr yn y DU brynu a chadw rhaglenni y maent am eu mwynhau y tu hwnt i gyfnod 30 diwrnod iPlayer y BBC a ariennir gan ffi'r drwydded. Parhaodd y gwaith ar gynlluniau ar gyfer gwasanaethau Over The Top (OTT) mewn marchnadoedd dethol y tu allan i'r DU, gyda BBC Player yn cael ei gyhoeddi ychydig ar ôl diwedd y flwyddyn. Disgwylir iddo lansio yn Singapôr yn ddiweddarach eleni. Bydd y gwasanaeth SVOD aml-genre wedi'i ddilysu newydd ar gael i gwsmeriaid Starhub yn Singapôr a bydd yn cynnig cyfoeth o deitlau'r BBC i gynulleidfaoedd.

Roedd uchafbwyntiau pedwar rhanbarth busnes BBC Worldwide yn ystod y flwyddyn yn cynnwys: twf mewn cynnwys a werthwyd; y flwyddyn orau hyd yma ar gyfer gwylwyr BBC AMERICA a chytundeb SVOD pwysig ar gyfer *Doctor Who* a lofnodwyd ag Amazon yng Ngogledd America; blwyddyn lawn gyntaf gref ar gyfer BBC First a blwyddyn eithriadol i CBeebies yn Awstralia a Seland Newydd; a gwerthiannau trwyddedu fformatau da a lansio neu ail-lansio 11 o ffrydiau sianel newydd mewn marchnadoedd byd-eang.

Mewn amgylchedd gweithredu heriol, mae BBC Worldwide yn parhau i drawsnewid y ffordd y mae'n gweithio er mwyn datblygu cwmni o'r radd flaenaf sy'n denu ac yn cadw'r dalent orau, tra'n cael ei redeg mewn ffordd effeithlon. I'r perwyl hwnnw, datblygwyd rhaglen weithredol o arbedion effeithlonrwydd yn ystod 2015/16 er mwyn lleihau costau gweithredu a lleihau'r gweithlu 11%. Serch hynny, roedd ffocws ar ddiwylliant y cwmni, hyfforddiant ac ymgysylltu yn golygu y rhoddwyd sgôr ymgysylltu staff o 70% i BBC Worldwide eleni, dipyn yn uwch na sgôr arferol y farchnad fyd-eang, sef 55%.

Mae'r ymrwymiad hwn i redeg cwmni cyfryngau o'r radd flaenaf, buddsoddi mewn cynnwys, a chyflawni ei strategaeth yn golygu bod BBC Worldwide mewn sefyllfa dda i gyflawni ei darged o ddychwelyd £1.2 biliwn i'r BBC dros bum mlynedd gyntaf y Siarter newydd, yn ogystal â pharhau i gefnogi diwydiannau creadigol y DU yn ystod y cyfnod hwn.

## BBC Global News

Mae BBC Global News yn gweithredu dau wasanaeth newyddion rhyngwladol y BBC a ariennir yn fasnachol: BBC World News, y sianel deledu newyddion byd-eang 24 awr, a'r llwyfan digidol BBC.com (gan gynnwys gwefan BBC.com, ap newyddion ac ap chwaraeon). Cenhadaeth BBC Global News yw sicrhau mai

**Rhif 1**

**Mae'r BBC yn parhau i ddarparu'r ffynhonnell newyddion a rennir fwyaf yn y byd ar Twitter**

# Rhif 1



**Cenhadaeth BBC Global News yw sicrhau mai ef yw'r darparwr newyddion rhyngwladol gorau yr ymddiriedir ynddo fwyaf**

ef yw'r darparwr newyddion rhyngwladol gorau, yr ymddiriedir ynddo fwyaf yn y byd, a chynyddu cynulleidfaoedd newyddion rhyngwladol y BBC a gweithredu fel busnes sy'n effeithlon yn fasnachol.

Yn 2015/16, ehangodd ôl troed byd-eang BBC World News yn sylweddol, sef cynnydd o 11% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cynyddodd dosbarthiad y sianel i 441 miliwn o aelwydydd, sef y nifer fwyaf erioed (o gymharu â 398 miliwn yn 2014/15).

Roedd tueddiadau yn ffigurau gwylio sianelau BBC World News yn amrywio o ranbarth i ranbarth. Yn Ewrop, cynyddodd ffigurau gwylio'r sianelau newyddion yn 2015, gan fynd yn groes i duedd y blynyddoedd diweddar, gyda World News yn denu mwy o wylwyr am y tro cyntaf ers 2008 a pharhau i gau'r bwlch â CNN. Yn Asia, parhaodd ffigurau gwylio'r sianelau newyddion i dyfu ond yn arafach na'r flwyddyn flaenorol, gyda World News yn cau'r bwlch â CNN. Yn yr UD, roedd ffigurau gwylio World News yn gyson yn 2015/16, a gwnaeth yn well na Bloomberg TV erbyn diwedd y flwyddyn.

Llwyddodd twf mewn cynulleidfaoedd ar gyfer BBC.com i gyrraedd y targed yn 2015/16, gyda chymorth perfformiad cryf yn yr UD. Denodd BBC.com dros 89 miliwn o borwyr unigol y mis ar gyfartaledd, cynnydd o 4% ers 2014/15. Cafwyd cyfanswm o 1.1 biliwn o ymweliadau â thudalennau y mis ar gyfartaledd ar draws pob llwyfan (gwefan, apiau ac IPTV), sef gostyngiad o 7% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol oherwydd newid parhaus mewn arferion pori o ben desg i ddyfeisiau symudol.

Parhaodd fideo i dyfu'n gyflym, gyda fideo yn cael ei wylio 53 miliwn o weithiau y mis ar gyfartaledd (cynnydd o 44% o gymharu â 2014/15).

Arweiniodd arloesi digidol drwy gydol y flwyddyn at sawl ychwanegiad at arlwy BBC.com. Gwnaed nifer o welliannau i brofiad gwylio fideo ar wefan BBC.com ac ar ôl ail-ddylunio'r ap Newyddion yn sylweddol, dyblodd nifer y fideos a wyliwyd arno. Ym mis Hydref 2015, lansiwyd fersiwn iaith Japaneg newydd o BBC.com er mwyn ateb y galw mawr yn y farchnad bwysig hon.

Y tu hwnt i BBC.com, mae gwylio cynnwys y BBC oddi ar y llwyfan yn chwarae rôl gynyddol bwysig yn strategaeth dosbarthu cynnwys Global News. Yn 2015/16, parhaodd Global News â'i bartneriaethau llwyddiannus ag MSN, Yahoo!, AOL, Google, LinkedIn, Flipboard, Facebook ac Apple, ac ymrwymodd i gytundebau newydd â Spotify a Smartnews.

O ran y cyfryngau cymdeithasol, mae gan BBC Newyddion bron 30 miliwn o ddilynwyr ar Facebook ledled y byd ac, ar Twitter, y BBC yw'r ffynhonnell newyddion a rennir fwyaf yn y byd o hyd.

Yn 2015/16, Global News oedd y darparwr newyddion rhyngwladol yr ymddiriedir ynddo fwyaf o hyd. Cafodd ei gydnabod am ragoriaeth ei newyddiaduraeth gan gipio nifer o wobrau, gan gynnwys gwobr Peabody am adroddiadau ar Argyfwng Mewnfudwyr Ewrop a gwobr gan ENBA India am y darllediadau newyddion gorau gan sianel newyddion rhyngwladol yn India, am yr ail flwyddyn yn olynol. Enillodd ap BBC Newyddion ar ei newydd wedd hefyd Wobr Webby People's Voice am y safle neu ap symudol gorau yn y categori Newyddion.

Llwyddodd Global News i adennill ei gostau yn 2015/16, flwyddyn cyn targed ei gynllun pum mlynedd, gan wneud elw gweithredu o £0.2 miliwn (2014/15: colled o £4.6 miliwn). Cafwyd twf mewn gwerthiannau o un flwyddyn i'r llall ynghyd ag ymarfer lleihau costau sylweddol.

## BBC Studioworks (BBC Studios and Post Production gynt)

Mae BBC Studioworks yn is-gwmni masnachol o dan berchenogaeth lawn y BBC, sy'n gwasanaethu'r BBC a chleientiaid allanol. Tan fis Mai 2016, roedd y cwmni yn masnachu fel BBC Studios and Post Production. Ar ôl diwedd y flwyddyn, ymgymerodd y cwmni ag ymarfer ail-frandio llawn a oedd yn cynnwys newid ei enw i BBC Studioworks Limited.


Mae'r cwmni wedi cael ei rannu'n ddwy is-adran weithredol yn hanesyddol; Studios and Post Production Services (S&PP) a Digital Media Services (DMS). Ar ddiwedd y flwyddyn, caewyd yr is-adran Digital Media Services fel rhan o ymarfer ailffocysu, gan roi cyfle i'r cwmni ganolbwyntio ar ei gryfderau craidd i ddarparu stiwdios, gwasanaethau ôl-gynhyrchu a gwasanaethau cysylltiedig. Mae'r meysydd craidd hyn sy'n weddill wedi gwneud elw gweithredu sylfaenol ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf.

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016, gwnaeth y cwmni elw gweithredu sylfaenol o £1.3 miliwn, sef twf mewn elw o 33% ers 2014/15 ar yr un sail. Nid yw'r elw gweithredu sylfaenol yn cynnwys DMS a chaiff ei ddatgan cyn didynnu eitemau anfasnachol megis cyfraniadau at ddiffyg pensiwn y BBC.


Yn ystod y flwyddyn, cyflawnodd S&PP amrywiaeth nodedig o brosiectau creadigol ar gyfer nifer o ddarlledwyr, cwmnïau cyfryngau a pherchenogion cynnwys – gan gynnwys:

- llawer o elfennau o ddarlledu Etholiad Cyffredinol y BBC ym mis Mai 2015. Mae darlledu etholiadau yn un o'r cynyrchiadau stiwdio mwyaf ymestynnol yn dechnegol i'w cynnal oherwydd y cymysgedd o dechnolegau rhithwir a realiti estynedig a ddefnyddir yn ogystal â rheoli trefniadau cysylltedd cymhleth
- amrywiaeth o wasanaethau technegol stiwdios ac ôl-gynhyrchu i ddrama barhaus y BBC sydd wedi ennill llawer o wobrau, *EastEnders*

Dosbarthiad World News – aelwydydd llawn amser a rhan amser (miliynau)




Gwylio fideo – pob llwyfan (cyfartaledd misol, miliwn)



- gwasanaethau ôl-gynhyrchu i nifer o ddarlledwyr gan gynnwys sioe gêm ITV, *Keep it in the Family*, ac un o raglenni cyson boblogaidd y BBC, *Strictly Come Dancing*
- cynyrchiadau stiwdio llwyddiannus eraill gan gynnwys *A League of their Own* gan Sky, *Lip Sync Battle UK* gan Channel 5, sioeau byw *The Voice* yn y DU gan y BBC, *Strictly Come Dancing* y BBC yn ogystal â sioeau cwis panel comedi megis *Virtually Famous* gan E4 a *Celebrity Juice* gan ITV

Yn ystod 2015/16, mae'r cwmni wedi bod yn goruchwylio'r gwaith o adnewyddu ei stiwdios ar safle'r Ganolfan Ddarlledu yng Ngorllewin Llundain. Mae'r gwaith strwythurol wedi cael ei gwblhau ac mae'r gwaith gosodiadau technegol bellach yn mynd rhagddo cyn i dri stiwdio yn y Ganolfan Deledu ailagor yn 2017.

## Canlyniadau ar gyfer y flwyddyn

Gwariant Grŵp UK Public Service Broadcasting (UK PSB)

| Gwasanaeth 2016 | Cynnwys £m | Dosbarthu £m | Cynnwys a chymorth dosbarthu £m | Cymorth cyffredinol £m | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| BBC One | 1,052.5 | 35.8 | 154.1 | 88.0 | **1,330.4** |
| BBC Two | 399.0 | 20.2 | 60.2 | 34.1 | **513.5** |
| BBC Three | 52.9 | 7.7 | 13.5 | 4.4 | **78.5** |
| BBC Four | 44.2 | 4.1 | 7.7 | 3.8 | **59.8** |
| CBBC | 70.6 | 7.7 | 12.4 | 6.1 | **96.8** |
| CBeebies | 29.1 | 4.1 | 6.6 | 2.5 | **42.3** |
| BBC ALBA | 5.5 | 0.9 | 0.9 | 0.5 | **7.8** |
| Sianel BBC News* | 46.6 | 7.0 | 6.5 | 2.2 | **62.3** |
| BBC Parliament | 1.9 | 6.3 | 1.4 | 0.2 | **9.8** |
| **Teledu** | **1,702.3** | **93.8** | **263.3** | **141.8** | **2,201.2** |
| BBC Radio 1 | 36.2 | 6.0 | 5.2 | 1.3 | **48.7** |
| BBC Radio 2 | 44.6 | 6.0 | 4.8 | 2.1 | **57.5** |
| BBC Radio 3 | 37.7 | 6.0 | 6.3 | 3.1 | **53.1** |
| BBC Radio 4 | 88.6 | 6.4 | 13.2 | 6.6 | **114.8** |
| BBC Radio 5 Live | 45.5 | 4.4 | 7.0 | 3.6 | **60.5** |
| BBC Radio 5 Live Sports Extra | 2.5 | 1.6 | 1.3 | 0.2 | **5.6** |
| BBC 1Xtra | 4.6 | 1.7 | 3.0 | 0.3 | **9.6** |
| BBC 6Music | 7.9 | 1.7 | 2.4 | 0.6 | **12.6** |
| BBC 4 Extra | 3.1 | 1.7 | 1.4 | 0.2 | **6.4** |
| BBC Asian Network | 6.6 | 2.1 | 1.8 | 0.5 | **11.0** |
| Radio Lleol y BBC | 119.8 | 14.8 | 15.0 | 9.3 | **158.9** |
| BBC Radio Scotland | 22.9 | 2.9 | 4.3 | 1.9 | **32.0** |
| BBC Radio nan Gàidheal | 3.9 | 1.3 | 0.7 | 0.3 | **6.2** |
| BBC Radio Wales | 15.1 | 1.6 | 3.0 | 1.2 | **20.9** |
| BBC Radio Cymru | 14.2 | 1.5 | 2.9 | 1.2 | **19.8** |
| BBC Radio Ulster/BBC Radio Foyle | 17.7 | 1.8 | 3.5 | 1.5 | **24.5** |
| **Radio** | **470.9** | **61.5** | **75.8** | **33.9** | **642.1** |
| **BBC Ar-lein a Red Button**** | **153.3** | **37.9** | **33.6** | **13.2** | **238.0** |
| **Gwariant wedi ei reoleiddio gan drwydded gwasanaeth** | **2,326.5** | **193.2** | **372.7** | **188.9** | **3,081.3** |
| Cerddorfeydd a grwpiau perfformio | 23.2 | – | 3.0 | 2.1 | 28.3 |
| S4C (gwariant ar y gwasanaeth) | 28.0 | – | 4.3 | 2.4 | 34.7 |
| Gwariant ar ddatblygu****** | 72.0 | – | 9.2 | 6.4 | 87.6 |
| Trwydded gweithredu BBC World Service*** | 224.3 | – | 21.9 | 15.0 | 261.2 |
| **Gwariant arall ar y gwasanaeth** | **347.5** | **–** | **38.4** | **25.9** | **411.8** |
| **Cyfanswm gwariant ar y gwasanaeth** | **2,674.0** | **193.2** | **411.1** | **214.8** | **3,493.1** |

| Gwasanaeth 2016 | Cynnwys £m | Dosbarthu £m | Cynnwys a chymorth dosbarthu £m | Cymorth cyffredinol £m | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau casglu ffi'r drwydded | | | | | 114.6 |
| S4C (cyllid uniongyrchol) | | | | | 75.3 |
| Monitro | | | | | 5.8 |
| Taliad gostwng diffyg pensiwn Grŵp PSB | | | | | 95.8 |
| Costau yr aed iddynt i gynhyrchu incwm o fewn y grŵp | | | | | 64.5 |
| Costau yr aed iddynt i gynhyrchu incwm trydydd parti | | | | | 71.3 |
| Costau ailstrwythuro | | | | | 15.1 |
| **Cyfanswm gwariant Grŵp PSB ar gynnwys** | | | | | **3,935.5** |
| **Teledu Lleol****** | | | | | **3.5** |
| Cyflwyno band eang**** | | | | | 150.0 |
| **Cyfanswm gwariant Grŵp PSB** | | | | | **4,089.0** |
| Ailddosbarthu prydlesau***** | | | | | (78.3) |
| **Gwariant Grŵp PSB** | | | | | **4,010.7** |

* Yn gynwysedig o fewn sianel BBC Newyddion mae costau cynhyrchu o £24.7miliwn, costau casglu newyddion o £21.3 miliwn a chostau eraill o £0.6 miliwn (2015: costau cynhyrchu o £23.5 miliwn, costau casglu newyddion o £22.1 miliwn a chostau eraill o £0.6 miliwn).

** Caiff gwariant BBC Ar-lein a Red Button ei fonitro yn ôl atodiad (sy'n ymwneud â meysydd golygyddol y gwasanaeth). Mae gwariant nad yw yn ôl atodiad yn cwmpasu costau sy'n ymwneud â gweithgareddau golygyddol canolog megis Hafan y BBC, technolegau sy'n gweithredu ymhob rhan o'r gwasanaeth, a gorbenion. Y gwariant ar gyfer pob atodiad oedd: Newyddion, Teithio a'r Tywydd £50.9 miliwn (2015: £43.5 miliwn), Chwaraeon, £16.7 miliwn (2015: £17.2 miliwn), Plant £9.4 miliwn (2015: £9.0 miliwn), BBC Three £10.4 miliwn (2015: dim), Gwybodaeth a Dysgu £18.6 miliwn (2015: £15.5 miliwn), Teledu ac iPlayer £16.3 miliwn (2015: £13.7 miliwn) a Radio a Cherddoriaeth £13.5 miliwn (2015: £14.1 miliwn), gan greu cyfanswm gwariant yn ôl atodiad o £135.8 miliwn (2015: £113.0 miliwn). Roedd gwariant nad oedd yn ôl atodiad yn £17.5 miliwn (2015: £11.6 miliwn).

*** Mae trwydded gweithredu BBC World Service yn cynnwys gwariant dosbarthu o £36.6 miliwn. Cyfanswm y gwariant arian grant cyfatebol ar BBC World Service oedd £240.2 miliwn.

**** O dan delerau cytundeb diweddaraf ffi'r drwydded, mae'r BBC wedi ymrwymo i gyfrannu arian tuag at drefniadau i gyflwyno band eang ledled y DU ac arian i ddatblygu sianelau Teledu Lleol.

***** Er mwyn adlewyrchu cost lawn gwariant Grŵp PSB fesul gwasanaeth, caiff llog prydles gyllidol ei gynnwys, er nad yw wedi'i gynnwys yng ngwariant gweithredu'r Grŵp.

****** Mae costau datblygu'n ariannu datblygiad llwyfannau a gwasanaethau newydd yn y dyfodol agos, yn enwedig ar gyfer BBC Ar-lein a Red Button. Mae hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar nodweddion newydd ar gyfer gwasanaethau sy'n bodoli eisoes, eu costau cymorth a gorbenion cysylltiedig. Mae ar wahân i gostau ymchwil sy'n canolbwyntio ar ymchwilio i dechnoleg a safonau newydd yn y tymor hwy a fydd o fudd i'r diwydiant cyfan.

## Mae costau cymorth PSB yn cynnwys y canlynol

| | **Cynnwys a chymorth dosbarthu £m** | **Cymorth cyffredinol £m** | **2016 £m** | Cynnwys a chymorth dosbarthu £m | Cymorth cyffredinol^ £m | 2015 £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Eiddo | **68.3** | **43.3** | **111.6** | 69.5 | 92.1 | 161.6 |
| Adnoddau Dynol a hyfforddiant | **14.0** | **31.5** | **45.5** | 16.5 | 26.6 | 43.1 |
| Polisi a strategaeth | **–** | **9.5** | **9.5** | – | 6.6 | 6.6 |
| Cyllid a gweithrediadau | **10.7** | **49.1** | **59.8** | 19.7 | 65.4 | 85.1 |
| Marchnata, cynulleidfaoedd a chyfathrebu | **86.8** | **–** | **86.8** | 79.6 | – | 79.6 |
| **Cyfanswm costau canolog** | **179.8** | **133.4** | **313.2** | 185.3 | 190.7 | 376.0 |
| Technoleg | **106.6** | **59.8** | **166.4** | 115.6 | 55.2 | 170.8 |
| Llyfrgelloedd, cymorth dysgu a digwyddiadau cymunedol | **28.5** | **–** | **28.5** | 33.0 | – | 33.0 |
| Cynhyrchu a chymorth digidol | **25.0** | **–** | **25.0** | 28.3 | – | 28.3 |
| Adran ymchwil | **17.9** | **–** | **17.9** | 17.0 | – | 17.0 |
| Cyfraniad i gyd-fentrau a gwariant mewn endidau PSB eraill | **28.3** | **–** | **28.3** | 26.1 | – | 26.1 |
| Uned Ymddiriedolaeth y BBC (heb gynnwys ailstrwythuro) | **–** | **9.9** | **9.9** | – | 10.2 | 10.2 |
| Arall | **25.0** | **11.7** | **36.7** | 11.2 | 8.4 | 19.6 |
| **Cyfanswm costau cymorth** | **411.1** | **214.8** | **625.9** | 416.5 | 264.5 | 681.0 |

^ Mae'r BBC wedi adolygu ei ddadansoddiad o gostau cymorth gwariant Grŵp PSB yn ystod y flwyddyn ac o ganlyniad ailddatganodd y farn hon er mwyn sicrhau bod dosbarthiad y flwyddyn flaenorol yn gyson â'r flwyddyn gyfredol.

## BBC World Service

Yn 2014/15, daeth BBC World Service yn wasanaeth a ariennir gan ffi'r drwydded unwaith eto ac, o ganlyniad, sefydlwyd trwydded gweithredu ar gyfer y gwasanaeth. Mae'r drwydded gweithredu yn nodi cylch gwaith a chwmpas BBC World Service, ei gyllideb flynyddol a'i brif ymrwymiadau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn adolygu perfformiad y gwasanaeth yn rheolaidd yn erbyn ei drwydded, yn yr un modd ag y mae'n ei wneud ar gyfer gwasanaethau eraill y BBC.

Mae'r drwydded gweithredu bresennol yn nodi targed o gyfanswm gwariant arian parod o £245 miliwn y flwyddyn o leiaf. Eleni, roedd cyfanswm gwariant BBC World Service, sef £240 miliwn, £5 miliwn yn is na'r targed oherwydd gostyngiad mewn gwariant dewisol a gwariant datblygu busnes ac ymgais i wneud arbedion effeithlonrwydd mewn meysydd megis Newyddion rhwydwaith. Mae hyn yn ostyngiad o 1% mewn gwariant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cyfanswm y gwariant, gan gynnwys dibrisiant, costau cymorth a thaliadau eraill oedd £260 miliwn.

Yn ystod y flwyddyn hon, cyhoeddwyd y bydd BBC World Service yn cael arian grant newydd gan y Llywodraeth o 2016/17 i 2019/20 i dalu am gost gwasanaethau ychwanegol. Nid yw'r manylion yn derfynol eto ond y disgwyl yw y bydd yn cael grant o £34 miliwn yn 2016/17 a £85 miliwn y flwyddyn o 2017/18. Yr arian newydd hwn yw'r codiad mwyaf unigol yng nghyllideb World Service erioed gan unrhyw Lywodraeth. Caiff yr arian ei wario ar wasanaethau digidol, teledu a radio ledled y byd er mwyn datblygu cyrhaeddiad byd-eang World Service a chynyddu mynediad at newyddion a gwybodaeth.

## Sicrhau arbedion effeithlonrwydd

2015/16 oedd blwyddyn olaf ond un rhaglen DQF y BBC a sicrhaodd £157 miliwn arall o arbedion blynyddol, gan wneud cyfanswm o £641 miliwn o arbedion (y mae £621 miliwn ohonynt yn arbedion cynaliadwy). Caiff arbedion blynyddol y BBC eu hadolygu gan ein harchwilwyr, Ernst & Young LLP. Mae'r BBC yn parhau ar y trywydd iawn i gyflawni'r targed arbedion llawn o £700 miliwn y flwyddyn erbyn 31 Mawrth 2017.

Yn ystod 2014, cyflwynwyd y fframwaith Cystadlu neu Gymharu gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, a gyhoeddodd y byddai'r BBC yn ffurfioli gweithgarwch profi'r farchnad a meincnodi drwy roi proses gymharu drwyadl ar waith ym mhob maes gwariant. Y nod yw ymestyn cystadleuaeth lle bynnag y gall gynnig mwy o ddewis, gwerth am arian neu arloesedd. Mae'r BBC bellach wedi sefydlu diwylliant cryf o weithgareddau profi'r farchnad a meincnodi a daeth astudiaeth annibynnol a gynhaliwyd gan PwC yn ystod y flwyddyn i'r casgliad bod 87% o wariant rheoladwy'r BBC wedi bodloni meini prawf Cystadlu neu Gymharu. Mae'r BBC yn disgwyl ymdrin â bron 90% o'i sylfaen costau erbyn diwedd cyfnod y Siarter hon, naill ai drwy gystadleuaeth uniongyrchol neu gymhariaeth drwyadl a meincnodi.

Daeth astudiaeth PwC i'r casgliad bod y BBC ymhlith y sefydliadau mwyaf effeithlon yn y sector cyhoeddus a'r diwydiannau a reoleiddir o ran rheoli gorbenion. Yn 2015/16, roedd 94% o wariant rheoladwy'r BBC yn canolbwyntio ar gynnwys a chyflawni, gyda dim ond 6% yn cael ei wario ar redeg y sefydliad. Mae hyn dipyn yn is na chyfartaledd y sector cyhoeddus, sef 11%, a chyfartaledd y diwydiannau a reoleiddir, sef 9%.

Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol gynigion ar gyfer moderneiddio'r BBC, gan gyflwyno'r syniad o greu BBC agored ar gyfer oes y rhyngrwyd. Disgwylir i'r buddsoddiad hwn gostio £150 miliwn y flwyddyn erbyn 2021/22. Bydd cyflawni hyn, ar yr un pryd â chyllido bwlch ariannu o £550 miliwn, yn her sylweddol.

Mae'r BBC yn ymrwymedig i ddiogelu rhaglenni a gwasanaethau ac i wneud y BBC yn symlach, yn fwy darbodus ac yn fwy effeithiol. Caiff cyfanswm yr arbedion angenrheidiol o £800 miliwn y flwyddyn ei ariannu'n rhannol gan ail-flaenoriaethu, newidiadau i wasanaethau, yn ogystal ag incwm masnachol a newidiadau i bolisïau. Caiff mesurau arbed newydd eu cyflwyno hefyd, megis symleiddio swyddogaethau cefn swyddfa, cwtogi ar nifer y rheolwyr a haenau rheoli a lleihau lefelau hanesyddol o fiwrocratiaeth y BBC. Pennwyd targed i ddileu 1,000 o swyddi erbyn 2017.



Gwneuthurwr ffilmiau BBC Arabic Safa Al Ahmad ar y rheng flaen gyda lluoedd gwrth-Houthi yn *Taiz – Under Siege*

## Canolbwyntio gwariant

Mae'r BBC yn canolbwyntio ei wariant ar gynhyrchu rhaglenni a chynnwys arall a'r modd y'i cyflwynir i gynulleidfaoedd a defnyddwyr, ynghyd â'r seilwaith hanfodol i gefnogi hyn. Gall gwariant o flwyddyn i flwyddyn amrywio'n sylweddol oherwydd y cylch o ddigwyddiadau chwaraeon mawr. Gostyngodd cyfanswm y gwariant ar gynnwys 2% i £2,674 miliwn (2014/15: £2,728 miliwn) eleni, y gellid ei briodoli'n bennaf i'r buddsoddiad ychwanegol yn ein darllediadau o Gemau'r Gymanwlad a Chwpan y Byd FIFA yn 2014/15.

Ni wariodd unrhyw drwyddedau gwasanaeth yn uwch nac yn is na'r trothwy llinell sylfaen wedi'i reoleiddio yn ystod 2015/16.

Ar ôl asesiad manwl a thrylwyr o werth cyhoeddus, caeodd BBC Three fel sianel deledu linellol ym mis Chwefror 2016 ac fe'i hail-grëwyd fel gwasanaeth ar-lein yn unig. Mae BBC Three ar-lein yn cynnig newyddion a chwaraeon mewn cydweithrediad â rhannau eraill o'r BBC. Mae hefyd yn cydweithredu â gwasanaethau eraill y BBC i roi safbwynt golygyddol ar ddigwyddiadau chwaraeon a gwyliau mawr, ac â Radio 1 i ddatblygu talent newydd, trawsgomisiynu a chynhyrchu cynnwys ffurf fer.

## Mantolen gyfunol gryno

**Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016**

| Dosbarthu'r fantolen | Beth ydyw? | **2016 £m** | 2015 £m | Beth ddigwyddodd eleni? |
|---|---|---|---|---|
| Asedau anghyfredol | Eiddo, offer, cyfarpar a buddsoddiadau'r BBC yn bennaf | **1,807** | 1,750 | Cynnydd yn y diddordeb mewn partneriaethau cyswllt mewn perthynas â BBC AMERICA ynghyd â symiau derbyniadwy cynyddol hirdymor yn BBCW |
| Asedau cyfredol | Stoc rhaglenni a stociau a symiau eraill i'w derbyn yn ystod y 12 mis nesaf | **2,025** | 2,096 | Lleihad mewn arian parod am fod y taliad diffyg pensiwn arfaethedig wedi'i wrthbwyso'n rhannol gan symiau derbyniadwy cynyddol eraill |
| Rhwymedigaethau cyfredol | Symiau i'w talu yn ystod y 12 mis nesaf | **(1,158)** | (1,186) | Lleihad mewn croniadau ac incwm gohiriedig ar ddiwedd y flwyddyn |
| Rhwymedigaethau anghyfredol (heb gynnwys rhwymedigaethau pensiwn) | Symiau i'w talu ar ôl y 12 mis nesaf | **(1,112)** | (1,126) | Yn gyson yn fras â'r flwyddyn flaenorol |
| **Asedau net (heb gynnwys rhwymedigaethau pensiwn)** | | **1,562** | 1,534 | |
| Rhwymedigaeth pensiwn net | Diffyg net cynllun pensiwn y BBC | **(1,011)** | (948) | Cynnydd sy'n adlewyrchu newidiadau mewn tybiaethau ariannol |
| **Asedau net** | | **551** | 586 | |
| Cynrychiolir gan: | | | | |
| Cronfeydd wrth gefn y BBC | Yr adnoddau net sydd ar gael i'r BBC eu defnyddio yn y dyfodol | **551** | 586 | |

## Mantolen

Roedd y strategaeth eiddo lefel uchel hyd at 2020 (Gweledigaeth 2020) y cytunwyd arni gan Fwrdd Gweithredol y BBC yn 1998 yn cynnwys targed ariannol na fyddai cost ei ystâd eiddo yn fwy mewn termau real erbyn 2010 nag ydoedd yn 1998. Nod Gweledigaeth 2020 oedd galluogi'r BBC i barhau i foderneiddio adeiladau hŷn er mwyn cyflawni ei nodau arloesi digidol yn ogystal â gwella ei ofod a'i gyfleusterau, gan feithrin uchelgeisiau creadigol y BBC ac ar yr un pryd leihau costau, a chael y cydbwysedd cywir rhwng effeithlonrwydd a chreadigrwydd.

Roedd gadael Canolfan y Cyfryngau ac adeiladau Garden House yn y Media Village yng Ngorllewin Llundain yn rhan sylweddol o'r broses o resymoli eiddo a oedd ei hangen i gyflawni'r strategaeth hon yn ogystal â sicrhau elfen sylweddol o arbedion DQF. O ganlyniad, cafodd £74 miliwn ei ail-gategoreiddio o fewn asedau anghyfredol, o Tir ac Adeiladau i Eiddo Buddsoddi.

Roedd balans arian parod y BBC yn £335 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn, sy'n ostyngiad o £71 miliwn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2014/15: £406 miliwn) gan gynnwys taliad diffyg pensiwn arfaethedig o £100 miliwn. Mae'r lleihad mewn arian parod wedi cael ei wrthbwyso'n rhannol o fewn asedau cyfredol gan swm derbyniadwy o £67 miliwn mewn perthynas â gwerthu Media Village yng Ngorllewin Llundain.

## Costau pensiwn

Ar 31 Mawrth 2016, roedd y diffyg pensiwn cyfrifyddu (fel y'i diffinnir gan IAS 19) wedi cynyddu 7% i £1,011 miliwn o gymharu â £948 miliwn flwyddyn yn ôl. Roedd y cynnydd yn ystod y flwyddyn gyfredol o ganlyniad i golled net o newidiadau yn y tybiaethau prisio o £93 miliwn, taliad gweithredu blynyddol o £160 miliwn a chostau cyllid net o £30 miliwn, wedi'u gwrthbwyso gan gyfraniadau o £220 miliwn a dalwyd.

Dim ond 'cipolwg' ar ddyddiad penodol yw'r prisiad cyfrifyddu hwn, ac felly mae'n sensitif i amrywiadau byrdymor yn y farchnad. Nid yw'n cael unrhyw effaith uniongyrchol ychwaith ar y gost arian parod sy'n gysylltiedig â thalu'r diffyg cyfredol yn y cynllun pensiwn, a gaiff ei adolygu fel rhan o brisiadau actiwaraidd teirblwydd.

Cwblhawyd y prisiad actiwaraidd diweddaraf yn 2013 a dangosodd ddiffyg ariannu o £2,054 miliwn. Mae'r prisiad actiwaraidd ffurfiol nesaf o'r Cynllun yn mynd rhagddo a bydd yn cyflwyno prisiad fel ag yr oedd y sefyllfa ar 1 Ebrill 2016. Bydd Ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn yn cytuno ar y prisiad yn ddiweddarach eleni cyn y terfyn amser statudol, sef 30 Mehefin 2017. Rydym yn bwriadu cyflwyno'r prisiad terfynol erbyn 1 Ebrill 2017, yn unol â'r taliad diffyg pensiwn arfaethedig nesaf. Parheir i ddilyn y cynllun ad-dalu cyfredol, y cytunwyd arno rhwng y BBC ac Ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn yn 2013. Ystyrir ei fod yn gynllun synhwyrol a fforddiadwy i ymdrin â'r diffyg, heb roi rhaglenni yn y fantol na pheryglu buddiannau aelodau'r cynllun pensiwn. Bydd y BBC yn parhau i weithio gydag Ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn i sicrhau bod y Cynllun yn darparu'r gwerth gorau i aelodau ac i dalwyr ffi'r drwydded.

## Datganiad llif arian parod cyfunol cryno

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

| Dosbarthu llif arian parod | Beth ydyw? | 2016 £m | 2015 £m | Beth ddigwyddodd eleni? |
|---|---|---|---|---|
| Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu | Gwarged incwm y BBC dros ei gostau gweithredu | **182** | 147 | Cynnydd yn adlewyrchu gwarged Incwm a Gwariant eleni |
| Arian parod net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau buddsoddi | Arian parod a fuddsoddwyd mewn eiddo, offer a chyfarpar | **(174)** | (205) | Llai o wariant ar hawliau rhaglenni eleni |
| Arian parod net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau ariannu | Elw ac ad-daliadau o fenthyciadau a llog net a dalwyd ar fenthyciadau'r BBC | **(80)** | (66) | Ad-dalu benthyciadau |
| Gostyngiad net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | | **(72)** | (124) | |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn** | Balans arian parod y BBC ar ddechrau'r flwyddyn | **406** | 526 | |
| Effaith newidiadau yn y gyfradd gyfnewid dramor ar arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | Effaith cyfraddau cyfnewid tramor ar arian parod y BBC | **1** | 4 | Symudiadau cadarnhaol mewn cyfraddau cyfnewid sy'n effeithio ar werth sterling ein harian parod |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | Arian parod y BBC ar ddiwedd y flwyddyn | **335** | 406 | |

### Arian parod

Caiff balans arian parod y BBC o £335 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn ei ddefnyddio i ariannu rhwymedigaethau newydd, mentrau strategol a'r cynllun ad-dalu diffyg pensiwn. Rhagwelir y bydd y sefyllfa arian parod yn troi'n sefyllfa gorddrafft yn 2017/18 tra'n aros o fewn ein terfynau benthyca a bennwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Bydd angen i'r BBC roi cynlluniau arbedion effeithlonrwydd ar waith yn llwyddiannus er mwyn i'r llif arian parod ddychwelyd i sefyllfa gadarnhaol yn yr hirdymor ac er mwyn ariannu cynlluniau buddsoddi yn y dyfodol.

### Treth

Mae'r BBC yn dalwr treth ymrwymedig a darbodus ym mhob un o'r gwledydd lle y mae'n gweithredu. Mae ei weithrediadau masnachol yn rhoi mesurau cynllunio treth priodol a dilys ar waith yn unol ag ysbryd a bwriad pob cyfraith a rheoliad.




Drama 20 rhan BBC One *Dickensian* wedi'i lleoli ym myd ffuglennol nofelau clodwiw Charles Dickens

# Datganiad ariannol cryno

Mae'r wybodaeth ariannol gryno yn cynnwys datganiad incwm cryno'r BBC ar dudalen 104, mantolen gryno ar dudalen 111 a datganiad llif arian parod cryno ar dudalen 112. Mae'r rhain yn cynnwys y prif ddata allweddol o'r datganiadau ariannol blynyddol llawn sydd ar gael ar-lein yn y ganolfan lawrlwytho yn: bbc.co.uk/annualreport

Nid yw'r wybodaeth ariannol gryno a gyflwynir o fewn Rhan Dau o Adroddiad Blynyddol y BBC yn gyfystyr â datganiadau ariannol llawn y BBC ar gyfer y blynyddoedd ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 a 2015 ond dyfyniadau ohonynt ydyw. Nid yw'r dyfyniadau hyn yn darparu dealltwriaeth mor gyflawn o berfformiad na sefyllfa ariannol y BBC, na'i weithgareddau ariannol a buddsoddi, â'r datganiadau ariannol blynyddol llawn.

Mae archwilydd annibynnol y BBC, Ernst and Young LLP, wedi rhoi barn archwilio ddiamod ar y datganiadau ariannol llawn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 a 2015.

**Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd Gweithredol mewn perthynas â Rhan Dau o Adroddiad Blynyddol y BBC a'r wybodaeth ariannol gryno**

Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi derbyn cyfrifoldeb dros baratoi Rhan Dau o Adroddiad Blynyddol y BBC a'r wybodaeth ariannol gryno a gynhwysir ynddi. Nod y Bwrdd yw sicrhau bod y wybodaeth ariannol gryno yn gyson â datganiadau ariannol blynyddol llawn y Gorfforaeth.

Wrth ystyried cysondeb y wybodaeth ariannol gryno â'r datganiadau ariannol blynyddol llawn, mae'r Bwrdd Gweithredol wedi dewis gwneud y canlynol:

- defnyddio penawdau ac is-gyfansymiau yn y datganiad incwm cryno, y fantolen gryno a'r datganiad llif arian parod cryno sy'n cynnwys o leiaf y penawdau a'r is-gyfansymiau a ddangosir mewn print trwm yn y datganiadau sylfaenol cyfatebol yn y datganiadau ariannol blynyddol llawn
- cynnwys disgrifiad cryno o'r penawdau perthnasol
- sicrhau bod y symiau a gofnodir yn y wybodaeth ariannol gryno yn cytuno â'r symiau cyfatebol a gofnodir yn y datganiadau ariannol blynyddol llawn
- cynnwys y swm cymharol ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol ar gyfer pob swm a gofnodir yn y wybodaeth ariannol gryno
- cynnwys esboniad o 'beth ddigwyddodd eleni', yn adlewyrchu'r prif drafodion a digwyddiadau a gofnodir yn y datganiadau ariannol blynyddol llawn fel y maent yn effeithio ar y pennawd perthnasol
- cynnwys unrhyw wybodaeth arall sydd ei hangen i sicrhau bod y wybodaeth ariannol gryno yn gyson â'r datganiadau ariannol blynyddol llawn am y flwyddyn ariannol dan sylw

Cymeradwywyd y wybodaeth ariannol gryno, yr adroddiad Strategol a'r adroddiad Llywodraethu a chyllid (gan gynnwys adroddiad cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol) gan y Bwrdd Gweithredol ar 16 Mehefin 2016 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:



**Tony Hall**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol**



**Anne Bulford**
**Rheolwr Gyfarwyddwr,**
**BBC Cyllid a Gweithrediadau**

# Adroddiad yr archwilydd

## Datganiad yr archwilydd annibynnol i Ymddiriedolwyr y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (BBC) yn unig

Rydym wedi archwilio'r wybodaeth ariannol gryno ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016, sy'n cynnwys y Datganiad incwm cyfunol ar dudalen 104, y Fantolen gyfunol ar dudalen 111 a'r Datganiad llif arian parod cyfunol ar dudalen 112 o Ran Dau o Adroddiad Blynyddol y BBC.

Dim ond i Ymddiriedolwyr y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (y 'Gorfforaeth'), fel corff, y gwneir yr adroddiad hwn, a hynny'n unol â thelerau ein llythyr penodi. Hyd y caniateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r Ymddiriedolwyr, fel corff, am ein gwaith, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

## Priod gyfrifoldebau'r Bwrdd Gweithredol a'r archwilydd

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am baratoi'r wybodaeth ariannol gryno fel ei bod yn gyson â datganiadau ariannol blynyddol llawn y Gorfforaeth.

Ein cyfrifoldeb ni yw cyflwyno ein barn i chi am gysondeb y wybodaeth ariannol gryno â'r datganiadau ariannol blynyddol llawn a'r Adroddiad Cydnabyddiaeth.

Rydym hefyd yn darllen y wybodaeth arall a gynhwysir yn Rhan Dau o Adroddiad Blynyddol y BBC ac yn ystyried y goblygiadau i'n hadroddiad os deuwn yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu unrhyw anghysondebau perthnasol â'r wybodaeth ariannol gryno.

Cynhaliwyd ein gwaith yn unol â Bwletin 2008/3 a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae ein hadroddiad ar ddatganiadau ariannol blynyddol llawn y Gorfforaeth yn disgrifio sail ein barn ar y datganiadau ariannol hynny ac Adroddiad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr.

## Barn

Yn ein barn ni, mae'r wybodaeth ariannol gryno yn gyson â datganiadau ariannol llawn ac Adroddiad Cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr y Gorfforaeth am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016.

**Richard Wilson**
**(Uwch archwilydd statudol)**
**dros ac ar ran**
**Ernst & Young LLP,**
**Archwilydd Statudol**
Llundain
16 Mehefin 2016

# Gweithrediadau

## Rheoli cydberthynas y BBC â staff, sefydliadau a phartneriaid



Idris Elba yn ffilmio cyfres ddrama drosedd BBC One *Luther*

# Ein pobl

Parhau â'n gwaith o sicrhau BBC sy'n fwy effeithlon.

Eleni rydym wedi parhau i ddarparu rhaglenni a gwasanaethau rhagorol i'n cynulleidfaoedd tra'n cyflawni newid sefydliadol sylweddol a pharatoi ar gyfer mwy gyda lansiad dwy is-adran newydd – Studios, a Design and Engineering, a ddigwyddodd ym mis Ebrill 2016. Drwy gydol y flwyddyn rydym wedi adolygu llawer o rannau o'r sefydliad ac wedi manteisio ar gyfleoedd i symleiddio strwythurau i leihau costau a galluogi arferion gwaith mwy effeithlon ac effeithiol.

## Ein gweithlu

Dros flwyddyn, effeithir ar faint gweithlu cyffredinol y BBC a'i broffil gan y cymysgedd rhwng rhaglenni mewnol ac annibynnol a chyflenwad cynnwys; newidiadau i'n model gwasanaeth ar gontract mewnol/allanol; lansio mentrau newydd sy'n wynebu'r gynulleidfa yn ogystal â'r lleihad yn nifer y staff o ganlyniad i raglenni arbedion. Yn 2015/16, cafwyd 18,920 o staff cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn, o gymharu â 18,974 y llynedd.

**Tabl 1: Cyfanswm nifer y staff darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gyfartaledd (cyfwerth ag amser llawn)**

| Blwyddyn | Cyfanswm |
|---|---|
| 2011/12 | 19,054 |
| 2012/13 | 18,683 |
| 2013/14 | 18,647 |
| 2014/15 | 18,974 |
| **2015/16** | **18,920** |

Rydym yn ymrwymedig i reoli lefel ein gweithlu a sicrhau gwerth am arian ym mhob rhan o'r BBC. Yn ystod y flwyddyn gwnaethom ddod â 437 o swyddi i ben o ganlyniad i'n rhaglenni arbedion, gan gynnwys:

— 278 o swyddi fel rhan o'n rhaglen DQF (Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf), a ddechreuodd yn wreiddiol ym mis Hydref 2012. Mae'r rhaglen hon yn parhau a gwnaed arbedion parhaus, ar yr un pryd ag y parhawyd i fuddsoddi yn y sgiliau digidol sydd eu hangen i adeiladu BBC y dyfodol

— yn ystod y flwyddyn, cyhoeddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol raglen symleiddio i sicrhau £50 miliwn o arbedion yn ogystal â DQF. Disgwylir i hyn arwain at ddod â thua 1,000 o swyddi i ben, gan gynnwys rhai rolau yn BBC Worldwide. Rydym yn parhau ar y trywydd iawn i gyflawni ein targed o ddod â 1,000 o swyddi i ben erbyn mis Ebrill 2017. Erbyn diwedd y flwyddyn roedd 105 o'r rolau hyn wedi dod i ben yn y gwasanaeth cyhoeddus, ac ar ddiwedd y flwyddyn roedd gan BBC Worldwide 176 yn llai o gyflogeion nag oedd ganddo 12 mis yn gynt, sef gostyngiad o tua 9%. Ers diwedd y flwyddyn ariannol mae rhagor o rolau wedi dod i ben ac mae cannoedd yn fwy wrthi'n cael eu dirwyn i ben. O ganlyniad, adlewyrchir gostyngiad pellach yn y ffigurau cyhoeddedig mewn blynyddoedd i ddod ar gyfer nifer y cyflogeion ar gyfartaledd

Yn dilyn prosesau caffael, rydym hefyd wedi penderfynu gwneud arbedion drwy gynnal rhai gweithgareddau yn fewnol, fel rolau gwasanaethau gweinyddu AD trafodol a gwasanaethau creadigol a arferai gael eu rhoi ar gontract allanol. Sefydlwyd tua 175 o rolau neu cawsant eu trosglwyddo o waith ar gontract mewnol a bydd arbedion ariannol sylweddol i'r BBC yn deillio o hynny.

Roedd camau nodedig eraill yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

— creu 39 o brentisiaethau ychwanegol, rolau hyfforddeion a hyfforddeion graddedig yn Academi'r BBC ac mewn timau digidol

— datblygu myBBC ac iPlayer ymhellach, a greodd 110 o rolau ychwanegol gyda sgiliau digidol penodol

— buddsoddi mewn sgiliau diogelwch gwybodaeth a sgiliau technegol eraill, gan gyfrif am 56 o rolau newydd

Yn ogystal, ar ôl cael mwy o gyllid gan y Llywodraeth ar gyfer BBC World Service fel rhan o setliad ffi'r drwydded 2015, rydym hefyd wedi dechrau recriwtio rolau ychwanegol yn ein his-adran Newyddion.

Ar ddiwedd y flwyddyn, bu gostyngiadau hefyd yn nifer y staff mewn meysydd cynhyrchu allweddol, yn rhannol o ganlyniad i amseriad gweithgarwch.

Gyda'i gilydd, arweiniodd y newidiadau hyn at ostyngiad net o fwy na 200 o rolau yn ein niferoedd cyfwerth ag amser llawn ar ddiwedd y flwyddyn o gymharu â 31 Mawrth 2015, er nad adlewyrchir hyn yn llawn yn y niferoedd cyfartalog a gyflwynwyd yn Nhabl 1, uchod, o ganlyniad i amseriad y newidiadau.

Erys y BBC yn ymrwymedig i leoli o leiaf 50% o gyflogeion y tu allan i Lundain ac mae 55% o'n cyflogeion bellach wedi'u lleoli y tu allan i'r M25, cynnydd o 1% o gymharu â'r llynedd. Datgelir cyfanswm nifer y staff a gyflogir gan y BBC ym mhob un o'r gwledydd datganoledig yn y Datganiadau Ariannol Llawn.

**Tabl 2: Staff PSB y DU yn ôl cenedl (cyfwerth ag amser llawn) %**

| | **31 Maw 2016** | 31 Maw 2015 | 31 Maw 2014 | 31 Maw 2013 |
|---|---|---|---|---|
| Lloegr (heb gynnwys Llundain) | **36** | 34 | 33 | 32 |
| Llundain | **45** | 46 | 47 | 48 |
| Yr Alban | **7** | 7 | 8 | 7 |
| Cymru | **8** | 8 | 8 | 8 |
| Gogledd Iwerddon | **4** | 4 | 4 | 4 |

Datgelwyd ein gweledigaeth greadigol newydd ar gyfer BBC Birmingham yn 2013 ac yn 2015 cwblhawyd y gwaith o adleoli Academi'r BBC, AD a thimau cyfathrebu ac amrywiaeth i'r Mailbox. Y gwaith hwn o drawsnewid y BBC yn Birmingham oedd yr enghraifft unigol fwyaf o symud staff yn y flwyddyn gyfredol hon ac mae'r lleoliad hwnnw bellach bron yn llawn.

## Uwch reolwyr

Drwy gydol y flwyddyn, gwnaethom barhau i leihau nifer yr uwch reolwyr, yn unol â'n hymrwymiadau yn strategaethau gwobrwyo 2009 a 2011.

**Tabl 3: Nifer yr uwch reolwyr PSB yn y DU yn ôl band cyflog***

| Band | 2015/16 | 2014/15 |
|---|---|---|
| O dan £70,000 | **0** | 7 |
| £70,000-£99,999 | **123** | 137 |
| £100,000-£129,999 | **91** | 107 |
| £130,000-£159,999 | **80** | 76 |
| £160,000-£189,999 | **31** | 40 |
| £190,000-£219,999 | **17** | 16 |
| £220,000-£249,999 | **8** | 11 |
| £250,000-£279,999 | **0** | 2 |
| £280,000-£309,999 | **5** | 2 |
| £310,000-£339,999 | **1** | 2 |
| £340,000-£369,999 | **0** | 0 |
| £370,000-£399,999 | **0** | 1 |
| Cyfanswm** | **356** | 401 |

* Ar 31 Mawrth bob blwyddyn
** Nid yw'r cyfanswm yn cynnwys aelodau o'r Bwrdd Gweithredol

### Taliadau diswyddo 2014/15 a 2015/16: pob aelod o staff (gan gynnwys uwch reolwyr)*

| Band Taliadau | **1 Ebrill 2015- 31 Mawrth 2016** Gwariant £000oedd | Nifer | 1 Ebrill 2014- 31 Mawrth 2015 Gwariant £000oedd | Nifer |
|---|---|---|---|---|
| O dan £10k | **286** | **45** | 69 | 11 |
| £10k<£50k | **5,675** | **189** | 4,183 | 141 |
| £50k<£75k | **5,104** | **81** | 3,571 | 58 |
| £75k<£100k | **5,036** | **58** | 3,259 | 39 |
| £100k<£150k | **9,809** | **75** | 6,952 | 54 |
| Dros £150k | **0** | **0** | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **25,909** | **448** | 18,034 | 303 |

* Heb gynnwys talent ar yr awyr

### Taliadau yn lle rhoi rhybudd 2014/15 a 2015/16: pob aelod o staff (gan gynnwys uwch reolwyr)

| Band Taliadau | **1 Ebrill 2015- 31 Mawrth 2016** Gwariant £000oedd | Nifer | 1 Ebrill 2014- 31 Mawrth 2015 Gwariant £000oedd | Nifer |
|---|---|---|---|---|
| O dan £5k | **0** | **0** | 2 | 1 |
| £5k<£10k | **0** | **0** | 0 | 0 |
| £10k<£20k | **0** | **0** | 0 | 0 |
| £20k<£30k | **0** | **0** | 0 | 0 |
| £30k<£50k | **0** | **0** | 0 | 0 |
| Dros £50k | **0** | **0** | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **0** | **0** | 2 | 1 |

### Taliadau diswyddo 2014/15 a 2015/16: staff sy'n uwch reolwyr yn unig*

| Band Taliadau | **1 Ebrill 2015- 31 Mawrth 2016** Gwariant £000oedd | Nifer | 1 Ebrill 2014- 31 Mawrth 2015 Gwariant £000oedd | Nifer |
|---|---|---|---|---|
| O dan £10k | **0** | **0** | 0 | 0 |
| £10k<£50k | **58** | **2** | 50 | 1 |
| £50k<£75k | **124** | **2** | 154 | 3 |
| £75k<£100k | **756** | **9** | 161 | 2 |
| £100k<£150k | **3,885** | **27** | 1,311 | 9 |
| Dros £150k | **0** | **0** | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **4,823** | **40** | 1,676 | 15 |

* Heb gynnwys talent ar yr awyr

Y bil cyflogau ar gyfer uwch reolwyr bellach yw £47.0 miliwn o gymharu â £78.5 miliwn yn 2009, a chyfanswm nifer yr uwch reolwyr yw 356 (neu 361 pan gaiff aelodau o'r Bwrdd Gweithredol eu cynnwys). Mae hyn yn cymharu â 640 yn 2009 ac mae'n ostyngiad o 279. Dros y flwyddyn ddiwethaf gwelwyd gostyngiad o 45 yn nifer yr uwch reolwyr.

## Taliadau diswyddo

Mae gwneud arbedion effeithlonrwydd drwy'r BBC cyfan yn cael effaith anochel ar swyddi. Rydym yn parhau i fod yn llwyr ymrwymedig i reoli colledion swyddi drwy adleoli ac ailhyfforddi lle bo'n bosibl a thrwy gydol y flwyddyn rydym wedi symleiddio ein prosesau i asesu addasrwydd cyflogeion a pharu sgiliau â swyddi gwag yn fwy effeithiol.

Ein polisi taliadau diswyddo cyfredol yw:

- un mis o gyflog am bob blwyddyn o wasanaeth hyd at uchafswm o 12 mis o gyflog. Ar gyfer y cyflogeion hynny a ymunodd cyn mis Ionawr 2013, mae'r uchafswm yn fwy sef 24 mis o gyflog
- cap ar daliadau dileu swyddi o £150,000
- uchafswm hyd y cyfnod rhybudd yw chwe mis

Rydym yn aros ar hyn o bryd am eglurhad pellach ar gap arfaethedig y Llywodraeth ar daliadau diswyddo a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 4 Mai 2016.

Lle y telir tâl diswyddo:

- cyflwynir y cyfnod rhybudd a rhaid ei weithio yn llawn
- os bydd unigolion am adael yn gynt na diwedd eu cyfnod rhybudd rhaid iddynt ildio hawl i'r cyfnod rhybudd sy'n weddill ac ni chânt dâl amdano
- mewn achosion eithriadol, er enghraifft pan fydd angen diogelu cyfrinachedd gwybodaeth sensitif, gall unigolion gael eu rhoi ar absenoldeb garddio yn ystod eu cyfnod rhybudd

Caiff pob taliad diswyddo dros £75,000 ei gymeradwyo gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth yr Uwch Reolwyr.

Ni fu unrhyw achosion lle cafodd cyflogeion dâl yn lle rhybudd yn ogystal â thâl diswyddo.

Ni fu unrhyw achosion, y tu allan i'r polisi, o bobl yn dychwelyd i'r BBC ar ôl cael tâl dileu swydd/diswyddo.

## Talent

| | 2015/2016 | | 2014/15 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwariant £000oedd | Nifer | Gwariant £000oedd | Nifer | Amrywiant £000oedd |
| O dan £50k | **98,522** | **46,946** | 100,009 | 46,809 | (1,487) |
| £50k-£100k | **45,608** | **695** | 50,957 | 774 | (5,349) |
| £100k-£150k | **18,338** | **152** | 15,914 | 134 | 2,424 |
| £150k-£250k | **11,907** | **64** | 14,591 | 77 | (2,684) |
| £250k-£500k | **13,425** | **38** | 11,414 | 34 | 2,011 |
| £500k-£750k | **2,847** | | 2,928 | | (81) |
| £750k-£1m | **0** | **7*** | 836 | 9* | (836) |
| £1m-£5m | **3,794** | | 5,139 | | (1,345) |
| Sefydliadau** | **5,580** | **1,853** | 6,621 | 2,495 | (1,041) |
| **Cyfanswm** | **200,021** | **49,755** | 208,409 | 50,332 | (8,388) |

* Cyfunwyd nifer yr unigolion yn y categorïau £500,000+ er mwyn diogelu gwybodaeth bersonol yr unigolion hynny, yn unol ag arfer gorau o ran diogelu data.
**Ystyr sefydliadau yw grwpiau o unigolion o dan gontract fel un – er enghraifft cerddorfeydd allanol – felly nid yw'n bosibl rhestru nifer yr unigolion yn erbyn y gwariant hwn.
Gall fformat adrodd y BBC ar wariant talentau ar yr awyr ac ar y sgrîn newid yn y dyfodol.

## Talent ar y sgrîn

Ein nod yw sicrhau mai'r BBC yw'r lle y mae'r artistiaid gorau am weithio er mwyn darparu rhaglenni gwych. Ar draws radio, teledu a'n gwasanaethau digidol, mae ein cynulleidfaoedd yn disgwyl i ni gynnig yr amrywiaeth orau o dalentau poblogaidd, creadigol, diddorol, awdurdodol ac amrywiol ym maes darlledu ym Mhrydain.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyfyngu gwariant ar dalent ar y sgrîn ac ar yr awyr i ddim mwy na 15% o'r gwariant mewnol cyffredinol ar gynnwys (gyda goddefiad o 1%). Cymeradwywyd y dull gweithredu hwn gan yr ymgynghorwyr annibynnol Oliver & Ohlbaum fel ymateb priodol i amodau newidiol y farchnad.

Yn 2015, roedd cyfanswm y gwariant ar dalent, sef £200 miliwn, yn cyfrif am 12% o wariant mewnol y BBC ar gynnwys. Mae'r gwariant mewnol hwn ar gynnwys yn cynnwys BBC World Service.

## Cydnabyddiaeth staff, ymgysylltu â'n pobl a chael y gorau ohonynt

Ein polisi o hyd yw rhoi cydnabyddiaeth sy'n denu, yn cymell ac yn cadw'r talentau allweddol sydd eu hangen i arwain ac i ddarparu darlledu gwasanaeth cyhoeddus o'r radd flaenaf, tra'n cydnabod statws y BBC fel corfforaeth a ariennir gan y cyhoedd y mae'n rhaid iddi sicrhau gwerth i dalwyr ffi'r drwydded.

Ym mis Awst 2015, proseswyd cam olaf y cynnydd yn y cytundeb cyflogau dwy flynedd ar gyfer pob aelod o staff yng ngraddau 2-11. Cynigiwyd a derbyniwyd y cytundeb cyflogau dwy flynedd hwn yn 2014 ac roedd yn cynnwys tri cham. Roedd y cam cyntaf ym mis Awst 2014 a'r ddau gam canlynol ym mis Ionawr 2015 a mis Awst 2015.

Yn ystod hydref 2015, cynhaliwyd ein harolwg staff blynyddol i'r BBC cyfan. Cymerodd 54% o staff ran a chynyddodd ein sgôr gyffredinol ar gyfer ymgysylltu â chyflogeion i 67% (o gymharu â 66% yn 2014). Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chanran arferol Ipsos MORI UK sef 55%.

Yr hyn yr oedd yn werth ei nodi oedd y ffaith bod 93% o'r cyflogeion yn cytuno â'r datganiad "I am proud to work for the BBC". Dangosodd sawl maes sgoriau gwell megis y datganiadau hynny sy'n gysylltiedig â chyfathrebu o fewn timau, rheolwyr llinell yn mynd i'r afael â pherfformiad a chwestiynau'n ymwneud â pharch yn y gwaith. Mae cynlluniau gweithredu ar waith ym mhob rhan o'r sefydliad i fynd i'r afael â'r meysydd y nodwyd bod angen eu gwella yng nghanlyniadau'r arolwg.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'n hundebau ac yn ymrwymedig i feithrin cydberthnasau cadarnhaol ac adeiladol â'n holl bobl a'u cynrychiolwyr. Yn ystod 2015/16, bu dau ddiwrnod lle yr effeithiwyd, ar raddfa fach, ar y BBC am fod 25 aelod o staff wedi mynd ar streic.

## Cefnogi ein staff

Yn dilyn yr Adolygiad Respect at Work gan Dinah Rose CF yn 2013, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cyfathrebu dwyffordd â'n cyflogeion, er mwyn ein helpu i ddeall sut maent yn teimlo a ble mae'r problemau posibl. Mae argymhellion a oedd yn cynnwys adolygiad o'r polisi Bwlio ac Aflonyddu, modiwl hyfforddi ar-lein i bob cyflogai, gwasanaeth cyfryngu gwell a llinell gyngor fewnol gyfrinachol, oll wedi'u rhoi ar waith.



Roedd 90% o gyflogeion y BBC yn cytuno â'r datganiad "I am proud to work for the BBC"

Mae rhwydwaith Global Women in News y BBC yn cefnogi staff benywaidd ym mhob agwedd ar newyddion, ble bynnag y'u lleolir

### Amrywiaeth: canran o gyfanswm y staff

| | Mawrth 2016 | Mawrth 2015 | Targed 2017 |
|---|---|---|---|
| **Grŵp cyflogai** | | | |
| BAME – pob aelod o staff | **13.4%** | 13.1% | 14.2% |
| BAME – arweinyddiaeth ehangach* | **9.2%** | 9.2% | 10% |
| Anabl – pob aelod o staff | **3.6%** | 3.8% | 5.3% |
| Anabl – arweinyddiaeth ehangach* | **2.8%** | 3.0% | 5% |
| Menywod – pob aelod o staff | **48.7%** | 48.4% | |
| Menywod – arweinyddiaeth ehangach* | **41.4%** | 41.3% | |

* Mae arweinyddiaeth ehangach yn cynnwys graddau 10, 11 ac uwch reolwyr

Ym mis Chwefror 2016, cyhoeddodd y Fonesig Janet Smith ei hadroddiad ar ddiwylliannau ac arferion y BBC yn ystod y blynyddoedd y bu Jimmy Savile a Stuart Hall yn gweithio yma. Nododd yr adroddiad yn fanwl y digwyddiadau erchyll a fu yn ystod yr adeg honno, a oedd yn bennod wirioneddol dywyll i'r BBC. Mae ein diolch yn fawr i'r goroeswyr hynny a benderfynodd rannu eu straeon fel rhan o'r Adolygiad.

Yn ei hadroddiad, gwnaeth y Fonesig Janet nifer o argymhellion, y derbyniwyd pob un ohonynt gennym ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar bob un ohonynt. Mae hyn yn cynnwys adolygiad trwyadl o'n polisïau a'n prosesau sy'n ymwneud â bwlio ac aflonyddu, amddiffyn plant a chwythu'r chwiban, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu arfer gorau. Byddwn hefyd yn edrych yn fanwl ar ddiwylliant y BBC, er mwyn sicrhau bod cyflogeion yn teimlo y gallant leisio barn.

Rydym yn ymrwymedig i wneud popeth y gallwn er mwyn sicrhau na all rhywbeth fel y digwyddiadau a ddisgrifiwyd gan y Fonesig Janet byth ddigwydd eto. Mae adroddiad cynnydd llawn ar ein gwaith yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Adroddiad Blynyddol a byddwn yn rhoi ein hymateb terfynol i'w hargymhellion yn yr hydref. Cyhoeddir yr adroddiad cynnydd ar wefan gorfforaethol y BBC.

## Hawliau Dynol

Mae'r BBC yn cymryd hawliau dynol o ddifrif; yma yn y DU a ledled y byd.

Mae gan bob aelod o staff yr hawl i ddychwelyd adref yn yr un cyflwr iechyd â phan adawodd i fynd i'r gwaith, ac i ffurfio ac ymuno ag undebau llafur. Mae'n ofynnol i rai aelodau o staff weithio mewn amgylchiadau risg uchel, fel y rheini mewn sefyllfaoedd gelyniaethus, ffilmio cudd neu ddarlledu o ddigwyddiadau fel digwyddiadau terfysgol. Mae ein Tîm Risg Uchel yn cynghori ac yn goruchwylio'r broses o hyfforddi ac o ddarparu cyfarpar i staff er mwyn sicrhau eu bod wedi'u paratoi'n ddigonol i ymgymryd â'u rôl. Mae ein Telerau Masnach yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gyflenwyr rydym yn cydweithio â hwy, ac unrhyw isgontractwyr a ddefnyddir ganddynt, ddilyn y codau ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon.

## Amrywiaeth a chynhwysiant

Er mwyn bod yn sefydliad gwirioneddol greadigol, mae angen i'r BBC dderbyn y DU yn ei chyfanrwydd. Mae ein cynulleidfaoedd, ein pobl a'n cyflenwyr yn disgwyl hyn a pho fwyaf amrywiol ein cynnwys a'n gweithlu, gorau oll y gallwn adlewyrchu ein cynulleidfaoedd yn ein cynnwys. Ystyrir amrywiaeth drwy'r gadwyn gyflenwi gyfan – o gomisiynu a chynhyrchu i ddod o hyd i dalent a phortreadu ar yr awyr.

Yn 2014, cyhoeddodd Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC fesurau i ehangu'r ystod o leisiau a chefndiroedd ar draws y BBC, ac ers hynny rydym wedi gwneud cynnydd da yn erbyn cyfres o fesurau a thargedau 2017 ar gyfer staff ac ar y sgrîn:

Mae cyfran y cyflogeion o gefndiroedd pobl dduon, pobl Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) ar ei huchaf erioed, sef 13.4% ac rydym ar y trywydd iawn i gyrraedd ein nod yn 2017, sef 14.2%, ond cydnabyddwn fod llawer mwy i'w wneud mewn rhai meysydd.

Mae bron hanner ein cyflogeion yn fenywod, ac mewn swyddi arwain, mae 41.4% yn fenywod. Mae gan hanner y sioeau brecwast ar Radio Lleol y BBC gyflwynydd benywaidd bellach, sy'n cyflawni'r uchelgais a bennwyd gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol ac mae hanner ein gohebwyr newyddion bellach yn fenywod.

Cyflawnwyd y nod o sicrhau bod 1% o weithlu'r BBC yn brentisiaid erbyn diwedd cyfnod cyfredol ffi'r drwydded yn seiliedig ar ffigurau prentisiaethau Hydref 2015. Mae 45% o brentisiaid Cynhyrchu Teledu 2015 yn bobl dduon, pobl Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig ac mae 64% yn dod o deuluoedd lle na wnaeth y naill riant na'r llall fynd i'r brifysgol. Ar gyfer ein prentisiaid Newyddiaduraeth Ddigidol 2015 mae 50% ohonynt yn bobl dduon, pobl Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig ac mae 60% yn dod o



Cyflwynwraig Sioe Frecwast BBC Radio Bristol Emma Britton


Nod hyfforddeiaeth Mynediad Creadigol yw rhoi cyfleoedd i grwpiau na chânt eu cynrychioli'n ddigonol



Cafodd y Prentisiaid Lleol eu hurio ar bob gorsaf Radio Lleol a Radio Gwledydd y BBC ledled y DU

deuluoedd lle na wnaeth y naill riant na'r llall fynd i'r brifysgol.

Mae cyfleoedd datblygu ar gyfer grwpiau na chânt eu cynrychioli'n ddigonol ar bob lefel yn parhau i gael eu cynnig drwy fentrau fel Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr a Hyfforddeion Graddedig Mynediad Creadigol. Drwy'r sefydliad cyfan, rydym hefyd yn cefnogi nifer o rwydweithiau staff, gan gynnwys Pride i staff lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LGBT), Fforwm Pobl Dduon a Phobl Asiaidd y BBC, Ability i gyflogeion anabl a Global Women in News.

Mae cydweithrediadau allanol â phartneriaid yn cynnwys Ymddiriedolaeth Shaw, Ymddiriedolaeth Elusennol Stephen Lawrence a'r Mama Youth Project. Rydym hefyd yn gweithio'n helaeth â'r diwydiant ehangach ac yn aelod gweithgar o'r Rhwydwaith Amrywiaeth Greadigol, gan chwarae rhan allweddol mewn mentrau i'r diwydiant cyfan fel DIAMOND, adnodd monitro amrywiaeth.

Mae dau darged 2017 ar y sgrîn ar waith. Targed o 5% ar gyfer anabledd ar y sgrîn, a tharged o 15% ar gyfer pobl dduon, pobl Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ar y sgrîn. Pan gaiff yr adnodd monitro ar y sgrîn (DIAMOND) ei lansio yn ddiweddarach eleni, byddwn yn gallu mesur ein cynnydd yn eu herbyn.

Er mwyn ein helpu i sicrhau ein bod yn mynd i'r cyfeiriad cywir, mae'r Panel Gweithredu Amrywiaeth Annibynnol yn parhau i'n cynghori, ein cefnogi a'n herio. Mae aelodau'n cynnwys y Farwnes Tanni Grey-Thompson, Syr Lenny Henry, Heather Rabbatts CBE, George Mpanga , Daniel Oudkerk, Tanya Motie, Jason Roberts MBE, Nihal Arthanayake a'r Farwnes Floella Benjamin OBE. Maent wedi ein helpu i ddatblygu strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant newydd hyd at 2020.

Ceir rhagor o wybodaeth am bolisi amrywiaeth a strategaeth newydd y BBC yn: bbc.co.uk/diversity.

# Datblygu talent a sgiliau newydd

## Dechrau, datblygu, dyrchafu

Mae Academi'r BBC yn darparu prentisiaethau, cynlluniau mynediad i raddedigion, a datblygiad proffesiynol i staff y BBC, pobl sy'n cychwyn ar yrfa yn y cyfryngau, gweithwyr llawrydd a diwydiant ehangach y DU. Gwneir hyn drwy hyfforddiant ar-lein ac wyneb yn wyneb, profiad gwaith a phrentisiaethau, a datblygu sgiliau proffesiynol i staff y BBC a'r diwydiant ehangach, ac mae'n un o ofynion Siarter y BBC.

Yn 2015, symudodd Academi'r BBC i'w chartref newydd yn BBC Birmingham, lle mae bellach wedi ymsefydlu fel ein canolfan sgiliau a thalentau ar gyfer y DU gyfan.

## Talent newydd, sgiliau a phrentisiaethau

Yn 2013, pennodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol darged y byddai 1% o weithlu'r BBC yn brentisiaid erbyn diwedd cyfnod ffi'r drwydded. Cyrhaeddwyd y targed hwn ym mis Tachwedd 2014, ac rydym yn parhau i ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl sydd am feithrin y sgiliau i ymuno â diwydiant y cyfryngau.

Ym mis Hydref 2015, huriodd y BBC 187 o brentisiaid nad ydynt yn raddedigion a 146 o hyfforddeion ar lefel raddedig yn ein hadrannau Cynhyrchu, Newyddiaduraeth, Peirianneg, Digidol, Busnes a Chyfreithiol. Rydym yn arbennig o falch o'n Prentisiaethau Lleol ac rydym wedi hurio prentis ar gyfer pob gorsaf Radio Lleol a Radio'r Gwledydd ar y BBC, gan gynnig cyfleoedd mewn trefi a dinasoedd ym mhob rhan o'r DU.

Rydym yn ymrwymedig i gynnig cyfleoedd yn y BBC i bawb. Rydym yn cynnig cyfleoedd i brentisiaid ar lefel gradd ym meysydd Rheoli Busnes a Pheirianneg Darlledu, gan gynnig opsiynau amgen i'r rhai sy'n dewis peidio â mynd i'r brifysgol.

Eleni, mae hyfforddeiaeth Make it Digital y BBC wedi rhoi cyfleoedd i 1,200+ o bobl ifanc ddi-waith ledled y DU, a gwnaed hyn yn bosibl o ganlyniad i bartneriaeth a oedd yn cynnwys Canolfannau Gwaith ledled y DU, yr Asiantaeth Ariannu Sgiliau, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon.

## Hyfforddiant arloesol a hyblyg

Mae'r Academi yn parhau i addasu ei hyfforddiant i ddiwallu anghenion BBC sy'n newid yn gyflym. Mae ein tîm hyfforddi newyddiaduraeth wedi datblygu hyfforddiant ar-lein, Reporting on the EU Referendum, i lywio'r arlwy sy'n ymwneud â'r UE cyn y Refferendwm ym mis Mehefin. Mae'r cwrs yn orfodol i staff a gweithwyr llawrydd sy'n gweithio yn yr is-adran Newyddion ac i rai pobl eraill sy'n ymwneud ag allbwn ffeithiol. Mae sesiynau briffio wyneb yn wyneb, sydd hefyd yn cwmpasu etholiadau cenedlaethol a lleol y DU ym mis Mai, wedi eu cyflwyno i fwy na 1,300 o staff ledled y DU.

Mae Canolfan Ymchwilio newydd yn Birmingham, a sefydlwyd ar y cyd â thimau Rhanbarthau Lloegr y BBC yn Birmingham, wedi darparu adnodd newydd i'r rhai sy'n gweithio ar ymchwiliadau'r BBC. Eisoes cafwyd enghreifftiau o lwyddiant nodedig ar yr awyr, gan gynnwys cudd-ohebydd yn Leeds yn datgelu recriwtiwr o'r Wladwriaeth Islamaidd honedig.

Mae menter hyfforddi fawr ar gyfer Radio Lleol y BBC yn rhan o'n hymgyrch i gynnig hyfforddiant gan ddefnyddio technegau arloesol. Mae wedi cyrraedd pob un o'r 39 o orsafoedd a 250 o staff, gan ddefnyddio digwyddiadau wedi'u ffrydio'n fyw yn ogystal â sesiynau wyneb yn wyneb.

Mae'r Academi yn ymwneud yn agos â'r cynlluniau i ehangu'r World Service, 'World 2020'. Bydd hyn yn cynnwys recriwtio staff ychwanegol i gefnogi gwasanaethau newydd neu estynedig, y bydd angen cryn dipyn o hyfforddiant ar bob un ohonynt. Disgwylir i'r hyfforddiant ddechrau ym mis Medi 2016.


Mae tua 100 o staff y BBC yn cymryd rhan yn rhaglen MSc yr Academi mewn Peirianneg Meddalwedd a Saernïaeth y Rhyngrwyd. Mae'r rhaglen wedi bod ar waith ers 2011 ar y cyd â phrifysgolion Bournemouth, Bradford a Chaerhirfryn.



Mae'r BBC yn ymrwymedig i gynnig amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi a datblygu sy'n agored i bawb



Mae'r Academi yn parhau i addasu ei hyfforddiant i ddiwallu anghenion BBC sy'n newid yn gyflym



Mae'r Academi yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau cynhyrchu a thechnoleg

Mewn partneriaeth â Chanolfan Dywydd y BBC rhoddwyd hyfforddiant cyflwyno dros dri diwrnod i wyth o ddynion a menywod ag anableddau. Cynigiwyd ymlyniad hyfforddi hirach wedyn gyda Rhanbarthau Lloegr i ddau o'r rhai a gafodd hyfforddiant, gyda'r bwriad o ymddangos ar y rhwydwaith un diwrnod.

Cafodd menter Expert Voices yr Academi, a gafodd gryn lwyddiant wrth gyflwyno cyfranwyr amrywiol newydd i allbwn y BBC, ei henwebu eto yng Ngwobrau Amrywiaeth Ewrop, ar ôl ennill y wobr y flwyddyn gynt.

Ychwanegwyd at ystod a chwmpas ein hyfforddiant technoleg pan gaffaelwyd trwyddedau gan ddarparwyr trydydd parti, sy'n cynnig mynediad i fwy na 5,000 o gyrsiau a modiwlau ar-lein a 15,000 o lyfrau a fideos hyfforddi proffesiynol. Mae hyn yn rhan o'n hymgyrch i ddarparu mwy o hyfforddiant i fwy o bobl am gost is.

Cymerodd yr Academi gamau breision tuag at ei dyfodol digidol pan ryddhawyd y Digital Storytelling Massive Open Online Course (MOOC) mewn partneriaeth â Phrifysgol Birmingham. Ymrwymodd 28,000 o bobl i astudio'r cyflwyniad hwn i egwyddorion ac arfer gwneud fideos gwych ar gyfer y we. Mae'n brosiect gwirioneddol fyd-eang a gyrhaeddodd ddysgwyr ym mhob cwr o'r byd a chafodd ei ailadrodd ym mis Mawrth, mis Mai a mis Gorffennaf 2016.

## Cyflwyno sgiliau newydd i'r BBC ac i'r diwydiant

Yn dilyn rhaglen beilot lwyddiannus, cyflwynwyd Digital Seasons yn Llundain, Bryste a Salford yn cynnig gweithdai ymarferol a dosbarthiadau meistr i staff er mwyn datblygu sgiliau gwneud cynnwys, llwyfannau newydd a deall cynulleidfaoedd ar-lein.

Mae prosiect yr Academi o'r enw 'Fusion' yn helpu i adeiladu gweithlu sy'n meddu ar sgiliau technegol a golygyddol, yn rhannu datblygiadau arloesol a llwyddiannau er mwyn gwella creadigrwydd ac arbed adnoddau. Cynhaliwyd mwy na 65 o ddigwyddiadau ar draws is-adrannau ar bynciau yn amrywio o rithwir ymdrwythol, manylder uchel iawn (UHD), ffilmio gyda dronau a dyfodol cyfryngau symudol a chymdeithasol. Cyrhaeddodd y prosiect fwy na 4000 o unigolion.

Fel rhan o'n hymrwymiad i hyfforddi a chefnogi'r diwydiant darlledu ehangach, rydym yn parhau i helpu'r Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol i gyflwyno cyfres o gyrsiau crefft a chynhyrchu a frandiwyd ar y cyd sy'n canolbwyntio ar gynhyrchu drama ac adloniant.

Y BBC yw'r cyfrannwr mwyaf o hyd at Gronfa Sgiliau Teledu Creative Skillset, sy'n ei gwneud yn bosibl i'r Academi hyfforddi'r diwydiant gyda nifer o fentrau sy'n mynd i'r afael â'ch bylchau mewn sgiliau yn awr ac yn y dyfodol ledled y DU.

Mae'r Academi yn cymryd rhan weithredol yn Academi hyfforddi'r Undeb Darlledu Ewropeaidd, ac yn cyfrannu at y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Hyfforddi Newyddiadurwyr a'r Cyngor Hyfforddi ar gyfer Gohebwyr Darlledu.

Ar ôl cyhoeddi'r adolygiad o Sgiliau Rhanbarthau Lloegr yr Academi, cyhoeddwyd nifer o fentrau hyfforddi allanol, gan weithio mewn partneriaeth â Creative Skillset a darlledwyr eraill yn y DU. Mae'r rhain yn cynnwys digwyddiadau sgiliau Dinasoedd Digidol a gweithdai hyfforddi ym Mryste, Birmingham, Gogledd Lloegr a'r Gwledydd; Cynllun 12 mis i Gynhyrchwyr Cyfres ar gyfer y DU gyfan sydd â'r nod o helpu i greu'r genhedlaeth nesaf o uwch wneuthurwyr cynnwys creadigol a menter hyfforddi Rheolwyr Cynhyrchu newydd er mwyn helpu i gefnogi'r maes cynhyrchu allweddol hwn.

Mae'r Academi yn gweithio mewn partneriaeth â phrosiect celfyddydau digidol yn Birmingham o'r enw The Space i feithrin sgiliau digidol a gwybodaeth yn sector y celfyddydau a bydd yn datblygu cyfres o ddigwyddiadau hyfforddi ar raddfa fawr a gweithdai penodol llai o faint wedi'u hanelu at sefydliadau yn y celfyddydau ledled y DU dros y ddwy flynedd nesaf.

# Prentisiaid

Cipolwg ar rai o'r talentau newydd a hyfforddwyd gan gynlluniau Prentisiaeth y BBC dros y 12 mis diwethaf.



## Newyddiadurwr Digidol

### Rachel Coburn

Roeddwn yn gweithio mewn siop fetio yn Glasgow pan wnes i gais am brentisiaeth newyddiadurwr digidol. Dechreuais gyda BBC Scotland Online ac un o'm swyddi cyntaf oedd dod o hyd i deulu bachgen a gafodd ei drywanu mewn ysgol a rhoi'r manylion i Ddesg Newyddion teledu. Dri mis ar ôl ymuno, cynhyrchais becyn teledu ar gyfer *Reporting Scotland* gyda darn i gamera.



## Prentis Cynhyrchu

### Shaquille Robinson

Mae bod yn brentis yn y BBC yn llythrennol wedi newid fy mywyd ac wedi fy rhoi ar lwybr na feddyliais y byddwn byth arno.

Roeddwn bob amser yn un o'r nifer fach honno o blant a oedd yn dweud nad oeddent byth am fynd i'r brifysgol ond doeddwn i ddim yn gwybod yn union sut i ddod o hyd i ffordd i mewn i'r diwydiant yr wyf bellach yn rhan ohono.



## Prentis Lleol

### Talisha Johnson

Mae fy nhaith fel prentis wedi mynd â fi o weithio fel cynorthwy-ydd ar fy ngorsaf radio leol i gyflwyno teledu ar gyfer CBBC. Roedd fy mhrentisiaeth o 15 mis yn cynnwys hyfforddiant mewn swydd, profiad gwaith, cymhwyster ffurfiol a'r cyfle i rwydweithio. Roedd yn gyfuniad gwych a ragorodd ar unrhyw beth y gellid bod wedi'i gynnig i mi pe bawn wedi mynd i'r brifysgol.



## Prentis Peirianneg Darlledu

### Tobi Ajala

Cyn ymuno â Chynllun Prentisiaeth Technoleg y BBC roeddwn yn gweithio i Apple yn un o'i siopau fel Arbenigwr Ystafell Deuluol. Ar ôl i mi ymweld â'r BBC yn Llundain ar gyfer diwrnod agored roeddwn yn hoffi'r ffordd roedd yn mynd i gyfuno'r defnydd o gyflogaeth, addysg uwch a hyfforddiant mewnol i roi cyfle i bobl ifanc ddod yn beirianwyr. Roedd yn bopeth roeddwn yn chwilio amdano, a mwy.



## Prentis BBC Scotland

### Ross Whyatt

Roeddwn yn 18 mlwydd oed pan ddechreuais ar y brentisiaeth hon gyda BBC Scotland yn Glasgow. Pan oeddwn yn ifancach, gweithiais fel ecstra ar raglenni teledu amrywiol ac roeddwn yn creu fy ffilmiau byrion a'm polediadau radio fy hun yn gyson. Drwy gydol fy nghyfnod yn yr ysgol a'r coleg, roeddwn yn gwybod fy mod am fynd yn syth i ddiwydiant y cyfryngau a daeth yn amlwg i mi mai prentisiaeth fyddai'r ffordd orau o wneud hynny.




## Prentis BBC Cymru

### Lois Roberts

Tuag at ddiwedd fy arholiadau Safon Uwch, penderfynais fod angen seibiant rhag arholiadau felly doedd mynd yn syth i'r Brifysgol ar ôl y chweched dosbarth ddim yn opsiwn i mi. Yn lle ysgrifennu fy natganiad personol fel gweddill fy ffrindiau, roeddwn yn edrych am brentisiaethau. Gwelais fanylion am brentis Chwaraeon Aml-lwyfan y BBC a meddyliais ar unwaith y byddai hyn yn berffaith i mi, gan fod gen i ddiddordeb mewn chwaraeon a'r cyfryngau.

# Allgymorth

Ar y sgrîn ac ar yr awyr, mae'r BBC yn cynnig cynnwys creadigol, amrywiol a gwahanol iawn. Mae ein gweithgarwch Allgymorth yn cefnogi'r cynnwys hwn drwy ymgysylltu â'r grwpiau y mae'r BBC yn eu gwasanaethu leiaf, drwy waith wyneb yn wyneb, cymorth cymunedol a staff gwirfoddol.

Ein nod yw gwella ein darlledu drwy brosiectau sy'n cyffwrdd â bywydau ein cynulleidfaoedd yn ogystal â gwneud rhaglenni'r BBC sy'n berthnasol ac yn hygyrch i bawb nawr ac yn y dyfodol.

Yn 2015, adeiladodd BBC Outreach ar y rhaglen Community Doorway a sefydlwyd yn 2014. Drwy'r fenter hon mae elusennau a grwpiau cymunedol yn cael cyfle i weithio gyda gwirfoddolwyr y BBC ar brosiectau untro. Eleni, daethom â rhaglenni'r BBC a thros 1,000 o aelodau staff ynghyd i weithio gyda bron 100 o sefydliadau partner lleol ar brosiectau yn amrywio o'r rhai a oedd yn pleidleisio am y tro cyntaf yn Birmingham a Bryste, i ysgrifennu drama yn Hertsmere; o iechyd a lles yn Glasgow, i ddiogelwch ar-lein gyda BBC Learning; ac roedd pob prosiect yn rhoi'r cyfle i'n cynulleidfa gwrdd â'r BBC, llywio ein cynnwys a darganfod gyrfa yn y cyfryngau.

## Cynhwysiant cymdeithasol

Eleni, mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Deledu Frenhinol, Sefydliad Joseph Rowntree a Chyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol, cynhaliodd BBC Outreach gynhadledd o'r enw 'Who Benefits: Television & Poverty'. Edrychwyd ar raglenni diweddar a rhai a oedd ar y gweill sy'n gysylltiedig â thlodi, yn ogystal ag ymchwil newydd i gynulleidfaoedd. Ar gyfer y gwneuthurwyr rhaglenni a oedd yn bresennol, roedd yn gyfle i ganfod straeon newydd a ffyrdd gwahanol o wneud rhaglenni. Ar gyfer elusennau a'r bobl a gefnogir ganddynt, roedd yn gyfle i glywed am y ffordd y comisiynir rhaglenni teledu, a sut y gwneir dewisiadau o ran rhaglenni.

## Gweithio gyda chymunedau ac ar eu rhan

Eleni gweithiodd rhaglenni'r BBC gyda llawer o gymunedau gwahanol – yn lleol ac yn genedlaethol.

Roedd 'Hadrian's Wall of Sound' yn brosiect gwirioneddol unigryw a ddathlodd harddwch yr ardal wledig gyfagos a brwdfrydedd cerddorion sy'n byw yn y gogledd pell yn Lloegr, drwy ddigwyddiad 13 awr o gerddoriaeth fyw i nodi Diwrnod Cerddoriaeth cyntaf y BBC. Mae Mur Hadrian yn rhedeg am 73 o filltiroedd, o Bowness yn Solway ar arfordir gorllewinol Cumbria, i Wallsend, ar lannau Afon Tyne yng Ngogledd Tyneside, ac mae llawer ohono yn rhedeg drwy ardaloedd gwledig anghysbell iawn.

Gwnaeth cynulleidfa o dros 30 miliwn o bobl fwynhau'r prosiect a gynhaliwyd ar deledu rhanbarthol a'r rhwydwaith, radio a llwyfannau digidol. Roedd 'Hadrian's Wall of Sound' yn cynnwys dros 650 o berfformwyr o 45 o wahanol grwpiau cerddorol.

Trefnwyd y digwyddiad mewn partneriaeth â nifer fawr o asiantaethau a sefydliadau allanol, gan gynnwys English Heritage, Awdurdod Parciau Cenedlaethol Northumberland a Chyngor y Celfyddydau.

Mae BBC Weather Watchers, a lansiwyd ar *The One Show* ac ar fwletinau tywydd, y newyddion ac yn y gwledydd a'r rhanbarthau ym mis Tachwedd 2015, yn glwb tywydd torfol ar-lein newydd i bobl sydd am gyfrannu at hoff sgwrs pawb, a helpu i adrodd hanes ein tywydd sy'n enwog am fod yn anrhagweladwy.

Mae gwylwyr y tywydd yn ymuno â'r clwb drwy BBC ID ac yn creu cardiau adroddiadau digidol, 'now casts'. Gall eu hadroddiadau gael eu geo-leoli i'w hunion leoliad, gan alluogi gwylwyr y tywydd a darlledwyr eraill ar draws y BBC i weld map unigryw, dynamig o dywydd cyfredol y DU.

Ers mis Mawrth 2016, rydym wedi denu bron 100,000 o wylwyr y tywydd ac maent wedi cyhoeddi tua hanner miliwn o adroddiadau tywydd ledled y wlad; o Shetland i Ynysoedd y Sianel. Mae cannoedd o wylwyr y tywydd wedi gweld eu lluniau a'u sylwadau yn cael eu defnyddio i sôn am y tywydd ar BBC Weather, BBC News, ar Radio Lleol a Theledu Rhanbarthol, ar-lein ac ar gyfryngau cymdeithasol.

Ym mis Rhagfyr 2015, lansiodd Radio 1 ac 1Xtra #1millionhours, un o ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol mwyaf uchelgeisiol y gorsafoedd hyd yma, gan weithio gyda'r elusennau Oxfam, Barnardo's, Age UK a Cancer Research UK. Gofynnir i wrandawyr roi o'u hamser am ddim i'r elusennau hyn neu rai eraill o'u dewis hwy. Mae cyfleoedd yn cynnwys helpu yn siopau AgeUK, canolfannau dydd neu mewn digwyddiadau, bod yn gynorthwy-ydd storfa neu fanwerthu i Barnardo's a bod yn stiward Oxfam mewn gŵyl haf.

Erbyn diwedd mis Mawrth, ac ar ôl dim ond un digwyddiad hyrwyddo mawr ar yr awyr, mae bron 300,000 o oriau wedi eu haddunedu. Dywedodd Ben Cooper, Rheolwr Radio 1 ac 1Xtra, "Rwyf am i BBC Radio 1 ac 1Xtra fod yn rym er gwell yn y DU ac amlygu'r holl waith cadarnhaol y mae pobl ifanc yn ei wneud dros eraill, felly rydym yn falch iawn o weithio ochr yn ochr â rhai o'r sefydliadau mwyaf profiadol yn y wlad i gyrraedd miliwn awr o wirfoddoli."

## Annog talentau newydd

Rhan allweddol o waith allgymorth y BBC yw ei ymrwymiad i ddatblygu sgiliau a thalentau newydd i blant a phobl ifanc.

### Adroddiad Ysgol

Eleni mae deng mlynedd ers lansio prif brosiect newyddiaduraeth ysgolion y BBC, Adroddiad Ysgol. Ar 10 Mawrth, gwnaeth myfyrwyr o fwy na 1,000 o ysgolion ledled y DU droi eu hystafelloedd dosbarth yn ystafelloedd newyddion i ymuno â'r BBC mewn darllediad newyddion rhyngweithiol unigryw, lle gwnaeth pobl ifanc 11-16 oed gyflwyno adroddiadau ar yr holl newyddion a chwaraeon sy'n bwysig iddynt hwy yn 2016. Cafwyd arlwy drwy gydol y dydd ar raglenni a gwasanaethau newyddion y BBC yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, ynghyd â 12 awr o arlwy byw parhaus wedi'i neilltuo'n gyfan gwbl i Ohebwyr Ysgol ar: bbc.co.uk/schoolreport.

Dywedodd y newyddiadurwr Huw Edwards: "Rwy'n edrych ymlaen at y diwrnod hwn bob blwyddyn. Rwyf wedi gweld drosof fy hun faint y gellir ei ddysgu o weithdai mewn ysgolion pan rown derfynau amser newyddiadurol go iawn a safonau i'w dilyn i fyfyrwyr. Rwy'n cymryd rhan am fy mod am roi'r cyfle i bobl ifanc wneud y newyddion eu hunain, ac rwyf am rannu egwyddorion newyddiaduraeth dda â nhw."

Eleni, roedd straeon yr Adroddiad Ysgol yn cynnwys: BBC Radio 5 live – ysgol o dros 1,000 o ddisgyblion ac athrawon yn byw heb gyfryngau cymdeithasol am wythnos, gyda chyflwynwyr 5 live; BBC Radio 4 – barn pobl ifanc am refferendwm yr UE; News at Six – ysgol yn cymryd rhan mewn astudiaeth wyddonol o amddifadedd cwsg, ac ar BBC World Service – saith adroddiad radio arbennig gan bobl ifanc ledled y byd.

### Talent Ticket Roadshow Bryste

Cymerodd dros 1,500 o ddisgyblion ysgol uwchradd ym Mryste ran yn Talent Ticket Roadshow y BBC ym mis Mawrth 2016. Gan ddewis o blith gweithdai mewn ychwanegu effeithiau sain, cynhyrchu ffilm, animeiddio, dylunio set, electroneg agored a cholur prosthetig, cafodd y bobl ifanc 14 i 15 oed brofiad ymarferol a chyfle i ddefnyddio cyfarpar y diwydiant. Aeth dros 40 o wirfoddolwyr y BBC ati i gyflwyno'r prosiect i rai o ysgolion mwyaf difreintiedig ac ethnig y ddinas.

Mae'r prosiect yn rhan o bartneriaeth rhwng y BBC, 12 o ysgolion uwchradd Bryste a Phrifysgol Gorllewin Lloegr. Ei nod yw annog pobl ifanc i ddarganfod eu creadigrwydd, datblygu eu hyder a dod o hyd i yrfa yn y diwydiannau creadigol. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys profiad gwaith ym Mlwyddyn 10 a gwersyll gwneud ffilmiau tri diwrnod o hyd i fyfyrwyr ym Mlwyddyn 12.

**Ers mis Mawrth 2016, rydym wedi denu bron**

**100,000**

**o wylwyr y tywydd, ac maent wedi cyhoeddi tua hanner miliwn o adroddiadau tywydd ledled y wlad**

# Partneriaethau

Eleni, mae partneriaethau arloesol, newydd a pharhaus, wedi ffynnu ar draws y BBC wrth i ni ganolbwyntio ar weithio tuag at ein gweledigaeth i gyflwyno BBC agored, fel partner creadigol Prydain, a nodwyd yn y ddogfen Balch, Beiddgar, Creadigol yn ystod hydref 2015.

## Y celfyddydau

Ar ddechrau 2016, cyhoeddwyd cynlluniau ar gyfer Gŵyl Shakespeare y BBC, a oedd yn cynnwys cydweithio â'r Royal Shakespeare Company (RSC) ar sawl prosiect, gan gynnwys digwyddiad byw yn arbennig ar gyfer BBC Two. Yn rhyngwladol, mae *Shakespeare Lives*, wedi ei gyd-guradu â'r Cyngor Prydeinig, yn cyflwyno Shakespeare i gynulleidfaoedd digidol byd-eang o'r Tŷ Opera Brenhinol, Shakespeare's Globe, Sefydliad Ffilm Prydain (BFI), RSC, Gŵyl y Gelli a llawer o rai eraill.

Gan barhau i feithrin sgiliau a gwybodaeth ddigidol, mewn partneriaeth ag Academi'r BBC, mae The Space wedi dod yn sefydliad datblygu a chomisiynu i gyrff celfyddydol gynhyrchu cynnwys na fyddent yn gallu ei wneud fel arall. Mae gan y ganolfan fwrdd annibynnol newydd gydag uwch gynrychiolwyr o BFI, Dinas Diwylliant y DU, NESTA a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

Canolbwyntiodd ein partneriaeth barhaus ag Arts Council England ar ddau brosiect eleni. Gwnaeth *Words First* gyda'r Roundhouse gyflwyno talentau gair llafar beirdd ifanc ar Radio 1 ac 1Xtra. Comisiynodd *Live from Television Centre* Ganolfan Celfyddydau Battersea i gynnal noson ar gyfer cwmnïau theatr annibynnol ar BBC Four ac iPlayer.

Ar y teledu, roedd *Face of Britain* yn bartneriaeth â'r Oriel Bortreadau Genedlaethol, lle yr ymchwiliodd Simon Schama i hanes portreadu Prydain a threfnodd curaduron yr orielau bum casgliad yn dilyn themâu'r rhaglen.

## Cerddoriaeth

Mae gan BBC Radio 3 bartneriaethau lluosog â'r byd diwylliannol ehangach, ac eleni roedd hyn yn cynnwys Wellcome Collection, Gŵyl Cut n' Splice, Gŵyl Jazz Llundain EFG, Gŵyl WOMAD, Celtic Connections, BASCA, Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau a Sefydliad PRS For Music.

Mewn cerddoriaeth glasurol, mae Ten Pieces wedi cyrraedd bron hanner yr holl blant ysgol yn y DU. Mae'r cydweithio rhwng BBC Learning a BBC Music wedi meithrin partneriaeth â'r ABRSM, Arts Council England, Cyngor Celfyddydau Cymru, Arts Council Northern Ireland, Creative Scotland, Music Mark, Youth Music, ABO, ISM ac Into Film.

## Gwyddoniaeth

Bu'r BBC mewn partneriaeth ag asiantaethau gofod mawr, NASA, ESA, RosCosmos ac UKSA, yn ogystal â sefydliadau cyhoeddus fel yr Amgueddfa Wyddoniaeth, i nodi taith y gofodwr Prydeinig, Tim Peake, i'r gofod.

Yn ôl ar y ddaear, cynhyrchwyd cyfres 25 rhan Radio 4 *Natural Histories* mewn partneriaeth â'r Amgueddfa Hanes Naturiol.

## Make it Digital

Fel rhan o'n menter Make it Digital, mae'r BBC a 31 partner wedi rhoi micro:bit BBC, sef cyfrifiadur maint poced y gellir ei godio, i bob plentyn ym mlwyddyn 7 neu gyfatebol ledled y DU.

Rhoddodd hyfforddeiaethau Make it Digital, a luniwyd â phartneriaethau gan gynnwys Canolfannau Gwaith a'r Asiantaeth Ariannu Sgiliau, gyfleoedd i fwy na mil o bobl ifanc ddi-waith yn ystod y flwyddyn hon, a bydd yn cefnogi miloedd yn fwy y flwyddyn nesaf.


## Llyfrgelloedd

Cytunodd y BBC ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd â Chymdeithas y Prif Lyfrgellwyr yng Nghymru a Lloegr ac ar y cyd â Gogledd Iwerddon. Mae'n hyrwyddo prosiectau Make it Digital gan gynnwys BBC Weather Watchers, adnodd adroddiadau tywydd ar-lein a ddatblygwyd mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Feteorolegol Frenhinol, sydd bellach yn rhan graidd o ragolygon tywydd dyddiol ar draws allbwn y BBC.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi LovetoRead i ddathlu darllen er pleser drwy amrywiaeth eang o raglennu yn ystod haf a hydref 2016. Er mwyn cyflwyno'r ymgyrch hon, rydym yn gweithio gyda Chymdeithas y Prif Lyfrgellwyr, Llyfrgelloedd yr Alban a'r Cyngor Gwybodaeth, ac elusennau darllen gan gynnwys, Scottish Book Trust, Book Trust, yr Asiantaeth Ddarllen a'r Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol.



DJ Target Radio 1Xtra yn *Words First* a arddangosodd dalentau gair llafar beirdd ifanc



*Stargazing Live:* Dilynodd *Brit in Space* y gofodwr Tim Peake wrth iddo ddocio â'r Orsaf Ofod Ryngwladol

## Partneriaethau Dinas

Rydym wedi adnewyddu ein cefnogaeth i'r diwydiannau creadigol ym Mryste drwy lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd â phartneriaeth Dinas Bryste a llofnodi un hefyd i gefnogi Partneriaeth Dinas Hull ar gyfer dathliadau Dinas Diwylliant 2017.

## Ymchwil a Datblygu'r BBC

Rydym yn ehangu graddfa a chwmpas gweithgarwch ein partneriaethau Ymchwil a Datblygu. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cydweithio ag 20 o brifysgolion a 30 o sefydliadau masnachol, gan gefnogi ymchwil strategol hirdymor, prosiectau effaith tymor canolig ar y diwydiant, a chydweithrediadau tactegol byrdymor ar gyfer meithrin sgiliau, fel cynnal interniaethau myfyrwyr doethuriaeth.

Yn arbennig eleni, enillwyd cyllid gan y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer pedwar prosiect, gan weithio gyda Fraunhoferk, BT a Cisco a busnesau bach sy'n arbenigo mewn meysydd arbenigol. Bydd y canlyniadau'n cael effaith economaidd ryngwladol gan gynnwys gwasanaethau newydd ar gyfer monitro'r cyfryngau, sain, cynnwys UHD a phrofiadau aml-sgrîn.

Yn ogystal â hyrwyddo 60 o syniadau peilot ar BBC Taster, yn 2015 gwnaeth Connected Studio Ymchwil a Datblygu'r BBC weithio gyda 288 o bobl o gwmnïau creadigol bach gan ddefnyddio proses IP-agnostig ac agored. Gwnaed 170 o gyflwyniadau ar gyfer y rhaglen beilot Future of Content yn unig, gyda nifer wedi cofrestru ar gyfer datblygiad pellach.

## Y Gwledydd

Yng Nghymru, mae ein partneriaeth strategol ag S4C wedi cynhyrchu rhaglennu mwy arloesol, gan gynnwys y ddrama ddwyieithog *Y Gwyll/Hinterland*.

Sefydlodd BBC Cymru Creative Cardiff gyda Phrifysgol Caerdydd, Canolfan Mileniwm Cymru a Chyngor Caerdydd i gefnogi economi greadigol Cymru.

Parhaodd BBC Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru i hyrwyddo cerddoriaeth Gymreig newydd drwy eu prosiect ar y cyd, Gorwelion, a nododd bartneriaeth tair blynedd newydd gyda phenwythnos Cer i Greu.

Dros y flwyddyn, gwnaeth BBC Scotland gynnal ac adnewyddu nifer o gydweithrediadau a phartneriaethau creadigol strategol, gan gynnwys y rhai â Creative Scotland, Royal Conservatoire of Scotland, STV ac MG ALBA, yr ydym mewn partneriaeth â hwy i ddarparu'r gwasanaeth teledu Gaeleg, BBC ALBA.

Arweiniodd y bartneriaeth ag NI Screen at fuddiannau ar draws allbwn y BBC a'r diwydiannau creadigol yng Ngogledd Iwerddon. Roedd cysylltiadau strategol a chydweithio hefyd yn amlwg wrth ddatblygu deunyddiau rhaglenni am ddigwyddiadau a gwaddol 1916 yng Ngogledd Iwerddon.



Aeth apêl *Save the Rhino* BBC Radio 4 ati i warchod rhinoserosod mewn perygl yn Affrica ac Asia



Mae BBC Media Action yn gweithio i wella deialog a thrafodaeth rhwng y cyhoedd a'r rhai sydd mewn grym yn Nepal

# Elusennau

Rydym wedi bod yn darlledu ac yn cefnogi apeliadau elusennol ers 1923 ac mae ein hapeliadau wedi dod yn rhan hanfodol o'n cylch gwaith – a'n gwerth – fel darlledwr cyhoeddus. Dros y degawd diwethaf, mae ein hapeliadau a'n telathonau wedi codi dros £1 biliwn; ac mae unigolion, cymunedau a sefydliadau ledled y DU a'r byd wedi cael budd ohonynt. Ochr yn ochr â'r gefnogaeth i'n helusennau corfforaethol – Plant mewn Angen y BBC a BBC Media Action – a'n partneriaeth â Comic Relief, gwnawn apeliadau hefyd ar ran amrywiaeth eang o elusennau, gan helpu i godi cyllid hanfodol a chodi ymwybyddiaeth. Yn ystod 2015/16, mae £95 miliwn wedi cael ei godi ac mae'r wybodaeth isod yn nodi rhai o'n prif gyflawniadau elusennol dros y flwyddyn ddiwethaf.

### Plant mewn Angen y BBC

Gan dynnu sylw at realiti bywyd i blant a phobl ifanc dan anfantais ledled y DU, cododd y rhaglen fyw *Children in Need* ym mis Tachwedd £37.1 miliwn ar y noson, y swm mwyaf erioed, a chaiff y cyfanswm terfynol ei gyhoeddi yn ystod yr haf.

Gofynnodd y BBC am gefnogaeth y cyhoedd drwy raglennu ar draws sianelau lluosog. Dychwelodd Rickshaw Challenge *The One Show*, gyda chwe pherson ifanc yn pedlo o Land's End i'r East End. Awgrymodd Radio 2 ffyrdd hwylus o gymryd rhan i wrandawyr, aeth gwylwyr *Countryfile* ar deithiau cerdded, a chynhaliodd Tom Jones a Rob Brydon *One Big Night*, gan annog gwylwyr i roi arian. Ledled y DU, cynhaliodd cyflwynwyr y BBC weithgareddau codi arian gwych hefyd, o rwyfo canŵau i lawr camlesi i farathonau gwirion.

Ond dim ond rhan fach o'r gweithgarwch oedd y rhain. Yr hyn sy'n ganolog i'n holl weithgareddau yw straeon y bobl ifanc sy'n cael cymorth gan Blant mewn Angen, gan ddangos sut mae pob ceiniog a roddwyd yn gwneud gwahaniaeth. Rydym yn ariannu tua 2,400 o brosiectau ac, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom helpu i newid bywydau 480,000 o blant a phobl ifanc ledled y DU. Dim ond drwy haelioni anhygoel y cyhoedd ym Mhrydain y mae'n bosibl gwneud y cyflawniadau gwych hyn.

### BBC Media Action

Mae elusen datblygu rhyngwladol y BBC yn defnyddio'r cyfryngau a dulliau cyfathrebu i drawsnewid bywydau, gan weithio gyda phartneriaid i gyrraedd mwy na 200 miliwn o bobl mewn mwy na 30 o wledydd.

Mae rhaglenni drama a rhaglenni trafod gwreiddiol ar gyfer teledu, radio ac ar-lein yn helpu i wella iechyd, rhannu arloesedd a hysbysu pobl am eu hawliau. Mae mentora gweithwyr proffesiynol yn y cyfryngau yn helpu i godi safonau newyddiadurol, ac mae rhaglenni Lifeline – a ddarlledir cyn ac ar ôl trychinebau – yn helpu i achub bywydau.

O fewn oriau i'r ddaeargryn ddinistriol yn Nepal ym mis Ebrill 2015, roedd BBC Media Action yn rhannu gwybodaeth â goroeswyr drwy BBC Nepali a gorsafoedd radio lleol. Cynigiodd rhaglen radio Lifeline *Milijuli Nepal (Together Nepal)* sicrwydd i bobl, yn ogystal â chyngor ar gadw'n ddiogel, amddiffyn plant a gofalu am eu hiechyd mewn amodau aflan.

Yn Affganistan, Nepal, Tanzania a De Swdan, cyfrannodd timau BBC Media Action ddadleuon a thrafodaethau at dymor 100 o Ferched y BBC. Yn Tanzania ffilmiwyd y pedair dadl – gyda 100 o ferched o bob cefndir ym mhob un – gan y criw cynhyrchu cyntaf yn y wlad i gynnwys merched yn unig.



**Bu farw Llywydd am Oes Plant mewn Angen y BBC, Syr Terry Wogan, ym mis Ionawr eleni. Roedd Syr Terry wedi cyflwyno pob Rhaglen Apêl rhwng 1980 a 2015 ac fel wyneb – a chalon yr elusen, gwnaeth helpu i godi ymhell dros £800 miliwn i newid bywydau plant a phobl ifanc dan anfantais ledled y DU.**

**Byddwn yn gweld ei eisiau yn fawr, ond mae ei waddol yn parhau ym mywydau'r bobl ifanc y gwnaeth eu helpu i'w gwella. Gwyddom y bydd y BBC, cydweithwyr, cefnogwyr a'r cyhoedd yn gweithio'n galed i barhau i adeiladu ar y gwaddol hwnnw am flynyddoedd i ddod.**

Syr Terry Wogan yn cyflwyno *Weekend Wogan*

Yn 2015/16, cefnogwyd 90 o brosiectau BBC Media Action gan amrywiaeth o gyllidwyr, gan gynnwys Adran y DU dros Ddatblygu Rhyngwladol, y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, Sefydliad Bill a Melinda Gates, UNICEF ac USAID. Cyfanswm yr incwm ar gyfer 2015/16 oedd £44 miliwn.

Cyhoeddodd yr elusen nifer o adroddiadau yn 2015/6 – gan gynnwys ymchwil i raglennu dyngarol a dadansoddiad o'r cyfryngau mewn amgylcheddau ansefydlog yn wleidyddol. I ddarllen y rhain neu i gael rhagor o wybodaeth am BBC Media Action ewch i: bbc.co.uk/mediaaction

### Apeliadau Darlledu

Yn ystod y flwyddyn, darlledodd y BBC 49 o apeliadau ar Radio 4 ac 11 o apeliadau Lifeline ar BBC One. Cododd y rhain dros £800,000 ac maent yn ffordd hollbwysig i elusennau llai o faint gyrraedd cynulleidfa eang. Er enghraifft, roedd yr elusen Save the Rhino yn dal i dderbyn sieciau ddeufis ar ôl ei hapêl ac mae wedi codi dros £20,000 i gyd. Disgrifiodd Cathy Dean, Cyfarwyddwr y Sefydliad, yr apêl ar Radio 4 fel: "Yr apêl sy'n rhoi o hyd!" Mae'r gallu i gyrraedd cynulleidfa ehangach yn ffactor allweddol ym mhwysigrwydd ein hapeliadau. Dywedodd Breast Cancer Now am ei Hapêl Lifeline ar y BBC: "Cyrhaeddodd filiynau o bobl na fyddem wedi gallu eu cyrraedd fel arall – ar gyfer canser y fron eilaidd mae'r ymwybyddiaeth hon yn hanfodol."

Mae proses ddethol ar wahân ar gyfer apeliadau darlledu ar deledu a radio'r BBC yng Ngogledd Iwerddon, a ddarlledodd 13 apêl y llynedd yn ogystal ag apêl arbennig adeg y Nadolig. Cododd apêl Nadolig BBC Radio 4 gyda St Martin-in-the-Fields, yn ei 89fed blwyddyn, £2,500,050. Gwnaeth dwy orsaf Radio Lleol y BBC gynnal apeliadau.

Cynhaliodd Radio Cambridgeshire apêl Raising the Roof gyda Sue Ryder, a oedd yn adeiladu hosbis newydd. Lansiodd cyflwynydd rhaglen brecwast Radio Derby, Colin Bloomfield, Apêl Melanoma'r orsaf ychydig cyn ei farwolaeth yn 33 oed, o ganser y croen. Gan weithio gyda'r elusen Skcin a Derby Telegraph cododd yr apêl £174,746. Talodd hyn am ddwy gysgodlen a dau fesurydd haul mewn parciau lleol, archwiliadau canser y croen i gannoedd o bobl ac addysg ynghylch diogelu rhag yr haul i fwy na 50,000 o blant ysgol.

Ym mis Ebrill darlledodd y BBC apêl Pwyllgor Argyfwng Trychineb (DEC) ar gyfer dioddefwyr daeargryn Nepal, a helpodd tuag at gyfanswm apêl terfynol DEC o £87,240,000.

Gall unrhyw elusen sy'n bodloni'r meini prawf perthnasol wneud cais am apêl ar y BBC a cheir rhagor o wybodaeth am hyn yn: bbc.co.uk/charityappeals/

### Sport Relief

Yn 2016, helpodd y BBC Sport Relief i danio dychymyg y cyhoedd drwy dymor o raglenni yn arbennig i ysbrydoli'r cyhoedd i ymfalchïo yn eu gallu i gerdded, rhedeg, nofio a beicio. Roedd yr ymgyrch yn cynnwys eiliadau eiconig, o 'Hell of a Walk' Jo Brand ar draws Lloegr, i bum triathlon Greg James mewn pum diwrnod ac ymdrech aruthrol Eddie Izzard i redeg 27 marathon mewn 27 diwrnod ar draws De Affrica, a gafodd ei ffilmio'n arbennig i BBC Three.

Roedd noson benodedig o deledu ar nos Wener 18 Mawrth yn cynnwys chwaraeon ac adloniant bythgofiadwy, ynghyd â ffilmiau bob hyn a hyn yn dangos y gwaith a ariennir gan Sport Relief. Codwyd £55 miliwn ar y noson, y swm mwyaf erioed. Dilynwyd hyn, ddydd Sul 20 Mawrth, gan Gemau Sport Relief, lle gwnaeth pobl ledled y DU gymryd rhan mewn prif leoliadau yn Llundain, Glasgow, Belfast, Sheffield a Norwich – ynghyd â llawer mwy o ddigwyddiadau lleol – ac roedd y cyfanswm wedi cyrraedd mwy na £65 miliwn erbyn diwedd Ebrill 2016.

Diolch i haelioni aruthrol y cyhoedd, mae Sport Relief wedi codi mwy na £328 miliwn ers ei ymgyrch gyntaf yn 2002, gan ariannu prosiectau sy'n helpu i drawsnewid bywydau pobl yng nghymunedau tlotaf y byd ac yma yn y DU. Ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth barhaus y BBC.

### Cronfa Celfyddydau Perfformio'r BBC

Daeth Cronfa Celfyddydau Perfformio'r BBC, un o dair elusen gorfforaethol y BBC, i ben ym mis Mai 2016 ar ôl 13 mlynedd. Ers ei sefydlu fel The Fame Academy Bursary, dyfarnodd yr elusen dros £5 miliwn mewn cyllid i unigolion a grwpiau a oedd yn ymwneud â'r celfyddydau perfformio, ac ymhlith y buddiolwyr roedd y gantores Adele, y cyfansoddwr Mark Simpson a Cherddor y Flwyddyn Gwobrau Gwerin Radio 2, Sam Sweeney. Cafodd cannoedd o gorau, bandiau, cerddorfeydd, grwpiau dawns a theatr o bob rhan o'r DU gyllid hefyd i hyfforddi a datblygu a chafodd miloedd o bobl fudd o waith y Gronfa.



Idris Elba a Lenny Henry yn ffilmio sgetsh gomedi o *Luther for Sport Relief 2016*



Jo Brand yn cwrdd ag Age UK, Barnsley Allsorts Group yn Wombwell fel rhan o *Brand's Hell of a Walk for Sport Relief 2016*

# Cynaliadwyedd amgylcheddol

Mae materion amgylcheddol wedi cael eu hadlewyrchu a'u dogfennu ers tro yn y rhaglenni a wnawn ac mae'n bwysig i ni bod ystyried yr amgylchedd yn cael ei ymgorffori hefyd yn y ffordd y caiff y BBC ei weithredu a'i redeg.

Rydym wedi parhau i leihau allyriadau $CO_2$ a'r defnydd o ynni sy'n gysylltiedig â defnyddio ein hadeiladau, gan ragori o dipyn ar ein targed.

Rydym hefyd wedi rhagori o dipyn ar ein targedau ar gyfer 2016/17 ar gyfer mesurau amgylcheddol eraill. Mae hyn yn cynnwys lleihad o 86% mewn gwastraff i safleoedd tirlenwi y person a haneru bron ein defnydd o ddŵr y person.

Y llynedd, cyflwynwyd adroddiad gennym ar ein cynllun cynhyrchu cynaliadwy, albert+, am y tro cyntaf. Eleni, mae 55 o gynyrchiadau gan gynnwys *BBC Breakfast*, *Blue Peter* a *The One Show* oll wedi cael eu hardystio ac wedi arddangos y nod albert+ yn eu cydnabyddiaethau ar ddiwedd rhaglenni – bron dwbl yr hyn a nodwyd gennym y llynedd. Canfuwyd bod cynyrchiadau, yn nodweddiadol, sy'n mynd drwy'r broses albert+ yn lleihau eu hallyriadau carbon tua 15% ac yn arbed £6,000, gan sicrhau arbedion amgylcheddol ac ariannol.

Er bod cynnydd da yn cael ei wneud, mae natur anrhagweladwy digwyddiadau byd-eang a gyflwynwn i sylw ein cynulleidfa yn golygu bod gostyngiadau parhaus mewn allyriadau o ganlyniad i deithio, yn parhau i fod yn heriol. Datblygwyd ein cwrs Llythrennedd Carbon fel partneriaeth rhwng Cynaliadwyedd y BBC, Academi'r BBC a sawl partner allanol, yn bennaf yn MediaCity UK, Salford, gan gynnwys ITV. Mae tua 350 o bobl wedi dilyn y cwrs hyd yma, bron o bob un o brif ganolfannau cynhyrchu'r BBC. Mae'r partneriaid hefyd wedi rhannu'r cwrs â'r BAFTA albert Consortium, grŵp o ddarlledwyr a chwmnïau cynhyrchu annibynnol yn y DU sy'n cydweithio i hyrwyddo a datblygu arferion gwaith cynaliadwy o fewn y diwydiant. Mae hyn yn golygu bod y cwrs bellach wedi cyrraedd cannoedd yn fwy o bobl y tu allan i'r BBC.

Rydym yn falch o'r hyn a gyflawnwyd hyd yma ond yn ymwybodol bod llawer mwy i'w wneud yn y maes hollbwysig hwn o waith y BBC. Gallwch ddarllen mwy yn: bbc.co.uk/responsibility/environment

## Crynodeb o berfformiad Targed amgylcheddol y BBC

| Targedau amgylcheddol y BBC | Targed 2016/17 | 2015/16 Perfformiad yn erbyn y waelodlin |
|---|---|---|
| Gostyngiad absoliwt yn y defnydd o ynni | -20% | -38% |
| Gostyngiad absoliwt mewn allyriadau $CO_2$ o adeiladau | -20% | -33% |
| Gostyngiad yn y defnydd o ddŵr (y pen) | -25% | -48% |
| Gostyngiad mewn gwastraff (tunelli) i safleoedd tirlenwi (y pen)<br>Faint o wastraff a gaiff ei ailgylchu | -25%<br>70% | -86%<br>64% |
| Gostyngiad mewn allyriadau $CO_2$ o drafnidiaeth (fesul defnyddiwr y BBC) | -20% | 0% |

**Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr**

| | |
|---|---|
| Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (tunelli o allyriadau $CO_2$, cwmpas 1 a chwmpas 2): | 100,552 |
| Dwysedd carbon (tunelli o allyriadau $CO_2$/ Cyfanswm Incwm y Grŵp £m): | 20.8 |

**Nodiadau ar y tabl**
Mae'r data ar Nwyon Tŷ Gwydr ar gyfer swyddfeydd yn y DU a rhai sy'n cynrychioli'r World Service; ceir gwybodaeth fanwl a nodiadau esboniadol ar-lein yn: bbc.co.uk/responsibility/environment.

| Cynhyrchu cynaliadwy | Targed 2016/17 | Perfformiad 2015/16 |
|---|---|---|
| Cynyrchiadau Plant a Theledu mewnol i ddefnyddio *albert* i nodi ôl troed carbon cynyrchiadau | 100% ar y trywydd iawn | 83% ar y trywydd iawn |
| Ôl troed carbon cyfartalog y BBC ar gyfer cynyrchiadau teledu fesul awr gynhyrchu | Dd/G | 10.7 o dunelli $CO_2$ |
| Cynyrchiadau'r BBC i gwblhau proses ardystio *cynhyrchu cynaliadwy albert+* | 25 cynhyrchiad | 55 cynhyrchiad |

**Nodiadau**
Ffordd o gyfrifo carbon yw **albert** sy'n helpu timau cynhyrchu yn y diwydiant darlledu i gyfrifo'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â chynhyrchu teledu.

Cynllun ardystio yw **albert+** sy'n helpu cynyrchiadau i gymryd camau i leihau effeithiau amgylcheddol. Dyfernir gradd un, dau neu tri i gynyrchiadau llwyddiannus a gallant arddangos bathodyn yn ystod y cydnabyddiaethau ar ddiwedd rhaglen. Mae cynyrchiadau sydd wedi cwblhau'r broses wedi symud ymlaen i'r cam archwilio.

Am ragor o wybodaeth, gweler: bbc.co.uk/responsibility/environment

# Llywodraethu

Drwy'r drefn lywodraethu rydym yn gwarantu annibyniaeth, yn cyflawni ein cenhadaeth ac yn rhoi cyfrif am ein gweithredoedd.



Tom Hiddleston yn ffilmio *The Night Manager*

# Y Bwrdd Gweithredol

Y Bwrdd Gweithredol, a gadeirir gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, ac sy'n cynnwys cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol, sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau'r BBC a'i weithrediadau o ddydd i ddydd drwy'r sefydliad.

## Cyfarwyddwyr gweithredol



**Tony Hall, yr Arglwydd Hall o Benbedw CBE**
Cyfarwyddwr Cyffredinol a Chadeirydd, Bwrdd Gweithredol y BBC



**Helen Boaden**
Cyfarwyddwr, Radio a BBC Lloegr



**Anne Bulford OBE**
Rheolwr Gyfarwyddwr, Cyllid a Gweithrediadau



**Tim Davie**
Prif Swyddog Gweithredol, BBC Worldwide a Chyfarwyddwr, Global



**James Harding**
Cyfarwyddwr, Newyddion a Materion Cyfoes



**Mark Linsey**
Cyfarwyddwr, BBC Studios



**James Purnell**
Cyfarwyddwr, Strategaeth a Materion Allanol

## Cyfarwyddwyr anweithredol



**Y Fonesig Fiona Reynolds DBE**
Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol; Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth, y Pwyllgor Masnachu Teg, a'r Pwyllgor Enwebiadau ar gyfer penodiadau anweithredol; aelod o'r Pwyllgor Archwilio



**Simon Burke**
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio



**Alice Perkins CB**
Aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth a'r Pwyllgor Masnachu Teg



**Syr Howard Stringer**
Aelod o'r Pwyllgor Masnachu Teg



**Dharmash Mistry**
Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth

**Dyma aelodaeth y Bwrdd Gweithredol ym mis Ebrill 2016. Drwy gydol y flwyddyn adrodd mae'r aelodaeth wedi newid. Cyfeirier at dudalennau 135 a 139 am ragor o fanylion.**

Mynychodd Charlotte Moore gyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol yn rhinwedd ei swydd fel Cyfarwyddwr Dros Dro, Teledu.

Mae rhagor o wybodaeth am aelodau'r Bwrdd Gweithredol ar gael ar-lein: bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/managementstructure/seniormanagement

**Mae'r Bwrdd Gweithredol yn dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i bedwar is-bwyllgor:**

**Y Pwyllgor Archwilio**
Mae'r Pwyllgor Archwilio yn goruchwylio adroddiadau ariannol, rheolaeth fewnol a rheoli risg. Mae'r pwyllgor yn cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol. Gall y Cyfarwyddwr Cyffredinol, y Rheolwr Gyfarwyddwr, Cyllid a Gweithrediadau, Cwnsler Cyffredinol Grŵp y BBC, y Cyfarwyddwr Risg a Sicrwydd, a chynrychiolwyr archwilio allanol hefyd fynychu'r cyfarfodydd.

**Y Pwyllgor Masnachu Teg**
Mae'r Pwyllgor Masnachu Teg yn sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau o ran masnachu teg. Mae'n cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol. Gall y Rheolwr Gyfarwyddwr, Cyllid a Gweithrediadau, Cwnsler Cyffredinol Grŵp y BBC, y Cyfarwyddwr Risg a Sicrwydd, a chynrychiolwyr archwilio allanol hefyd fynychu'r cyfarfodydd.

**Y Pwyllgor Enwebiadau**
Mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn goruchwylio'r broses o gynnig, penodi a diswyddo aelodau o'r Bwrdd, heblaw'r Cadeirydd, a benodir gan Ymddiriedolaeth y BBC. Mae aelodaeth o'r pwyllgor yn dibynnu ar b'un a wneir penodiadau anweithredol neu weithredol.

**Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth**
Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn goruchwylio Strategaeth y BBC ar gyfer Gwobrwyo Uwch Reolwyr ac yn pennu'r trefniadau cydnabyddiaeth unigol ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol y BBC a Thîm Gweithredol BBC Worldwide. Mae'n cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol. Gall y Cyfarwyddwr Cyffredinol, y Rheolwr Gyfarwyddwr, Cyllid a Gweithrediadau a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol hefyd fynychu'r cyfarfodydd.

# Adroddiad yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol



"Yn ogystal â phroses yr Adolygiad o'r Siarter cawsom flwyddyn eithriadol o greadigol a chynhyrchiol."

*Y Fonesig Fiona Reynolds*

2015/16 yw blwyddyn ariannol olaf cyfnod y Siarter hon. Erbyn 1 Ionawr 2017 bydd Siarter newydd ar waith ac, yn sicr, bydd ein rolau wedi newid. Felly, dyma gyfle i edrych yn ôl ar flwyddyn hollbwysig i'r BBC a'i ddyfodol.

Yn ogystal â phroses yr Adolygiad o'r Siarter cawsom flwyddyn eithriadol o greadigol a chynhyrchiol. Ymhlith uchafbwyntiau ein hallbwn roedd *War and Peace*, *The Great British Bake Off*, *Doctor Foster* a *Countryfile*, a gyrhaeddodd ei gynulleidfa fwyaf ac a gyflawnodd ei ffigurau gwylio uchaf erioed. Gwnaethom hefyd gyrraedd cynulleidfaoedd newydd mewn ffyrdd newydd: aeth 50,000 o bobl i *Big Weekend* Radio 1 yn Norwich, cyrhaeddodd y World Service ei gynulleidfa fyd-eang wythnosol fwyaf erioed, sef 246 miliwn, a gwyliodd traean o boblogaeth y DU ddarllediadau'r BBC o Ŵyl Glastonbury.

O ran y Bwrdd Gweithredol, roedd ein prif ffocws ar sicrhau bod y BBC yn barod am ei Siarter newydd. Gwnaethom baratoi ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, sef *Balch, Beiddgar a Chreadigol* a gyhoeddwyd ym mis Medi 2015. Nododd y ddogfen hon sut rydym yn gweld y BBC yn newid o fod yn ddarlledwr i fod yn llwyfan agored, lle y gall partneriaethau creadigol ffynnu; a hefyd sut y byddwn yn cyflawni'r arbedion sylweddol sydd eu hangen o dan y setliad cyllidebol y cytunwyd arno gyda Llywodraeth y DU ym mis Gorffennaf 2015. Fel cyfarwyddwyr anweithredol, gwnaethom gyfrannu'n uniongyrchol at adolygiad Syr David Clementi o drefniadau llywodraethu, gan bwysleisio pwysigrwydd sylfaenol annibyniaeth y BBC, ein cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus, a'r gallu i ymateb yn gyflym ac yn benderfynol i heriau a chyfleoedd newydd, gan gynnwys y rhai sy'n codi mewn byd digidol sy'n newid yn gyflym.

Felly, gwnaethom hefyd dreulio llawer o amser eleni yn sicrhau bod y BBC yn barod i wynebu'r heriau hyn. Cawsom drafodaethau bywiog ar ddyfodol digidol BBC Three; y cydberthnasau newydd rydym am eu meithrin â'n cynulleidfaoedd, drwy myBBC; a sicrhau'r fframwaith cywir ar gyfer BBC Studios er mwyn iddo barhau i adlewyrchu gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus wrth iddo gynhyrchu mwy o allbwn brodorol o safon. Gwnaethom barhau i ganolbwyntio ar symleiddio, gan dorri costau gorbenion a helpu ein staff i roi o'u gorau.

Ac, wrth gwrs, cawsom adroddiad a chasgliadau'r Fonesig Janet Smith, a gynhaliodd adolygiad o gyfnod Jimmy Savile gyda'r sefydliad, a gomisiynwyd gennyf dair blynedd a hanner yn ôl, er mwyn archwilio'n fanwl un o benodau tywyllaf hanes y BBC.

Hoffem gydymdeimlo'n ffurfiol â'r dioddefwyr a diolch iddynt am eu dewrder wrth benderfynu rhoi tystiolaeth, a nodi ein bod yn benderfynol o sicrhau na fydd y BBC mewn sefyllfa lle gellir cyflawni troseddau fel y rhai a gyflawnwyd gan Jimmy Saville a Stuart Hall byth eto. Rydym wedi dechrau'r gwaith manwl o adolygu diwylliant a phrosesau'r BBC mewn ymateb i argymhellion y Fonesig Janet er mwyn sicrhau bod pawb sy'n dod i gysylltiad â'r BBC, at ba ddiben bynnag, yn cael eu trin â pharch ac mewn modd proffesiynol. Caiff y gwaith hwn ei ategu gan ein cynlluniau i greu BBC symlach ac agored sydd â llai o hierarchaeth.

Hwn yw fy adroddiad olaf gan y Bwrdd Gweithredol ar ei ffurf bresennol. Hoffwn ddiolch i'n holl gydweithwyr: Ymddiriedolaeth y BBC; holl aelodau'r Bwrdd Gweithredol, o'r gorffennol a'r presennol, yn aelodau gweithredol ac anweithredol; a holl staff y BBC yma a ledled y byd, dan arweiniad Tony Hall. Ni fu'r blynyddoedd diwethaf yn hawdd ond rydym yn dal yn gwbl ymrwymedig i ragoriaeth, yn cael ein hysbrydoli gan ein cenhadaeth a'i phosibiliadau, ac yn edrych ymlaen at ddyfodol y BBC o dan Siarter newydd.

**Y Fonesig Fiona Reynolds**
**Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol**
16 Mehefin 2016

## Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol a'i Bwyllgorau

| | Y Bwrdd Gweithredol | Y Pwyllgor Archwilio | | Y Pwyllgor Masnachu Teg | | Y Pwyllgor Enwebiadau | Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Aelod | Yn bresennol | Aelod | Yn bresennol | Aelod | Aelod | Yn bresennol |
| Nifer y cyfarfodydd ar gyfer y cyfnod | 12 | 5 | | 4 | | 2 | 6 | |
| **Cyfarwyddwyr gweithredol** | | | | | | | | |
| Tony Hall | 11 | | 4 | | | 2 | | 5 |
| Helen Boaden | 11 | | | | | | | |
| Anne Bulford | 12 | | 5 | | 4 | 2 | | 5 |
| Danny Cohen* | 4/7 | | | | | | | |
| Tim Davie | 11 | | | | | | | |
| James Harding | 10 | | | | | | | |
| James Purnell | 11 | | | | | | | |
| Peter Salmon** | 5/5 | | | | | | | |
| **Cyfarwyddwyr anweithredol** | | | | | | | | |
| Simon Burke | 11 | 5 | | | | | | |
| Nicholas Hytner*** | 5/8 | | | | | | | |
| Dharmash Mistry | 12 | 5 | | | | | 6 | |
| Alice Perkins | 11 | | | 4 | | | 5 | |
| Fiona Reynolds | 12 | 5 | | 4 | | 2 | 6 | |
| Howard Stringer | 10 | | | 1 | | 2 | | |

Nid yw'r tabl hwn yn cynnwys busnes a gynhaliwyd all-lein na chyfarfodydd diweddaru lle na chafodd unrhyw fusnes ffurfiol ei ystyried.

* Gadawodd Danny Cohen y BBC ar 20 Tachwedd 2015. Rhoddodd y gorau i fod yn aelod o'r Bwrdd Gweithredol ar 12 Tachwedd 2015.
** Ymunodd Peter Salmon â'r Bwrdd ar 13 Hydref 2015. Rhoddodd y gorau i fod yn aelod ar 1 Mawrth 2016.
***Gadawodd Nick Hytner y BBC ar 31 Rhagfyr 2015.

# Adroddiad llywodraethu

Mae a wnelo llywodraethu da ag arweinyddiaeth, atebolrwydd a bod yn agored.

## Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol y BBC

Diffinnir fframwaith llywodraethu corfforaethol y BBC yn ei Siarter Frenhinol a'r Cytundeb Fframwaith cysylltiedig. Mae'r Siarter a'r Cytundeb ar gael ar wefan Ymddiriedolaeth y BBC yn: bbc.co.uk/bbctrust/governance/regulatory_framework/charter_agreement/

Mae Siarter y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Gweithredol ystyried egwyddorion llywodraethu corfforaethol da a dderbynnir yn gyffredinol. Er nad yw'r BBC yn gwmni rhestredig, eto i gyd mae wedi dewis mabwysiadu arfer gorau a dilyn darpariaethau Rheolau Rhestru'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol a Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU 2014 y Cyngor Adrodd Ariannol, lle bo hynny'n briodol, er mwyn cyrraedd yr un safonau llywodraethu â chwmnïau a restrir ar farchnad stoc a reoleiddir gan yr UE.

Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi cydymffurfio â gofynion y Siarter ac wedi sicrhau cryn gydymffurfiaeth â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU. Mae nifer o elfennau o God Llywodraethu Corfforaethol y DU nad ydynt yn briodol i amgylchiadau'r BBC neu lle mae cydymffurfiaeth â Siarter neu Gytundeb y BBC yn drech na chydymffurfiaeth â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU. Mae hefyd ddau faes lle nad yw'r BBC wedi cydymffurfio'n llawn â gofynion penodol y Cod; nodir pob un o'r rhain isod.

**Meysydd o God Llywodraethu Corfforaethol y DU nad ydynt yn berthnasol i'r BBC:**

**Llunio cydnabyddiaeth (egwyddor D.1.1 o God Llywodraethu Corfforaethol y DU):** Mae'r BBC yn pennu lefelau cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol a ddylai fod yn ddigonol i ddenu, cadw a chymell cyfarwyddwyr o'r safon angenrheidiol i redeg y sefydliad yn llwyddiannus, yn unol â'r egwyddor hon. Fodd bynnag, o dan yr egwyddor hon mae'n rhaid hefyd gysoni cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol â'r syniad o wella gwerth i gyfranddalwyr drwy sicrhau bod elfennau o gydnabyddiaeth ar sail perfformiad yn gyfran sylweddol o gyfanswm y gydnabyddiaeth. Gan fod y BBC yn cael ei ariannu gan ffi'r drwydded a bod ganddo statws fel corfforaeth gyhoeddus, mae'r Bwrdd Gweithredol wedi penderfynu y dylai swm y gydnabyddiaeth amrywiadwy (neu gydnabyddiaeth ar sail perfformiad) y gall staff ei hennill yn y gwasanaeth cyhoeddus fod yn gyfyngedig. Ni roddir tâl amrywiadwy i unrhyw un o gyfarwyddwyr gweithredol Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC a rhoddwyd y gorau i dalu taliadau bonws. Mae Tim Davie yn cael elfen o gyflog ar sail perfformiad yn ei rôl fel Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide, sef is-gwmni masnachol o dan berchenogaeth lawn y BBC.

**Rhyngweithio â chyfranddalwyr (egwyddorion B.7.1, B.7.2, D.2.4 ac adran E o God Llywodraethu Corfforaethol y DU):** Nid yw'r BBC yn gwmni â chyfranddalwyr sy'n anelu at wneud elw ac felly mae darpariaethau sy'n ymwneud â rhyngweithio â chyfranddalwyr yn amherthnasol. O dan rai amgylchiadau, fodd bynnag, mae'n bosibl ystyried, drwy gyfatebiaeth, y ffordd y mae Ymddiriedolaeth y BBC yn ymgysylltu â thalwyr ffi'r drwydded. Nodir hyn yn arolwg ac asesiad yr Ymddiriedolaeth yn Rhan Un o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon hwn.

**Meysydd lle mae cydymffurfiaeth â Siarter y BBC yn drech na Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU:**

**Rhannu cyfrifoldebau rhwng y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr (egwyddor A.2.1 ac A.3.1 o God Llywodraethu Corfforaethol y DU):** Fel y caniatâ Siarter y BBC, Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol yw'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, sef prif swyddog gweithredol y BBC. Nid yw hyn yn cydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU sy'n gofyn am rannu cyfrifoldebau'n glir ar lefel pennaeth y cwmni rhwng y gwaith o redeg y Bwrdd a'r swyddog gweithredol sy'n gyfrifol am redeg busnes y cwmni. Ni ddylai fod gan unrhyw unigolyn bwerau dilyffethair i wneud penderfyniadau. Er bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn gweithredu fel Cadeirydd a Phrif Weithredwr Bwrdd Gweithredol y BBC, mae'r trosolwg strategol o'r Gorfforaeth gan Ymddiriedolaeth y BBC yn sicrhau nad oes gan unrhyw unigolyn bwerau dilyffethair.

**Gwerthuso'r Cadeirydd (egwyddor B6.3 o God Llywodraethu Corfforaethol y DU):** Caiff perfformiad Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, fel Cadeirydd y Bwrdd, ei werthuso gan Gadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC yn hytrach na'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol, fel sy'n ofynnol o dan God Llywodraethu Corfforaethol y DU.

**Aelodau'r Bwrdd (egwyddor B.1.2 o God Llywodraethu Corfforaethol y DU):** Mae Siarter y BBC yn ei gwneud yn ofynnol na all nifer y cyfarwyddwyr anweithredol fod yn llai na thraean ac na all fod yn hafal i neu'n fwy na hanner. Mae nifer y cyfarwyddwyr anweithredol yn llai na hanner nifer Aelodau'r Bwrdd, ond nid yw'n llai na thraean.

**Meysydd lle na chydymffurfir â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU:**

**Gwerthusiad allanol o'r Bwrdd (egwyddor B.6.2 o God Llywodraethu Corfforaethol y DU):** Yn 2013 cynhaliodd Ymddiriedolaeth y BBC a'r Bwrdd Gweithredol adolygiad helaeth o'i weithdrefnau llywodraethu a chyhoeddwyd y canlyniadau. Cynhaliodd y Bwrdd Gweithredol werthusiad mewnol o'i weithrediadau yn ystod 2014/15 hefyd. Fodd bynnag, cwblhawyd y gwerthusiad allanol diwethaf o'r Bwrdd yn 2009, ac felly nid o fewn y tair blynedd diwethaf fel sy'n ofynnol o dan God Llywodraethu Corfforaethol y DU. O ystyried y gweithgareddau yr ymgymerwyd â hwy yn ystod 2014/15, mae'r Bwrdd Gweithredol o'r farn nad yw diffyg cydymffurfiaeth yn y maes hwn wedi peryglu ansawdd y trefniadau llywodraethu a oedd ar waith yn ystod 2015/16 na'r ffordd y cyflawnwyd cyfrifoldebau'r Bwrdd Gweithredol.

## Cost cydymffurfio

Yn 2015/16, amcangyfrifwyd bod y BBC wedi mynd i gostau o £14.2 miliwn (2014/15: £11.7 miliwn) er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â phob darn o ddeddfwriaeth berthnasol. Mae hyn yn cynnwys ffi reoliadol flynyddol y BBC i Ofcom, sef £2.6 miliwn. Yn ystod y flwyddyn parhaodd nifer o ymholiadau, a gostiodd £0.9 miliwn yn ystod 2015/16 (2014/15: £1.2 miliwn).

## Bwrdd Gweithredol y BBC

Mae'r Bwrdd Gweithredol, ei is-bwyllgorau a grwpiau eraill y mae'n dirprwyo cyfrifoldebau iddynt yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau'r BBC ac am ei weithrediadau o ddydd i ddydd drwy'r sefydliad cyfan. Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol cyffredinol y BBC ac am oruchwylio gwaith y Bwrdd Gweithredol yn gyffredinol.

# Y Pwyllgor Enwebiadau

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i grwpiau rheoli eraill ac, yn unol â gofynion a darpariaethau'r Siarter, parhaodd Pwyllgorau canlynol y Bwrdd i weithredu y llynedd:

— Y Pwyllgor Archwilio

— Y Pwyllgor Masnachu Teg

— Y Pwyllgor Enwebiadau

— Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Nodir unrhyw ddirprwyaeth o'r Bwrdd Gweithredol yn rheolau sefydlog perthnasol pob Pwyllgor a phennir fframwaith adrodd ac adolygu. Gweler: bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/managementstructure/seniormanagement/subcom.html

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cyfarfod bob mis (heblaw am fis Awst) er y gelwir cyfarfodydd ychwanegol o'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn pan fydd angen. Mae cofnodion cryno o'r cyfarfodydd misol ar gael ar-lein yn: bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/managementstructure/seniormanagement/

## Sefydlu, perfformiad a datblygiad

Bydd pob cyfarwyddwr newydd yn cael rhaglen sefydlu yn cynnwys gweithdrefnau'r Bwrdd a chyfrifoldebau cyfarwyddwyr. Gall pob cyfarwyddwr gael cyngor annibynnol allanol yn ôl yr angen drwy Ysgrifennydd y Cwmni.

Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn asesu perfformiad gwasanaethau'r BBC yn ffurfiol yn erbyn telerau'r trwyddedau y mae'n eu rhoi ar gyfer pob un o wasanaethau'r BBC. Mae arolwg ac asesiad Ymddiriedolaeth y BBC ar gyfer 2015/16 ar gael yn Rhan Un o'r Adroddiad Blynyddol hwn.

Mae gan bob cyfarwyddwr gweithredol ei amcanion personol ac is-adrannol ei hun, a chaiff ei berfformiad yn eu herbyn ei adolygu gan ei reolwr llinell.

## Penodiadau i'r Bwrdd

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn goruchwylio'r broses o gynnig aelodau o'r Bwrdd. Gwneir penodiadau gan y Bwrdd Gweithredol, ac mae angen cymeradwyaeth Ymddiriedolaeth y BBC ar gyfer penodi aelodau anweithredol. Yr unig eithriad yw'r Cadeirydd, a benodir gan Ymddiriedolaeth y BBC. Mae aelodaeth o'r Pwyllgor Enwebiadau yn ddibynnol ar b'un a yw'n delio â phenodiadau aelodau gweithredol neu anweithredol.

Penodwyd Peter Salmon, Cyfarwyddwr BBC Studios, i'r Bwrdd Gweithredol, yn weithredol o 13 Hydref 2015; ymddiswyddodd o'r Bwrdd ar 1 Mawrth 2016 a gadawodd y BBC yn fuan ar ôl hynny.

Ar ôl cymeradwyaeth Ymddiriedolaeth y BBC, penododd y Pwyllgor Enwebiadau Nicholas Serota yn gyfarwyddwr anweithredol newydd; bydd hyn yn weithredol o 1 Awst 2016. Defnyddiwyd yr ymgynghorwyr chwilio allanol Egon Zehnder ar gyfer y penodiad hwn, ac nid oes gan y BBC unrhyw gysylltiad â'r cwmni.

# Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol

Mae angen i ni hefyd sicrhau bod strwythurau sefydliadol symlach a mwy effeithlon ar waith er mwyn helpu ein staff i gyflawni.

*Y Fonesig Fiona Reynolds*

## Datganiad Blynyddol Cadeirydd Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol

Mae'r BBC yn gweithredu mewn cyfnod o newidiadau enfawr. Mae rhywfaint o'r pwysau i newid yn dod o'r tu allan: mae'r amgylchedd darlledu yn mynd yn gynyddol gystadleuol, ac mae angen i ni ymateb yn gynyddol well i'r her ddigidol, gan ymgysylltu â'n cynulleidfaoedd a denu'r cyflogeion gorau sy'n meddu ar y sgiliau priodol ar gyfer y dyfodol. Daw rhywfaint ohono o'r tu mewn wrth i ni anelu at lefelau uwch fyth o greadigrwydd, effeithlonrwydd a symlder.

Yn unol â'r themâu hyn, rôl Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yw datblygu strategaethau ac arferion cydnabyddiaeth sy'n cefnogi ac yn llywio newidiadau priodol, ac sy'n ein helpu i ddenu a chadw'r uwch aelodau o staff sy'n meddu ar y sgiliau a'r rhinweddau sydd eu hangen arnom. Ar yr un pryd, rhaid i ni fod yn agored ac yn dryloyw i bob un o'n cynulleidfaoedd.

Mae ein nod i symleiddio'r BBC eisoes wedi arwain at ostyngiad yn nifer yr haenau rheoli ac wedi lleihau achosion o ddyblygu yn swyddi canolog y BBC. O ganlyniad i hyn, rydym ar y trywydd cywir i leihau nifer ein staff yn unol â'r targed o 1,000 o swyddi, gan arbed £50 miliwn y flwyddyn. Rydym hefyd wedi creu BBC Studios er mwyn hybu cynhyrchiant, ac wedi cyfuno ein swyddogaethau technoleg o dan un arweinydd gyda'r is-adran Dylunio a Pheirianneg newydd yn chwarae rhan arweiniol yn ein holl allbwn digidol.

Rydym wedi rhagori'n sylweddol ar y targedau a bennwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC i leihau nifer ein rheolwyr. Gostyngwyd cost cyflogau uwch reolwyr 40% ers i ni bennu'r nodau yn 2009, gyda bil cyflogau terfynol o £47.0 miliwn ym mis Mawrth 2016 o gymharu â £78.5 miliwn ar 1 Awst 2009. Yn 2009, roedd 640 o swyddi uwch reolwyr. Heddiw, ceir 361, sef gostyngiad o 43%. Collwyd 52 o'r swyddi hyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Rydym yn ymwybodol iawn bod angen i ni hefyd dalu digon i ddenu a chadw talent ac arweinwyr ysbrydoledig, ac rydym yn pryderu ei bod yn mynd yn gynyddol anodd i'r BBC gystadlu ym marchnad bresennol y cyfryngau sy'n prysur ehangu. Fel y disgrifia Tony Hall yn ei ragair i'r adroddiad hwn, yr her yn ystod cyfnod y Siarter nesaf yw creu BBC agored a nodedig ar gyfer oes y rhyngrwyd. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i ni ddenu, cadw a chymell pobl dalentog a all arwain y BBC gan ddangos gweledigaeth a sgiliau creadigol, technegol a phroffesiynol arloesol. Byddwn hefyd yn parhau â'r broses o greu strwythur sefydliadol symlach a mwy effeithlon er mwyn helpu ein staff i gyflawni.

Byddwn yn treulio gweddill 2016 yn paratoi ar gyfer y Siarter newydd, a bydd hyn yn cynnwys newidiadau sefydliadol a diwylliannol pellach. Rydym wedi cytuno â'r Ymddiriedolaeth i gyhoeddi strategaeth newydd ar gyfer gwobrwyo uwch aelodau o staff unwaith y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith hwn wedi'i gwblhau. Yn y cyfamser, rydym yn canolbwyntio ar barhau i roi'r strategaeth cyflogau a gwobrau bresennol ar waith, ac i gymell ein huwch aelodau o staff i gyflawni'r nodau uchelgeisiol a nodwyd gan y BBC yn ein gweledigaeth ar gyfer y Siarter.

**Y Fonesig Fiona Reynolds**
**Cadeirydd**
16 Mehefin 2016

Mae'r adroddiad hwn yn nodi polisi cydnabyddiaeth y BBC ac yn rhoi manylion am y gydnabyddiaeth flynyddol a dderbyniwyd gan aelodau staff y Bwrdd Gweithredol (y cyfarwyddwyr gweithredol) ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16. Fe'i paratowyd ar y sail bod gofynion Rheoliadau Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2013 a Rheolau Rhestru yn gymwys i'r BBC lle bynnag y bo'r darpariaethau datgelu hyn yn berthnasol. Archwiliwyd yr adrannau ar bensiynau a chydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan aelodau'r Bwrdd Gweithredol, a labelwyd fel eitemau a archwiliwyd, gan EY, archwilwyr statudol y BBC.

## Trosolwg

Gellir gweld y cyflawniadau sylweddol yn ein strategaeth Cyflogau Uwch Reolwyr yn ein perfformiad ar gyfer 2015/16 gyda gostyngiad o 9.7% o ran ein bil cyflogau Uwch Reolwyr a gostyngiadau o 12% o ran nifer yr uwch reolwyr yn ystod y flwyddyn. Cyflawnwyd y gostyngiadau hyn drwy gyfuno swyddi er mwyn sicrhau bod ein pobl orau yn ymestyn eu harbenigedd ar draws cyfrifoldebau newydd ac ehangach. Rydym hefyd yn parhau i fesur cymarebau rhwng cyflogau'r bwrdd ac enillion canolrifol cyflogeion a chafwyd gwelliant pellach yn hyn o beth eleni.

Ategir trefniadau rheoli costau drwy ddisgowntio cyflogau lle y bo'n bosibl a thrwy beidio â thalu bonysau i Uwch Reolwyr. Mae hyn yn heriol mewn marchnad gynyddol gystadleuol ar gyfer talent ac arweinwyr cryf yn y cyfryngau.

Bu newidiadau o ran strwythur ac aelodaeth ein Bwrdd Gweithredol. Ychwanegwyd swydd Cyfarwyddwr, BBC Studios at y Bwrdd gyda Peter Salmon yn ymgymryd â'r rôl i ddechrau. Mae Mark Linsey bellach wedi cymryd yr awenau, ac ymunodd â'r Bwrdd ym mis Ebrill 2016. Ymhlith y newidiadau eraill, gadawodd Danny Cohen, Cyfarwyddwr Teledu, y Bwrdd a gadawodd Nick Hytner ei swydd fel cyfarwyddwr anweithredol ym mis Rhagfyr 2015, ar ôl gwneud cyfraniad sylweddol i'r BBC. Daw Syr Nicholas Serota, sy'n ymuno â'r Bwrdd fel cyfarwyddwr anweithredol o fis Awst 2016, â chyfoeth o brofiad ym myd y celfyddydau.

## Polisi cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol

### 1. Pwyllgorau Cydnabyddiaeth: cyfansoddiad a gweithrediad

Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn gyfrifol am bennu'r strategaeth ar gydnabyddiaeth i'r Bwrdd Gweithredol ac am bob agwedd ar gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r cyfarwyddwyr anweithredol.

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am weithredu'r strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer pob un o aelodau gweithredol y Bwrdd Gweithredol, ac eithrio'r Cyfarwyddwr Cyffredinol. Mae ei aelodau yn gyfarwyddwyr anweithredol: Y Fonesig Fiona Reynolds (Cadeirydd), Alice Perkins a Dharmash Mistry.

Gan gydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol 2012 y DU, mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn cael cyngor arbenigol gan gynghorwyr proffesiynol allanol ar rai materion, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud ag arfer y farchnad. Yn ystod y flwyddyn, ceir cyngor annibynnol gan Willis Towers Watson ar faterion sy'n ymwneud â chymharu cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol yn y farchnad.

Sefydlwyd Pwyllgor Cydnabyddiaeth yr Uwch Reolwyr gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol ym mis Medi 2012, gan ei wneud yn gyfrifol am gysoni anghenion gweithredol y BBC â'r fframwaith strategol a bennwyd gan yr Ymddiriedolaeth ac a weithredwyd gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol.

### 2. Aelodaeth a strwythur y Bwrdd Gweithredol

Ar 31 Mawrth 2016, roedd y Bwrdd Gweithredol yn cynnwys chwe chyfarwyddwr gweithredol a oedd wedi'u cyflogi yn y gwasanaeth cyhoeddus; Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide a gyflogir gan BBC Worldwide; a chwe chyfarwyddwr anweithredol. Ceir manylion aelodaeth a chydnabyddiaeth lawn y Bwrdd Gweithredol yn yr adroddiad hwn.

### 3. Elfennau o gyflog cyfarwyddwyr gweithredol

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn ymrwymedig i bennu cyflog priodol i gyfarwyddwyr gweithredol sy'n denu, yn cymell ac yn cadw'r bobl orau i arwain y BBC ac yn sicrhau gwerth i dalwyr ffi'r drwydded. Dylai strategaeth cyflog bwrdd gweithredol y BBC fod yn deg, yn dryloyw ac yn gyson yn gyffredinol â'r ffordd yr ymdrinnir â chyflog i bob cyflogai yn y BBC. Parheir i wneud cynnydd tuag at y nodau hyn, gan gynnwys lleihau fesul cam y gwahaniaethau hanesyddol yn y ffordd yr ymdrinnir â chyflog a buddiannau rhwng uwch aelodau o staff ac aelodau eraill o staff.

Mae'r BBC yn cael adborth rheolaidd ynglŷn â chyflog uwch aelodau o staff gan gyflogeion yn ystod cyd-drafodaethau cyflog blynyddol drwy'r undebau llafur a thrwy'r arolwg blynyddol o ymgysylltu â staff. Ystyrir yr adborth hwn wrth bennu'r strategaeth cyflog i'r cyfarwyddwyr gweithredol.

Wrth adolygu'r cyflog i'r cyfarwyddwyr gweithredol, mae'r Pwyllgor yn ystyried pob elfen o'r pecyn cydnabyddiaeth cyfan wedi'i ddadansoddi fel y'i nodir yn y tabl drosodd.

## Elfennau cyflog Cyfarwyddwyr Gweithredol

| Elfen | Diben a'i chysylltiad â'r strategaeth | Y ffordd y mae'n gweithredu | Y cyfle mwyaf |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol | Cysonir cyflog sylfaenol â chyflog canolrifol y farchnad ar gyfer cyfanswm y gydnabyddiaeth uniongyrchol (cyflog, bonws blynyddol a chymhelliad hirdymor blynyddol).<br>Caiff disgownt o 50-80% o gymharu â chyfanswm cydnabyddiaeth uniongyrchol yn y sector masnachol ei gymhwyso at rolau cyfarwyddwyr gweithredol. | Defnyddir tri ffactor i bennu lefel y cyflog sylfaenol a roddir i gyfarwyddwr gweithredol neu uwch reolwr:<br>— a fyddai'r gyfradd yn gyson â'r gyfradd wedi'i phennu'n is yn y farchnad ar gyfer y swydd?<br>— a yw perfformiad personol y cyfarwyddwr gweithredol yn cyfiawnhau lefel y cyflog sylfaenol?<br>— a yw'r lefel yn fforddiadwy i'r BBC ac a thybir nad yw'n ormodol? | Ni phennir unrhyw uchafswm cyflog nac uchafswm cynnydd. |
| Tâl amrywiadwy | Mae gan gyfarwyddwyr gweithredol a gyflogir gan fusnesau masnachol y BBC hawl gytundebol i gael taliad bonws blynyddol ar sail perfformiad a ariennir gan y busnes masnachol ac nid ffi'r drwydded. Mae'n cynnig gwobr am gyflawni nodau strategol byrdymor a thwf mewn elw. | Nid oes gan gyfarwyddwyr gweithredol yn y gwasanaeth cyhoeddus yr hawl i gael taliad bonws ar sail perfformiad mwyach.<br>Mae taliadau bonws cytundebol ymhlith busnesau masnachol y BBC yn amodol ar gyflawni prif elw cyffredinol i'w busnes. | Nid oes unrhyw gyfarwyddwr gweithredol yn y gwasanaeth cyhoeddus wedi cael taliad bonws ers 2008.<br>Yr uchafswm bonws sy'n daladwy i gyfarwyddwr gweithredol a gyflogir yn un o fusnesau masnachol y BBC yw 70% o'i gyflog lle mae'r bonws targed yn 50% o'i gyflog. |
| Buddiannau | Cynigir pensiynau yn unol â threfniadau pensiwn pob cyflogai.<br>Yn ogystal â phensiynau, y prif fuddiannau cytundebol eraill yw aswiriant bywyd. | Gall cyfarwyddwyr ddewis ymuno â'r cynllun cyfraniadau diffiniedig, LifePlan.<br>Mae cynllun buddiannau diffiniedig y BBC wedi'i gau i staff newydd sy'n ymuno. | Mae'r polisi cyfredol yn darparu cynllun cyfraniadau diffiniedig heb gap cyflog, ac uchafswm cyfraniad o 10% o gyflog gan y cyflogwr.<br>Mae aelodau presennol o gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig yn destun cap ar lefel yr uchafswm cyflog ar gyfer eu cynllun pensiwn neu'n destun cap mewn twf mewn cyflog pensiynadwy.<br>Darperir aswiriant bywyd yn achos marwolaeth mewn swydd o ddwywaith eu cyflog sylfaenol i gyfarwyddwyr gweithredol.<br>Darperir aswiriant bywyd yn achos marwolaeth mewn swydd o bedair gwaith eu cyflog sylfaenol i gyflogeion sy'n aelodau o Gynllun Pensiwn y BBC neu LifePlan (cynllun cyfraniadau diffiniedig y BBC). |

| Elfen | Diben a'i chysylltiad â'r strategaeth | Y ffordd y mae'n gweithredu | Y cyfle mwyaf |
|---|---|---|---|
| Buddiannau | Ym mis Ebrill 2012, dilëwyd budd y lwfans car i bob cyfarwyddwr gweithredol ac uwch reolwr newydd gan y BBC er mwyn sicrhau bod y polisi yn y dyfodol yn gyson â threfniadau i holl gyflogeion y BBC. | Mae'r cyfarwyddwyr gweithredol a oedd eisoes yn cael lwfans car wedi'i gadw.<br>Y cyfarwyddwyr gweithredol a gafodd lwfans car yn 2015/16 oedd: Helen Boaden, Danny Cohen a Peter Salmon. Caiff y lwfans car ei rewi pan gaiff unigolyn ei ddyrchafu i'r Bwrdd Gweithredol.<br>Mae gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol hawl i gael car â gyrrwr ond nid oes ganddo hawl i lwfans car personol na lwfans tanwydd.<br>Yn ystod 2015/16, bu car â gyrrwr ar gael i'w rannu rhwng yr holl gyfarwyddwyr gweithredol eraill, a gaiff ei ddefnyddio hefyd gan Gadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC at ddibenion busnes. | Yr uchafswm budd lwfans car a gaiff unrhyw gyfarwyddwr gweithredol yw £12,900 y flwyddyn. Budd hanesyddol ydyw. |
| Buddiannau | Ym mis Ebrill 2011, dilëwyd budd gofal iechyd preifat i bob cyfarwyddwr gweithredol ac uwch reolwr newydd gan y BBC er mwyn sicrhau bod y polisi yn y dyfodol yn gyson â threfniadau i holl gyflogeion y BBC. | Mae'r cyfarwyddwyr gweithredol a oedd eisoes â hawl i gael yswiriant meddygol preifat wedi'i gadw.<br>Y cyfarwyddwyr gweithredol a ddewisodd gael yswiriant meddygol preifat yn 2015/16 oedd: Helen Boaden, Tim Davie, Peter Salmon a Danny Cohen. | Yr uchafswm yswiriant a gynigir yw yswiriant teuluol.<br>Budd hanesyddol ydyw. |
| Contractau cyflogaeth a diswyddo | Mae contractau cyflogaeth cyfarwyddwyr gweithredol yn cynnwys cyfnod rhybudd o 6 mis ar y mwyaf, ond gellir eu terfynu'n gynt am reswm penodol. | Nid oes hawl gytundebol i unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol os terfynir contract yn gynnar oni bai ei fod yn cael ei derfynu ar sail diswyddo. | Os caiff swydd cyfarwyddwr gweithredol ei dileu, mae ganddo hawl i gael taliadau sy'n hafal i fis y flwyddyn hyd at uchafswm taliad o £150,000. |
| Cydnabyddiaeth arall | Nid oes unrhyw hawl i unrhyw gydnabyddiaeth arall. | Ystyrir y risgiau i enw da'r BBC a chytunir ar lefel y taliad gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol ar sail achosion unigol. | Nid oes unrhyw uchafswm penodedig. |

**Pensiwn**

Mae cyfarwyddwyr gweithredol a ymunodd â'r BBC cyn 1 Rhagfyr 2010 yn gymwys i fod yn rhan o Gynllun Pensiwn y BBC (y Cynllun), sy'n darparu buddiannau pensiwn ar sail buddiannau diffiniedig. Mae cyfarwyddwyr gweithredol a ymunodd â'r BBC ar neu ar ôl 1 Rhagfyr 2010 yn gymwys i ymuno â LifePlan, sef trefniant cyfraniad diffiniedig y BBC. Mae'r BBC yn talu cyfraniadau cyfatebol i LifePlan am gyfraniadau cyflogeion rhwng 4% a 5%. Caiff cyfraniadau cyflogeion rhwng 6% a 7% eu cyfateb ynghyd ag 1% ychwanegol. Mae cyfraniadau cyflogeion o 8% neu fwy yn cael y cyfraniad cyflogwr uchaf o 10%. Nid oes unrhyw uchafswm cyflog pensiynadwy i'r rhai sy'n cyfrannu at LifePlan.

Caiff cyfarwyddwyr gweithredol sy'n penderfynu peidio ag ymuno â LifePlan neu nad ydynt eisoes yn aelod presennol o'r Cynllun, yn amodol ar fodloni'r meini prawf perthnasol, eu cofrestru'n awtomatig â'r Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST). Mae'r BBC a chyflogeion yn talu 1% o enillion cymwys i NEST ar hyn o bryd. Gall unigolion ddewis eithrio o hyn.

Caiff trefniadau pensiwn cyfarwyddwyr gweithredol eu hadolygu a'u diwygio mewn ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth neu ddatblygiadau tebyg.

Rhoddir nodweddion trefniadau pensiwn y BBC y mae ein Cyfarwyddwyr Gweithredol yn rhan ohonynt ochr yn ochr â chyflogeion eraill y BBC yn y tabl isod.

Mae manylion Cynllun Pensiwn y BBC ar gael yn: bbc.co.uk/mypension/

| Cynllun | 'Hen' gynllun buddiannau diffiniedig | Cynllun 'newydd' buddiannau diffiniedig | CAB 2006 buddiannau diffiniedig | CAB 2011 buddiannau diffiniedig | LifePlan cyfraniadau diffiniedig | Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST) cyfraniadau diffiniedig (trefniant cofrestru awtomatig) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyddiad y caewyd | 30 Medi 1996 | 31 Hydref 2006 | 30 Tachwedd 2010 | 1 Ionawr 2012 | Yn agored i bob cyflogai cymwys | Yn agored i bob cyflogai cymwys |
| Croniad | 60fed croniad | 60fed croniad | 1.67% o groniad wedi'i addasu yn unol â chwyddiant | 1.67% o groniad wedi'i addasu yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr | Bydd y BBC yn cyfrannu uchafswm o 10% o gyflog os bydd cyflogai yn cyfrannu 8% gyda graddfa symud is | Bydd y BBC yn cyfrannu 1% o enillion cymwys |
| Cyflog | Pensiynadwy terfynol | Pensiynadwy terfynol | Enillion wedi'u hailbrisio cyfartaledd gyrfa | Enillion wedi'u hailbrisio cyfartaledd gyrfa | | |
| Oedran pensiynadwy arferol | 60 | 60 | 65 | 65 | Dd/G | Dd/G |
| Cap enillion | Dyddiad ymuno cyn 1 Mehefin 1989, heb ei gapio, wedi'i gapio fel arall £149,400 | Wedi'i gapio ar £149,400 | Wedi'i gapio ar £149,400 | Wedi'i gapio ar £144,000 | Heb ei gapio | Isafswm enillion £5,824 y.f. Uchafswm enillion £42,384 y.f. |
| Twf mewn cyflog pensiynadwy cyn i'r cap ar enillion gael ei gymhwyso | Wedi'i gyfyngu ar 1% y.f. | Wedi'i gyfyngu ar 1% y.f. | Wedi'i gyfyngu ar 1% y.f. | Dim cyfyngiad | Dd/G | Dd/G |
| Cyfraniad y cyflogai (% o gyflog pensiynadwy) | 7.5% | 7.5% | 4% | 6% | Isafswm cyfraniad y cyflogai yw 4% | 1% o enillion cymwys |

### 4. Sut mae'r polisi cyflog ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol yn y gwasanaeth cyhoeddus yn wahanol i'r polisi ar gyfer pob un o gyflogeion eraill y BBC?

Ni thalwyd bonysau i gyfarwyddwyr gweithredol yn y gwasanaeth cyhoeddus ers 2008 ac mae'r BBC yn symud i ffwrdd o'r strwythur buddiannau dwy haen blaenorol drwy roi'r gorau i gynnig yswiriant meddygol preifat a lwfansau car yn raddol. Ni chafodd unrhyw gyfarwyddwr gweithredol nac uwch reolwr newydd y buddiannau hyn ers mis Awst 2011 a mis Ebrill 2012 yn y drefn honno. Mae'r newidiadau hyn wedi symleiddio trefniadau cyflog ymhlith cyflogeion ac wedi'u gwneud yn gyfartal. Gall pob aelod o staff ar bob lefel o'r sefydliad bellach brynu ystod lawn o fuddiannau o dan ein trefniadau buddiannau hyblyg.

Nid oes gan gyfarwyddwyr gweithredol nac uwch reolwyr yr hawl i gael yr adolygiad blynyddol o gyflog y cytunwyd arno â Chyd-gyngor Cenedlaethol yr Undebau Llafur ac nid oes ganddynt hawl awtomatig i gael unrhyw fath o godiad blynyddol na thaliad datblygiad. Cymhwyswyd cynnydd costau byw o 2.5% at y boblogaeth o uwch reolwyr, heb gynnwys y Bwrdd Gweithredol, y Tîm Gweithredol a'r rheini sy'n ennill mwy na £150,000, ym mis Awst 2015. Roedd hyn yn unol â'r hyn a ddyfarnwyd i aelodau cymwys eraill o staff y BBC ac yn cydnabod yr effaith y mae penderfyniadau blaenorol i rewi cyflogau wedi'i chael ar gyflogau. Caiff cyflogau uwch aelodau o staff eu disgowntio yn erbyn cydnabyddiaeth swyddi cyfatebol mewn sefydliadau masnachol ac mae cydnabyddiaeth uwch aelodau o staff yn gynyddol gyson â sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n ymgymryd â gweithgareddau yn y sector masnachol.

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn defnyddio lluosrifau cyflog y BBC, cymarebau rhwng enillion canolrifol y Cyfarwyddwr Cyffredinol a chyfarwyddwyr gweithredol ac enillion canolrifol y BBC, fel cap er mwyn sicrhau bod y BBC yn parhau i leihau cydnabyddiaeth i gyfarwyddwyr gweithredol o'i chymharu â chydnabyddiaeth aelodau eraill o staff.

### 5. Strategaeth a Pholisi Cyflog y Bwrdd Gweithredol ar gyfer 2015/16 – symud tuag at fwy o gysondeb a thryloywder

Drwy gydol 2015/16, aeth Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol ati i reoli a lleihau nifer yr uwch reolwyr a'u cyflog drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Strategaeth Cyflog Bwrdd Gweithredol ac Uwch Reolwyr y BBC. Cytunwyd ar hyn â'r Ymddiriedolaeth ym mis Gorffennaf 2011 gyda'r nod o gyflawni'r targedau erbyn diwedd 2015. Ers mis Ionawr 2012, gostyngodd nifer uwch reolwyr y BBC 123 yn erbyn targed o tua 70 a gostyngodd y costau cysylltiedig £10.37 miliwn yn erbyn targed o tua £9 miliwn.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi lleihau bil cyflogau'r bwrdd gweithredol a'n huwch reolwyr 9.7% neu £4.5 miliwn ac mae nifer yr uwch reolwyr wedi adlewyrchu hyn, gyda gostyngiad o 12% neu 52 o aelodau o staff ers mis Mawrth 2015.

Mae'r BBC yn parhau â'r arfer o bennu cyflog cyfarwyddwyr gweithredol y BBC yn is na chyflogau yn y sector masnachol ac mae wedi parhau i rewi cyflog cyfarwyddwyr gweithredol. Mae'r disgownt y cytunwyd arno yn parhau i fod rhwng 50% ac 80% yn is na chymariaethau yn y sector masnachol. Er mwyn sicrhau bod lefelau cyflog yn gyson â'r strategaeth y cytunwyd arni mae'r pwyllgor yn cael ac yn adolygu data ar gyflogau yn y farchnad allanol drwy gynghorydd annibynnol. Cyflwynwyd y wybodaeth hon i'r Ymddiriedolaeth a rhoddodd sicrwydd ein bod yn parhau i gyflawni'r polisi. Ar gyfartaledd, rydym yn disgowntio 68% ar gyfer ein cyfarwyddwyr gweithredol yn y gwasanaeth cyhoeddus yn erbyn swyddi gweithredol cymaradwy yn y sector masnachol. Mae'r disgownt hwn yn adlewyrchu'r symiau ychwanegol sylweddol o dâl amrywiadwy (gan gynnwys taliadau bonws a chymhellion hirdymor) a ddarperir yn y sector masnachol nad ydynt ar gael i gyfarwyddwyr gweithredol sy'n gweithio i wasanaeth cyhoeddus y BBC.

Roedd strategaeth cyflogau 2011 hefyd yn canolbwyntio ar leihau nifer y swyddi uwch reolwyr ar gyflogau uwch h.y. y rheini ar gyflog o £150,000 neu fwy, 20% o 90 i 72. Mae addasu'r mesur cyflog targed ar gyfer 2011, sef £150,000, ar gyfer cysoni â chwyddiant a buddiannau yn cynnig lefel o £170,000, ac ar y lefel hon, rydym wedi cyrraedd y targed, gyda 61 o uwch reolwyr yn cael cyflog uwchlaw'r lefel hon.

#### Cyflawni'r strategaeth yn 2016/17

Bydd Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn parhau i ystyried pob penodiad posibl ar gyfer cyfarwyddwr gweithredol a phob achos posibl o wneud taliad diswyddo er mwyn sicrhau cysondeb â pholisi a strategaeth y BBC. Bydd y gwaith o fonitro cyflog a niferoedd uwch reolwyr yn parhau. Caiff strategaeth gydnabyddiaeth newydd ei datblygu pan ddaw'r rhaglen ailstrwythuro bresennol i ben.

### 6. Ystyried barn Ymddiriedolaeth y BBC

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn ymgynghori â'r Ymddiriedolaeth ar bob mater sy'n ymwneud â'r strategaeth cyflog cyfarwyddwyr gweithredol er mwyn sicrhau ei bod yn gyson â disgwyliadau talwyr ffi'r drwydded. Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Ymddiriedolaeth gan amlinellu cynnydd yn erbyn ein strategaeth ac mae'n gofyn am adborth gan yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad sicrwydd blynyddol (sy'n cwmpasu cyflog, buddiannau a thelerau ac amodau cyfarwyddwyr gweithredol) i'r Ymddiriedolaeth ei ystyried a rhoi adborth arno. Nodwyd na fu unrhyw godiad cyflog 'mewn rôl' i gyfarwyddwyr gweithredol a bod y disgownt yn erbyn cydnabyddiaeth cystadleuwyr yn y sector masnachol o fewn yr amrediad y cytunwyd arno gan yr Ymddiriedolaeth.

# Adroddiad blynyddol ar gydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol

## Cydnabyddiaeth flynyddol y Bwrdd Gweithredol – manylion am gydnabyddiaeth a dderbyniwyd (wedi'i harchwilio)

Mae Tabl 1 yn rhoi manylion llawn y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan holl aelodau'r Bwrdd Gweithredol a chyfanswm cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr ar gyfer 2015/16 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Tabl 1: Cydnabyddiaeth a dderbyniwyd

| | 2015/16 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ffi/cyflog sylfaenol £000 (Nodyn 2) | Buddiannau trethadwy £000 (Nodyn 3) | Cydnabyddiaeth ar sail perfformiad £000 (Nodyn 4) | Iawndal am golli swydd £000 | Ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn £000 (Nodyn 5) | Cyfanswm cydnabyddiaeth £000 |
| Cyfarwyddwyr gweithredol | | | | | | |
| *Cyfarwyddwyr gweithredol ar 31 Mawrth 2016* | | | | | | |
| Tony Hall | 450 | 15 | – | – | – | 465 |
| Helen Boaden | 340 | 15 | – | – | 40 | 395 |
| Anne Bulford | 395 | – | – | – | – | 395 |
| Tim Davie (Nodyn 1) | 400 | 2 | 224 | – | 38 | 664 |
| James Harding | 340 | – | – | – | 34 | 374 |
| James Purnell | 295 | – | – | – | 30 | 325 |
| **Cyfanswm y cyfarwyddwyr gweithredol ar 31 Mawrth 2016** | **2,220** | **32** | **224** | **–** | **142** | **2,618** |
| *Cyn-gyfarwyddwyr gweithredol a oedd yn aelodau o'r Bwrdd Gweithredol yn 2015/16* | | | | | | |
| Peter Salmon | 146 | 6 | – | – | 10 | 162 |
| Danny Cohen | 172 | 4 | – | – | 27 | 203 |
| ***Cyfanswm y cyn-gyfarwyddwyr gweithredol a oedd yn aelodau o'r Bwrdd Gweithredol yn 2015/16*** | **318** | **10** | **–** | **–** | **37** | **365** |
| **Cyfanswm cyfarwyddwyr gweithredol** | **2,538** | **42** | **224** | **–** | **179** | **2,983** |
| Cyfarwyddwyr anweithredol | | | | | | |
| *Cyfarwyddwyr anweithredol ar 31 Mawrth 2016* | | | | | | |
| Simon Burke | 37 | – | – | – | – | 37 |
| Dharmash Mistry | 33 | – | – | – | – | 33 |
| Alice Perkins | 33 | – | – | – | – | 33 |
| Y Fonesig Fiona Reynolds | 47 | – | – | – | – | 47 |
| Howard Stringer | 33 | – | – | – | – | 33 |
| **Cyfanswm y cyfarwyddwyr anweithredol ar 31 Mawrth 2016** | **183** | **–** | **–** | **–** | **–** | **183** |
| *Cyn-gyfarwyddwyr anweithredol a oedd yn aelodau o'r Bwrdd Gweithredol yn 2015/16* | | | | | | |
| Nicholas Hytner | 25 | – | – | – | – | 25 |
| ***Cyfanswm cyn-gyfarwyddwyr anweithredol a oedd yn aelodau o'r Bwrdd Gweithredol yn 2015/16*** | **25** | **–** | **–** | **–** | **–** | **25** |
| *Cyn-gyfarwyddwyr anweithredol a oedd yn aelodau o'r Bwrdd Gweithredol cyn 2015/16* | | | | | | |
| ***Cyfanswm cyn-gyfarwyddwyr anweithredol a oedd yn aelodau o'r Bwrdd Gweithredol cyn 2015/16*** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** |
| **Cyfanswm cyfarwyddwyr anweithredol** | **208** | **–** | **–** | **–** | **–** | **208** |
| **Cyfanswm y Bwrdd Gweithredol** | **2,746** | **42** | **224** | **–** | **179** | **3,191** |
| **Cyfanswm yr Ymddiriedolwyr** | **528** | **6** | **–** | **–** | **–** | **534** |
| **Cyfanswm** | **3,274** | **48** | **224** | **–** | **179** | **3,725** |

| 2014/15 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffi/cyflog sylfaenol £000 | Buddiannau trethadwy £000 | Cydnabyddiaeth ar sail perfformiad £000 | Iawndal am golli swydd £000 | Ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn £000 | Cyfanswm cydnabyddiaeth £000 | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| 450 | 16 | – | – | – | 466 | Fe'i penodwyd ar 2 Ebrill 2013 |
| 340 | 15 | – | – | 65 | 420 | Penodiad cyfredol o 15 Ebrill 2013 |
| 395 | – | – | – | – | 395 | Fe'i penodwyd ar 21 Mehefin 2013 |
| 400 | 2 | 201 | – | 37 | 640 | Penodiad cyfredol o 1 Ebrill 2014 |
| 340 | – | – | – | 14 | 354 | Fe'i penodwyd ar 12 Awst 2013 |
| 295 | – | – | – | 30 | 325 | Fe'i penodwyd ar 19 Mawrth 2013 |
| **2,220** | **33** | **201** | **–** | **146** | **2,600** | |
| | | | | | | |
| – | – | – | – | – | – | Fe'i penodwyd ar 13 Hydref 2015 ac ymddiswyddodd ar 1 Mawrth 2016 |
| 320 | 10 | – | – | 42 | 372 | Fe'i penodwyd ar 7 Mai 2013 ac ymddiswyddodd ar 12 Tachwedd 2015 |
| **320** | **10** | – | – | **42** | **372** | |
| **2,540** | **43** | **201** | – | **188** | **2,972** | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| 37 | – | – | – | – | 37 | Fe'i penodwyd ar 1 Ionawr 2011, a daw'r tymor cyfredol i ben ar 31 Rhagfyr 2016 |
| 19 | – | – | – | – | 19 | Fe'i penodwyd ar 1 Medi 2014, a daw'r tymor i ben ar 31 Awst 2017 |
| 33 | – | – | – | – | 33 | Fe'i penodwyd ar 1 Ebrill 2014, a daw'r tymor i ben ar 31 Mawrth 2017 |
| 47 | – | – | – | – | 47 | Fe'i penodwyd ar 1 Ionawr 2012, a daw'r tymor cyfredol i ben ar 31 Rhagfyr 2016 |
| 33 | – | – | – | – | 33 | Fe'i penodwyd ar 1 Ionawr 2014, a daw'r tymor i ben ar 31 Rhagfyr 2016 |
| **169** | **–** | **–** | **–** | **–** | **169** | |
| | | | | | | |
| 33 | – | – | – | – | 33 | Fe'i penodwyd ar 1 Ebrill 2014 ac ymddiswyddodd ar 31 Rhagfyr 2015 |
| **33** | | | | | **33** | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| **202** | **–** | **–** | **–** | **–** | **202** | |
| **2,742** | **43** | **201** | **–** | **188** | **3,174** | |
| **471** | **–** | **–** | **–** | **–** | **471** | |
| **3,213** | **43** | **201** | **–** | **188** | **3,645** | |

**Nodiadau i Dabl 1: Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol**

### Nodyn 1: Tim Davie

Ariennir swydd Tim Davie fel Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide yn llwyr gan weithrediadau masnachol y BBC ac nid yw ffi'r drwydded yn talu amdani nac yn ei chymorthdalu.

### Nodyn 2: Ffi/Cyflog Sylfaenol – Pensiynau

Gwneir cyfraniadau pensiwn cyflogeion fel arfer drwy drefniant aberthu cyflog fel cyfraniad y cyflogwr, gyda gostyngiad cyfatebol mewn cyflog. Nid yw cyflogau sylfaenol cyfarwyddwyr gweithredol wedi'u haddasu i adlewyrchu effaith y cyflog a aberthir er mwyn ei gwneud yn bosibl i gymharu â blynyddoedd blaenorol cyn i'r trefniant aberthu cyflog gael ei gyflwyno.

### Nodyn 3: Buddiannau Trethadwy

Y Buddiannau Trethadwy yw: lwfans car, yswiriant meddygol preifat a threuliau trethadwy.

### Nodyn 4: Cydnabyddiaeth ar sail perfformiad

Mae gan Tim Davie fel Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide hawl gytundebol i fonws, fe'i hariennir yn llwyr gan weithrediadau masnachol y BBC ac nid yw ffi'r drwydded yn talu amdano nac yn ei gymorthdalu. Telir y bonws yn amodol ar gyflawni prif elw i'r busnes hwnnw. Roedd y gydnabyddiaeth ar sail perfformiad i Tim Davie yn ymwneud â symiau a enillwyd yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016.

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol wedi rhoi'r gorau i dalu taliadau bonws i bob cyfarwyddwr gweithredol yn y gwasanaeth cyhoeddus.

### Nodyn 5: Ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn

Yn gyffredinol, fe'i cyfrifir fel 20 gwaith y cynnydd yn y pensiwn cronedig dros y flwyddyn yn glir o chwyddiant, llai cyfraniadau buddiannau diffiniedig y cyfarwyddwr, ynghyd â chyfraniadau diffiniedig y cyflogwr.

**Tabl 2: Hawliadau buddiannau diffiniedig (wedi'u harchwilio)**

Dangosir manylion hawliadau buddiannau diffiniedig isod.

| **Cyfarwyddwyr gweithredol** | Oedran ar 31 Mawrth 2016 | Adran | Pensiwn cronedig 31 Mawrth 2016 (neu ymddeol/ gadael y Bwrdd os yw'n gynharach) £000 | Pensiwn cronedig 31 Mawrth 2015 (neu ymuno â'r Bwrdd os wedi hynny) £000 | Cyfraniadau buddiannau diffiniedig y cyfarwyddwr (drwy aberthu cyflog) 2015/16 £000 | Ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Helen Boaden | 60 | Hen Fuddiannau | 84 | 80 | 13 | 40 |
| Danny Cohen | 42 | CAB 2006 | 20 | 18 | 4 | 27 |
| Peter Salmon | 59 | Buddiannau Newydd | 23 | 22 | 5 | 10 |
| Tim Davie | 48 | CAB 2011 | 10 | 8 | 9 | 38 |

1 Daeth Tim Davie yn aelod gweithredol o adran CAB 2011 ar 1 Ionawr 2012 ac mae'n cadw pensiwn gohiriedig yn yr adran buddiannau newydd ar gyfer gwasanaeth hyd at y dyddiad hwnnw. Mae'r pensiwn cronedig a ddangosir yn ymwneud â CAB 2011 yn unig
2 Gwneir cyfraniadau buddiannau diffiniedig cyfarwyddwyr drwy drefniant aberthu cyflog fel cyfraniad gan y cyflogwr, gyda gostyngiad cyfatebol mewn cyflog. Nid yw cyflogau sylfaenol cyfarwyddwyr gweithredol wedi'u haddasu i adlewyrchu effaith y cyflog a aberthir er mwyn gallu cymharu tebyg at ei debyg â blynyddoedd blaenorol cyn i'r trefniant aberthu cyflog gael ei gyflwyno. Er mwyn osgoi cyfrif dwbl, caiff y cyfraniad aberthu cyflog ei drin fel cyfraniad gan y cyfarwyddwr er mwyn cyfrifo'r ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn
3 Cyfrifwyd y ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn ar sail pro rata er mwyn adlewyrchu'r cyfnod y bu pob cyfarwyddwr yn aelod o'r Bwrdd
4 Nid yw Tony Hall nac Anne Bulford yn cyfrannu at drefniant pensiwn y BBC ar hyn o bryd ac nid ydynt yn cael unrhyw daliadau yn lle buddiannau pensiwn mewn perthynas â'u cyfnod cyflogaeth presennol
5 Mae James Harding a James Purnell yn aelodau gweithredol o LifePlan. Yn 2015/16, cyfraniadau'r cyflogwr i'r cynllun hwn oedd £34,000 a £29,500 yn y drefn honno
6 Mae'r pensiwn cronedig a ddangosir ar gyfer Peter Salmon yn cynnwys cyfnod ei gyflogaeth bresennol cyn ei benodi yn gyfarwyddwr.

**Cyflog cymharol drwy'r BBC cyfan: sut mae cyflog cyfarwyddwyr gweithredol yn cymharu â chyflog cyflogeion eraill y BBC?**

Yn 2011, cytunodd y BBC o'i wirfodd i nodi lluosrif yr enillion uchaf o'i gymharu â'r enillion canolrifol fel y cynigiwyd yn adroddiad Hutton 'Fair Pay in the Public Sector'. Ers 2011, mae'r BBC wedi cyhoeddi'r ffigurau hyn yn flynyddol.

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o enillion y Cyfarwyddwr Cyffredinol o'u cymharu ag enillion canolrifol staff y BBC ac enillion cyfarwyddwyr gweithredol o'u cymharu â ffigurau enillion canolrifol ers 2011. Mae lluosrif y Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi lleihau eto o 10.7 i 10.4. (wedi'u harchwilio).

| | **2016** | 2015 | 2014 | 2013 | 2012 | 2011 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Enillion y Cyfarwyddwr Cyffredinol | **10.4** | 10.7 | 10.9 | 11.0 | 16.5 | 16.8 |
| Enillion canolrifol y cyfarwyddwyr gweithredol | **8.2** | 8.2 | 8.2 | 8.1 | 8.7 | 8.9 |

Mae'r cyfrifiad o enillion yn cynnwys: cyflog sylfaenol, bonws, lwfansau sy'n parhau, goramser a lwfansau eraill nad ydynt yn parhau. Cyfrifir ffigurau enillion canolrifol drwy ddefnyddio cyflogau blynyddol y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Bwrdd Gweithredol. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide yr ariennir ei swydd yn llwyr gan weithrediadau masnachol y BBC.

Mae'r tabl yn rhoi crynodeb o'r newidiadau i enillion arian parod y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer 2015/2016 o gymharu â'r newid yn enillion canolrifol y BBC cyfan dros yr un cyfnod. Mae hyn yn dangos cynnydd cadarnhaol mewn enillion canolrifol drwy'r BBC cyfan, ond yn dangos hefyd na fu unrhyw newid yn enillion y Cyfarwyddwr Cyffredinol.

| | **2015/16** | Newid ers 2014/15 |
|---|---|---|
| Enillion y Cyfarwyddwr Cyffredinol | **450** | 0.0% |
| Enillion canolrifol drwy'r BBC cyfan | **43** | 2.3% |

| | 2015/16 | | 2014/15 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Costau cyflog a lwfansau £m** | **Canran y bil cyflog** | Costau cyflog a lwfansau £m | Canran y bil cyflog |
| Enillion arian parod cyfarwyddwyr gweithredol* | **1.83** | **0.2%** | 2.16 | 0.2% |
| Enillion arian parod uwch reolwyr | **45.2** | **5.5%** | 51.53 | 5.9% |
| Enillion arian parod holl aelodau eraill staff y BBC | **773.82** | **94.3%** | 815.09 | 93.8% |
| Cyfanswm | **820.85** | | 868.78 | |

* Gan fod y data yn ymwneud â darlledu gwasanaeth cyhoeddus, nid yw Tim Davie, Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide wedi'i gynnwys.

### Taliadau diswyddo
Ni thalwyd unrhyw daliadau diswyddo i gyfarwyddwyr gweithredol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016.

### Newidiadau i gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol
Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, ni fu unrhyw newidiadau i gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol.

### Buddiannau allanol
Drwy gytundeb ymlaen llaw gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, gall aelodau gweithredol y Bwrdd Gweithredol ddal swyddi cyfarwyddwyr allanol â chydnabyddiaeth. Dylai prif ddiben swydd cyfarwyddwr allanol ymwneud â chefnogi datblygiad personol a datblygiad gyrfa a thrwy hynny gyfrannu at y BBC. Gall yr unigolyn gadw cydnabyddiaeth sy'n deillio o swyddi cyfarwyddwyr allanol. Gall cyfarwyddwyr gweithredol hefyd ddal swyddi na thelir cydnabyddiaeth mewn perthynas â hwy y tu allan i'r BBC. Ni chaniateir mwy nag un neu ddau ddiwrnod y mis i gyflawni'r holl ddyletswyddau allanol.

Yn ystod y flwyddyn, roedd gan un cyfarwyddwr gweithredol swydd cyfarwyddwr allanol arall â chydnabyddiaeth. Mae Anne Bulford yn aelod anweithredol o Bwyllgor Gweithredol Bwrdd y Fyddin. Caiff y ffi ar gyfer y swydd hon ei rhoi'n llawn ac yn uniongyrchol gan y Fyddin i Gronfa Les y Fyddin. Er mwyn gweld cofrestr buddiannau'r Bwrdd Gweithredol ewch i: bbc.co.uk/corporate2/insidethebbc/managementstructure/seniormanagement

### Busnesau masnachol y BBC
Mae gan y BBC staff sy'n cael eu cyflogi gan dri is-gwmni masnachol:

- BBC Worldwide
- BBC Studios and Post Production
- BBC Global News Ltd

Mae polisi cydnabyddiaeth yr is-gwmnïau yn cynnwys darparu bonws blynyddol cytundebol sydd ar gael i staff cymwys, gan gynnwys cyfarwyddwyr, ac mae'n amrywio rhwng endidau masnachol. Caiff cost lawn cyflog sylfaenol a'r bonws blynyddol eu hunanariannu gan refeniw masnachol pob is-gwmni ac ni chânt eu cymorthdalu drwy ffi'r drwydded.

Ni reolir cydnabyddiaeth yn yr is-gwmnïau masnachol gan bolisi cydnabyddiaeth y BBC ond mae'n amodol ar drefniadau llywodraethu a chymeradwyaeth y BBC.

### Cydnabyddiaeth amrywiadwy yn 2015/16 i BBC Worldwide
Amlinellir enillion Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide am y flwyddyn isod:

- yr isafswm – cyflog sylfaenol o £400,000, ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn o £38,000 a buddiannau trethadwy o £2,000
- targed: yr isafswm taliad ynghyd â bonws o 50% o'r cyflog sylfaenol (£200,000)
- uchafswm: yr isafswm taliad ynghyd â bonws o 70% o'r cyflog sylfaenol (£280,000)

# Adroddiad y Pwyllgor Archwilio



"Yn ystod ein holl weithgareddau rydym yn gwneud pob ymdrech i roi sylw i flaenoriaethau cynulleidfaoedd a gwerth am arian."

*Simon Burke*

## Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol

### Trosolwg

Drwy gydol fy nghyfnod fel Cadeirydd Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol, rwyf wedi ceisio cadw ffocws y Pwyllgor ar sicrhau bod y BBC yn rheoli ac yn cyfrif am arian talwyr ffi'r drwydded yn briodol, bod penderfyniadau rheoli yn seiliedig ar wybodaeth gadarn a chywir, bod ein hadroddiadau i'r byd allanol yn deg ac yn gyflawn, ac y gall y Gorfforaeth ddeall y risgiau allweddol y mae angen eu hystyried mewn amrywiaeth eang o benderfyniadau.

Eleni, ymhlith yr heriau pwysig i ni mae'r canlynol:

- monitro'r dirwedd risg wrth i drafodaethau ynglŷn â'r Siarter fynd rhagddynt
- sicrhau y caiff fframwaith rheolaeth da ei gynnal yng nghyd-destun newidiadau mawr ac eang yn y BBC
- cael y lefel gywir o sicrwydd ynglŷn â sawl cynnig neu fenter gymhleth
- gweithredu ar argymhellion rhai o'r adolygiadau proffil uchel a gynhaliwyd yn y BBC dros y 2-3 blynedd diwethaf

Cyfarfuom bum gwaith yn ystod y flwyddyn, gan ymdrin â materion strategol, pynciau rheolaidd ac eitemau ac iddynt ffocws penodol, yn ogystal â chymeradwyo datganiadau ariannol ac adolygu effeithiolrwydd yr archwilydd allanol.

Rydym yn cael cefnogaeth gadarn gan swyddogion gweithredol y BBC ar y lefel uchaf ac mae hyn wedi cael ei adlewyrchu yn safon y swyddogion gweithredol sy'n bresennol ac ansawdd uchel y trafodaethau. Mae'r agenda a'r papurau ar gyfer y pwyllgor wedi bod yn ystyriol ac yn dreiddgar, gan fanteisio ar wybodaeth y BBC ac arbenigwyr allanol.

Ymhlith y pynciau y mae'r Pwyllgor wedi rhoi sylw iddynt eleni y mae'r holl feysydd risg allweddol yn ogystal â rhai cyflwyniadau penodol, gan gynnwys:

- Dulliau rheoli risg ac amgylchedd rheolaeth BBC Worldwide
- Diogelu Gwybodaeth
- Rheoli mewn Argyfwng
- Casglu ffi'r drwydded

Rydym yn gwerthuso ein perfformiad bob blwyddyn ac ni nodwyd unrhyw broblemau sylweddol yn ystod yr adolygiad diwethaf. Yn ystod ein holl weithgareddau rydym yn gwneud pob ymdrech i roi sylw i flaenoriaethau cynulleidfaoedd a gwerth am arian. Rwyf yn fodlon bod y Pwyllgor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol yn ystod y flwyddyn.

**Simon Burke**
**Cadeirydd Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol**
16 Mehefin 2016

### Rôl

Prif ddiben y Pwyllgor yw adolygu a goruchwylio trefniadau llywodraethu corfforaethol y BBC yn enwedig o ran adroddiadau ariannol, rheolaeth fewnol a rheoli risg. Er mwyn cael y sicrwydd hwn, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am y canlynol:

- monitro ac adolygu uniondeb datganiadau ariannol y BBC a'r barnau adrodd arwyddocaol a geir ynddynt
- adolygu effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y BBC
- adolygu'r broses o nodi a rheoli risgiau strategol a gweithredol allweddol i'r BBC a chyflwyno adroddiadau arnynt
- adolygu'r prosesau sicrwydd sydd ar waith er mwyn profi a monitro'r ffordd y gweithredir rheolaethau a gynlluniwyd i reoli risgiau allweddol
- monitro ac adolygu effeithiolrwydd ac adnoddau'r swyddogaeth archwilio mewnol
- adolygu perfformiad yr archwilydd allanol, gan gynnwys annibyniaeth a gwrthrychedd yr archwilydd, cwmpas y gwaith, darparu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio, ffioedd, penodi ac aildendro'r contract archwilio allanol
- adolygu systemau'r BBC ar gyfer canfod ac atal twyll, llwgrwobrwyo a gwyngalchu arian

- adolygu trefniadau i staff y cwmni godi pryderon, yn gyfrinachol, ynglŷn ag achosion posibl o amhriodoldeb mewn perthynas â materion sy'n ymwneud ag adrodd ariannol, anghyfreithlondeb neu faterion eraill

Mae rheolau sefydlog y Pwyllgor yn amlinellu ein cyfrifoldebau'n fanylach. Caiff y rhain eu hadolygu yn rheolaidd a chawsant eu diweddaru ddiwethaf ym mis Medi 2015. Maent ar gael ar ein gwefan: downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/managementstructure/seniormanagement/subcommittee/pdf/executive_audit_committee_standing_orders_2013.pdf

### Aelodaeth

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol, y mae'n rhaid bod un ohonynt yn meddu ar brofiad ariannol diweddar a pherthnasol. Yr aelodau a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yw:

Simon Burke (Cadeirydd)
Fiona Reynolds
Dharmash Mistry

Rydym o'r farn bod gan Simon Burke, Cadeirydd y Pwyllgor, brofiad ariannol sylweddol, diweddar a pherthnasol. At hynny, mae pob aelod o'r pwyllgor yn unigolion sy'n dal neu sydd wedi dal uwch swyddi mewn sefydliadau o faint tebyg ac sy'n meddu ar y profiad a'r sgiliau i gyflawni eu cyfrifoldebau'n briodol. Lle y bo'n briodol, rydym yn ategu sgiliau a phrofiadau ein haelodau drwy gyngor gan weithwyr proffesiynol mewnol ac allanol – er enghraifft ar faterion megis datblygiadau ym maes adroddiadau ariannol.

Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, y Rheolwr Gyfarwyddwr, Cyllid a Gweithrediadau, Cwnsler Cyfreithiol y BBC, y Cyfarwyddwr Risg a Sicrwydd, ac uwch gynrychiolwyr o'r adran archwilio mewnol, rheoli risg, cyllid a'r archwilwyr allanol hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd. Rydym hefyd yn cael cyfarfodydd rheolaidd â'r archwilwyr mewnol a'r archwilwyr allanol yn breifat, heb aelodau o'r staff rheoli yn bresennol.

### Cyfarfodydd

Cynhaliwyd pum cyfarfod yn ystod 2015/16, ar adegau allweddol yn y calendr adrodd ac archwilio.

Mae'r cofnodion o'n cyfarfodydd ar gael i'r Bwrdd Gweithredol ac i Ymddiriedolaeth y BBC. At hynny, mae Cadeirydd ein pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd ar ôl pob cyfarfod ar unrhyw faterion lle mae angen cymryd camau neu wella perfformiad. Rydym hefyd yn cyflwyno adroddiad ffurfiol i'r Bwrdd bob blwyddyn ac yn rhoi ein barn ar uniondeb y datganiadau ariannol cyn i'r Adroddiad Blynyddol gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd cyfan.

Treuliwyd amser ar y meysydd canlynol:

### Uniondeb adroddiadau ariannol

Adolygwyd uniondeb datganiadau ariannol y BBC:

- drwy drafodaethau â rheolwyr a'r archwilydd allanol nodwyd gennym risgiau allweddol o ran camddatganiadau yn natganiadau ariannol y BBC, gan gynnwys y meysydd hynny lle roedd angen llunio barn ariannol arwyddocaol ac sydd wedi dylanwadu ar y datganiadau ariannol
- trafodwyd y risgiau hyn gyda'r archwilydd pan adolygwyd a chytunwyd ar gynllun archwilio'r archwilwyr allanol gennym a hefyd ar ddiwedd yr archwiliad o'r datganiadau ariannol
- gwnaethom adolygu, trafod a herio papurau manwl a gyflwynwyd gan reolwyr ar y meysydd hynny lle mae angen llunio barn ariannol arwyddocaol, gan ystyried barn yr archwilydd

Nodwn isod sut y gwnaethom fodloni ein hunain yr aed i'r afael yn briodol â'r meysydd allweddol lle mae angen llunio barn.

| Maes llunio barn | Ein hymateb |
|---|---|
| **Cynllun pensiwn – tybiaethau sy'n effeithio ar y diffyg pensiwn**<br>Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys diffyg sylweddol o £1,010.7 miliwn ar y fantolen ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig y BBC.<br>Mae'n ofynnol llunio barn ynglŷn â'r tybiaethau sylfaenol a ddefnyddiwyd gan yr actiwarïaid wrth gyfrifo diffyg y pensiwn. Gall newidiadau yn y tybiaethau hyn arwain at newid mawr yn y ffigurau terfynol a ddatgelir. | Cawsom gyngor gan actiwarïaid annibynnol ynglŷn â phriodoldeb y tybiaethau a ddefnyddiwyd, gan gynnwys sut mae'r rhain yn cymharu â'r rhai a ddefnyddir gan sefydliadau eraill. Canolbwyntiwyd yn benodol ar y tybiaethau a ddefnyddiwyd o ran cyfraddau disgowntio, cyfraddau chwyddiant a disgwyliad marwolaethau/oes a chafwyd dealltwriaeth o'r ffordd y byddai newidiadau yn y tybiaethau hyn yn effeithio ar y datganiadau ariannol. Ystyriwyd hefyd unrhyw symudiadau yn y rhain o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Ystyriwyd barn yr archwilwyr allanol ar y tybiaethau a ddefnyddiwyd.<br>Rydym yn fodlon bod y tybiaethau a ddefnyddiwyd yn y datganiadau ariannol yn rhesymol, yn briodol i'r BBC ac yn cael eu cefnogi gan arbenigwyr actiwaraidd annibynnol. |
| **Eiddo – triniaeth gyfrifyddu adeiladau'r BBC**<br>Mae'r BBC yn dal portffolio eiddo sylweddol, sy'n parhau i gael ei resymoli er mwyn lleihau costau. Mae'r ystad yn cynnwys eiddo rhydd-ddaliadol yn ogystal ag eiddo a ddelir o dan brydlesau cyllid a phrydlesau gweithredu. Mae adeiladau sydd wedi cael eu his-osod neu sydd ar gael i'w his-osod wedi'u dosbarthu'n eiddo buddsoddi. Mae angen llunio barn ynglŷn â bwriadau ar gyfer adeiladau gwag yn y dyfodol a therfynau amser cysylltiedig. Mae hyn yn effeithio ar driniaeth gyfrifyddu a gwerth cario'r eiddo ar y fantolen. | Adolygwyd adroddiadau manwl gan reolwyr a esboniodd y driniaeth ar gyfer yr adeiladau pwysicaf, gan gynnwys y terfynau amser a ragwelir ar gyfer gweithgarwch yn y dyfodol a'r rhesymeg dros y driniaeth.<br>Ystyriwyd hefyd farn yr archwilwyr ar y driniaeth gyfrifyddu ar gyfer yr eiddo hyn. Rydym yn fodlon bod y ffordd y caiff adeiladau hyn eu trin yn y datganiadau ariannol yn gyson â bwriad rheolwyr ac yn unol â safonau cyfrifyddu a dderbynnir. |

| Maes llunio barn | Ein hymateb |
|---|---|
| **Prosiectau – cyfalafu/lleihad yng ngwerth prosiectau cyfalaf**<br>Mae'r BBC yn ymgymryd â sawl prosiect cyfalaf ar unrhyw adeg benodol. Os nad oes modd cwblhau prosiect cyfalaf perthnasol ar amser, neu os na fydd y BBC yn cael budd ohono yn y dyfodol, gallai hyn ysgogi tâl lleihad mewn gwerth.<br>Caiff penderfyniadau ynghylch a yw'n briodol cyfalafu costau prosiect eu gwneud yn unol â'r safonau cyfrifyddu cyfredol. | Adolygwyd adroddiadau gan reolwyr a esboniodd statws prosiectau cyfalaf mawr a'r ffordd yr aseswyd p'un a oedd angen tâl lleihad mewn gwerth ai peidio. Ystyriwyd hefyd farn yr archwilwyr.<br>Rydym yn fodlon ar y ffordd y cafodd costau prosiect eu trin, a'r systemau sylfaenol sy'n cofnodi ac yn monitro'r rhain, ac yn cael sicrwydd o waith archwilwyr allanol a mewnol yn y maes hwn. |
| **Cydnabod refeniw**<br>Mae risg ariannol annatod yn gysylltiedig â chydnabod refeniw sy'n ymwneud ag amseriad cydnabod incwm. Mae natur y risg yn amrywio rhwng incwm ffi'r drwydded yn y gwasanaethau cyhoeddus a'r incwm masnachol. Yn y naill achos a'r llall, mae'r risg yn gysylltiedig â thorbwynt diwedd y flwyddyn. | Rydym o'r farn y dylai systemau rheolaeth ariannol presennol y BBC sicrhau y caiff incwm ei drin yn briodol yn y datganiadau ariannol. Rydym yn hyderus bod rheolwyr yn deall y risgiau yn y maes hwn ac wedi rhoi rheolaethau addas ar waith.<br>Rydym wedi trafod canfyddiadau a barn yr archwilwyr allanol ac rydym hefyd yn dibynnu ar waith archwilwyr mewnol yn y maes hwn. Rydym yn fodlon bod y systemau yn gweithio yn ôl y bwriad a'u bod yn destun prosesau craffu addas. |
| **Darpariaethau a chroniadau**<br>Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys £26.7 miliwn fel rhan o raglen ailstrwythuro'r BBC a £37.2 miliwn mewn perthynas â dadfeiliadau eiddo. Mae barnau yn y meysydd hyn yn ymwneud yn bennaf ag amseriad cydnabod y darpariaethau hyn a'r symiau i'w cydnabod.<br>Mae darpariaethau eraill llai arwyddocaol gwerth £43.1 miliwn i gyd yn gofyn am lunio barn ynglŷn â'r tybiaethau a ddefnyddiwyd i fesur amlygiad y BBC i hawliadau gan wahanol bartïon, a pha mor debygol ydyw y bydd yr hawliadau hynny yn llwyddo. | Adolygwyd a thrafodwyd lefel y darpariaethau gyda rheolwyr. Roedd hyn yn cynnwys ystyried darpariaethau newydd ac unrhyw ddarpariaethau presennol a gafodd eu rhyddhau a'u defnyddio. Cadarnhaodd y rheolwyr eu bod wedi defnyddio dull cyson o gydnabod a rhyddhau darpariaethau ym mhob rhan o Grŵp y BBC. Ystyriwyd hefyd farn yr archwilwyr allanol mewn perthynas â darpariaethau a datgeliadau cysylltiedig yn y cyfrifon. Daethom i'r casgliad ein bod yn fodlon ar lefel y darpariaethau a gariwyd ar 31 Mawrth 2016 a'r hyn a ddatgelir mewn perthynas â'r darpariaethau hynny yn y datganiadau ariannol. |
| **Trwyddedau gwasanaeth – torbwynt costau a dyrannu rhwng trwyddedau gwasanaeth**<br>Defnyddir trwyddedau gwasanaeth gan Ymddiriedolaeth y BBC er mwyn rheoleiddio gwasanaethau a ariennir gan ffi'r drwydded. Maent yn cynnwys cyllideb y cytunwyd arni ac a awdurdodwyd gyda throthwy goddefiant o 10%. Mae cyllidebau gwasanaeth yn cynnwys costau a ddaw o nifer o wahanol isadrannau ac felly mae angen llunio barn wrth ddyrannu costau uniongyrchol a gorbenion ymhlith yr amrywiol wasanaethau. | Adolygwyd yr alldro yn erbyn cyllidebau trwyddedau gwasanaeth. Cawsom gadarnhad gan reolwyr bod y sail dros ddyrannu costau yr un fath ag mewn blynyddoedd blaenorol.<br>Hefyd, ystyriwyd barn yr archwilwyr allanol a gynhaliodd brofion ar y ffordd y dyrannwyd costau, a oedd yn cynnwys profi'r torbwynt diwedd blwyddyn yn ogystal â phrofi'r tybiaethau a ddefnyddiwyd i ddyrannu gwariant ymhlith is-adrannau. Rydym yn fodlon bod y costau wedi cael eu dosbarthu'n briodol yn ystod y flwyddyn ac mewn ffordd sy'n gyson â blynyddoedd blaenorol. |

Cadarnhaodd rheolwyr nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau perthnasol na chamddatganiadau nad oeddent yn berthnasol a wnaed yn fwriadol er mwyn rhoi darlun penodol. Cawsom ein hysbysu gan yr archwilwyr am y camddatganiadau yr oeddent wedi dod ar eu traws wrth wneud eu gwaith ac rydym yn fodlon nad oes unrhyw symiau perthnasol nad ydynt wedi cael eu haddasu. Rydym yn cadarnhau ein bod yn fodlon bod yr archwilwyr allanol wedi cyflawni eu cyfrifoldebau gyda diwydrwydd ac amheuaeth broffesiynol.

Ar ôl adolygu'r cyflwyniadau a'r adroddiadau gan reolwyr ac ymgynghori â'r archwilwyr allanol lle y bo angen, rydym yn fodlon bod y datganiadau ariannol yn ymdrin yn briodol â'r barnau beirniadol a'r amcangyfrifon allweddol (o ran y symiau a nodwyd a'r datgeliadau). Rydym yn fodlon hefyd bod y tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i bennu gwerth asedau a rhwymedigaethau wedi bod yn destun prosesau craffu a herio priodol, a'u bod yn ddigon cadarn.

Adolygwyd datganiadau ariannol y Grŵp a'u lle yn yr Adroddid Blynyddol ehangach. Er mwyn cynorthwyo'r adolygiad hwn ystyriwyd adroddiadau gan reolwyr a chan yr archwilwyr mewnol ac allanol er mwyn ein helpu i ystyried:

— ansawdd a derbynioldeb polisïau cyfrifyddu, gan gynnwys cydymffurfiaeth â safonau cyfrifyddu
— cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a rheoleiddio
— eglurder datgeliadau a'u cydymffurfiaeth â gofynion adrodd perthnasol
— a yw'r Adroddiad Blynyddol yn ei gyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac a yw'n rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen i asesu perfformiad a strategaeth y BBC

## Effeithiolrwydd rheolaethau mewnol a'r fframwaith rheoli risg

### Sicrwydd rheolaethau mewnol

Adolygwyd effeithiolrwydd y system o reolaethau mewnol, gan ystyried canfyddiadau adroddiadau archwilwyr mewnol ac allanol a gweithgarwch arall ynglŷn â sicrwydd. Ystyriwyd nifer o feysydd penodol yn ystod y flwyddyn:

— adolygwyd y tueddiadau a'r themâu sy'n deillio o weithgarwch yr Archwilwyr Mewnol a holwyd cynrychiolwyr yr Archwilwyr Mewnol ynglŷn â chanlyniadau eu gwaith. Caiff crynodeb o bob archwiliad mewnol, gan gynnwys canfyddiadau allweddol a graddau (lle y bo'n briodol) ei adolygu gan y Pwyllgor
— caiff camau gweithredu sy'n deillio o weithgarwch annibynnol ynglŷn â sicrwydd, gan gynnwys gwaith archwilio mewnol ac allanol, gwaith SAG ac adolygiadau Ymddiriedolaeth y BBC eu monitro gan y Pwyllgor er mwyn sicrhau y cânt eu cwblhau. Mae hwn yn faes rydym yn rhoi ystyriaeth ddilynol iddo ym mhob cyfarfod er mwyn sicrhau yr ymdrinnir yn briodol â'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt o ran unrhyw wendidau a nodwyd
— o ran meysydd a ystyrir yn rhai proffil uchel neu sydd wedi cael cryn sylw megis trefniadau treth llawrydd a rheoli prosiectau mawr, rydym yn sicrhau bod gwaith dilynol a gwaith craffu addas ynglŷn â chwblhau unrhyw gynlluniau gwella neu gamau gweithredu y cytunwyd arnynt
— adolygwyd y cynlluniau sicrwydd a'r canfyddiadau ar gyfer gweithgarwch prosiectau mawr a newidiadau yn y BBC gennym. Mae hyn yn cynnwys sicrwydd a roddwyd gan swyddfa rheoli prosiect y BBC, archwilwyr mewnol ac arbenigwyr allanol
— adolygwyd hefyd y lefelau o dwyll a lladrad a gofnodwyd ac a ganfuwyd a'r trefniadau sydd ar waith i atal, lleihau a chanfod achosion o dwyll a llwgrwobrwyo. Mae'n dda gennym nodi na chafwyd unrhyw achosion mawr o dwyll yn ystod y flwyddyn ddiwethaf
— caiff canfyddiadau a hynt camau gweithredu sy'n deillio o archwiliadau o is-gwmnïau masnachol y BBC eu hystyried. Daeth Prif Swyddog Cyllid BBC Worldwide i'r Pwyllgor er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am amgylchedd rheolaeth a dulliau rheoli risg BBC Worldwide
— yn ogystal, rydym yn cael Adroddiad Blynyddol gan y Cyfarwyddwr Risg a Sicrwydd sy'n rhoi trosolwg o gadernid amgylchedd rheolaeth y BBC. Ni nododd yr adroddiad hwn unrhyw wendidau sylweddol ym maes rheoli a lliniaru risg

### Rheoli risg

Ystyriwyd y prosesau ar gyfer rheoli risgiau sylweddol yn y BBC. Dylanwedir ar y gwaith hwn gan yr asesiad o brif risgiau'r BBC a nodir ar dudalen 153. Mae agenda'r pwyllgor yn cynnwys eitem reolaidd pan gaiff newidiadau i'r proffil risg eu hadolygu a phan gaiff effeithiolrwydd y broses rheoli risg ei asesu.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom hefyd adolygu a chymeradwyo cynllun gweithredu gan reolwyr mewn ymateb i adolygiad yr Ymddiriedolaeth o effeithiolrwydd prosesau rheoli risg yn y BBC a byddwn yn monitro'r broses o gwblhau'r camau gweithredu hynny.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod adnoddau a gweithgarwch ynglŷn â sicrwydd yn gyson â'r prif risgiau a wynebir gan y BBC a bod yr hyn sy'n deillio o hynny yn helpu'r pwyllgor i asesu pa mor dda y caiff risgiau eu rheoli.

Yn ystod y flwyddyn, archwiliodd y pwyllgor ofynion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU ar ei ffurf ddiwygiedig mewn perthynas ag asesu hyfywedd yn y tymor hwy, rheoli risg a rheolaeth fewnol a chyflwyno adroddiadau arnynt. Ystyriodd y pwyllgor elfennau allweddol o broses rheoli risg y BBC, gan gynnwys cofnodi a chategoreiddio risg ym mhob rhan o'r grŵp ac archwiliodd yr hyn a allai fod yn gyfystyr â methiant neu wendid sylweddol yn y system rheolaeth fewnol.

## Effeithiolrwydd Archwilwyr Mewnol

Rydym yn goruchwylio gwaith yr Archwilwyr Mewnol. Mae hyn yn eitem reolaidd ym mhob un o'n cyfarfodydd ac mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol hefyd yn bresennol. Yn ystod y flwyddyn:

- cymeradwywyd y cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, gan sicrhau ei fod yn seiliedig ar risg ac yn taro cydbwysedd rhwng rhoi sicrwydd ynglŷn â phrosesau busnes craidd a meysydd o risg strategol sylweddol
- ystyriwyd canfyddiadau archwiliadau, gan ganolbwyntio ar unrhyw archwiliadau â chanlyniadau anfoddhaol a chynlluniau rheolwyr i fynd i'r afael â'r rhain
- ystyriwyd gofynion yr Archwilwyr Mewnol o ran eu hadnoddau a'u gallu

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth y Pwyllgor adolygu a chymeradwyo cynllun i ailstrwythuro'r swyddogaeth archwilio mewnol o dîm o adnoddau mewnol ar y cyfan i un lle y darperir adnoddau gan ddarparwr allanol cymeradwy yn bennaf. Mae'r newid hwn yn mynd rhagddo a bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro'r ffordd y caiff ei weithredu a'i effeithiolrwydd.

Mae Cadeirydd Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol hefyd yn cyfarfod â'r Cyfarwyddwr Risg a Sicrwydd cyn pob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio heb fod unrhyw reolwyr yn bresennol er mwyn cael trafodaeth agored.

## Annibyniaeth ac effeithiolrwydd ein harchwilwyr allanol

### Penodi ein harchwilwyr allanol

Mae Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried ailbenodi'r archwilydd allanol a chylchdroi Partner Archwilio'r Grŵp o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau bod y broses archwilio allanol yn parhau i fod yn effeithiol ac yn annibynnol.

Yn 2014 penododd y BBC Ernst & Young LLP (EY) yn archwilwyr allanol y BBC ar ôl proses dendro ffurfiol. Fe'i penodwyd am gyfnod o dair blynedd o 2014/15 gyda'r opsiwn o'i estyn am ddwy flynedd arall. Dyma ail flwyddyn penodiad EY.

### Y berthynas â'r archwilwyr allanol

Goruchwyliwyd y berthynas ag EY, gan gynnwys cwmpas ei waith a'i ddulliau gweithredu, ei ffioedd, ei berfformiad a'i annibyniaeth (gan gynnwys cymeradwyo polisi ar waith nad yw'n waith archwilio a chydymffurfiaeth ag ef). Ymhlith y meysydd penodol y canolbwyntiwyd arnynt eleni mae:

- nodi risgiau archwilio a chysoni hyn ag asesiadau risg rheolwyr
- ein her i'r archwilwyr ynglŷn â sut yr aethant i'r afael â'r risgiau archwilio hyn
- ein trafodaethau preifat gyda'r archwilwyr heb fod rheolwyr yn bresennol

Mae'r Pwyllgor wedi cynnal adolygiad o berfformiad yr archwilwyr allanol ac effeithiolrwydd y broses archwilio allanol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016. Ar sail yr adolygiad hwn, roedd y Pwyllgor yn fodlon ar berfformiad yr archwilwyr ac effeithiolrwydd y broses archwilio.

### Gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio

Fel un o'n mesurau i ddiogelu annibyniaeth yr archwilwyr allanol, mae'r Pwyllgor wedi datblygu polisi'r BBC ynglŷn â chomisiynu'r archwilwyr i ddarparu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio, ac yn ei oruchwylio.

Mae'r polisi hwn yn diffinio'r mathau o wasanaethau y gall ac na all yr archwilwyr allanol eu darparu. At hynny, mae'n cynnwys trothwyon lle mae'n rhaid i waith nad yw'n waith archwilio y cynigir y dylai'r archwilwyr allanol ei wneud, gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol. Mae hefyd yn pennu pryd y mae'n rhaid i waith fod yn destun tendr cystadleuol.

Ni chaiff EY ei ystyried ar gyfer gwaith a allai beryglu ei allu i roi barn annibynnol ar ddatganiadau ariannol y BBC. Mae'n rhaid cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol cyn recriwtio unrhyw un o EY i unrhyw swydd uwch reolwr yn y BBC.

Mae'r archwilwyr allanol wedi cadarnhau eu hannibyniaeth a'u cydymffurfiaeth â'r polisi ynglŷn ag annibyniaeth archwilwyr i'r Pwyllgor.

# Risgiau a chyfleoedd

Mae risgiau a chyfleoedd yn effeithio ar allu'r BBC i gyflawni rhwymedigaethau ei Siarter a'i ddibenion cyhoeddus. Mae angen i'r ffordd rydym yn ymdrin â risg adlewyrchu natur unigryw'r BBC. Er mwyn cyflawni ein hamcanion mae'n rhaid i ni barhau i gymryd risgiau creadigol. Mae'n rhaid i ni hefyd gymryd ein cyfrifoldebau rheoleiddio a statudol o ddifrif. Yn yr un modd ag y mae cymryd risgiau wrth wraidd y broses o gyflawni ein dibenion, mae asesiadau risg trylwyr a mesurau lliniaru risg yn sail i'r broses o gyflawni'r hyn a wnawn.

Yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf rydym yn disgwyl i'r broses o adnewyddu ein Siarter gael ei chwblhau. Mae'r BBC yn cydnabod heriau o ran anghenion cynulleidfaoedd sy'n datblygu a'r cyfleoedd y mae hyn yn eu cynnig i'r Gorfforaeth dros yr 11 mlynedd nesaf. Drwy bob rhan o'r Gorfforaeth, mae ystyriaeth ofalus o risgiau a chyfleoedd yn cyfrannu at ansawdd ein rhaglenni a rhagoriaeth y gwasanaeth a ddarparwn, ac felly ein gallu i wasanaethu ein cynulleidfaoedd. Nodir ein prif risgiau a chyfleoedd strategol a gweithredol isod.

## Allwedd i newidiadau risg: Newid yn y risg a ragwelir dros y 12 mis nesaf

- ▲ Risg yn cynyddu
- ▶ Dim newid yn y risg
- ▼ Risg yn lleihau

## Dibenion cyhoeddus

1. Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil
2. Hyrwyddo addysg a dysgu
3. Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol
4. Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau
5. Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU
6. Wrth hyrwyddo ei Ddibenion eraill, helpu i gyflwyno buddiannau dulliau cyfathrebu, technolegau a gwasanaethau newydd i'r cyhoedd.

## Risgiau a chyfleoedd strategol

| Prif risgiau a chyfleoedd | Newidiadau risg | Camau lliniaru allweddol |
|---|---|---|
| **1. Diwallu anghenion cynulleidfaoedd**<br>1 2 3 4 5 6<br>Mae tirwedd y cyfryngau yn newid yn sylweddol, a hefyd arferion a chwaeth ein cynulleidfaoedd. Rydym yn wynebu'r risg ein bod yn methu â datblygu ein harlwy a sbarduno arloesedd, er mwyn diwallu anghenion ein cynulleidfa, yn enwedig pobl ifanc a grwpiau nad ydynt yn cael gwasanaeth digonol. | ▶ | — ailwerthuso ein strategaeth cynulleidfaoedd yn rheolaidd, wedi'i lywio gan waith monitro parhaus ar berfformiad cynulleidfaoedd a thueddiadau'r farchnad a thueddiadau ymhlith cystadleuwyr |
| **2. Diogelu cyflenwad o raglenni**<br>2 3 4 5<br>Mae cadw amrywiaeth o gyflenwyr yn bwysig i'r BBC. Mae hyn yn sicrhau y gall y BBC barhau i ddarparu'r amrywiaeth orau o gynnwys Prydeinig i gynulleidfa'r DU am brisiau fforddiadwy. Gallai newidiadau ym marchnad y cyfryngau beryglu hyn. | ▲ | — nod lansio BBC Studios yw sicrhau cyflenwad o gynnwys o'r ansawdd gorau i gynulleidfaoedd y DU yn yr hirdymor<br>— deialog parhaus â'r gymuned o gynhyrchwyr annibynnol a rhanddeiliaid er mwyn llywio ein strategaeth gyflenwi |

| Prif risgiau a chyfleoedd | Newidiadau risg | Camau lliniaru allweddol |
|---|---|---|
| **3. Denu a chadw talent**<br>3<br>Mae'r gallu i ddenu, datblygu a chadw'r dalent greadigol orau ym mhob disgyblaeth a chrefft yn effeithio ar ansawdd ein hallbwn a'n cyfraniad i economïau creadigol a digidol. | → | — ailwerthuso strategaethau cyflogi, ymgysylltu â staff a thalent ar yr awyr yn rheolaidd<br>— meithrin talent lefel mynediad drwy weithgarwch allgymorth |
| **4. Adolygiad o'r Siarter**<br>1 2 3 4 5 6<br>Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Phapur Gwyn ar 12fed Mai, yn nodi ei safbwynt polisi mewn perthynas â'r BBC. Mae'r Papur Gwyn yn cynnig sefydlogrwydd hirdymor a sylfeini cadarn i'r BBC er mwyn iddo barhau i hysbysu, addysgu a diddanu'r cyhoedd ym Mhrydain. | → | — deialog parhaus â'r Llywodraeth i lunio'r Siarter Brenhinol a'r Cytundeb ar eu gwedd derfynol a datrys unrhyw faterion sydd eto i'w penderfynu |
| **5. Newid yn y BBC**<br>6<br>Mae'r BBC yng nghanol cyfnod o newid gweithredol, sefydliadol a diwylliannol sylweddol. Gallai'r pwysau ar y sefydliad o ganlyniad i hyn effeithio ar ein gallu i ymateb yn gyflym i heriau newydd, neu effeithio ar y ffordd rydym yn cyflawni blaenoriaethau creadigol a strategol. | ↑ | — parhau â'r gwaith i leihau cymhlethdod a chost drwy symlrwydd sefydliadol, gan sicrhau bod gweithgarwch allweddol ac amseriadau yn gyson<br>— swyddfa Rheoli Prosiectau corfforaethol yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni prosiectau mawr, gan asesu hyder o ran cyflawni<br>— y tîm arweinyddiaeth yn parhau i roi pwyslais ar feithrin diwylliant agored lle mae pawb yn teimlo'n hyderus i godi materion |
| **6. Cadw enw da'r BBC**<br>4 5<br>Gallai brand y BBC gael ei niweidio o ganlyniad i fethiannau rheoli canfyddedig, neu drwy anallu i ymateb yn gyflym, yn rhesymol ac yn gymesur i ddigwyddiadau pwysig. | → | — monitro canfyddiadau o enw da'r BBC ym mhob cynulleidfa yn barhaus, gan ymateb yn ôl yr angen |
| **7. Cadw safle'r BBC yn y farchnad**<br>4 5<br>Mae'r BBC yn gweithredu mewn marchnad hynod gystadleuol a byd-eang. Mae hyn yn creu nifer o risgiau cysylltiedig:<br>— Gall cyfyngiadau ariannol effeithio ar ein gallu i gystadlu am dalent ac adnoddau sy'n effeithio ar ein gallu i ddal i fod yn berthnasol i'n cynulleidfaoedd<br>— Gallai ein busnes cynhyrchu fethu â sicrhau comisiynau a fydd yn golygu y bydd y BBC yn berchen ar lai o eiddo deallusol ac y bydd ffrydiau refeniw eilaidd is i'r BBC<br>— Gallai ein his-gwmnïau masnachol fethu ag ymateb i heriau'r farchnad | → | — nod y cynnig ar gyfer BBC Studios yw cynnal llif o gynnwys o dan berchenogaeth lawn y BBC yn yr hirdymor<br>— asesu ein dyraniad adnoddau'n barhaus yn ôl dirnadaeth a pherfformiad cynulleidfaoedd<br>— llwyddiant profedig is-gwmnïau masnachol i wneud enillion ariannol cynaliadwy, gan hyrwyddo'r BBC yn llwyddiannus yn fyd-eang, arddangos creadigrwydd ac arloesedd y DU, a meithrin cydberthnasau busnes, golygyddol a chreadigol cadarn |

## Risgiau a chyfleoedd gweithredol

| Prif risgiau a chyfleoedd | Newidiadau risg | Camau lliniaru allweddol |
|---|---|---|
| **1. Parhad busnes**<br>Gallai methiant technegol, rhyngddibyniaethau seilwaith, gweithredoedd trydydd partïon (e.e. amharu ar ein gwasanaethau neu eu hatal oherwydd ymosodiad seiber, gweithred neu fethiant cyflenwr) arwain at amharu ar wasanaethau darlledu, gydag effaith ganlyniadol ar gynulleidfaoedd a fydd yn arwain at niweidio enw da'r BBC. | ↑ | — polisïau ac arferion parhad busnes cadarn yn gyson â'r safon ryngwladol<br>— monitro ymosodiadau seiber, gan sicrhau ymateb cyflym<br>— cymryd rhan weithredol yn fforymau diogelwch y diwydiant yn y DU ac yn fyd-eang<br>— adolygiadau risg manwl a rheolaidd o wendidau posibl mewn systemau a phrosesau |
| **2. Cydymffurfiaeth olygyddol**<br>Gallai methiant i gynnal ein gwerthoedd a'n safonau golygyddol yn ein holl gynnwys effeithio ar ein gallu i gynnal lefelau uchel o ymddiriedaeth ymhlith cynulleidfaoedd, niweidio ein brand neu beri i ni gael ein hamlygu i achos cyfreithiol. | → | — prosesau cydymffurfio golygyddol hirsefydledig ac effeithiol wedi'u hategu gan hyfforddiant priodol<br>— gweithdrefnau cadarn ar gyfer atgyfeirio a monitro rhaglenni risg uchel<br>— dosbarthu Safonau a Chanllawiau Golygyddol yn eang |
| **3. Amddiffyn plant**<br>Byddai methiant i amddiffyn plant ar safleoedd y BBC neu pan fyddant yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r BBC yn cael effaith ganlyniadol ar yr unigolion, a gallai arwain at niweidio enw da'r BBC a her gyfreithiol i'r BBC. | → | — canlyniad cadarnhaol o archwiliad annibynnol o bolisïau a phrosesau'r BBC a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2015. Gwaith dilynol mewn ymateb i argymhellion adroddiad y Fonesig Janet Smith<br>— dilyn arferion recriwtio cadarn; y gofyniad i gael gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd/Amddiffyn Grwpiau sy'n Agored i Niwed ynghyd â hyfforddiant gorfodol ar Amddiffyn Plant a Gweithio gyda Phlant<br>— bydd hyfforddiant ffurfiol, achrededig neu gydnabyddedig i hybryngwyr yn parhau mewn partneriaeth â PACT a phartneriaid eraill yn y diwydiant<br>— proses o uwchgyfeirio a datrys problemau posibl |
| **4. Diogelu data**<br>Gallai peryglu data a gwasanaethau'r BBC drwy hacio, math arall o ymosodiad mewnol neu allanol neu wall arwain at amharu ar wasanaethau neu ddatgelu data cyfrinachol, gan gynnwys deunydd golygyddol sensitif neu ddata personol sensitif, gan arwain at niweidio enw da'r BBC a chosbau ariannol posibl. | ↑ | — polisïau ac arferion diogelu data<br>— buddsoddi mewn gallu technegol, gan gynnwys ystod o waliau monitro ac amddiffyn rhag hacio, maleiswedd ac ymosodiadau eraill<br>— ymwybyddiaeth gyffredinol ymhlith y staff ac ymgyrchoedd addysg yn cyfleu negeseuon allweddol ynglŷn â diogelwch |
| **5. Iechyd, diogelwch personol a diogelwch eiddo**<br>Gallai methiant i gyflawni cyfrifoldeb corfforaethol am iechyd, diogelwch a lles staff, gweithwyr llawrydd, cyfranwyr a chynulleidfaoedd arwain at effaith ar yr unigolion a'u teuluoedd, amlygiad cyfreithiol ac ariannol, niweidio enw da'r BBC a cholli ymddiriedaeth. | ↑ | — hyfforddiant iechyd a diogelwch cadarn yn y DU a thramor; cyfarpar arbenigol a phrosesau a gweithdrefnau risg uchel pwrpasol ar gyfer gweithgareddau mewn amgylcheddau gelyniaethus dynodedig<br>— ymateb rhagweithiol i fygythiadau sy'n newid, gyda chyngor ac arweiniad wedi'u teilwra gan dimau diogelwch arbenigol<br>— cydgysylltu'n agos ag awdurdodau diogelwch y DU ynglŷn â lefel y bygythiad i ddiogelwch y DU<br>— safoni'r ffordd yr ymdrinnir â diogelwch ffisegol swyddfeydd rhyngwladol<br>— gweithio gyda fforymau diogelwch y cyfryngau a darlledwyr eraill er mwyn codi safonau yn y diwydiant cyfan |

| Prif risgiau a chyfleoedd | Newidiadau risg | Camau lliniaru allweddol |
|---|---|---|
| **6. Hylifedd ac arbedion**<br>Wrth i ni bontio i setliad newydd ffi'r drwydded, gan gynnwys ymrwymiadau newydd, gallai methiant i gyflawni targedau arbedion newydd ac ymestynnol iawn effeithio ar wasanaethau a niweidio ein henw da a'n perthynas â chynulleidfaoedd a rhanddeiliaid. | ↑ | — trefniadau llywodraethu a fframweithiau cadarn ar gyfer ein rhaglenni newid er mwyn ei gwneud yn bosibl i wireddu ein gweledigaeth strategol o fewn y cyllid sydd ar gael |
| **7. Cydymffurfiaeth reoleiddiol**<br>Gallai methiant i gydymffurfio ag amrywiaeth eang o ofynion cyfreithiol a gofynion rheoleiddiol eraill, neu fethiant i fod yn ymwybodol o newidiadau, arwain at her gyfreithiol neu reoleiddiol, perygl i wasanaethau neu gosbau ariannol. | → | — monitro gofynion cydymffurfio'n rheolaidd<br>— cynlluniau hyfforddiant a chyfathrebu yn cael eu diweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth dda o'r angen i gydymffurfio â deddfwriaeth newydd ei chyflwyno<br>— parhau i adolygu a chynllunio ar gyfer effeithiau deddfwriaeth newydd, gan gynnwys gweithio gyda'r diwydiant i fonitro a datblygu atebion arfer gorau i sicrhau cydymffurfiaeth effeithiol |

## Prosesau atebolrwydd a rheolaeth fewnol y BBC

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am reolaeth weithredol y BBC (heblaw am Ymddiriedolaeth y BBC). Mae hyn yn cynnwys diogelu ei asedau a chael gwerth am arian drwy sicrhau bod proses ar waith ar gyfer rheoli risgiau sylweddol i'r BBC.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am gadarnhau a yw system rheolaeth fewnol y BBC yn effeithiol ac am gynnal ac adolygu ei heffeithiolrwydd ac am sicrhau y caiff camau angenrheidiol eu cymryd i unioni unrhyw fethiannau neu wendidau sylweddol a nodwyd. Dim ond sicrwydd rhesymol ac nid sicrwydd llwyr rhag cam-ddatgan perthnasol neu golled y gall systemau o'r fath ei roi. Mae ein system reolaeth wedi'i chynllunio i reoli (yn hytrach na dileu) risg o fethu â chyflawni amcanion busnes a rhoi sicrwydd rhesymol y caiff yr asedau eu diogelu, y caiff trafodion eu hawdurdodi'n briodol ac y caiff gwallau perthnasol neu achosion o afreoleidd-dra eu hatal neu eu canfod yn amserol.

Mae elfennau allweddol ein system rheolaeth fewnol yn cynnwys:

**Nodi a rheoli risg:** mae'r Bwrdd Gweithredol yn cydlynu ac yn monitro gweithgarwch rheoli risg yn y BBC. Bu ein proses o nodi, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol i'r BBC, sy'n unol â chanllawiau Turnbull (Rheolaeth Fewnol: Canllawiau i Gyfarwyddwyr), ar waith ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 a hyd at y dyddiad y cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC eleni. Ceir dulliau o reoli risg o fewn is-adrannau ac unedau busnes yn bennaf, gyda phrosesau ategol ar waith i reoli risgiau prosiect a materion trawsbynciol megis safonau golygyddol a diogelwch. Hefyd, mae'r Bwrdd Gweithredol yn cael briffiadau rheolaidd ac yn cynnal trafodaethau ynglŷn ag amlygiad i risg, yr awydd i gymryd risg a lliniaru risg, gan ganolbwyntio ar y risgiau strategol a gweithredol allweddol.

**Adroddiadau ar strategaethau ac adroddiadau ariannol:** mae'r Bwrdd Gweithredol yn cymeradwyo cynllun busnes sydd â'r nod o gyflawni strategaeth y BBC a gymeradwywyd gan yr Ymddiriedolaeth. Mae prosesau adrodd misol, chwarterol a blynyddol cynhwysfawr ar waith, yn y grwpiau busnes a hyd at lefel y Bwrdd Gweithredol, gan gynnwys gwaith monitro ariannol yn erbyn y cynllun, llunio rhagolygon yn rheolaidd, dadansoddi amrywiannau ac adolygiadau o berfformiad sy'n olrhain cyflawniadau yn erbyn y cynllun busnes a strategaethau.

**Polisïau:** mae polisïau a gweithdrefnau ffurfiol ar waith ar gyfer pob gweithgarwch rheoli perthnasol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â phob cyfraith a rheoliad sy'n gymwys, y caiff costau eu rheoli'n dda ac y caiff risgiau eu lliniaru.

**Rheoli arian parod:** mae'r BBC yn paratoi adroddiadau trysorlys ac arian parod a rhagolygon rheolaidd, sy'n dadansoddi gofynion ariannu a hylifedd.

**Gweithdrefnau awdurdodi:** mae awdurdodiadau dirprwyedig ffurfiol, terfynau awdurdodi a phrosesau rheoli clir yn cwmpasu pob trafodyn ac ymrwymiad ariannol.

**Llywodraethu prosiectau mawr:** noddwr y Prosiect sy'n gyfrifol am sicrhau bod sicrwydd digonol ar gyfer y prosiect ar hyd ei oes, gyda Swyddfa Rheoli Rhaglenni'r BBC a'r Archwilwyr Mewnol yn ei adolygu a'i herio'n annibynnol. Cyflwynir adroddiadau statws misol ar brosiectau mawr i'r Bwrdd Gweithredol.

**Gallu staff:** mae prosesau ar waith i sicrhau bod ein staff yn broffesiynol ac yn gymwys. Mae'r rhain yn cynnwys polisïau recriwtio, gofynion hyfforddiant gorfodol, arfarniadau o berfformiad a rhaglenni datblygu.

**Sicrwydd annibynnol:** mae gan y swyddogaeth archwilio mewnol linell adrodd annibynnol i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac mae'n cynnal rhaglen o archwiliadau, yn unol â'r prif risgiau a wynebir gan y BBC. Cyflwynir adroddiadau ar ganfyddiadau'r archwiliadau i Uwch Reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a chaiff camau adferol eu holrhain er mwyn sicrhau y cânt eu cwblhau.

**Chwythu'r chwiban:** mae polisi datgelu gwarchodedig ar waith. Rydym yn darparu llinell gymorth 'chwythu'r chwiban' a weinyddir gan gwmni allanol annibynnol er mwyn sicrhau y gellir codi mater yn ddienw. At hynny, mae'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol wedi'i enwi yn y polisi fel yr enw cyswllt ar gyfer codi'r pryderon mwyaf difrifol.

# Adroddiad ar fasnachu teg

## Aelodaeth a chylch gwaith Pwyllgor Masnachu Teg y Bwrdd Gweithredol

Prif swyddogaeth Pwyllgor Masnachu Teg y Bwrdd Gweithredol yw goruchwylio cydymffurfiaeth Bwrdd Gweithredol y BBC â'n rhwymedigaethau o ran Masnachu Teg. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol: Y Fonesig Fiona Reynolds (Cadeirydd), Alice Perkins a Syr Howard Stringer. Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr, Cyllid a Gweithrediadau, Cwnsler Cyffredinol y Grŵp, y Cwnsler Cyffredinol Cynorthwyol, y Pennaeth Masnachu Teg a Chyfraith Cystadleuaeth a'r Cyfarwyddwr Risg a Sicrwydd hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd. Mae cofnod presenoldeb pob cyfarwyddwr ar gael ar dudalen 135.

Ymhlith cyfrifoldebau'r Pwyllgor mae:

- adolygu Canllawiau Masnachu Teg y BBC yn rheolaidd
- ymdrin â chwynion ynglŷn â Masnachu Teg yn erbyn y BBC drwy benodi Panel Cwynion Masnachu Teg a gadeirir gan gyfarwyddwr anweithredol ac sy'n cynnwys mwyafrif o gyfarwyddwyr anweithredol
- adolygu cydymffurfiaeth barhaus â Phedwar Maen Prawf Masnachol y BBC
- comisiynu archwiliad blynyddol o Fasnachu Teg gan archwilwyr annibynnol

Mae gan y BBC fframwaith gweithredol manwl ar gyfer Masnachu Teg sy'n gymwys i'n holl weithgareddau ac fe'i hamlinellir yn ein Canllawiau ar Fasnachu Teg yn: bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/howwework/policiesandguidelines/fairtrading.html

Caiff y trefniadau hyn eu harchwilio bob blwyddyn gan archwilwyr annibynnol ac maent wedi cael eu hachredu ar wahân â safon ansawdd ISO 9001:2008. Nodir adroddiad yr Archwilydd ar dudalen 159.

Mae Cytundeb y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd Gweithredol y BBC sicrhau bod ein holl wasanaethu masnachol yn bodloni'r meini prawf canlynol. Mae'n rhaid i wasanaethau masnachol:

- gyd-fynd â'r dibenion cyhoeddus
- dangos effeithlonrwydd masnachol
- sicrhau nad ydynt yn peryglu enw da'r BBC na gwerth brand y BBC
- cydymffurfio â Chanllawiau'r BBC ar Fasnachu Teg, ac yn benodol osgoi aflunio'r farchnad

Ar ôl cael adroddiadau gan yr uwch reolwyr perthnasol, mae Pwyllgor Masnachu Teg y Bwrdd Gweithredol yn fodlon bod pob un o'i wasanaethau masnachol wedi bodloni'r meini prawf uchod yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016.

Mae gan y BBC broses cwynion ac apeliadau gyhoeddedig ar gyfer Masnachu Teg, a geir yn: bbc.co.uk/bbctrust/governance/complaints_framework/fair_trading.html

Cafodd y BBC ddwy gŵyn ynglŷn â Masnachu Teg yn ystod y flwyddyn. Ceir manylion y cwynion hyn a chwynion blaenorol ynglŷn â Masnachu Teg a'r rhai a fu'n destun apeliadau i Ymddiriedolaeth y BBC yn ein Bwletin Masnachu Teg yn: bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/howwework/policiesandguidelines/fairtrading/complaints_bulletins.html a thudalen Bwrdd Cwynion ac Apeliadau Ymddiriedolaeth y BBC : bbc.co.uk/bbctrust/our_work/complaints_and_appeals/cab.html



Syr David Attenborough yn dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed, yng nghwmni cyn-wneuthurwyr ffilmiau dogfen BBC Nature



Cafodd *Countryfile* y nifer fwyaf o wylwyr erioed yn 2016 hyd yma, gyda chynulleidfa gyfartalog o 7.0 miliwn (cyfran o 33%)

## Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Masnachu Teg y Bwrdd Gweithredol

Fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus a ariennir gan ffi'r drwydded, mae gan y BBC gyfrifoldeb i sicrhau ein bod yn masnachu'n deg ac yn ystyried effaith ein gweithgareddau ar y farchnad ehangach. Er mwyn cyflawni hyn mae gennym gyfundrefn sefydledig ar gyfer Masnachu Teg y creffir arni yn fewnol ac yn allanol.

Mae'r tîm Masnachu Teg a Chyfraith Cystadleuaeth yn gweithio'n agos gyda staff ym mhob rhan o'r BBC er mwyn sicrhau bod prosesau, prosiectau a mentrau mewnol newydd yn cydymffurfio â gofynion Masnachu Teg. Mae'r tîm hefyd yn rheoli rhaglen hyfforddiant wedi'i thargedu at staff sy'n debygol o ddod ar draws materion Masnachu Teg. Mae'r Pwyllgor Masnachu Teg yn goruchwylio'r prosesau hyn ac yn monitro cydymffurfiaeth â hwy.

Mae'r gwaith hwn yn bwysig iawn ar adeg pan fo'r BBC yn gwneud newidiadau strwythurol i symleiddio'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau i dalwyr ffi'r drwydded, ac yng nghanol Adolygiad o'r Siarter. Eleni, mae'r tîm Masnachu Teg wedi rhoi cyngor ar amrywiaeth eang o faterion, gyda'r gwaith o ystyried y gofynion o dan gymorth gwladwriaethol a'r Canllawiau Masnachu Teg sy'n gysylltiedig â'r penderfyniad arfaethedig i greu ein cangen gynhyrchu fasnachol newydd, BBC Studios, yn cael cryn sylw yn ystod y flwyddyn. Gwnaeth y tîm hefyd ystyried a rhoi cyngor ar nifer o faterion masnachu teg ar gyfer prosiectau allweddol y BBC megis myBBC a BBC Store.

Elfen bwysig arall o'n cyfundrefn yw'r broses Cwynion Masnachu Teg ac eleni cafwyd dwy gŵyn, yr ymdriniwyd â'r naill a'r llall yn unol â'r gweithdrefnau cyhoeddedig.

Cyhoeddodd Ymddiriedolaeth y BBC ei Fframwaith Strategol newydd ar gyfer Gwasanaethau Masnachol eleni a chynhaliodd adolygiad o drefniadau prisio trosglwyddiadau rhwng y BBC a'i Wasanaethau Masnachol. Cydgysylltodd y tîm Masnachu Teg a Chyfraith Cystadleuaeth ag ymgynghorwyr allanol yr Ymddiriedolaeth er mwyn cynorthwyo gyda'r adolygiad hwn a bydd yn ymgysylltu â'r Ymddiriedolaeth ynglŷn ag unrhyw argymhellion a wna yng ngoleuni ei chanfyddiadau.

Caiff gwaith y gyfundrefn Masnachu Teg ei archwilio'n allanol hefyd, ac unwaith eto mae wedi dangos ei bod yn gweithredu'n effeithiol ar ôl cael barn archwilio ddiamod. Bydd y Pwyllgor yn parhau i sicrhau y caiff gofynion rheoleiddiol y BBC eu dilyn drwy ymdrin â chydymffurfiaeth mewn modd cadarn, effeithlon a chymesur. Bydd Masnachu Teg hefyd yn parhau i fod ar frig agenda'r Bwrdd Gweithredol. Gall pob rhanddeiliad, yn cynnwys talwyr ffi'r drwydded a'r rhai y gallai gweithgareddau'r BBC effeithio arnynt, fod yn hyderus bod y BBC yn parhau i fod yn ymrwymedig i'w rwymedigaethau Masnachu Teg ac yn cydymffurfio â hwy.

**Y Fonesig Fiona Reynolds**
**Cadeirydd Pwyllgor Masnachu Teg y Bwrdd Gweithredol**
16 Mehefin 2016



Enillodd *Have I Got News For You* BAFTA am y rhaglen Gomedi ac Adloniant Comedi orau




Dychwelodd *Line of Duty* am drydedd gyfres, a gynhyrchir gan BBC Northern Ireland

## Adroddiad yr Archwilydd Masnachu Teg annibynnol i'r BBC am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

Yn ein rôl fel archwilwyr masnachu teg y BBC, rydym wedi archwilio'r system o reolaethau mewnol a sefydlwyd yn y BBC i roi sicrwydd rhesymol i'r BBC bod Bwrdd Gweithredol y BBC ('y Bwrdd Gweithredol') wedi cydymffurfio â gofyniad Polisïau a Fframwaith Masnachu Teg Ymddiriedolaeth y BBC a'r Canllawiau ar Fasnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 ('y Trefniadau Masnachu Teg').

Cytunwyd ar ein cyfarwyddiadau ar gyfer yr ymrwymiad hwn, gan gynnwys cwmpas y gwaith sydd i'w wneud, ar y cyd â Phwyllgor Masnachu Teg Bwrdd Gweithredol y BBC. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn cynnwys cytundeb y dylai ein harchwiliad gael ei gynnal yn unol â'r Safon Ryngwladol ar Ymrwymiadau Sicrwydd ('ISAE') 3000, cytundeb ynglŷn â therfyn ein hatebolrwydd o ran y gwaith hwn a chytundeb mai i'r BBC yn unig y mae arnom ddyletswydd gofal o ran y gwaith hwn. Rydym yn fodlon bod cwmpas ein harchwiliad y cytunwyd arno yn ddigonol i'n galluogi i fynegi'r farn a nodir isod.

### Priod gyfrifoldebau Ymddiriedolaeth y BBC, Bwrdd Gweithredol y BBC a'r archwilwyr masnachu teg

Yr Ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Bwrdd Gweithredol yn masnachu'n deg. Mae hefyd yn gyfrifol am baratoi'r adran yn Adroddiad Blynyddol y BBC sy'n dwyn y teitl 'Masnachu Teg', sy'n cynnwys datganiad am fasnachu teg.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi rhoi dyletswydd ar y Bwrdd Gweithredol i sefydlu a gweithredu system o reolaethau mewnol sydd â'r nod o sicrhau cydymffurfiaeth â Threfniadau Masnachu Teg y BBC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016, gan gynnwys nodi ac asesu'r risgiau a allai beryglu masnachu teg a llunio a gweithredu ymatebion i risgiau o'r fath.

Fel archwilwyr masnachu teg y BBC, ein cyfrifoldeb yw llunio barn annibynnol, yn seiliedig ar ein gwaith archwilio, ynglŷn â'r graddau y mae'r BBC wedi sefydlu, ac wedi cymhwyso, system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol iddo gydymffurfio â gofynion ei Drefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016. Dim ond i'r graddau ag sy'n angenrheidiol i lunio barn ar y ffordd y cymhwysir y system o reolaethau mewnol rydym wedi adolygu penderfyniadau penodol a wnaed gan y BBC mewn perthynas â materion masnachu teg. Rydym hefyd wedi adolygu a yw datganiad yr Ymddiriedolaeth am fasnachu teg yn adlewyrchu ein canfyddiadau ynglŷn â chydymffurfiaeth y BBC â'i system o reolaethau mewnol a nodwn os nad yw'n gwneud hynny.

Paratowyd ein barn i'r BBC ac i'r BBC yn unig yn unol â'r cyfarwyddiadau y cytunwyd arnynt â Phwyllgor Masnachu Teg y Bwrdd Gweithredol ar ran y BBC. Wrth roi'r farn hon, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw ddiben arall nac i unrhyw berson arall ac eithrio'r Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol y dangosir yr adroddiad hwn iddo neu y mae'n cael ei roi iddo, ac ni fydd hawl gan unrhyw berson arall i ddibynnu ar ein barn, oni chytunwn i hynny'n ysgrifenedig ymlaen llaw.

### Ein dull gweithredu

Rydym wedi mynd ati i gyflawni ymrwymiad sicrwydd rhesymol fel y diffinnir yn ISAE 3000. Amcan ymrwymiad sicrwydd rhesymol yw cynnal y cyfryw weithdrefnau er mwyn cael gwybodaeth ac esboniadau sy'n angenrheidiol, yn ein barn ni, i roi tystiolaeth ddigonol i ni fynegi casgliad ar gydymffurfiaeth y BBC â'i Drefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016.

Roedd ein gwaith yn cynnwys ymchwiliad a phrofion i'n galluogi i lunio barn ynghylch a oedd system briodol o reolaethau mewnol ar waith. Cynhaliwyd dadansoddiad seiliedig ar risg er mwyn nodi'r agweddau hynny ar reolaethau masnachu teg y BBC sy'n peri'r risg fwyaf i fasnachu teg, gan ganolbwyntio ein profion manwl ar y meysydd hyn. Dewiswyd achosion unigol o gofnod masnachu teg y BBC i'w hadolygu. Ymhob achos, archwiliwyd cofnodion ysgrifenedig gennym a chyfwelwyd â phartïon perthnasol er mwyn i ni gael sicrwydd rhesymol bod y system o reolaethau mewnol wedi cael ei chymhwyso, a phriodoldeb y canlyniad. Roedd yr achosion a archwiliwyd, a'r meysydd risg sylweddol y canolbwyntiodd y gwaith arnynt, yn cwmpasu pob un o dri is-gwmni gwasanaeth masnachol y BBC ac yn cynnwys archwiliad o drefniadau prisio trosglwyddiadau a gwahanu, y defnydd a wnaed o frand y BBC a thaliadau amdano, a'r camau a gymerwyd i gymhwyso gofyniad yr Ymddiriedolaeth y dylai'r BBC, wrth gyflawni'r dibenion cyhoeddus, leihau unrhyw effaith negyddol ar y farchnad i'r eithaf.

### Cyfyngiadau annatod

Fel yn achos unrhyw system reoli, nid yw'n ymarferol sicrhau nad oes unrhyw wallau nac achosion o afreoleidd-dra wedi digwydd heb gael eu canfod. Roedd ein gwaith archwilio wedi'i gynllunio i roi sicrwydd rhesymol i'r Bwrdd Gweithredol ynglŷn â digonolrwydd y system o reolaethau mewnol a oedd ar waith ac sy'n cael ei chymhwyso i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Trefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016. At hynny, oherwydd bod materion masnachu teg yn gofyn am farn a allai yn y pen draw gael ei phrofi mewn llys barn, gan yr awdurdod cystadleuaeth neu yn rhywle arall, mae bob amser risg o her hyd yn oed lle y dilynwyd y system o reolaethau mewnol a lle y gwnaed penderfyniadau gyda'r gofal mwyaf.

### Barn

Yn seiliedig ar ganlyniadau ein gweithdrefnau, yn ein barn ni, mae'r BBC wedi sefydlu ac wedi cymhwyso system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol iddo gydymffurfio â gofynion y Trefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016.

**Deloitte LLP**
**Cyfrifwyr Siartredig**
**Llundain**
16 Mehefin 2016

# Datganiad ynghylch hyfywedd

Yn unol â darpariaeth C2.2 o ddiwygiad 2014 o God Llywodraethu Corfforaethol y DU, mae'r Bwrdd Gweithredol wedi asesu rhagolygon y Gorfforaeth dros gyfnod hwy na'r deuddeg mis sy'n ofynnol o dan y ddarpariaeth 'Busnes Gweithredol'. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried cynllun tair blynedd ar gyfer y busnes yn flynyddol ac ar sail dreigl. Cymeradwywyd y cynllun tair blynedd diwethaf ym mis Chwefror 2016 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod hyd at 31 Mawrth 2019.

Ystyrir bod gorwel tair blynedd yn briodol gan fod hyn yn unol â phroses gyllidebu'r BBC, a nodir bod y cynllun tair blynedd diweddaraf yn mynd y tu hwnt i ddyddiad 31 Mawrth 2017 pan fydd cyfleuster benthyca £200 miliwn cyfredol Grŵp y BBC yn aeddfedu; ceir y cyfleuster hwn i'w gwneud yn bosibl i'r BBC reoli amrywiadau yn llifau arian parod a hylifedd y Grŵp.

Mae'r cynllun tair blynedd yn ystyried llifau arian parod yn ogystal â'r cyfamodau ariannol y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy o dan y cyfleuster credyd. Y tybiaethau allweddol sy'n sail i'r cynllun tair blynedd, a'r rhagolygon llif arian parod cysylltiedig, yw y caiff y Siarter ei hadnewyddu yn unol â'r Papur Gwyn a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac y bydd y cyfleusterau benthyca yn aros yn ddigyfnewid.

Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi cynnal asesiad cadarn o'r prif risgiau sy'n wynebu'r Gorfforaeth, fel y'u disgrifir ar dudalennau 153-156, gan gynnwys y rhai a fyddai'n peryglu ei model busnes, perfformiad yn y dyfodol, solfedd neu hylifedd. Cymhwysir dadansoddiad sensitifrwydd at y llif arian parod er mwyn modelu'r effeithiau posibl pe bai prif risgiau'n codi mewn gwirionedd, yn unigol neu ar y cyd. Nodwyd tri phwynt straen pan gafodd cyfuniad o risgiau difrifol ond credadwy ei fodelu, gydag un yn torri'r terfynau benthyca heb ystyried budd unrhyw gamau lliniaru. Drwy weithredu mesurau a nodwyd er mwyn lliniaru'r risgiau hyn erys llifau arian parod o fewn terfynau benthyca.

Gan ystyried sefyllfa bresennol y Grŵp, prif risgiau a'r dadansoddiad sensitifrwydd a nodir uchod, mae gan y Bwrdd Gweithredol ddisgwyliad rhesymol y bydd y Gorfforaeth yn gallu parhau i weithredu a bodloni ei rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus dros gyfnod tair blynedd yr asesiad.

# Geirfa

Rydym wedi defnyddio rhai termau yn yr adroddiad hwn i egluro sut rydym yn cynnal ein busnes, a allai fod yn anghyfarwydd i'n darllenwyr. Mae'r rhestr ganlynol yn rhoi diffiniadau ar gyfer rhai o'r termau a ddefnyddir amlaf.

**Argraff gyffredinol**
Cyfrifir pa mor ffafriol yw argraff pobl o'r BBC drwy ofyn y cwestiwn canlynol: "Gan feddwl am y BBC yn gyffredinol, beth yw eich *argraff gyffredinol*, ar raddfa o 1 i 10, lle mae 1 yn golygu anffafriol iawn a 10 yn golygu ffafriol iawn".

**Arolwg o Gylchoedd Gwaith Dibenion**
Arolwg olrhain meintiol yw'r *Arolwg o Gylchoedd Gwaith Dibenion* (PRS) a'i nod yw helpu Ymddiriedolaeth y BBC i ddeall barn y cyhoedd am berfformiad y BBC yn erbyn ei ddibenion cyhoeddus.

**BARB**
*BARB* (Broadcasters Audience Research Board) yw'r sefydliad annibynnol sy'n gyfrifol am ddarparu'r mesur swyddogol o gynulleidfaoedd teledu'r DU.

**Cost fesul awr defnyddiwr**
Mae *cost fesul awr defnyddiwr* neu gost fesul awr gwrandäwr yn cyfuno gwariant a defnydd o'r gwasanaeth er mwyn helpu i lywio asesiad o werth am arian.

**Cyfran**
*Cyfran* o gyfanswm y gwylwyr neu'r gwrandawyr sy'n gwylio neu'n gwrando ar raglen neu wasanaeth penodol dros gyfnod penodol o amser, wedi ei mynegi fel canran o gyfanswm yr oriau gwylio/gwrando.

**Cynghorau Cynulleidfa**
Cyrff ymgynghorol i Ymddiriedolaeth y BBC, sef corff llywodraethu'r BBC, yw *Cynghorau Cynulleidfa'r* BBC. Ceir pedwar Cyngor Cynulleidfa – ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

**Cyrhaeddiad**
*Cyrhaeddiad* ar deledu yw nifer neu ganran grŵp cynulleidfa sy'n gwylio rhaglen neu sianel (15 munud yn olynol bob wythnos yw mesur arferol y BBC, o gymharu â thair munud ar deledu masnachol); ac ar y radio dyma nifer neu ganran y bobl 15+ oed sy'n gwrando ar o leiaf bum munud o radio mewn cyfnod o 15 munud yn ystod wythnos arferol.

**Defnyddwyr unigryw/porwyr**
Mae *defnyddwyr unigryw* neu borwyr unigryw yn ffordd o fesur defnyddwyr gwefannau. Nid yw'n arolwg traddodiadol o 'bobl', ond fe'i mesurir yn awtomatig gan ddefnyddio naill ai logiau gweinyddion neu drwy dag a ymgorfforir yn y tudalennau gwe.

**Economi greadigol**
Mae *economi greadigol* y DU yn cynnwys y sefydliadau a'r bobl sy'n gweithio yn y diwydiannau dylunio a'r cyfryngau, gan gynnwys cwmnïau cynhyrchu annibynnol, actorion ac awduron.

**Effaith**
Mae *effaith* yn dangos pa mor gofiadwy yw rhaglen neu wasanaeth neu faint y mae'n cael ei ganmol, a gellir ei mesur yn ôl sawl gwobr a enillir gan wasanaeth, neu'r sylwadau (cadarnhaol a negyddol) a geir yn y wasg.

**HDTV**
Mae *HDTV* – neu deledu manylder uwch – ar gael naill ai drwy flwch pen set neu deledu digidol integredig, ac mae'n rhoi darluniau eglur iawn o ansawdd gwell i wylwyr.

**Mynegai Gwerthfawrogiad neu AI**
*Mynegai Gwerthfawrogiad neu AI* yw cyfanswm faint y nododd pobl eu bod yn mwynhau rhaglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100.

**Oriau brig**
Mae *oriau brig* gwasanaethau teledu'r BBC rhwng 6pm a 10.30pm. Mae radio'n wahanol iawn, ac fel arfer diffinnir oriau brig ar gyfer radio fel amser brecwast ac oriau cymudo.

**PSB**
Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus y DU (*PSBs*) yw'r BBC, ITV, Channel 4, Channel 5 ac S4C.

**RAJAR**
*RAJAR* (Radio Joint Audience Research) yw'r corff swyddogol sy'n gyfrifol am fesur cynulleidfaoedd radio yn y DU. Mae'r BBC a'r RadioCentre yn berchen arno ar y cyd ar ran y sector masnachol.

**Rhaglenni a gaffaelir**
Caiff *rhaglenni a gaffaelir* eu prynu ar ffurf orffenedig gan gyflenwr arall.

**Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf (DQF)**
*Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf* yw rhaglen arbedion effeithlonrwydd bresennol y BBC. Fe'i lansiwyd yn 2011 yn dilyn cytundeb ffi'r drwydded â'r Llywodraeth yn 2010, a rewodd lefel ffi'r drwydded tan 2017.

**WoCC**
Mae'r Ffenestr Cystadleuaeth Greadigol (*WoCC*) yn sicrhau bod 25% o oriau teledu cymwys a 10% o oriau radio cymwys yn destun cystadleuaeth rydd rhwng timau cynhyrchu mewnol y BBC a chynhyrchwyr allanol. Mae WoCCs yn ychwanegol at leiafsymiau Ofcom a lleiafsymiau gwirfoddol sy'n bodoli eisoes.

Os ydych am gael rhagor o wybodaeth neu os hoffech wybod mwy am sut y caiff y BBC ei redeg, ewch i bbc.co.uk/aboutthebbc

# Mynegai


| Mynegai pwnc | Trosolwg | Rhan Un | Rhan Dau |
|---|---|---|---|
| Achosion o fwlio ac aflonyddu | | | 118 |
| Adolygiad o'r Siarter | | 11-15 | 70 |
| Adroddiad y Pwyllgor Archwilio | | | 148 |
| Amcanion strategol – cynnwys nodedig, o'r radd flaenaf | | 20, 22-28 | |
| Amcanion strategol – trawsnewid yr hyn a gynigir i gynulleidfaoedd ifancach | | 20, 25 | |
| Amcanion strategol – datblygu BBC mwy personol | | 21,19 | |
| Amcanion strategol – gwerth am arian | | 21, 31-34 | |
| Amser a dreuliwyd gyda phob gwasanaeth | | 22-28 | 77, 79-80, 82, 86 |
| Arbedion effeithlonrwydd | 04 | 31-34 | 110 |
| BBC Studios | | 41 | 69 |
| BBC Studios and Post Production | | 41 | 107 |
| BBC Worldwide | | 43 | 105 |
| Bod yn ddiduedd – canfyddiad y cyhoedd o ddarparwyr newyddion | | 29 | |
| Costau talent | | 34 | 117-8 |
| Cwynion | | 29 | |
| Cydnabyddiaeth – Bwrdd Gweithredol y BBC | | | 144-5 |
| Cydnabyddiaeth – Uwch reolwyr y BBC | | | 116 |
| Cydnabyddiaeth – Ymddiriedolaeth y BBC | | 50-51 | |
| Cydraddoldeb ac amrywiaeth | | 22-28, 35-39 | 119 |
| Cyfarwyddwyr gweithredol | | | 132-3 |
| Cynaliadwyedd amgylcheddol | | | 130 |
| Cyrhaeddiad fesul gwasanaeth | | 22-28 | 77, 79-80, 82, 86 |
| Datganiad ynghylch hyfywedd | | | 160 |
| Dibenion cyhoeddus | 02 | 18-19 | |
| Economi greadigol | 04 | | |
| Elusennau | | | 128 |
| Ffi'r drwydded – incwm a gwariant | | 31-34 | 104, 108 |
| Global News | | 43 | 106 |
| Gwariant ar gynnwys fesul gwasanaeth | | | 77, 79-80, 82, 86 |
| Gwariant fesul gwasanaeth | | | 101 |
| Gwariant yr Ymddiriedolaeth | | 51 | |
| Hawliau dynol | | | 119 |
| Masnachu'n deg | | 40 | 157 |
| myBBC | | 21 | 72 |
| Perfformiad gwasanaethau | | 22-28 | 77, 79-80, 82, 86 |
| Risgiau a chyfleoedd | | | 153 |
| Safonau golygyddol | | 29-30 | |
| Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf | 04 | 08, 21, 31-34 | 100 |
| Staff – nifer, lleoliad ac amrywiaeth | | 51 | 116 |
| Strategaeth fasnachol | | 43 | 105 |
| Swyddfa Archwilio Genedlaethol | | 31-34 | 100 |
| Tâl diswyddo | | | 116-7 |
| Y gwledydd a'r rhanbarthau | | 18-19, 35-39 | 89 |
| Ymddiriedaeth y cyhoedd yn y BBC | | 11-15, 18-19, 27 | |
| Ymddiriedolwyr | | 46 | |

# Cysylltiadau

## Cysylltu â ni

Os oes gennych sylwadau, canmoliaeth neu gŵyn am raglenni a gwasanaethau'r BBC, cysylltwch ar: bbc.co.uk/feedback neu ysgrifennwch at:

BBC Audience services, PO Box 1922, Darlington DL3 0UR

Rhif ffôn ar gyfer sylwadau: 03700 100 222
Rhif ffôn ar gyfer ymholiadau eraill: 03700 100 123
Ffôn testun: 03700 100 212

## Ymddiriedolaeth y BBC

1st floor, 180 Great Portland Street, London W1W 5QZ

E-bost: trust.enquiries@bbc.co.uk
Gwefan: bbc.co.uk/bbctrust
Llinell wybodaeth y BBC 03700 103 100
Ffôn testun: 03700 100 212

## Rhagor o wybodaeth

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am berfformiad blwyddyn lawn y BBC hyd at fis Mawrth 2016 – yn cynnwys datganiadau ariannol llawn a pherfformiad pob gwasanaeth yn erbyn ei gwotâu a'i dargedau, yn ogystal ag ymrwymiadau cyhoeddus eraill, ewch i: bbc.co.uk/annualreport. Caiff yr Adroddiad Blynyddol ei gyhoeddi yn Saesneg hefyd. Mae PDF hygyrch ar gael ar-lein.


**Credydau hawlfraint**

**Tudalen 01**
Llwyfan Asian Network yn London Mela 2015 – BBC/Tricia Yourkevich

**Tudalen 02**
Stiwdio BBC Newyddion ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol – y BBC/Jeff Overs; Plant ysgol ar daith o'r Ganolfan Ddarlledu – BBC Shows & Tours; Prom Deg Darn 2015 – y BBC/Guy Levy; The Big Sing/BBC Music Day – y BBC/Matt Squire; Merched gyda radio DAB – BBC Media Action; Codio gyda micro:bit y BBC – y BBC

**Tudalen 03**
Great British Bake-Off – y BBC/Love Productions/ Mark Bourdillon; Canolfan Ddarlledu'r BBC – y BBC/Phil Coomes; Oriel Stiwdio E BBC Newyddion – y BBC/Jeff Overs; Adele gyda Graham Norton – y BBC/Guy Levy

**Tudalen 05**
Sherlock – y BBC a Hartswood Films/Robert Viglasky; Strictly Come Dancing – y BBC/Guy Levy

**Tudalen 09**
Rona Fairhead – Getty Images/Ben Pruchnie

**Tudalennau 12-14**
Seminarau Adolygiad o'r Siarter Ymddiriedolaeth y BBC – Ymddiriedolaeth y BBC/Sion Brynach

**Tudalen 19**
Nicola Sturgeon – y BBC/Jeff Overs
Doctor Foster – y BBC/Phil Fisk

**Tudalen 22**
Undercover – y BBC/Sally Mais

**Tudalen 24**
The Night Manager – y BBC a The Ink Factory/ Des Willie

**Tudalennau 26-27**
Digwyddiad gwrando byw Radio 4 – y BBC/Pete Dadds
Cyfrif Twitter BBC Breakfast – y BBC

**Tudalen 28**
BBC Hausa – y BBC/Henry Iddon

**Tudalennau 30-31**
Yr ystafell newyddion – y BBC/Jeff Overs
Taith gynulleidfa – BBC Shows & Tours
BBC Media Village – y BBC

**Tudalen 33**
BBC North – y BBC
Oriel World Service – y BBC/Jeff Overs

**Tudalen 35**
Cyngor Cynulleidfa Lloegr – y BBC/David Oates

**Tudalen 37**
Line of Duty – y BBC a World Productions/ Steffan Hill/Mike Gascon
The Story of Scottish Art – BBC Scotland

**Tudalen 39**
Huw Stephens – y BBC/Betina Skovbro

**Tudalennau 42-43**
Kermode & Mayo – y BBC/Rumeana Jahangir
BBC World News – y BBC

**Tudalennau 46-47**
Lluniau o'r Ymddiriedolwyr – y BBC/Mike Abrahams

**Tudalen 56**
Strictly Come Dancing – y BBC/Guy Levy

**Tudalen 58**
Yr Athro Stephen Hawking – y BBC/Richard Ansett; Car Share – y BBC/Matt Squire

**Tudalennau 60-61**
The Night Manager – y BBC/The Ink Factory/Mitch Jenkins; 500 WORDS – y BBC/Guy Levy; Deg Darn – y BBC/Chris Christodoulou; Tymor y Proms – Sarah Robertson; World Service – y BBC/Henry Iddon; Great British Bake-Off – y BBC/Love Productions/ Mark Bourdillon; Chwaraeon – y BBC/Steve Wyatt; Cerddoriaeth – y BBC/Guy Levy; Sherlock – y BBC/Hartswood Films

**Tudalennau 62-63**
Stick Man – y BBC/Magic Light Productions; Strictly Come Dancing – y BBC/Guy Levy

**Tudalennau 64-65**
BBC Radio 6 – y BBC/Andrew Hayes-Watkins; Britain's Forgotten Slave Owners – y BBC/Ben Crichton; The A Word – y BBC/Fifty Fathoms/Joe Hughes

**Tudalennau 66-70, 132-134 a 148**
Y Bwrdd Gweithredol – y BBC/Andrew Hayes-Watkins

**Tudalen 71**
BBC Music Day – y BBC/Mark Waugh

**Tudalen 72**
Mrs Brown's Boys – y BBC/Alan Peebles; World's Worst Place to be Disabled? – y BBC/markthree media

**Tudalen 76**
The Real Marigold Hotel – y BBC/Two Four/ Vinod Singh

**Tudalen 81**
This World – y BBC/Quicksilver Media/Mongoose Pictures/Dan Edge

**Tudalen 102**
Jazz Now – y BBC/Jude Edington; Silent Witness – y BBC/Todd Antony

**Tudalen 103**
And Then There Were None – Mammoth Screen/ Robert Viglasky

**Tudalen 105**
Dancing with the Stars – 2015 American Broadcasting Companies, Inc. Cedwir pob hawl

**Tudalen 106**
The Hunt – Silverback Films/Jason Roberts

**Tudalen 112**
Dickensian – Red Planet Productions/Todd Antony

**Tudalennau 126-127**
Stargazing Live – y BBC/S.Corvaja- ESA; Save the Rhino – Flick Taylor; Nepal – BBC Media Action

**Tudalennau 128-129**
Weekend Wogan – y BBC/Andy Sheppard; Sport Relief – Gary Moyes; Age UK – y BBC/ Ian Tuttle

**Tudalen 157**
Countryfile – y BBC/Oliver Edwards

**Tudalen 158**
Have I Got News For You – y BBC/Hat Trick/Richard Kendall; Line of Duty – y BBC/World Productions/ Steffan Hill

**Delweddau'r tudalennau rhannu**

**Clawr blaen**
The Great British Bake Off – y BBC/Love Productions/ Mark Bourdillon

**Tu mewn y clawr blaen**
Attenborough and the Giant Dinosaur – y BBC/William Hicklin

**Clawr Rhan Un**
Gŵyl BBC 6 Music 2016 – y BBC/Guy Levy

**Tudalen 11**
Meicroffonau – y BBC/Jeff Overs

**Tudalennau 16-17**
Y Ganolfan Ddarlledu – y BBC/Jeff Overs

**Tudalennau 44-45**
Y Ganolfan Ddarlledu Newydd – y BBC/Jeff Overs

**Tudalennau 54-55**
War and Peace – y BBC/Laurie Sparham

**Tudalen 59**
Stiwdio CBBC – y BBC/Joseph Scanlon

**Tudalen 75**
Happy Valley – y BBC/Red Productions/Ben Blackall

**Tudalen 99**
Attenborough at 90 – y BBC/Sarah Dunn

**Tudalen 115**
Luther – y BBC/Steffan Hill

**Tudalen 131**
The Night Manager – y BBC/The Ink Factory/ Des Willie

British Broadcasting Corporation
Broadcasting House
London W1A 1AA

bbc.co.uk

(h) BBC 2016

